CANCELLED

W. E. Gladstone

St. Deiniol's Library
Hawarden Clwyd
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

CANCELLED

ST. DEIN

75017a

B49
107

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

Yr

Efengyl yn ol S. Joan

Penodau 1—12

✠

CANCELLED
ST. DINIOLS
HAWARDEN
LIBRARY

Esboniad

Gan y

Parch. D. J. Jones, B.A.

(Gynt Exhibitioner o Goleg yr Iesu, Rhydychen)
Arholydd Ysgolion Esgobaeth Bangor.

✠

LAMPETER:
Argraffwyd gan Gwmni Y Wasg Eglwysig Cyf.
1911.

Y RHAGYMADRODD.

Ar gais Pwyllgor Undebol Ysgolion Sul Cymreig yr Eglwys, ymgymerais â'r gorchwyl anhawdd o ddarparu llawlyfr ar y rhan gyntaf o'r Efengyl yn ol S. Ioan Y mae 'r Efengyl hon wedi bod yn faes llafur esbonwyr galluocaf y byd er ys amser bellach, ac nid gwaith rhwydd ydyw dethol yr ychydig sydd angenrheidiol allan o'u gweithiau. Y mae fy nyled yn fawr iddynt oll, ond yn enwedig i'r diweddar Esgob Lightfoot, y diweddar Esgob Westcott a'r Dr. Sanday o Rydychen.

Hyderaf y bydd y gyfrol fechan hon o ryw gynorthwy i ddisgyblion ac athrawon ein Hysgolion Sul.

Dymunaf gyflwyno fy niolchgarwch gwresocaf i'r Parch. R. H. Richards, M.A., Llanbedr, am ei awgrymiadau gwerthfawr yn ystod cyfansoddiad y llyfr, a hefyd am gywiro'r prawf-lenni.

D. J. JONES.

Tachwedd 4ydd, 1911.

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/efencylsioan0000park

RHAGARWEINIAD.

DILYSRWYDD YR EFENGYL.

Y mae llawer o amheuaeth wedi bodoli ynghylch y pwnc uchod mewn amseroedd hen a diweddar. Yn fore iawn gwrthodwyd yr Efengyl gan rai oherwydd ei bod mor wahanol o ran ei harddull a'i chynwys i'r Efengylau ereill. Ymhlith y rhai a'i gwrthodent yr oedd gwr enwog o'r enw Marcion. Nid oes sail dros gredu ei fod ef wedi ei gwrthod oherwydd ei harddull, ond am na fedrai gysoni yr athrawiaethau a ddysgir ynddi parthed person Crist â'i ddaliadau Gnosticaidd ef ei hun. Ymddengys fod yna sect o Gristionogion wrth-Gnosticaidd a elwid yr "Alogi," y rhai a'i gwrthodent hefyd. Oherwydd defnyddio o'r awdwr rai termau a ddefnyddiai'r hereticiaid Gnosticaidd credai'r blaid hon mai nid Efengyl ddilys mo'r llyfr hwn o gwbl, ond llawlyfr a ysgrifenwyd gan ryw awdwr Gnosticaidd er rhoddi cyhoeddusrwydd ac awdurdod i ddaliadau'r blaid honno. Ond, fel y danghosir yn y nodiadau rhagarweiniol ar y Rhaglith (I. 1—18), nid yw y ffaith fod awduron yn defnyddio'r un geiriau'n ddigon i brofi eu bod yn coleddu yr un athrawiaeth. Ceir y geiriau "Gair" *(Logos)* a "cyflawnder" *(Pleroma)* yn yr Efengyl, ond yr oedd yr Efengylwr yn synied am danynt yn wahanol i'r Gnosticiaid. Nid oes dim son yn yr Efengyl am "is-dduwiau" na "chyferbyniad rhwng Duw a mater," tra y gwyddom mai yr athrawiaethau hyn oedd colofnau y gredo Gnosticaidd. Ond rywfodd neu gilydd, ym marn rhai awduron yn ogystal a Christionogion mwy dinod, y mae gwahaniaeth bychan a thebygolrwydd bychan o fwy o bwys na gwahaniaeth cyson a thebygolrwydd parhaus. Am hynny credai rhai o'r Cristionogion boreuol na ysgrifenwyd mo'r Efengyl gan un o ganlynwyr uniongyrchol yr Iesu, ond gan Cerinthus, gwr galluog o ddaliadau Gnosticaidd. Y mae rhai ysgrifenwyr yn ffurfio eu barn yn gyntaf, ac yna yn prysuro i holi'r tystion ar y pwnc, ac ni waeth pa mor gadarn na pha mor gyson y dystiolaeth, nis gellir siglo eu daliadau cyntaf. Ond nid barn deg a chyfiawn mo honi o gwbl, ond

damcaniaeth neu fympwy, nad oes iddi fawr o sail ond tueddiad meddyliol yr hwn a'i ffurfia. Gwrthddadl fawr arall a ddygwyd ac a ddygir yn erbyn yr Efengyl ydyw na sonnir am dani gan y Tadau boreuol, ond nid yw yr wrth-ddadl yn fawr mwy na haeriad fel y danghoswyd gan y diweddar Esgob Lightfoot yn ei lythyrau galluog yn erbyn daliadau awdwr y llyfr arddunol ond cyfeiliornus hwnnw 'Supernatural Religion,' a hefyd mewn amryw o'i ysgrifeniadau ereill. Ond hyd yn oed pe na sonnid am yr Efengyl o gwbl gan y Tadau nid yw hynny yn ddigon i brofi na wyddent am dani ac na dderbynnid hi gan yr Eglwys Gristionogol foreuol fel un o gynyrchion yr oes apostolaidd ac fel hanes (gwirioneddol ond rhannol) bywyd daearol ein Harglwydd. Y mae sail ddigonol dros gredu mai amcan pennaf y rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr boreuol oedd torri i lawr gyfeiliornadau,—pa un a broffesent mewn cynifer o eiriau fod yn geidwaid y ffydd ai peidio. Felly ni ddywedant fawr am Efengyl S. Ioan oherwydd, yn eu dyddiau hwy, nad oedd fawr amheuaeth yn ei chylch. Ond erbyn tua diwedd yr ail ganrif, pan oedd y grefydd Gristionogol yn dechreu ennill tipyn o gadernid a sefydlogrwydd, cawn ysgrifenwyr Cristionogol yn ysgrifenu ar bynciau nad oedd cymaint o amheuaeth yn eu cylch. Adroddant pa beth bynnag a ymddangosai iddynt hwy fel o ddyddordeb yn hanes yr Eglwys. O ganlyniad, o'r adeg hono (oddeutu 170 o.c.) ymlaen, cawn gyfeiriadau mynych at y bedwaredd Efengyl. Ni wnawn ond rhoddi rhestr o'r prif awdurdodau yn unig. Ysgrifennodd gwr o'r enw Tatian lyfr a elwid y Diatessaron, neu gysondeb y Pedair Efengyl. Ceir cyfeiriadau at yr Efengyl yn y llythyr at eglwysi Vienne a Lyons (170 o.c.), yn y "Muratorian Fragment," a gydnabyddir fel un o'r awdurdodau pennaf ar bwnc dyrus "canon" y Testament Newydd, yn Homiliau "Clement," yn ngweithiau Theophilus o Antiochia (yr hwn sydd yn crybwyll yn bendant mai S. Ioan oedd yr awdwr), ac yn ngweithiau Clement o Alexandria, Tertullian, Athenagoras, ac Irenaeus. Yr olaf ydyw y mwyaf pwysig o'r holl awdurdodau hyn, oherwydd ei fod yn ddisgybl i'r enwog Polycarp, yr hwn oedd yn cydoesi â S. Ioan ac yn gyfaill iddo. Y mae Irenaeus trwy gydol ei weithiau yn cymeryd yn ganiatael fod yna bedwaredd Efengyl, ac mai S. Ioan oedd ei hawdwr. O'r adeg hon, tua diwedd yr ail ganrif, ymlaen, y mae yr Eglwys Grist-

ionogol fel y cyfryw wedi cydnabod yr Efengyl fel un o gynyrchion dilys yr oes apostolaidd. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwnaed ymdrech gan wr dysgedig o'r enw Baur a'i luaws canlynwyr, i brofi nad oedd yr Efengyl hon ond ffug-efengyl a gyfansoddwyd gan rhyw Gristion Groegaidd yn yr ail ganrif (o.c. 160—170), ond y mae ymchwiliad manylach esbonwyr diweddar wedi gwrthbrofi eu holl haeriadau. Y mae uwchfeirniaid ereill llai eithafol na Baur a'i ganlynwyr wedi ceisio profi mai rhyw Ioan yr "henuriad" a gyfansoddodd yr Efengyl, ond y mae yn anhawdd iawn profi bodolaeth y cyfryw "henuriad," heblaw sôn am gael tystiolaeth anwadadwy ei fod yn awdwr.

PWY OEDD YR AWDWR?

Fel y danghoswyd eisoes, y mae'r Eglwys Gristionogol wedi parhau i gredu er gwaethaf gwrthddadleuon esbonwyr unigol, mai S. Ioan yr Apostol a'r "disgybl anwyl" a ysgrifennodd y bedwaredd Efengyl, a chredwn y bydd yn llawer gwell gan y darllennydd cyffredin glywed pa sail sydd i'r grediniaeth gyffredinol hon yn hytrach na threulio ei amser i weled pa mor ddisail ydyw llawer o'r tybiaethau gwrthwynebol. Yr ydym eisoes wedi sôn yn fyr am dystiolaeth y Tadau Cristionogol; yn awr ceisiwn weled beth a ddywed yr Efengyl ei hun ar bwnc ei hawduraeth. Ac mewn cysylltiad â'r dystiolaeth dufewnol hon, gall pob darllennydd farnu drosto ei hun; nid oes angen am iddo chwilio hanner llyfrgell cyn y gall gael gafael ar sail gadarn a sefydlog.

(*a*). Y mae yn amlwg oddiwrth y llyfr ei hun fod yr awdwr, pwy bynag ydoedd, yn Iddew. Y mae yn gwybod am holl arferion cenedlaethol yr Iddewon, ac yn dra hyddysg yn eu rhagfarnau lleol a chenedlaethol. (Gwel iv. 27: ix. 2; vii. 35; vii. 49, &c). Yn y nodiadau ar nodweddion yr awdwr, y mae ei gyfansoddiad drwyddo draw yn Hebreig o ran ei ffurf a'i arddull. Yr oedd yn hollol gyfarwyddd hefyd â dyheadau a gobeithion cenedl yr Iddewon, gobeithion oedd oll i gael eu sylweddoli yn nyfodiad y Messiah. (Gwel i. 21; v. 25; vi. 14, &c.; vii. 40, &c.; vii. 34, &c.). Gwyddai hefyd yn dda am holl seremoniau a gŵyliau yr Iddewon (Gwel vii. 37 38; viii. 12; vii. 22, &c.). Y mae ei wybodaeth hyddysg o ysgrythyrau'r Hen Destament yn brawf

pellach ei fod yn hannu o'r genedl etholedig. Honnir gan rai beirniaid y medrai unrhyw Roegwr ymchwilgar ddyfod i feddiant o'r wybodaeth uchod. Diameu y gallasai lwyddo i raddau helaeth oni bai am y ffaith fod Jerusalem wedi cael ei dinystrio gan y Rhufeiniaid yn o.c. 70. Cydnabyddir gan bob esboniwr o fri nas gallasai yr Efengyl hon fod wedi cael ei hysgrifennu cyn i'r trychineb hwnnw ddigwydd. Rhoddwyd dyrnod farwol i'r grefydd genedlaethol fel sefydliad lleol pan ddinystriwyd y deml, ac y mae yn anhawdd iawn gennym gredu y gallasai unrhyw Roegwr o'r ail ganrif roddi darluniad mor fyw o'r hyn a gymerai le o fewn ei muriau.

(*b.*) Yr oedd yr awdwr yn Iddew o wlad Palestina. Y mae llawer o'r hyn a ddywedwyd uchod yn myned ymhell i brofi y gosodiad hwn eto. Nis gallai Iddewon y "Gwasgariad" feddu y wybodaeth fanwl a fedd yr awdwr am gyflwr y wlad mewn ystyr grefyddol a meddyliol. Yr oedd yr Iddewon a wasgarwyd wedi colli eu hiaith er's oesau, a diameu fod llawer o'u harferion cynhennid wedi diflannu gyda hi. Ychydig a wyddent hwy, oedd yn cymysgu â'r byd mawr prysur oddi allan, am yr ymbleidio parhaus oedd yn cymeryd lle o fewn cylch cyfyng Iddewiaeth Palestina. Y mae ei ddesgrifiad manwl o safle dinasoedd yn brawf digonol hefyd mai nid gwybodaeth ail-law oedd ganddo. (Gwel xi. 18; ii. i.; iv. 5; iii. 23; xi. 54, &c.). Meddai wybodaeth drylwyr o bob rhan o ddinas Jerusalem, a chan iddi gael ei dinystrio cyn i'r llyfr gael ei ysgrifennu (Gwel uchod) (*a*), rhaid ei fod yn gyfarwydd â hi cyn hynny (Gwel v. 2; ix. 7; x. 23). Y mae y dyfyniadau o'r Hen Destament a geir yn yr Efengyl yn profi fod yr awdwr yn gyfarwydd â'r Ysgrythyrau hynny yn yr iaith Hebraeg ac nid yn nghyfieithiad Groeg y LXX, yr hwn oedd yr unig un a ddeallai Iddewon o'r tu allan i wlad Palestina.

(*c.*) Yr oedd yr awdwr yn llygad-dyst o'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau a ddesgrifia. Nis gallai neb ond llygad-dyst wneud i'r gwahanol gymeriadau am ba rai y sonia ymddangos mor fyw o flaen llygaid y darllennydd. Yn sicr ddigon nid oes dim yn holl lenyddiaeth yr ail ganrif a ddeil ei gymharu â'r darluniau a dynnir gan awdwr yr Efengyl hon. Os sonnir am unrhyw gymeriad fwy nag unwaith, y mae cydgordiad perffaith rhwng ei ymddygiad ar wahanol achlysuron. Pe ffugiaeth fuasai yr Efengyl credwn y buasai ei hawdwr

wedi gorwneud y desgrifiad o'r teulu yn Bethania adeg adgyfodiad Lazarus. Sonia hefyd yn fynych am dymhorau'r flwyddyn, ac am "ddyddiau" nodedig, ac y mae yn hoff o roddi amcan-gyfrif o'r nifer o bersonau oedd yn bresenol, pan nad oes unrhyw reswm neilltuol dros wneud hyny. Os am brofion pellach ei fod wedi gweled yr hyn a ddesgrifia, darllener hanes glanhau y deml (ii. 14—16); porthi y pum mil (vi. 5—14); a iachau y dyn dall o'i enedigaeth (ix. 6, 7).

(d). Rhaid fod yr awdwr, os oedd yn llygad-dyst, hefyd yn un o'r deuddeg, oherwydd gŵyr am holl gyfrin-feddyliau y disgyblion ac y mae yn priodoli iddynt syniadau mor anirnadwy fel nas gallwn gredu y medrai y dychymyg mwyaf cynyrchiol fyth eu ffugio (Gwel ii. 17, iv. 27, vi. 19, 60, &c.) Y mae yn ail-adrodd y geiriau a ddefnyddiwyd gan yr Iesu pan yn ymddiddan â'r disgyblion wrthynt eu hunain (Gwel iv. 31, 33; ix. 2, &c. Yr oedd hefyd yn gwybod hanes yr Iesu a'i ddisgyblion pan gilient o'r cyhoedd (Gwel xi. 54, &c.)

(*e*). Ai nid S. Ioan oedd yr Apostol hwn? Y mae'r awdwr yn hynod gyfarwydd â'r Iesu Ei Hun. Gŵyr beth oedd yn rhedeg trwy feddwl ei Arglwydd ar wahanol adegau (Gwel ii. 24, 25; iv. 1—3; v. 6; vi. 6, &c.), a medr ddesgrifio angerddoldeb Ei deimlad adeg adgyfodiad Lazarus (xi. 33, 35). Yn awr gwyddom oddiwrth yr Efengylau ereill fod yna dri o'r deuddeg oedd wedi cael y fraint o fwynhau cymdeithas agosach â'r Arglwydd na'r lleill, sef SS. Pedr, Iago ac Ioan. Llofruddiwyd S. Iago yn gynnar yn hanes yr Eglwys Gristionogol (Gwel Actau xii. 2), a chredir yn gyffredin i S. Pedr gael ei ddienyddio tuag adeg dinystr Jerusalem. Felly nid oes ond un yn aros, a hwnnw yw S. Ioan. Y mae profion digonol yn yr Efengyl ei hun fod yr Apostol hwn yn bur gyfarwydd â S. Pedr (Gwel xiii. 24; xxi. 7), ac y mae yr Efengylau ereill yn ogystal ag Actau yr Apostolion yn cyfeirio yn neilltuol at y cyfeillgarwch hwn. Dywed yr ol-nodiad o ganlyniad yn bendant mai y disgybl yr oedd "yr Iesu yn ei garu" a ysgrifennodd yr Efengyl (Gwel xxi. 20—24).

PA BRYD YR YSGRIFENWYD YR EFENGYL AC YM MHA LE?

Os S. Ioan ydoedd awdwr yr Efengyl, nid yw mor anhawdd penderfynu pa le yr ysgrifenwyd y llyfr a pha bryd. Dywed traddodiad a dderbynnir yn bur gyffredinol fod yr Apostol hwn wedi treulio blynyddoedd olaf ei oes yn ninas Ephesus, ac y mae gennym dystiolaeth y "Muratorian

Fragment" (o.c. 170) fod yr Efengyl wedi ei chyfansoddi ar gais henuriaid Eglwysi Asia. Cadarnheir hyn gan Clement o Alexandria ychydig yn ddiweddarach, a hefyd gan Jerome. Ac os at S. Ioan y daeth y cais nid oedd angen iddo ef wneud fawr ond casglu'r hen anerchiadau yr ydoedd wedi bod yn eu traddodi am hanner canrif a mwy, a'u gwneyd yn un llyfr. Nid ydyw yn anhawdd gweled fod angen neilltuol yr adeg yma am ail-adroddiad o hanes yr Iesu. Yr oedd yr Eglwys Gristionogol erbyn hyn wedi torri ei chysylltiad yn holl ol âg Iddewiaeth, ac yn gwynebu'r byd mawr Cenhedlig oedd mor wahanol i'r cylch cyfyngedig y meithrinwyd hi ynddo. Yr oedd gobeithion yr Iddewon wedi cael eu chwilfriwio yn ninystr eu dinas sanctaidd, ac yr oedd galw am esboniad eglurach ar natur teyrnas y Messiah. Yr oedd yna hefyd lawer o athroniaeth hanner-Gristionogol oedd yn dylanwadu'n fawr ar feddwl Cristionogol yr oes, ac nid oedd dim meddyginiaeth rhag y drwg hwn ond deffiniad syml o'r ffydd a "roddwyd unwaith i'r saint."

Nis gellir penderfynnu i sicrwydd pa bryd y cyfansoddwyd hi. Yn vii. 39, &c., ymddengys yr awdwr fel pe byddai yn edrych yn ol ar y digwyddiadau a'r ymddiddanion pan wedi cyrraedd gwth o oedran. Y mae diwinyddiaeth yr Efengyl drwyddi hefyd yn brawf fod yr awdwr wedi cael profiad helaeth fel Cristion: y mae treigliad amser wedi datguddio iddo lawer iawn o'r dirgeledigaethau a glywodd gan yr Iesu. Y mae'n bur debyg na fuasai yr Apostol yn gadael gwlad Palestina lawer cyn adeg dinystr Jerusalem, ac y mae yna gryn sail i'r dybiaeth fod yr awdwr wedi cael llawer o brofiad o waith a dylanwad yr Eglwys Gristionogol o'r tu allan i'r wlad honno. Ac os bu yr apostol fyw hyd ddiwedd y ganrif, credwn y medrwn yn ddiogel osod cyfansoddiad yr Efengyl rywbryd yn ystod y deng mlynedd olaf o honi (rhwng 90 a 100 o.c.). Os ysgrifenwyd hi yr adeg yma, yna ni fyddai ond naturiol i'r Efengyl ddyfod yn weddol adnabyddus erbyn o.c. 170, ac nis gallai ennill derbyniad cyffredinol lawer yn gynarach na hynny.

NODWEDDION YR AWDWR.

Wrth hyn y golygwn nid nodweddion ei lyfr, ond ei ddull penodol ef o ysgrifennu.

1. Nid yw yn ofalus i wahaniaethu mewn iaith ac mewn dull rhwng yr hyn y mae efe yn ei adrodd fel hanesydd, a

geiriau ac ymddiddanion y personau a enwa, y rhai a ymddanghosant fel wedi eu cofnodi ganddo air am air. Nis gellir bod yn sicr pa un ai yr Iesu ai ynte yr awdwr sydd yn llefaru mewn mannau.

2. Er fod yr Efengyl wedi ei hysgrifennu yn yr iaith Roeg, teimlir yn fynych nad oes llawer mwy na'r geiriau yn Roegaidd. Ni ymddengys fod yr awdwr yn feistr ar briod-ddulliau (*idioms*) yr iaith honno, ac nid ydyw ychwaith yn hyddysg yn ei chysyllt-eiriau nac yn medru eu defnyddio yn effeithiol; er engraifft, mewn amrywiol fannau, cawn ef yn defnyddio "ac" (kai), tra y defnyddiai bob un a feddai feistrolaeth drwyadl ar yr iaith "ond" (de). Yn yr adnod "Y goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch, *a'r* tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred," buasai bob Groegwr, gyda'i feddwl athronyddol clir, yn ysgrifennu nid "a'r" tywyllwch, eithr "ond" y tywyllwch. Ysgrifenna yr awdwr hwn Roeg yn ol rheolau cyffredinol gramadeg, ac nid yn unol â dullwedd briodol yr iaith. Fel y dywed un esboniwr, y mae yr awdwr yn deall yr iaith Roeg megis y dealla Cymro darllengar o un o siroedd Cymreig ein Tywysogaeth, yr iaith Saesneg.

3. Drachefn defnyddia yr awdwr ddullwedd Hebreig yn fynych i gyfleu ei syniadau; gwna ddefnydd helaeth o'r brawddegau cyfochrog (*parallellisms*) sydd mor nodweddiadol o lenyddiaeth, ac, yn enwedig o farddoniaeth Hebreig. Y mae un frawddeg yn gyferbyniol i'r llall, yn eglurhad arni, neu yn adgyfnerthiad iddi. Y mae y dull hwn yn bur adnabyddus i bob Eglwyswr gan y defnyddir ef mor fynych yn llyfr y Salmau.

Er engraifft:

"Trwyddo Ef y gwnaethpwyd pobpeth,"
"Ac hebddo Ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd."
"Efe a gyffesodd, ac ni wadodd."
"Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef,"
"Ond caffael o hono fywyd tragwyddol."

Y mae yn hoff iawn felly o ail-adrodd yn nacaol yr hyn y mae wedi ei ddywedyd eisoes mewn ffurf gadarnhaol.

4. Nodwedd arall o'i eiddo sydd yn profi nad oedd yn feistr ar yr iaith ydyw ei brinder geiriau, a'r defnydd bychan a wna o ragenwau. Nid yw yn alluog i roddi gair arall o'r un ystyr (*synonym*), rhaid iddo ddefnyddio yr un gair yn fynych rai degau o weithiau yn yr un bennod. Wrth reswm

nid yw hynny o angenrheidrwydd yn gwneud ei iaith yn aneffeithiol; yn fynych mae ail-adroddiad o'r un gair yn ychwanegu at'rym a gogoniant yr ymadrodd, a diameu fod y cyfryw ail-adroddiad yn fwriadol weithiau.

Ond mewn mannau ereill, ymddengys nad oes yr un rheswm am y defnydd mynych a wneir o'r un gair ond diffyg gwybodaeth o eiriau ereill o gyffelyb feddwl ac ystyr.

5. Ym mhellach, y mae yn anwybyddu ymron yn hollol y dull anuniongyrchol a fabwysiedir mor fynych gan ysgrifenwyr pan yn cofnodi ymadroddion a ddefnyddir gan y personau am ba rai y soniant. Pan y bydd yr awdwr hwn eisieu adrodd y cyfryw ddywediadau gesyd hwynt yn ngenau y personau a gwna iddynt hwy siarad. Er engraifft, rhydd yr awdwr dystiolaeth Ioan pan anfonodd yr Iddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid ato i ofyn iddo, "Pwy wyt ti?" nid "pwy oedd efe."

EFENGYL S. IOAN A'R HEN DESTAMENT.

Dengys yr awdwr yn amlwg ei fod yn credu fod y byd o'r tu allan i'r cylch Iddewig wedi bod o dan gwrs o baratoad ar gyfer dyfodiad y Crist. Sonia am y Goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch "a'r tywyllwch heb fod yn ei amgyffred," ac am y Goleuni "sydd yn goleuo pob dyn ar y sydd yn dyfod i'r byd." Yr oedd gan y Bugail Da hefyd "ddefaid ereill" y rhai nid oeddent o'r "gorlan" Iddewig. Profir gan yr awdwr hefyd fod yr Iddewon, er yn genedl etholedig i'r hon yr addawyd y Messiah mewn modd neilltuol, wedi camgymeryd meddwl ac ystyr y datguddiad a roddwyd iddynt. Yr oeddent wedi colli golwg er's amser ar wir natur y Duw y proffesent Ei addoli gyda'r fath ddyledus barch, ac nid oeddent wedi gweled yn eu hanes fel cenedl drefn Rhagluniaeth Duw yn cynnyg eu gwneyd yn offerynau neilltuol er goleuo'r byd. Ond er ei fod yn ymwybodol felly fod cylch eangach i waith a dylanwad y Messiah na'r byd Iddewig, a'i fod yn cydnabod gyda'r rhwyddineb mwyaf fod y genedl wedi camddefnyddio ei rhagorfreintiau eithriadol, eto nid yw am foment yn ameu fod yr hen ysgrifeniadau hyn—Ysgrythyrau yr Hen Destament—wedi eu britho gan gyfeiriadau at Grist. O ganlyniad cawn ef yn y rhaglith yn siarad am Grist wedi dod at yr "eiddo Ei Hun"; deiliaid i'r Messiah addawedig oedd yr Iddewon i fod, a chofnodir gan yr awdwr, fel rhywbeth i ryfeddu ato, fod Ei bobl Ef Ei Hun

wedi troi yn anheyrngarol. Sonnir eto am yr Iesu, pan ddygwyd y gwr eithriadol hwnnw Nathanael ato, yn ei gyfarch fel "Israeliad" yn wir. Yn Jerusalem ar yr ŵyl sieryd yr Iesu am deml yr Iddewon fel tŷ Ei Dad, ac yn ystod Ei ymddiddan â'r wraig o Samaria parthed natur addoliad a dyfodiad y Messiah, dywed yr Iesu fod yr Iddewon yn wahanol i'r Samariaid gan eu bod yn addoli y peth a wyddent, ac ychwanega "iachawdwriaeth sydd o'r Iddewon." Yn v. 39, 46, cawn yr Iesu yn annog Ei wrandawyr i chwilio yr Ysgrythyrau gan eu bod yn tystiolaethu am dano Ef, a hefyd yn eu hysbysu fod Moses, yn yr hwn ni chredent, wedi ysgrifennu am dano Ef.

Eto cyfeirir yn yr Efengyl at dri o wroniaid yr Hen Destament,—Abraham, Moses ac Esaiah, y rhai a ddarlunir gan yr Iesu fel yn rhagweled Ei ddyfodiad Ef ac yn gorfoleddu o'i herwydd. Y mae'r tri hyn yn dystion i'w adgyfodiad, ac yn cynrychioli tri cyfnod yn hanes y genedl, sef cyfnod y patriarchiaid, cyfnod y trawsnewidiad dan ddylanwad Moses, a chyfnod y frenhiniaeth. Gorfoledd oedd gan y tad Abraham weled Ei ddydd Ef; a thystiolaethodd Moses am dano Ef, "Megis y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch felly y mae yn rhaid dyrchafu mab y dyn"; "Eich tadau a fwytasant y manna yn yr anialwch"; ac y mae Esaiah wedi rhagddywedyd y byddai i bawb gael eu dysgu gan Dduw, ond y byddai i lygaid yr Iddewon gael eu dallu, a'u calonau eu caledu, 'fel na welent â'u llygaid na gweled â'u calon," rhag ymchwelyd o honynt, ac i'r Messiah eu hiachau hwynt. Y mae yr Efengyl hefyd wedi ei thryfritho gan brophwydoliaethau o'r Hen Destament y sonnir am danynt fel wedi eu cyflawni trwy ymddanghosiad y Crist. Cofleir am y dywediad hwnnw yn Psalm 82 "y byddent dduwiau" oblegid dyfod o air Duw atynt yn ei ddylanwadau goleuol, tra ar y llaw arall y cyfeirir at waith eu tadau yn cashau Eneiniog yr Arglwydd yn ddiachos megis ag y cashaodd yr Iddewon y Crist pan ymddangosodd.

EFENGYL S. IOAN A'R EFENGYLAU EREILL.

Pe byddai i unrhyw un anghyfarwydd â'r Testament Newydd ddarllen am y waith gyntaf yr Efengylau yn ol S. Mathew, S. Marc, a S. Luc, byddai yn rhwym o ddyfod i'r penderfyniad fod yna ryw debygrwydd anarferol yn bodoli rhyngddynt, a phe edrychai eto yn fwy manwl a gofalus,

efe a ganfyddai eu bod yn cynwys yn sylweddol yr un hanes. Gwir y ceir darnau helaeth yn yr Efengyl gyntaf a'r drydedd na welir mo honynt yn yr ail, eto nid ydyw y darnau hynny o ran eu natur yn gyfryw ag i beri i ni golli golwg ar yr un darlun hwnnw sydd i'w gael ymhob un o'r tair, o ganlyniad yr ydym wedi arfer sôn am yr Efengylau hyn fel yr Efengylau "cydolygol." Pan soniwn felly am Efengyl S. Ioan yn ei pherthynas a'i chysylltiad â'r Efengylau ereill, nid cymharu pedwar hanes ydym ond dau, sef hanes bywyd a dysgeidiaeth ein Harglwydd fel y ceir hwy yn yr Efengylau "cydolygol," ac fel y ceir hwy yn Efengyl S. Ioan. Ymdrechwn weled felly ym mha bethau y mae y ddau yn debyg i'w giiydd, ac ym mha ystyron y maent yn gwahaniaethu, gan gofio nad ydyw yr un o honynt yn proffesu bod yn fywgraffiad cyflawn. Yn wir, nid bywgraffiadau mo honynt o gwbl, ond rhannau o hanes ein Harglwydd a darnau o'i ddysgeidiaeth a gasglwyd ac o ysgrifenwyd er cyrraedd yr amcan neilltuol oedd gan yr Efengylwyr mewn golwg. Dymunwn roddi'r pwys mwyaf ar y ffaith hon, gan fod rhai o'n hesbonwyr mwyaf galluog a dysgedig wedi ac yn arddangos dallineb anhygoel pan yn ymdrin â'r pwnc. Siaradant fel pe buasent yn cwbl gredu ei bod yn bosibl rhoddi hanes cyflawn o weithrediadau ein Harglwydd o fewn cylch llyfr mor fychan ag un o'r Efengylau hyn. Wedi rhoddi y cyfarwyddyd pwysig uchod ar ddechreu ein hymchwiliad gadewch i ni weled yn y lle cyntaf a oes yna ryw ddigwyddiadau y sonnir am danynt yn y ddau hanes rhannol hyn. Ni a ddarganfyddwn eu bod yn gyfryw o ran eu nifer fel na fedrwn roddi ond rhestr o honynt yn unig:—

(1) Ioan yn bedyddio.
(2) Porthi y pum mil.
(3) Yr Iesu yn cerdded ar y môr.
(4) Eneinio'r Iesu.
(5) Yr Iesu yn marchogaeth i Jerusalem.
(6) Y Swper olaf.
(7) Bradychiad yr Iesu.
(8) Yr Iesu yn y llysoedd.
(9) Y Croeshoeliad.
(10) Claddu'r Iesu.
(11) Yr Adgyfodiad.

Na fydded i neb wneud y camgymeriad o gredu fod yr adroddiad a roddir o'r digwyddiadau hyn wedi ei "gopïo" gan un oddi wrth y llall; O na, nid rhyw ail-adroddiad peirianyddol a geir yn Efengyl S. Ioan, ond yn hytrach yr un hanesion fel ag y desgrifiwyd hwy gan ysgrifennydd anibynnol. Y mae yna fanylion nodweddiadol yn perthyn i bob un na chaniata gofod i ni sylwi arnynt. Fel y gwelir oddi wrth y rhestr uchod, y mae yna nifer mawr iawn o ddigwyddiadau na chofnodir mo honynt ond gan un yn unig o'r ddau hanes hyn, ond yn hytrach na rhoddi rhestr faith a manwl o'r cyfryw credwn mai gwell fydd i ni nodi ychydig o resymau sydd yn cyfrif am y ffaith fod un neu'r llall o'r Efengylwyr yn gadael allan ddigwyddiadau neilltuol tra yn ofalus iawn i roddi rhai ereill i mewn. Gall y darllennydd yn rhwydd wneud rhestr iddo ei hun os bydd iddo ddilyn y cyfarwyddyd isod.

1. Yn Efengyl S. Ioan nid cofnodiad manwl o'r digwyddiadau a gymerasant le yn ystod bywyd daearol ein Harglwydd a geir o gwbl; yn hytrach, ymddengys yr awdwr fel pe buasai yn edrych ar y bywyd hwnw o'r tu fewn. Yr oedd i fywyd yr Iesu bwysigrwydd neilltuol mewn cysylltiad â holl brofiad ysbrydol y byd. Y bywyd ei hun, Ymgnawdoliad ein Harglwydd Iesu Grist ydoedd y datguddiad a roddwyd i ddynion gan eu Tad nefol. Ac y mae hanes bywyd daearol yr Iesu yn profi pa fath groesaw a roddwyd i'r datguddiad hwnnw, pwy a'i derbyniodd a phwy a'i gwrthododd gyda dirmyg.

2. Y mae yr hanes a roddir gan yr Efengylwyr ereill yn gyfryw fel y gallai un hollol anghyfarwydd â'r amgylchiadau ei ddilyn gyda rhwyddineb, tra y mae awdwr Efengyl S. Ioan yn cymeryd yn ganiataol trwy gydol yr Efengyl fod y darllennydd eisoes yn gyfarwydd â'r prif ddigwyddiadau yn ogystal a'r prif gymeriadau y sonnir am danynt ynddi, ac felly mewn sefyllfa briodol i dderbyn yr eglurhad pellach a rydd efe. Ceir o ganlyniad yn yr Efengyl lawer sydd yn ymddangos yn newydd a dieithr, tra y gadewir allan lawer o'r hyn a adroddir yn yr Efengylau ereill, ond nid ydyw er hynny ond yr un "hen, hen hanes" gyda'r un cymeriadau a'r un diweddglo.

3. Ond er fod y cymeriadau yr un, eto ni ddygir hwy o'n blaen o dan yr un amgylchiadau,—nid yw awyrgylch yr hanes yr un ar lawer adeg. Er engraifft, yn ol Efengyl

S. Ioan, treuliodd yr Iesu lawer o'i amser yn Judea a Jerusalem, tra y buasai unrhyw un nad oedd wedi darllen ond y tair Efengyl gyntaf yn naturiol yn casglu Ei fod wedi treulio ymron yr oll o'i weinidogaeth gyhoeddus yn Galilea, ac nad oedd wedi ymweled â gwlad Judea er pan yn blentyn hyd nes y cymerodd Ei daith olaf i Judea a Jerusalem, yno i farw dros fywyd y byd. Yn y bedwaredd Efengyl, cawn hanes yr Iesu yn talu llawer ymweliad â Jerusalem, ac ynghwrs Ei anerchiadau i'r bobl yno yn gwneud yr haeriadau hynny a barodd i'r archoffeiriaid a'r Phariseaid Ei gashau mor eithafol, a phenderfynu rhoddi terfyn buan ar Ei fywyd. Hefyd gallesid casglu oddiwrth yr Efengylau ereill na pharhaodd gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd ond oddeutu blwyddyn, tra y mae cyfeiriadau mynych awdwr Efengyl S. Ioan at y "gwyliau" yn ein sicrhau ei bod wedi parhau o leiaf am dair blynedd.

4. Yn yr Efengyl hon ceir ymddiddanion hirfaith o eiddo ein Harglwydd, ym mha rai yr eglura i'w ganlynwyr feddwl ac ystyr Ei waith a'i genadwri, ynghyda'i berthynas â'r Tad yr Hwn a'i hanfonodd. Ceir ymddiddanion o eiddo'r Iesu yn yr Efengylau ereill hefyd, ond y maent gan mwyaf o natur ddamhegol, neu ynte yn ddim ond brawddegau byrion llawn o feddyliau cyfrin.

5. Yn Efengyl S. Ioan hefyd gosodir yr Iesu yn y fath sefyllfa fel ag y teimla'r darllennydd ar unwaith fod pob un a ddeuai i gyffyrddiad âg Ef yn dyfod i'r "goleuni" ym mha un y cai Ei sefyllfa ysbrydol ei hegluro. Y mae ymddygiad y cyfryw un tuag at yr Iesu yn rhoddi i ni ar unwaith fesur ei faint.

Yr Efengyl yn ol Sant Joan.

Y RHAGLITH.—ATHRAWIAETH Y "GAIR."

Y mae athrawiaeth y "Gair" a ddysgir mor amlwg yn nechreu neu "raglith" yr Efengyl hon yn cynwys un o'i phrif anhawsterau, ac y mae llawer o ymchwiliadau manwl wedi eu gwneud gan esbonwyr dysgedig a galluog er ceisio ei hegluro. Y mae'r ymchwilwyr hyn gan mwyaf wedi ymdrechu dargan fod atebion boddhaol i'r ddau gwestiwn canlynol:—

(i.) O ba le y cafodd yr Efengylwr yr athrawiaeth?

(ii.) Pa ddefnydd a wna efe ohoni?

(*a*) Y mae'n ddidadl fod y pwnc o "berthynas Duw a dyn" wedi bod yn wrthrych astudiaeth meddylwyr am oesau cyn y cyfnod Cristionogol, a hynny nid yn unig ym mhlith y genedl Iddewig, offeryn penodol y datguddiad dwyfol, ond hefyd ym mhlith dysgedigion Groegaidd. Y mae gennym brofion digonol fod y meddylwyr Iddewig yn ogystal a'r rhai Groegaidd yn ymwybodol mewn modd neillduol fod gagendor mawr rhwng y Duwdod a dynoliaeth, ac yr oedd athroniaeth a chrefydd ar eu goreu i geisio cael o hyd i ryw ddolen gydiol rhwng y ddau. Yn wir nid oedd y syniad yn newydd yn y byd Iddewig; er y dyddiau boreuaf teimlid yr angen am rywbeth i gysylltu'r ddau â'u gilydd. Sonnir yn nechreu llyfr Genesis, pan y gesyd yr awdwr o'n blaen *drama* fawreddog y cread, am y Duwdod yn gweithredu mewn creadigaeth weledig a materol trwy Ei air. "Duw a ddywedodd, ac felly y bu." Ac am ein rhieni cyntaf dywedir eu bod wedi dyfod i gymundeb â Duw trwy "glywed Ei lais Ef." Eglurwyd y "llais" gan esbonwyr neu arall-eirwyr diweddarach (gwaith pa rai a gawn yn y Targumau Iddewig, y rhai sydd ddiweddar o ran amser eu cyfansoddiad, ond nid o ran eu cynwys) fel llais

"Gair" yr Arglwydd, y "*Memra*" a dderbyniodd gymaint o sylw gan feddylwyr Iddewig yn ystod y cyfnod Maccabeaidd. Ond i ddychwelyd at yr ysgrythyr awdurdodedig, sonnir yn barhaus, o'r cyfnod boreu a nodwyd, am "air" yr Arglwydd yn dyfod at batriarchiaid a phrophwydi i'w hysbysu am amcanion Duw. Drachefn cawn y genadwri ddwyfol yn cael ei throsglwyddo mewn ffurf fwy personol fel yr ymddengys, gan "angel" yr Arglwydd, neu angel y Cyfammod. Yn ddiweddarach, pan ddaeth y meddwl Iddewig i gyssylltiad âg athroniaeth gwlad Groeg, cawn gyfeiriadau mynych at y "Ddoethineb" trwy'r hon y sylfaenwyd y ddaear, yr hon oedd "gyda Duw." Ymddengys hefyd y clywid llais y Ddoethineb honno ar adegau gan feibion dynion. Yn yr ysgrifeniadau anawdurdodedig hynny a elwir gennym yn gyffredin yr Apocrypha y mae'r athrawiaeth hon am y Ddoethineb ddwyfol yn cael sylw arbennig. (Ecclus. i. 1—20; xxiv. 1—22. Doethineb Solomon vi. 22; ix. 18.)

Ond y mae'n anhawdd penderfynu pa un a edrychir ar y Gair neu'r Ddoethineb ddwyfol fel person a gyd-fodolai â Duw, neu ynte fel rhyw fath o briodoledd a fodolai ynddo Ef. Yn y cyfeiriadau boreuaf a gawn at y Gair, y mae'n amlwg nad ystyrir ef yn Berson Dwyfol gwahanol, ond yr oedd y meddwl Iddewig, fel y sylwyd, erbyn adeg cyfansoddiad llenyddiaeth ddiweddaraf yr Hen Destament a chyfnod yr Apocrypha wedi dyfod o dan ddylanwadau Groegaidd, ac yr oedd tuedd gref yn y meddwl Groegaidd i bersonoli pob rhinwedd, megis Daioni, Doethineb, &c. Rhyw bersonoliaeth aneglur a niwlog, modd bynnag, ydoedd y cyfryw bob amser.

(*b*) Ond ar wahan i'r Iddewon y cyfeiriwyd atynt fel wedi eu trwytho i ryw raddau â syniadau athronyddol gwlad Groeg, ac eto wedi cadw eu ffurfiau a'u harferion meddyliol cynhennid, yr oedd, erbyn dechreuad y cyfnod Cristionogol, Iddewon ereill wedi eu haddysgu yn ol traddodiadau goreu'r tadau, yn Iddewon o'r Iddewon, a hefyd wedi yfed yr un mor helaeth o ffynhonnau dysgeidiaeth Roegaidd, a hynny i'r fath raddau ag i gynyrchu rhyw feddwl cyfansawdd, hanner Iddewig a hanner Groegaidd. Yr oedd un ran o'u syniadau'n Iddewig a chrefyddol, a'r rhan arall yn ddadansoddiadol

athronyddol, ac yn hwyr neu'n hwyrach yr oeddent yn sicr o ddyfod i ryw fath o gydgordiad â'u gilydd.

Un o'r meddylwyr hanner Iddewig a hanner Groegaidd hyn oedd Philo, gwr o Alexandria, yr hwn oedd ddisgynnydd o hen deulu offeiriadol, ac a anwyd oddeutu 30 c.c. Yr oedd y gwr dysgedig hwn wedi astudio ysgrythyrau'r Hen Destament gyda'r manylder mwyaf, ac ar ol hynny wedi ymroddi 'r un mor egniol i gasglu gwybodaeth o ysgrifeniadau a dywediadau'r athronwyr Groegaidd. Ar ol clywed beth oedd gan awdwyr y Psalmau a llyfr Job a'r Diarhebion i ddweud am berthynas y Duwdod â'r bydysawd aeth ymlaen i chwilio beth oedd gan Pythagoras a Plato i ddywedyd ar yr un pwnc. Ysgrifennodd y Philo hwn lawer, a chan ei fod yntau yn ymgodymu â'r hen gwestiwn, Beth oedd y cyfrwng rhwng Duw a dyn a'r greadigaeth weledig, sonia lawer iawn am swydd a gwaith y "Gair," y *Logos*. Edrychai Philo ar Dduw fel Goleuni Tragwyddol, yr Hwn nas gellid edrych ar Ei ddisgleirdeb gan unrhyw fod meidrol, ond adlewyrchid Ei ddisgleirdeb yn y "Gair," yr hwn felly oedd yn deilliaw o'r Duwdod megys y mae'r pelydryn yn deilliaw o'r haul. Er hynny, nid yw Philo'n siarad am y Gair fel rhywbeth pell, amherthynasol, amhenodol ac amhersonol. Yn hytrach y mae'r Gair yn meddu ar fodolaeth bersonol y gellir ei hamgyffred i ryw raddau gan ddynion. Sonia Philo am y Gair fel "Cyntaf-anedig Duw"; mewn mannau ereill geilw ef yn 'Archangel'; trwyddo ef, fel y dealiai Philo, y gwnaethpwyd y bydoedd, ac yn wir y mae rhai ymadroddion o'i eiddo yn peri i ni feddwl weithiau ei fod yn edrych ar y Gair a'r Greadigaeth fel un, yn anwahanedig oddiwrth eu gilydd. Ond ar y llaw arall nis gall fod yr un amheuaeth nad oedd y Gair yn meddwl Philo yn ffurfio'r ddolen gydiol rhwng y bydysawd a'r Creawdwr, rhwng dyn a Duw; dyma'r bont o ddwyfol bortread i groesi'r gagendor mawr. Er hynny, pan yn desgrifio gweithrediadau'r Gair yn y byd ysbrydol, y mae'n anhawdd iawn penderfynu pa un ai siarad y mae Philo am ddrychfeddwl athronyddol, neu am briodoledd ddwyfol, neu ynte am berson penodol.

(*c*) Yn ddiweddarach ceir llawer o son am y Gair—y *Logos*—gan Gnosticiaid yr ail ganrif o.c., y rhai oeddent

hanner Cristionogion, ond a geisient ar yr un pryd gael lle yn y gyfundrefn Gristionogol i ryw gyfres o is-dduwiau a fodolent yn ol eu dychymyg hwy rhwng y Duwdod a'r greadigaeth. Un o'r is-dduwiau neu'r "aeoniaid" hyn oedd y Gair neu'r *Logos*, un cyfrwng ym mysg cyfryngau lawer er uno'r greadigaeth â Duw. Daeth y cyfryw ddychymyg i fodolaeth, mae'n debyg, am fod y grediniaeth yn ffynnu fod gwrthdarawiad hanfodol yn bodoli rhwng Duw a mater.

Myn rhai uwchfeirniaid mai oddiwrth y Gnosticiaid hanner-Cristionogol hyn y derbyniodd awdwr y bedwaredd Efengyl yr athrawiaeth hon am y Gair Dwyfol. Ond ar wahan i'r cwestiwn pa bryd y cyfansoddwyd yr Efengyl (am yr hyn ni pherthyn i ni draethu yma) ymddengys i ni fod y fath wahaniaeth rhwng y gyfres hirfaith o gyfryngau rhwng y greadigaeth a Duw ac athrawiaeth Efengyl S. Ioan am un Cyfryngwr fel nas gellir meddwl fod yr awdwr wedi derbyn hyd yn oed y syniad sylfaenol sydd yn gorwedd o dan ei athrawiaeth oddiwrth y Gnosticiaid gorathronyddol hyn.

Y mae'r mwyafrif mawr o esbonwyr gan hynny wedi gwrthod y syniad yna, ac wedi rhannu eu hunain i ddau ddosbarth. Myn rhai mai oddiwrth Philo y derbyniodd yr Efengylwr yr athrawiaeth, ac nad ydyw'r *Logos* a geir yn Efengyl S. Ioan yn ddim ond datblygiad naturiol a rhwydd o'r athrawiaeth a goleddid gan y gwr dysgedig hwnnw. Ond fel y danghoswyd eisoes y mae Philo mor amhenodol parthed personoliaeth y Gair, ac mor aneglur yng nghylch ei weithrediadau a'i ddylanwad fel nas gellir peidio gweled gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddau awdwr. Y mae'r Gair yn Efengyl S. Ioan yn Berson cynhanfodol a hanesyddol, yn hollol wahanedig oddiwrth y greadigaeth a wnaethpwyd trwyddo Ef, ac y mae'r gwaith a gyflawna fel Cyfryngwr rhwng y Duwdod a dynoliaeth yn dra gwahanol oddiwrth ddylanwad y "Rheswm" Philonaidd yn yr un cylch. Rhaid cyfaddef nad oes dim amhosibl yn y syniad fod awdwr yr Efengyl yn gyfarwydd â gweithiau Philo, yr hwn a feddai ddylanwad mawr ar symudiadau meddyliol ei oes. Y mae'r anhawster yn gorwedd mewn cyfeiriad arall. Y mae awyrgylch feddyliol y ddau awdwr mor anhebyg fel nas gellir credu mai un cam yn unig sydd o'r naill i'r

llall. Defnyddia'r ddau awdwr yr un termau'n fynych, ond nid yw hynny'n ddigon i brofi y berthynas agos a honnir; rhaid cael mwy o gydgordiad rhwng y syniadau a gyfleir gan y termau cyn y gellir edrych ar Philo fel athraw a rhagredegydd S. Ioan yn yr ystyr hon.

O ganlyniad nid oes dim i'w wneud ond derbyn syniad y dosbarth arall o esbonwyr y rhai a welant yma ddatblygiad naturiol o'r meddyldrych Iddewig a fodolai parthed y Gair neu'r Ddoethineb ddwyfol. Nid syniad athronyddol Philo sydd gan yr awdwr meddai'r esbonwyr hyn, ond syniad mwy barddonol awdwyr yr Hen Destament ac ysgrifenwyr llyfrau'r Apocrypha. Pwysleisir gan yr awdwr fel hwythau le y Gair yn y cread; trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth a'r a wnaethpwyd, ac yr oedd Efe drachefn "gyda Duw." Diameu ei bod yn rhwyddach camu oddiwrth Ddoethineb hanner bersonol yr Hen Destament at Air personol a hanesyddol S. Ioan na chroesi i'r un fan oddiwrth gyfundrefn wyllt y Gnosticiaid. Yr oedd y daith drachefn oddiwrth *Logos* Philo yn yr Aipht at Air Ymgnawdoledig Gwlad yr Addewid mor hirfaith fel nas gellid meddwl i'r Efengylwr groesi mor fuan. Rhaid oedd wrth gryn ddisgyblaeth a datblygiad cyn y gallai gyrraedd yno, na byw yn yr awyrgylch ar ol cyrraedd.

Gan nad pa olygiad a fabwysiadwn am darddiad yr athrawiaeth, mae'n hawdd gweled paham y defnyddid hi gan S. Ioan. Yr oedd ei ddarllenwyr yn arfer son am y "Gair," gan olygu wrth hynny ryw fath o gyfrwng i ddatguddio Duw i'r byd. Dechreua yntau ei Efengyl trwy ddangos mai'r "Gair" ydoedd y Mab tragwyddol "a wnaethpwyd yn gnawd." Tra nad oedd gauddynt hwy ond syniadau aneglur am dano gallai S. Ioan ddweud 'Efe a drigodd yn ein plith ni, ac ni a welsom Ei ogoniant Ef." (Adn. 14. Cymharer I. S. Ioan i. 1).

PENNOD I.

Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair.

Y Rhaglith—Adn. 1—18.

Gellir rhannu'r Rhaglith yn dair rhan:—(1) adn. 1—5 yn profi fod y Gair yn Dduw. (2) adn. 6—13 yn dangos pa fodd y daeth yn ddyn. Ac (3) adn. 14—18 yn adrodd pa fodd y bu i'r Gair Ymgnawdoledig "hysbysu," h.y., datguddio, Duw i'r byd.

1. "*Yn y dechreuad.*" Y mae ffurf yr ymadrodd yn dwyn i'n cof ar unwaith eiriau agoriadol llyfr Genesis, a diameu fod yr awdwr hefyd yn cofio cysylltiadau blaenorol y geiriau. Ond nid yn unig y mae ffurf yr ymadrodd yr un, y mae'r syniad a gyfleir gan y geiriau yr un yma ag yn Genesis, oblegid yr un adeg a olygir, ond y mae gwahaniaeth dirfawr yn y defnydd a wneir o'r pwynt yma ar derfyn tragwyddoldeb ac ar ddechreu amser. Cychwyna awdwr llyfr Genesis o'r pwynt yma, a rhydd ddesgrifiad o'r hyn a gymerodd le yn ddilynol i'r dechreuad, sef y cread, tra y mae awdwr Efengyl S. Ioan yn son am rywbeth oedd *yn bod* yn y dechreuad, "yn y dechreuad yr *oedd* y Gair." (Noder amseriad y ferf). Cyn son am y cread, y mae'r Efengylwr am ein sicrhau am fodolaeth y Creawdwr, awdwr y greadigaeth.

"*Yr oedd y Gair.*" Y mae'r awdwr yn defnyddio'r term "Gair" ac nid "Mab" yma yn ol barn rhai, am ei fod yn dewis dechreu gyda'r syniadau mwyaf amherthynasol. Ond credwn ei fod hefyd yn ei ddefnyddio ar ddechreu ei Efengyl fel term mwy priodol i baratoi meddwl y darllennydd i dderbyn hanes y datguddiad dwyfol. Buasai'r term "Mab" mae'n wir yn arddangos y cysylltiad perthynasol a fodolai rhyngddo a Duw fel Tad, ond ni fuasai'n cyfeirio'r meddwl at bosibilrwydd datguddiad yr Hwn a fodolai yn Nuw erioed, fel y gwna y term "Gair." Ond nid ydyw'r "Gair" yn y fan yma mwy nag yn un man arall yn y Test. Newydd yn golygu "rheswm" yn unig; y mae'r

awdwr am alw i gof ei ddarllenwyr y "Gair" hwnnw yr oeddent yn gyfarwydd âg ef, a'r hwn yr oeddent wedi arfer edrych arno mwy neu lai fel "person" dwyfol annibynnol. Fel pe dywedai, "Yr un yw'r Gair ag y clywsoch chwi am dano, a'r hyn yr wyf am eich sicrhau am dano ydyw ei *fod* Ef yn y dechreuad." Y mae hefyd am bwysleisio'n neilltuol y ffaith mai Gair byw ydyw, datguddiad byw personol o Dduw; nid dyfod i fodolaeth a wnaeth, ond yr oedd yn Air erioed. Ac os oedd y Mab felly wedi bod yn Air erioed yr oedd yn hynod gymwys i ddatguddio'r Duwdod yn y greadigaeth ac yn yr Ymgnawdoliad (Gwel adn. 3, 14).

"*Oedd gyda Duw.*" Defnyddir y fannod o flaen y gair "Duw" yn yr iaith Roeg yn y fan hon er dynodi fod y "Gair" fel Person Dwyfol mewn rhyw ystyr ddirgel a dofn yn wahaniaethol oddiwrth y Tad. Ond nis gallai'r iaith Roeg er cyfoethoced ydoedd mewn geiriau cyfaddas i'r pwrpas egluro nemawr ar natur na maint y gwahaniaeth. Y mae'n eglur er hynny mai am y gwahaniaeth a fodolai rhwng y Gair Dwyfol a'r Tad Dwyfol y sieryd yr awdwr, ac nid am unrhyw wahaniad. Y cyfieithiad llythyrennol ydyw, "oedd *tuagat* Dduw," y Mab yn bodoli mewn dibyniaeth ar y Tad, ac y mae rhyddgyfieithiad wedi ei roddi a esyd allan y dirgelwch mor bell ag y medr iaith ddynol wneud hynny,—"oedd *gartref* gyda Duw." Dylid bod yn ofalus anghyffredin, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, rhag syrthio i'r camgymeriad (a nodir yn Nghredo S. Athanasius) o siarad am danynt fel dau Dduw ac nid fel dau Berson Dwyfol mewn un Duw.

"*Duw oedd y Gair.*" Neu'n fwy llythyrennol "a'r Gair oedd Dduw." Y mae pob un o'r cyfieithiadau Cymraeg hyn yn fwy cywir na'r un Saesneg. Defnyddir y fannod yn y frawddeg flaenorol pan yn siarad am Berson Dwyfol, ond yma gadewir hi allan, am mai am *natur* ddwyfol y Gair y sonnir. Y mae'r gwahaniaeth a fodola rhwng y Personau Dwyfol wedi ei nodi'n barod, a'r hyn a wneir yma ydyw dangos fod y Mab yn Dduw yn llawn cymaint a'r Tad, oherwydd nid "dwyfol" y gelwir ef ond "Duw." Defnyddir gair arall drachefn pan y sonnir yn Rhuf. i. 20 am y greadigaeth fel arddanghosiad o'i "dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod." Nid

2 Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw.
3 Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd.

---

ydyw'r greadigaeth, er i Dduw Ei Hun ddweud mai "da oedd," ond arddanghosiad rhannol o hono; gellir siarad am dani fel "dwyfol" am ei dyfod o law Duw, ond nid "dwyfol" y gelwir y Gair Ymgnawdoledig "yr hwn sydd yn mynwes y Tad" ond "Duw." Cyfranogwr ydyw Ef nid o "ddwyfoldeb" ond o "Dduwdod." Astudier yn fanwl yr adran honno o Gredo S. Athanasius sydd yn ymdrin â'r pwnc; ni ddeallir y dirgelwch yn gyflawn mae'n wir, ond deuir i feddiant o'r syniad dynol egluraf am gyd-fodolaeth y Personau Dwyfol. "Y Tad sydd Dduw, y Mab sydd Dduw, a'r Ysbryd Glan sydd Dduw."

2. "*Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw.*" Y mae'r rhagenw wedi ei osod ar ddechreu'r adnod ac felly'n bwysleisiol. "Hwn," sef yr un y soniwyd am dano yn yr adnod flaenorol. Myn rhai fod yr awdwr hefyd â'i olwg ar gyfeilornadau Gnosticaidd oedd eisoes yn dechreu cymylu a chymysgu pob athrawiaeth iachus am berthynas y Duwdod â'r greadigaeth. Yn ol y Gnosticiaid nid un cyfrwng oedd rhwng Duw a'i waith gweledig ond aneirif lu o fodau a alwent hwy yn "aeoniaid," ac yr oedd y rhai hynny oll, meddent hwy, gyda Duw cyn Ilunio'r byd. Felly, nid lluoedd o is-dduwiau, fel pe dywedai'r awdwr, ond "Hwn," un penodol a phersonol, "oedd yn y dechreuad gyda Duw." Ffurfia'r adnod ragarweiniad i adn. 3, lle y sonnir am le a gwaith y Gair yn y greadigaeth, ac y mae ar yr un pryd yn foddion i gydio adn. 1 ac adn. 3.

3. "*Trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yn fwy cywir o ran iaith ac o ran diwinyddiaeth na'r un Saesneg. "Trwyddo" ef, nid "ganddo" ef. Y Tad ac nid y Mab ydyw ffynhonnell wreiddiol pob creadigaeth a phob bodolaeth, ond megis ag y sonnir am y Gair yn yr hanfod ddwyfol fel yn profi posibilrwydd datguddiad dwyfol, felly yn y weithred gyntaf a gyflawnwyd i gyfleu'r datguddiad hwnnw, y mae i'r Mab Ei le priodol Ei Hun. Nid yw yr un a'r Tad, ac nid Efe ydyw y ffynhonnell wreiddiol, ond Efe ydyw

4 Ynddo ef yr oedd bywyd; a'r bywyd oedd oleuni dynion.

---

y Cyfryngwr Dwyfol a phersonol rhwng y Tad a'i waith gweledig, y greadigaeth. Gallwn siarad am y greadigaeth fel gwaith y Mab yn ogystal a gwaith y Tad ond nid yn yr un ystyr.

Y mae'r gair Groeg a ddefnyddir am "gwnaethpwyd" yn golygu "dyfod i fodolaeth," a dylid cymharu y "dyfod" hwn mewn amser â'r "oedd" yn nhragwyddoldeb a geir yn adn. 1. Gellir deall y gair hefyd fel yn golygu gweithio allan mewn pethau gweledig y drychfeddwl dwyfol a fodolai cyn eu gwneud. Wrth "pob peth" y golygir nid y greadigaeth fel cyfangorph megis y sonnir yn adn. 10 am "y byd" yr hwn a "wnaethpwyd trwyddo Ef," ond yn hytrach y gronynau aneirif hynny o ba rai y cyfansoddir y greadigaeth; y mae pob un o'r gronynau hyn wedi eu gwneuthur trwyddo Ef.

"*Ac hebddo Ef.*" Am ffurf yr ymadrodd hwn gweler nodiadau arweiniol ar nodweddion yr awdwr. Ffordd Hebreig ydyw o bwysleisio ar y gwirionedd.

4. "*Ynddo Ef yr oedd bywyd.*" Trwy atalnodi'n wahanol gellir cysylltu'r ymadrodd hwn â diwedd yr adnod ffaenorol. Darllennai'r ddwy frawddeg pe gwneid hynny fel y canlyn; "hebddo Ef ni wnaethpwyd dim, a'r hyn a wnaethpwyd ynddo Ef oedd fywyd." Os dyna'r dosraniad priodol, tebyg fod yr awdwr am alw sylw'n gyntaf at fywyd yn ei holl agweddau,—pob ffurf ar fywyd a wnaethpwyd ynddo Ef; a hefyd am arwain y meddwl ym mhellach at y bywyd uwch, y bywyd ysbrydol a ddaeth i fodolaeth trwyddo Ef. Os cedwir yr atalnodiad arferol cyfeirio y mae'r awdwr at y bywyd uchaf hwn yn bennaf. Ond mewn dwy o'r llawysgrifau hynaf ceir "ynddo Ef y mae bywyd," ac os derbynnir y darlleniad hwn, y meddwl ydyw mai nid rhyw un weithred a orphenwyd unwaith am byth ydyw creadigaeth, ond yn hytrach cyfres o weithrediadau sydd yn myned ymlaen o hyd, o ddydd i ddydd. Y mae rhyw hedyn neu gilydd yn egino ac yn blaguro yn fywyd gweledig, ac y mae'r oll yn awr yn ogystal ag ar foreu'r cread yn tarddu o hono Ef.

5 A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.

"*A'r bywyd oedd oleuni dynion.*" Y mae bywyd yn ei holl ffurfiau yn oleuni, yn foddion i oleuo, yn ddatguddiad, yn brawf o'i "dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod," ond y mae'r bywyd dynol gyda'i alluoedd digyffelyb yn brawf uwch ac yn oleuni eglurach. Mae'n bosibl hefyd y cyfeirir at allu dyn i chwilio am, ac i dderbyn goleuni; y gallu hwnnw sydd yn barhaus yn cynyddu ac yn ymeangu pan ei defnyddir gan ddynion. Yn yr ymchwiliad ac yn y derbyniad y mae'r holl gyneddfau goleuol yn cryfhau fwyfwy, nes y mae'r oll yn dyfod yn oleuach fyth. Diameu hefyd fod yr awdwr am arwain i fyny oddiwrth berthynas a chysylltiad y Gair â'r greadigaeth at Ei berthynas neilltuol â phlant dynion, ac yn yr ystyr olaf hon y mae'n arbennig yn "oleuni'r byd." Cyfeiria hefyd efallai at y tywyllwch moesol oedd wedi ymdaenu dros y byd trwy ddylanwad pechod, y tywyllwch y daeth "yr Hwn ni wnaeth bechod" i'w chwalu a'i ymlid ymaith.

5. "*A'r goleuni sydd yn llewyrchu.*" Myn rhai esbonwyr galluog mai at y goleuni a ddaeth trwy'r Ymgnawdoliad yn unig y cyfeirir yma, ond credwn mai gwell ydyw credu ei fod yn cyfeirio at holl weithrediadau goleuol y Gair. Y mae amryw arwyddion fod yr Efengylwr yn edrych ar yr holl weithrediadau hyn fel un goleuni mawr, a'r greadigaeth a'r Ymgnawdoliad fel llewyrchiadau amlycaf y goleuni tanbaid a pharhaol hwnnw.

"*Y tywyllwch.*" Sylwer fod y fannod yn cael ei defnyddio; nid "tywyllwch" ond "y tywyllwch." Yn Genesis i. sonnir am "y tywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder, ond tywyllwch naturiol neu anianyddol a olygir yno. Yma cawn megis atgof o'r tywyllwch hwnnw y daeth y Gair yn Ei weithrediadau creadigol i'w ddileu. Ond y mae cyfeiriad neilltuol hefyd at y tywyllwch moesol oedd wedi amgylchu dynoliaeth. Yr oedd dyn trwy roddi ffordd i dueddiadau iselaf ei natur yn hytrach na sefydlu ei olwg yn ddiysgog ar y goleuni dwyfol oedd ynddo, wedi creu nos iddo ei hun i ymbalfalu ynddi. Ond nid oedd dyfodiad y nos hon wedi dileu'r

6 ¶ Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan.

---

goleuni oedd yn parhau i lewyrchu yn y tywyllwch. Er i ddyn trwy ei ystyfnigrwydd a'i wrthryfelgarwch anghyfaddasu ei hun i'w dderbyn eto ni leihaodd ddim ar yr ystor o oleuni oedd yn parhau i lewyrchu megis cynt.

"*A'r tywyllwch nid oedd yn Ei amgyffred.*" Y mae'n anhawdd dweud ai 'run ystyr yn hollol sydd i'w roddi i'r gair "tywyllwch" yn yr adran hon a'r adran flaenorol. Gellir edrych ar y tywyllwch fel un gallu mawr mewn ymdrech â'r goleuni, neu ynte gellir edrych arno fel gallu'n gweithredu trwy amrywiol offerynnau dynol. Ac nid ydyw'r gair a gyfieithir "amgyffred" yn ysgafnhau dim ar yr anhawster, oherwydd y mae i'r gair hwnnw ddwy ystyr. (1) Defnyddir ef am "derbyn" neu gofleidio. Yn ol yr ystyr hon, ar yr offerynnau dynol, gweision y tywyllwch, yr edrychir yn bennaf. Gwrthodent gofleidio neu fynwesu'r Goleuni oherwydd "carent y tywyllwch yn fwy." Nid oeddent yn sefydlu eu serchiadau arno nac yn Ei gymeryd yn arweinydd. (2) Defnyddir y gair am "rwystro" neu "orchfygu." Er mor gaddugawl oedd y tywyllwch a ddaeth trwy bechod, eto nid oedd yn alluog i orthrechu'r Goleuni; parhau i lewyrchu yr oedd y Goleuni, ac nis gallai tywyllwch, er mor ymladdgar a gelyniaethus ydoedd, luddias dim ar Ei weithrediadau. Y mae'n fwy na thebyg mai dyma'r eglurhad cywir, oherwydd y pwnc y mae'r awdwr yn ymdrin âg ef ydyw dylanwad neu weithrediadau'r Gair yr Hwn oedd yn Oleuni'r byd, ac nis gallai roddi adroddiad cyflawn o'i hanes, heb son rhywbeth am y rhwystrau oedd ar Ei ffordd. Mae fel pe'n dweud, modd bynnag, er fod yn rhaid i'r Goleuni ymladd ac er fod Ei archelyn yn gadarn ac yn arfog, eto parhau i fuddugoliaethu a wnaeth, oherwydd nis gallodd y tywyllwch Ei orchfygu.

6. "*Yr ydoedd gwr.*" Credwn y ceir yma ddau gyferbyniad bwriadol:—

(1) Cyferbynnir "gwr" â'r "Gair" am ba un y soniwyd cymaint.

(2) "Yr ydoedd," neu fel y dylid cyfieithu, "Fe ddaeth" neu "Cyfododd" gwr mewn cyferbyniad i'r Gair yr Hwn "oedd" erioed.

"*Wedi ei anfon oddiwrth Dduw.*" Dylid gwahanu ei ddyfodiad oddiwrth ei anfoniad; "cyfododd gwr, ac yr oedd hwnnw wedi ei anfon oddiwrth Dduw." Sylwer hefyd mai "oddiwrth Dduw" a ddywedir ac nid "gan Dduw." Yr un gwreiddyn sydd i'r gair Groeg a gyfieithir yma "wedi ei anfon" ag a geir yn ein gair Cymraeg ni "apostol," yr hwn sydd wedi ei fabwysiadu yn uniongyrchol o'r Groeg. Ceir gair Groeg arall a gyfieithir "anfon," a defnyddir ef am anfoniad y disgyblion gan yr Iesu yn ogystal ag am anfoniad y Mab gan y Tad. Ond "anfon" yn syml a olygir wrth y gair hwnnw; edrychir yn unig ar berthynas yr Anfonedig a'r Hwn a'i hanfonodd; y mae'r gair a ddefnyddir yma'n golygu'n ychwanegol un wedi ei anfon i bwrpas, i gyflawni rhyw waith neu i draethu rhyw genadwri. Diameu hefyd ei fod yn golygu fod yr hwn a anfonid yn derbyn rhyw gymaint o awdurdod i weithredu dros, ac yn enw yr hwn a'i hanfonodd. Gwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw a neges ganddo ydoedd Ioan, a gwas y meddai ei Feistr berffaith ymddiriedaeth ynddo. (Cymharer "gwr Duw" yn yr Hen Dest.).

"*A'i enw Ioan.*" Yr oedd yn dwyn enw digon adnabyddus, ond yn ei ffordd syml a tharawiadol ei hun dengys yr awdwr fod yr Ioan hwn yn dra gwahanol i filoedd yn dwyn yr un enw; efe oedd "yr Ioan."

Wrth reswm, y ffurf Roegaidd ar yr enw a geir yma, yr enw Hebreig ydoedd Jehohannan, ac ystyr yr enw ydoedd "Jehofah rydd ras." Sylwer er yr enwir Ioan yn fynych yn yr Efengyl, ni chysylltir y "Bedyddiwr" âg ef o gwbl fel y gwneir mor gyson yn yr Efengylau ereill. Ymddengys na theimlai'r awdwr fod angen ei wahaniaethu oddiwrth neb arall. Dygir enw Ioan i mewn yma, ac eglurir natur ei genadwri, mae'n debyg, am ddau reswm. (1) I brofi mawredd yr Iesu o'i gymharu â'i ragredegydd; nid oedd Ioan, er wedi ei anfon gan Dduw, ond i fod yn is-wasanaethgar i'r Un mwy nag ef oedd i ddyfod ar ei ol.

(2) Er argyhoeddi disgyblion Ioan Fedyddiwr, y rhai oeddent yn bur liosog (gwel Actau xiv. 1—6), mai rhagbaratoawl yn unig ydoedd gwaith a bedydd Ioan; nid oedd yn derfynol, ond dros amser yn unig yr oedd, a

7 Hwn a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef.

8 Nid efe oedd y Goleuni, eithr *efe a anfonasid* fel y tystiolaethai am y Goleuni.

---

dylai ei ddisgyblion ef fyned rhagddynt i wasanaethu'r Hwn yr oedd Ioan wedi dyfod i "baratoi" y ffordd o'i flaen.

7. "*Hwn a ddaeth yn dystiolaeth.*" Nid yn "dyst" a ddywedir ond yn "dystiolaeth." Y mae "daeth" yn y fan hon yn dra gwahanol i'r "dyfod" yn yr adnod flaenorol; "dyfod" yr ydoedd yno yn ei berson, ond yma dyfod y mae yn ei waith a'i weinidogaeth. Tystiolaeth ydoedd un o eiriau'r Efengylwr, a defnyddir ef yn fynych ganddo. Yr oedd yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am y Crist a'r Tad yn dwyn tystiolaeth iddo. Pwrpas dyfodiad y rhagredegydd oedd dwyn tystiolaeth, a phwrpas y "dystiolaeth" ydoedd argyhoeddi pawb mai "Hwn oedd y gwir Oleuni." Dyma hefyd bwrpas yr Efengylwr yn ysgrifenu ei Efengyl fel y dengys yn xx. 31, "fel y credoch"; a dyma hefyd waith neilltuol Apostol fel y dengys S. Pedr yn Actau i. 22, "Fel y credai pawb trwyddo ef." Myn rhai mai credu yn Nuw trwy Grist a olygir yma, ond credwn fod y pwyslais a roddir ar waith neilltuol Ioan yn ogystal a holl rediad yr adnod yn profi mai cred yng Nghrist trwy Ioan a olygir.

8. "*Nid hwn oedd y Goleuni.*" Y mae dau air Groeg a gyfieithir "hwn," ond y mae cryn wahaniaeth rhyngddynt. Y mae un yn golygu'r person sydd yn ymyl, y person pwysicaf ar y pryd, tra y mae'r llall yn golygu rhywun pellach oddiwrthym, rhywun nad yw'n cael cymaint o sylw gennym, rhywun heb fod mor fyw yn y meddwl ar y pryd. Yn adn. 7, yr oedd Ioan yn "hwn" yn yr ystyr flaenaf, ond yma y mae wedi gorfod cymeryd ail le; nid efe yw "yr hwn" presennol a phwysig yn awr ond arall. Y mae'r pwyslais a roddir yma eto ar waith Ioan a'i le yn brawf o'r hyn y soniwyd am dano yn y nodiad ar adn. 6, fod perygl i lawer gredu mai Ioan oedd "y Goleuni," tra mewn gwirionedd nid ydoedd ond goleuni i alluogi dynion i fyned ymlaen at oleuni mwy a pherffeithiach.

9 Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd.

---

9. Y mae dwy ffordd o ddeall yr adnod hon. (1) Yr un a dderbyniwyd gan gyfieithwyr y Beibl Cymraeg (a'r un Saesneg), sef mai desgrifio "pob dyn" y mae'r ymadrodd "yr hwn sydd yn dyfod i'r byd." Y mae'n anhawdd gweled paham yr oedd eisieu ychwanegu fod pob dyn yn dyfod i'r byd, a'r ateb a roddir ydyw mai amcan yr awdwr ydoedd dyfnhau yr argraff ar y meddwl; nid yw'r frawddeg yn ychwanegu dim at y synwyr, ond y mae'n foddion i roddi mawredd a phwys ar y geiriau.

(2) Ffordd arall ydyw darllen, "Yr oedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn, yn dyfod i'r byd." Yma cysylltir "dyfod i'r byd" nid â phob dyn ond â'r Goleuni. Nid yw'r darlleniad hwn ychwaith yn rhydd oddiwrth anhawsterau. Dadleuir gan rai nas gellir deall yr adnod fel yma heb dreisio rheolau gramadeg. Ond pan y mae'r darlleniad yn cael ei dderbyn gan ysgolheigion o safle'r diweddar Esgob Westcott, gallwn fod yn sicr nad oes rhwystr anorfod ar y ffordd. Derbyniwyd y darlleniad hefyd gan awdwyr y Cyf. Diwyg. Ar wahan i unrhyw rwystrau gramadegol, nis gellir penderfynu'n derfynol pa ddarlleniad i'w dderbyn hyd nes y ceir gweled at ba ddyfodiad o eiddo'r Gair y cyfeirir yn yr adran hon, pa un ai Ei ddyfodiad yn ystod cyfnod yr Hen Oruchwyliaeth ai ynte Ei ddyfodiad yn y cnawd.

"*Y gwir Oleuni.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "gwir" yn air arbennig, ac y mae'r awdwr yn hoff iawn o hono. Ond y mae'n air anhawdd dros ben i gyfleu ei gyflawn ystyr yn Gymraeg, oherwydd nad oes gennym ond un gair lle y ceir dau yn y Groeg. Golyga nid yr hyn sydd "wir" o'i gymharu â'r hyn sydd gelwyddog ond yn hytrach yr hyn sydd berffaith a chyflawn o'i gymharu â'r amherffaith. O ran amser dyma'r unig "wir" Oleuni; yr oedd pob goleuni arall a ddaeth i'r byd wedi dyfod ac wedi myned, ond yr oedd goleuni Haul Cyfiawnder yn aros o hyd yn sefydlog. Hefyd amherffaith a rhannol ydoedd pob goleuni ond dyma Oleuni yn Ei gyflawnder, ffynhonnell pob goleuni arall.

10 Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; a'r byd nid adnabu ef.

"*Yn goleuo pob dyn.*" Y mae'n anhawdd penderfynu pa un ai at weithrediadau goleuol y Gair yn ei gynhanfodiad y cyfeirir ai ynte at y goleuni a dywynodd trwy Ei Efengyl, ond tueddir ni i gredu mai'r cyntaf a olygir. sef y goleuni a roddwyd trwy'r Gair yn y gydwybod a'r rheswm dynol, gan nad yw goleuni'r Efengyl hyd yn oed erbyn hyn wedi cyrraedd pob dyn. Credwn hefyd mai amcan yr awdwr ydyw arwain i fyny'n raddol at wirionedd mawr ei Efengyl—ymddanghosiad y Gair yn y cnawd. Yr oedd am i'w ddarllenwyr gadw mewn golwg o hyd weithrediadau blaenorol y Gair, oherwydd fod hynny'n egluro cymaint ar Ei Ymgnawdoliad. Os oedd wedi bod fel yna trwy'r oesau'n goleuo'r byd er pan y bu i'r wawr dorri am y tro cyntaf yn y Cread draw, yna nid oedd Ei Ymgnawdoliad ond llewyrchiadau llachar haul canol dydd. Yr un oedd y goleuni, yr un oedd ffynhonnell y goleuni ond ei fod wedi cynyddu o ran ei gyflawnder a'i eglurder.

10. Y mae dwy o nodweddion yr awdwr fel ysgrifenydd i'w cael yn yr adnod hon. (1) Y modd y defnyddia'r cysylltair "ac" yn lle "ond," neu "er" neu "eto." (2) Ei ddull o ail-adrodd yr un gair yn lle defnyddio rhagenw—"byd."

"*Yn y byd yr oedd Efe.*" Defnyddir y gair "byd" yn yr adnod hon mewn dwy ystyr. Wrth y byd yn y ddwy adran gyntaf golyg'r y greadigaeth faterol yn ei chyflawnder, tra yn yr adran olaf rhaid mai cyfeirio y mae at drigolion y byd oedd wedi derbyn cyneddfau deallol a moesol. Sylwer hefyd y ceir yn y ddwy adran gyntaf ddosbarthiad o weithrediadau'r Gair. Efe yw "Cynhaliwr" y byd, yn holl-bresenol, yn preswylio o ran Ei alluoedd ym mhob rhan o hono. Dyma'r hyn a eilw'r Sais yn "Divine Immanence." Efe hefyd yw y Creawdwr a roddodd fodolaeth i'r byd (a wnaethpwyd trwyddo Ef) ar y dechreu, ac y mae felly uwchlaw'r byd. megys ag y mae'r gweithiwr uwchlaw ei waith. Dyma'r hyn elwir yn Saesneg "the transcendence of the Creator." Cymharer y Diolch Cyffredinol yn y Llyfr Gweddi "am ein creadigaeth, am ein cadwriaeth, ac am holl fendithion y bywyd hwn."

11 At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef.

"*A'r byd nid adnabu Ef.*" Fel y crybwyllwyd eisoes, wrth y byd y golygir yma drigolion y byd, y rhai a fedrent o ran eu galluoedd Ei adnabod. Tebyg yr edrychir yma yn bennaf arnynt fel cyfanswm dynoliaeth. Yr oeddent oll wedi cyfranogi o'r galluoedd hyn ac eto nid oedd pawb o honynt wedi eu defnyddio i ganfod ac adnabod y Creawdwr a'r Cynhaliwr. O bosibl fod yr awdwr hefyd â'i olwg ar ei wrthodiad neilltuol gan genedl yr Iddewon pan ymddanghosodd fel ei Messiah. Yn wir y mae'r driniaeth a dderbyniodd y Gair Ymgnawdoledig, megys yn taflu ei chysgod dros bob peth a ddywed efe am berthynas y Creawdwr a'r creadur.

11. "*At yr eiddo Ei Hun y daeth, a'r eiddo Ei Hun nis derbyniasant Ef.*" Tebyg mai'r cyfieithiad goreu o'r "eiddo Ei Hun" ydyw "Ei gartref Ei Hun." Defnyddir yr ymadrodd yn yr ystyr hon yn xix. 27 am y disgybl anwyl yn cymeryd mam yr Iesu i'w "gartref" ddydd y Croeshoeliad, a hefyd yn Actau xxi. 6 dywedir am y disgyblion Syriaidd hynny oedd wedi dyfod i gyfarch gwell i S. Paul, "hwy a ddychwelasant yn ol i'w cartref." Sylwer ym mhellach nad yr un peth a olygir wrth yr "eiddo Ei Hun" yn y rhan gyntaf a'r ail ran o'r adnod. Yn y rhan gyntaf golyga Ei "gartref," ond yn yr ail ran preswylwyr Ei gartref, pobl Ei gartref, (y mae'r gair yn y rhyw wrywaidd). Ond beth oedd Ei gartref, a phwy oedd pobl Ei gartref? Myn rhai mai dynoliaeth yn gyffredin a olygir, at ba rai yr ydoedd wedi dod yn Ei oleuni creadigol a chynhaliol. Os felly nid ydyw yr adnod hon ond arall-eiriad pwysleisiol o'r adnod flaenorol. Ond y mae un peth sydd yn gwneud yr eglurhad yn bur amhriodol. Sonnir yma am dano "yn dyfod," tra yn adn. 10 dywedir "yn y byd yr oedd Efe." Yr oedd y byd eisoes wedi ei greu a'r Goleuni'n llewyrchu ynddo. Felly tueddir ni i gredu mai rhyw ddyfodiad mwy hanesyddol a olygir yma. O ganlyniad cawn y rhan fwyaf o esbonwyr yn dal mai at Ei ddyfodiad mewn datguddiad o dan yr Hen Oruchwyliaeth y cyfeirir. Os felly, Ei "gartref ei hun" ydoedd Gwlad yr Addewid, cartref cenedl etholedig Duw a ddewiswyd ganddo Ef i fod yn

12 Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes ddynt allu i fod yn feibion i Dduw, *sef* i'r sawl a gredant yn ei enw ef:

---

offerynau neilltuol y datguddiad dwyfol. Ond er dyfod o "air yr Arglwydd" am oesau at batriarchiaid a brenhinoedd eto Ei wrthod a gafodd ganddynt, a hynny i'r fath raddau nes i'r Gair Ymgnawdoledig gyfeirio atynt fel rhai oedd wedi "lladd y prophwydi." Myn ereill drachefn fod yma gyfeiriad at Ei ddyfodiad yn yr Ymgnawdoliad a'i wrthodiad pan ddaeth, ond y mae'n anhawdd credu mai dyma'r eglurhad cywir, oherwydd rhaid fod yr awdwr felly'n barod i anwybyddu'n hollol grefydd ddatguddiedig yr Hen Dest., yr hyn sydd amhosibl pan gofiwn y lle mawr y mae'n roddi yn ei Efengyl i genedl yr Iddewon fel offerynnau neilltuol y datguddiad dwyfol. Y mae'n bosibl cyfuno'r ddau eglurhad olaf, a chredu fod yr awdwr a'i olwg ar un ochr ar ddyfodiad graddol y Gair dan yr Hen Dest. Cynyddodd hwn o hyd nes dyfod yn gyflawn yn yr Ymgnawdoliad. Ar yr ochr arall credwn fod yr awdwr hefyd yn edrych ar wrthodiad y Gair yn yr Hen Dest., y gwrthodiad oedd hefyd i gynyddu nes cyrraedd o'r diwedd elyniaeth eithafol cyfnod yr Ymgnawdoliad.

12. "*Ond cynifer ag a'i derbyniasant Ef.*" Y mae'n amlwg oddwrth hyn mai siarad yn gyffredinol y mae'r awdwr yn yr adnod flaenorol. Yr oedd mwyafrif mawr y genedl wedi Ei wrthod, ond yr oedd rhyw ychydig nad oeddent wedi bod yn euog o hynny. Yr oedd yr hyn a ddigwyddasai yn hanes corph y genedl yn yr amlwch ac yng Ngwlad yr Addewid wedi digwydd hefyd pan ymddanghosodd Crist yn y cnawd, ac yr oedd yn parhau i ddigwydd o dan weinidogaeth Glan Ysbryd Duw a anfonwyd gan y Crist ar ol Ei esgyniad. Yr oedd llawer yn cael cynnyg y gwirionedd iddynt, ond ychydig oedd yn derbyn yn fynych. Y mae'r gair a gyfieithir "derbyn" yn y fan hon yn golygu "derbyn" o wir ewyllys, a dwg i'n cof gwestiwn mawr yr Iesu i'r rhai oeddent glaf yn ei ddyddiau Ef, "A fynni di dy iachau?" Dewisiad ar ran y credadyn ydyw derbyn yr Iesu i fod ac nid gorfodaeth.

"*Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw.*" Nid "gallu" yn unig a olygir wrth y gair a ddefnyddir

13 Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw.

---

yma; nid bod yn abl, ond yn hytrach hawl gyfiawn a chyfreithiol i fod yn feibion. Nid yw'n golygu ychwaith fod unrhyw un yn gallu yn rhinwedd ei adnoddau ei hun ddyfod i'r berthynas a nodir â Duw; derbyn yr hawl y mae gan Dduw, a'i ddyledswydd a'i fraint ef ydyw ei defnyddio, a sylweddoli ei freintiau fel un o feibion Duw. Danghosir hefyd mai trwy ei dderbyniad o'r Mab y mae dyn yn dyfod i feddiant o'r hawl. Trwy ei dderbyn Ef a thrwy ei gymdeithas agos a bywiol âg Ef, y mae yntau yn cael ei osod megys o fewn cylch y teulu dwyfol nes o'r diwedd y daw, fel y dywed S. Paul, yn gyd-etifedd â Christ. Y cyfeithiad cyffredin o'r gair Groeg a ddefnyddir am "feibion" ydyw "plant," ac y mae'n bosibl fod yr awdwr â'i feddwl ar y gwahaniaeth a fodola rhwng plentyn a mab. Gellir mabwysiadu plentyn rhywun arall i fod yn "fab," ond cyn y gellir dyfod yn "blentyn," y mae'n rhaid cael yr anian fewnol anghenrheidiol. Y mae'r rhai a'i derbyniasant Ef yn meddu'r anian fewnol yn ogystal a'r hawl gyfreithiol.

"*Sef i'r sawl a gredant yn Ei enw Ef.*" Ceir yma ddeffiniad mwy manwl a phendant o'r hyn a olygir wrth dderbyn y Crist. Wrth Ei enw Ef y golygir cymaint o'r datguddiad dwyfol (a roddwyd trwy'r Mab) ag a fedr dynoliaeth ei amgyffred. Y mae'r "enw" felly'n gyfystyr â'r Crist Ymgnawdoledig yr Hwn oedd Fab Duw ond a ddaeth yn ddyn. Sylwer hefyd fod y ferf yma yn yr amser presennol, a "gredant," tra yn y rhan gyntaf o'r adnod y mae yn yr amser gorphennol, "derbyniasant." Nid damwain na diffyg gofal ar ran yr awdwr sydd yn cyfrif am hyn; y mae amseriad y berfau yn fwriadol, oherwydd desgrifia un (derbyniasant) weithred unigol a gyflawnir unwaith am byth, ond y mae'r llall (credant) yn golygu gweithred barhaol nad oes diwedd arni. Nid yw'n ddim llai nag ymorphwysiad parhaus a chyson ar y Crist Ymgnawdoledig, ymorphwysiad sydd yn sylfaen bywyd ysprydol y Cristion ac yn sicrwydd o'r undeb bywiol a fodola rhyngddo ef a'r Hwn a dderbyniodd.

13. Yma enwir yr holl ffynhonellau o ba rai y tardda bywyd a bodolaeth, a rhestrir hwy fel esgyneb. Y

gyntaf a geir yw'r iselaf a mwyaf materol ac amlwg—gwaed. Y mae'r gair yn y rhif lliosog fel pe byddai'r awdwr yn edrych ar y llu o wahanol elfennau materol ac anianol sydd yn ffurfio'r corff dynol ac yn sicrwydd o'r bywyd sydd yn preswylio ynddo. Yn yr ail le cyfeirir at ffordd arall trwy ba un y dygir bywyd i amlygrwydd, sef cenhedliad naturiol,—"ewyllys y cnawd." Myn rhai mai yr un peth a olygir wrth "ewyllys y cnawd" ac "ewyllys gwr," ond credwn mai gwell yw deall fod yr ymadrodd "ewyllys gwr" yn cyfeirio at yr hyn y mae dyn yn rhinwedd ei adnoddau mawr meddyliol yn alluog i'w ddwyn i fodolaeth, ffynhonnell fwy meddyliol ac uwch o ran ei natur na'r ail a enwir. Ond yr hyn sydd bwysig i'r darllenydd sylweddoli, a'r hyn y mae'r awdwr am argraffu ar ei feddwl, ydyw nid yn gymaint fod y tair ffynhonnell hon yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd ond yn hytrach fod yr holl ffynhonellau dynol a materol yn analluog i gynyrchu'r bywyd ysbrydol, y bywyd a feddiennir gan blentyn Duw.

"*Eithr o Dduw.*" Dyma'r unig ffynhonnell o ba un y medr y bywyd hwn darddu. Yn awr myn rhai meddylwyr hynod graff fod y dyn wedi derbyn y bywyd hwn yn ei gyflawnder ar y cychwyn pan grewyd ef, ac mai unig effaith y Cwymp oedd creu anymwybyddiaeth ym meddwl y dyn o'i wir berthynas â Duw. Ond y mae'n anhawdd credu yng ngoleuni'r adnod hon, mai sylweddoliad llwyrach o hen berthynas yn unig a olygir wrth yr adenedigaeth ysbrydol at ba un y cyfeirir. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys trefn Duw yn fwy rheolaidd os deallir Ei fod Ef wedi rhoddi'r cyfan ar y dechreu, ond nad oedd dyn ond yn ei raddol ddadlennu. Ond pe buasai trefn Duw o gyfrannu bywyd mor rheolaidd ag y dymunem ni ei chael, yna ni fyddai'n ddwyfol mwyach ond dynol. Yn hytrach bywyd newydd, uwch a gwahanol a geir yma, bywyd sydd yn deilliaw yn union-gyrchol oddiwrth Dduw. Nid bywyd a roddwyd ganddo unwaith ydyw, ond bywyd a roddir yn barhaus, ynghyda deddfau cymwys i sicrhau ei barhad yn y byd. Sylwer hefyd mai at un weithred a gyflawnwyd unwaith y cyfeirir, "geni," ac nid at gyfres o gyfnewidiadau graddol y buasai'n rhaid wrthynt pe na buasai'r bywyd ysbrydol hwn yn golygu dim ond dyfod yn raddol i

14 A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd.

---

ymwybyddiaeth gyflawn o'r bywyd a roddwyd ar y dechreu.

14. "*A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.*" Cyfeithiad gwell o'r gair Groeg a ddefnyddir am "a wnaethpwyd" ydyw "a ddaeth i fod," a dylid cymharu hyn â'r hyn a ddywedwyd am dano eisoes. O'r blaen yr hyn a ddywedir ydyw "Ei fod Efe," tra y sonnir am y greadigaeth "yn dyfod i fod," ond yma y mae'r Gair Ei Hun yn dyfod i fod yr hyn nad oedd erioed o'r blaen. Nid yw'r cysylltair "a" yn golygu mai rhyw ychwanegiad dibwys a geir yma, nac ychwaith gasgliad oddiwrth wirioneddau a grybwyllwyd eisoes, ond yn hytrach defnyddir y cysylltair yn y ffordd syml ond tarawiadol hon er galw sylw neilltuol at y gwirionedd mawr, yr hwn oedd i fod megys yn goron ar yr oll a ddywedwyd eisoes. Dyma *climax* holl ymdriniaeth yr awdwr yn yr adnodau blaenorol; y mae wedi son ynddynt am swydd a phriodoleddau'r Gair yn ystod Ei gynhanfodiad yn nhragwyddoldeb, am Ei alluoedd goleuol a arddanghoswyd yn y cread, a hefyd am Ei waith fel offeryn mawr datguddiad yn nhymor hanesiaeth, ac yma y mae am arddangos y gwirionedd digyffelyb i dderbyn pa un y paratowyd meddwl y byd trwy'r holl oruchwyliaethau a nodwyd, sef yr Ymgnawdoliad. Sylwer hefyd na ddywedir yma fod y Gair wedi Ei wneud yn "ddyn," ond yn "gnawd." Un rheswm am hyn ydyw fod yr awdwr am bwysleisio'r ffaith fod yr Iesu wedi cymeryd ein holl natur ni, hyd at y rhan iselaf o honi, y cnawd gyda'i holl wendidau. Amcan arall yn ddiameu oedd dywedyd yn benodol, fod y Gair wedi cymeryd arno y natur ddynol ac nid wedi cymeryd i undeb âg Ef Ei Hun berson dynol. Cawn S. Paul hefyd yn pwysleisio drachefn a thrachefn y gwirioneedd mawr hwn. Pa un a oedd ymosodiadau yn cael eu gwneyd ar athrawiaeth yr Ymgnawdoliad yn eu dyddiau hwy ai peidio y mae'n anhawdd dweud. Y mae cyfeiriadau yn Epistol S. Ioan at ryw ddosbarth cedd yn gwadu dilysrwydd yr Ymgnawdoliad, ac y mae awdwr yr Epistol

yn eu tynghedu i gosbedigaeth ddifrifol o'r herwydd. Ond pa un bynnag a oedd y cyfeiliornadau hyn yn nghylch y natur ddynol wirioneddol a gymerodd yr Iesu wedi dyfod yn ddylanwadol ai peidio, y mae'n sicr fod y ddau awdwr pan ddefnyddiant y gair "cnawd" ac nid "dyn" yn rhoddi mynegiant i un o'u hargyhoeddiadau dyfnaf hwy eu hunain. Ym mhellach, er dyfod o'r Gair yn "gnawd" eto nid oes lle i gredu Ei fod wedi colli Ei alluoedd cyntefig. Y mae amryw esbonwyr diweddar am ein perswadio i gredu fod y Gair wedi "ymwaghau" o'i Dduwdod,—wedi ei rhoddi heibio megis cochl, ac nad oedd y rhinweddau a arddanghoswyd ganddo yn ystod tymor Ei Ymgnawdoliad wedi'r cyfan, ond rhinweddau dynol, ond Ei fod Ef yn eu harddangos yn eu perffeithrwydd; ond rywfodd neu gilydd, y mae rhywbeth yn rhy beirianyddol yn y syniad yna. Dirgelwch mawr oedd yr Ymgnawdoliad, dirgelwch oedd yn ymwneud â phethau bywydol; y natur ddwyfol a'r natur ddynol yn cydgyfarfod ym Mherson y Duw-ddyn; ac y mae cymhlethiad y ddwy natur yn anesboniadwy yn ol rheolau manwl athroniaeth ddynol, fel nas gellir byth ei gwneud yn ddarostyngedig iddynt. Cyfaddefir gyda'r parodrwydd mwyaf fod rhannau o hanes bywyd daearol ein Harglwydd sydd yn ymddangos fel pe na buasent ond adroddiadau o helyntion bywyd dyn yn unig, ond yn ol ein barn ni y mae athrawiaeth yr ymwaghad fel ag yr eglurir hi gan yr esbonwyr hyn yn rhy rwydd a rhy hylaw o lawer i egluro dirgelwch mor fawr. Y maent yn defnyddio'r un moddion yn hollol ag a ddefnyddir gan ddyn sydd yn torri cwlwm am nas gall ei ddatod.

"*Ac a drigodd yn ein plith ni.*" "Pabellu" yw y cyfieithiad priodol o'r gair a ddefnyddir yma, ac y mae'n air hynod darawiadol mewn un ystyr. Trigfan dros amser byr ydyw pabell, ac felly hefyd trigfan dros amser ydyw y corff dynol i'r enaid a'r natur ddynol i'r Iesu. Ond pa un a dderbyniwn yr ystyr lythyrennol hon i'r gair ai peidio, y mae'n amlwg y defnyddir y gair "pabellu" am yr Ymgnawdoliad o'i gymharu âg ymddanghosiadau blaenorol y Gair ar y ddaear, y rhai oeddynt rannol, amherffaith, ac anamlwg. Drachefn, os oedd y gair wedi colli ei ystyr foreuaf ym meddwl yr awdwr, y mae'r pwyslais i'w roddi ar y ffaith fod y Gair

wedi dyfod i breswylio gyda'r ddynoliaeth, i aros gyda hi; yr ydoedd wedi dyfod i undeb â'r natur ddynol oedd i fod yn anatodadwy dros byth. Cred rhai esbonwyr fod yr ymadrodd yn arddangos rhyw atgof o ymddanghosiad y gogoniant dwyfol (y Shechinah) yn y tabernacl, ond mae'n amheus a oes unrhyw sail i'r syniad, ym mhellach na'r ffaith fod y gair Shechinah'n swnio rywbeth yn debyg i'r gair a gyfieithir "trigodd."

"*Yn llawn gras a gwirionedd.*" Diameu fod y cromfachau a geir yn y cyfieithad awdurdodedig yn wir briodol, ac y dylid cysylltu'r geiriau hyn â'r geiriau "a drigodd yn ein plith ni." Y mae'r desgrifiad hwn o'n Harglwydd yn egluro'r ddwy brif adran o'i waith. Efe oedd awdwr cyflawn waredigaeth pechadur; gweithred o drugaredd, os edrychir arni o safle anheilyngdod pechadur, yn arddangos cariad anherfynol Duw. Efe hefyd oedd awdwr y datguddiad cyflawn a roddwyd o'r Duwdod, y gwir Oleuni oedd i ddadlennu ac egluro pob gwirionedd.

"*Ac ni a welsom Ei ogoniant Ef.*" Yn ol rhai esbonwyr yr oedd yr awdwr am i'r gair "gogoniant" gyfeirio meddwl y darllennydd at y tebygolrwydd oedd yn bodoli rhwng arddanghosiad gogoniant y Duwdod ym Mherson y Mab yn ystod cyfnod yr Ymgnawdoliad a'r arddanghosiad o'r gogoniant a roddwyd ar adegau neilltuol o dan yr Hen Oruchwyliaeth. Dywedir hefyd mai cyfeirio y mae'r awdwr at amserau nodedig pryd y gwelwyd Ei ogoniant gan ddynion yn ystod Ei yrfa ddaearol megys ar Fynydd y Gweddnewidiad, ond nid oes dim yn yr ymadrodd ei hun yn cyfiawnhau hyn. Ond pa un bynag ai'n achlysurol ai ynte'n wastadol y gwelwyd Ef, y mae'n amlwg fod yr olygfa wedi gadael argraff anileadwy ar feddwl yr awdwr. Yn ddiameu yn ol ei farn ef, yr oedd y datguddiad hwn o'r gogoniant dwyfol yn rhywbeth nas medrai gyfrif am dano ond mewn un ffordd. Dyma uchaf-bwynt y datguddiad a roddwyd i blant dynion o'r gogoniant dwyfol.

"*Gogoniant megis yr Unig-anedig oddiwrth y Tad.*" Y cyfieithiad llythyrennol o'r gair Groeg am "Unig-anedig" ydyw "Unig-genedledig," ac ni ddefnyddir y fannod yn y gwreiddiol. Dylid gwahaniaethu'n ofalus rhwng y gair a ddefnyddir yma a'r gair a gyfieithir

15 ¶ Ioan a dystiolaethodd am dáno ef, ac a lefodd, gan ddywedyd, Hwn oedd yr un y dywedais am dano, Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i.

"Cyntaf-anedig." Sonnir am yr Iesu gan amryw awduron yn y Test. Newydd fel "Cyntaf-anedig," ond defnyddir y gair hwnnw'n wastad pan y mae'r ysgrifennydd am gyfeirio ato fel y cyntaf o lawer, megys "y Cyntaf-anedig o'r meirw," a'r "Cyntaf-anedig ym mhlith brodyr lawer"; h.y., fel rhagflaenydd mawr pawb o blant dynion. Ond pan sonnir am dano yn bennaf yn Ei berthynas â Duw nid "Cyntaf-anedig" mohono mwyach ond "Unig-anedig." Ac er y defnyddir y gair yn fynych yn y Test. Newydd megys am fab y weddw o Nain (S. Luc vii. 12) ac am ferch Jairus (S. Luc vii. 42), y mae'n nodweddiadol mai'r awdwr hwn yn unig sydd yn defnyddio'r term am ein Harglwydd. Ni ddefnyddir y fannod chwaith o flaen y gair "Tad," ac y mae rhai esbonwyr yn tueddu i gredu mai am unrhyw dad cyffredin a'i blentyn unig-anedig y meddylhai'r awdwr. Ond a chaniatau fod eu barn ar y mater yn gywir, eto mae'n fwy na thebyg fod ei feddwl hefyd yn esgyn oddiwrth y berthynas ddaearol at "*y* Cyntaf-anedig oddiwrth *y* Tad" fry yn y nef. Ac nid y syniad o anwyldeb a geir yma'n unig ond hefyd "anfoniad" fel y dengys y gair a gyfieithir "oddiwrth." Yr oedd "y Cyntaf-anedig oddiwrth y Tad" yn wir-lun person ei Dad, ac yr oedd wedi ymddangos i ddynion i roddi dymuniad neu ewyllys ei Dad mewn gweithrediad.

15. Y mae amryw esbonwyr o'r farn fod y Rhaglith yn gorphen gydag adn. 14, a chorph yr Efengyl yn dechreu gyda'r adnod hon, ond gwell, ni gredwn, ydyw dosraniad yr Esgob Westcott, yr hwn a ddywed fod y Rhaglith yn cynwys y 18 adnod gyntaf.

"*Ioan a dystiolaethodd am dano Ef ac a lefodd.*" Y mae'r ferf gyntaf yn yr amser presennol a'r ail yn yr amser gorphennol, ac ymddengys fod yr Efengylwr yn edrych ar dystiolaeth Ioan fel yn bresennol, ac eto o'r ochr arall fel rhywbeth oedd wedi gorphen ac wedi myned heibio. Yr oedd amcan neilltuol i dystiolaeth Ioan Fedyddiwr, sef dangos yr Iesu i'w wrandawyr ei hun,

ac fe gyrhaeddodd yr amcan hwnnw, oblegid o fysg ei ddisgyblion ef yr enillodd yr Iesu y ddau gyntaf a'i dilynodd. Ond yr oedd tystiolaeth y Bedyddiwr parthed Person a gwaith ein Harglwydd hefyd yn aros o hyd, ac o werth mawr, er ei bod wedi cyrraedd ei hamcan union-gyrchol, oherwydd yr oedd yn dystiolaeth un oedd wedi ei osod mewn sefyllfa eithriadol mewn perthynas â'r Gwaredwr.

"*Hwn oedd yr un y dywedais am dano.*" Yn adn. 30 cawn dystiolaeth y Bedyddiwr eto, ac nid oes fawr o wahaniaeth rhwng y ddau ymadrodd yn y cyfeithiad Cymraeg, ond os edrychwn ar y gwreiddiol ni a welwn ar unwaith mai son y mae'r llefarwr yma am ryw gyfeiriadau cyffredinol yr oedd efe wedi eu gwneud, ond yn adn. 30 cyfeiria at ddywediad neu ddesgrifiad neilltuol. Credwn ei fod wedi llefaru'r geiriau sydd yn dilyn lawer gwaith cyn iddo dderbyn y sicrwydd cyflawn a gafodd yn y Bedydd, ac mai adroddiad o'r hyn a ddywedodd wedi'r Bedydd a geir yma.

"*Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i.*" Diameu mai "ar fy ol i" o ran amser, o ran Ei ymddanghosiad a'i waith, a olygir yma.

"*A aeth o'm blaen i.*" Myn'rhai mai at amser hefyd y cyfeirir yn y frawddeg hon, a dadleuir nad yw'r gair a gyfieithir yma'n air priodol am "ddyfod," ond y golyga yn hytrach "sydd yn bod," neu "sydd wedi dyfod i fod o'm blaen i." Yn ol yr esbonwyr hyn gelwir sylw yma at ymddanghosiadau blaenorol y Gair cyn yr Ymgnawdoliad. Ond credwn, hyd yn oed pan gyfieithir "a ddaeth i fod o'm blaen i." nad yw'r ymadrodd o angenrheidrwydd yn golygu dim mwy na bod y Messiah, pan ymddanghosodd, ar unwaith wedi cymeryd y lle blaenaf, gan mai paratoawl yn unig ydoedd gweinidogaeth y rhagredegydd i fod. Cadarnheir hyn hefyd gan y frawddeg sydd yn dilyn.

"*Canys yr oedd Efe o'm blaen i.*" Sylwer y defnyddir y radd uchaf yma yn y gwreiddiol ac nid y cymharol fel y gellid disgwyl. Nid oes dim son yma am gymharu o gwbl; yr oedd yr Hwn "a aeth o'm blaen i" uwchlaw cymhariaeth. Rhaid mai at gynhanfodiad y Gair y cyfeirir, oblegid yr "oedd" Efe erioed. Yr oedd yr Efengylwr wedi bod yn ceisio egluro a dysgu'r athraw-

16 Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras.

---

iaeth, ac y mae am i'w ddarllenwyr ddeall fod y Bedyddiwr wedi bod wrth yr un gwaith ac wedi dwyn yr un dystiolaeth flynyddoedd lawer o'i flaen ef. Ond myn rhai esbonwyr ei bod yn amhosibl fod Ioan wedi dwyn y fath dystiolaeth, ac mai'r hyn a gawn yma ydyw ymdrech yr awdwr i wneud i'r Bedyddiwr gyfleu ei syniadau ef ei hun. Gwelir ar unwaith oddiwrth yr wrthddadl hon fod y cyfryw esbonwyr yn coleddu syniadau pur eithafol parthed natur Ysbrydoliaeth yn gyffredinol. Ond ar wahan i hynny rhaid eu bod wedi dyfod i'r penderfyniad uchod heb roddi ystyriaeth briodol i'r cysylltiadau hanesyddol, ac wedi cael eu camarwain o bosibl gan orfanylrwydd mewn egluro geiriau. Yr oedd y Bedyddiwr, rhaid cofio, yn fab i offeiriad ac yn ddiameu'n gyfarwydd â holl lenyddiaeth Hebreig ei oes; yr oedd hefyd wedi treulio blynyddoedd lawer o'i oes mewn unigrwydd yn y diffaethwch, gan fyfyrio ar natur ac ystyr y gwaith yr oedd yn ymwybodol ei fod wedi ei alw i'w gyflawni. Yr oedd yr Hwn yr oedd efe i baratoi'r ffordd o'i flaen yn rhywun mawr, ac nid anaturiol oedd iddo ofyn iddo'i hun beth oedd sail y mawredd. Ac yn ddiweddaf fe'n sicrheir gan dystiolaeth arall o eiddo'r Bedyddiwr (adn. 33) ei fod wedi derbyn gwybodaeth yn nghylch yr Hwn oedd i ddyfod i fedyddio â'r Ysbryd Glan yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. Pan roddir y cwbl at eu gilydd yr ydym yn methu gweled ei bod mor amhosibl iddo feddu rhyw syniad fod yr Hwn oedd yn dyfod yn feddiannol ar fywyd uwch a helaethach nag a feddai ef ei hun. Pa un a oedd efe wedi gweithio allan y meddylddrych gyda manylder athronydd sydd gwestiwn arall hollol. Credwn na wnaeth unrhyw ymdrech i roddi deffiniad o berthynas yr Hwn oedd i ddyfod â'r Tad, oherwydd pan soniodd yr Iesu am Ei berthynas â'r Tad derbyniwyd yr haeriad, (fel yr ystyrient hwy ef), fel rhywbeth hollol newydd.

16. "*Ac o'i gyflawnder Ef.*" Myn rhai gysylltu'r adnod hon â'r adnod flaenorol, ond credwn mai gwell yw edrych ar y cysylltair fel yn ei huno âg adn. 14.

"llawn gras a gwirionedd ac o'i gyflawnder Ef." Os felly, rhaid deall fod tystiolaeth y Bedyddiwr a geir yn adn. 15 wedi ei rhoddi i mewn megys mewn cromfachau. Wrth reswm nid yw hyn yn gwneyd i ffwrdd â'r ffaith fod tystiolaeth y Bedyddiwr wedi ei rhoddi er profi mawredd a dwyfoldeb yr Iesu. Dywed rhai ym mhellach mai nid "ac" y dylid cyfieithu y gair ond "canys" neu "oherwydd," ac y mae hyn yn gwneud y cysylltiad yn agosach fyth. Yr oedd i'r term hwn "cyflawnder" ystyr neilltuol yn niwinyddiaeth yr oes, ac yr oedd mewn arferiad helaeth. Wrth "gyflawnder" y golygid cyfanswm y priodoleddau dwyfol, yr ystor ddiddiwedd o nerth, o wirionedd, ac o ddaioni a fodolai yn y natur ddwyfol. Dyma'r ffynhonnell ddihysbydd o ba un yr oedd cymaint o'r cyfryw ag a welid mewn gweithrediad yn y byd wedi tarddu. Y mae llawer o ysgrifenwyr y cyfnod yn siarad am y "cyflawnder" mawr hwn mewn iaith sydd yn peri i ni feddwl eu bod yn synied am dano fel rhywbeth materol a gweledig. Y mae rhywbeth hynod anysbrydol yn yr holl athrawiaeth. Ond fel llawer o athrawiaethau niwlog ac aneglur dysgawdwyr paganaidd cymerwyd yr athrawiaeth i fyny gan ysgrifenwyr Cristionogol (megys yr Efengylwr hwn a'r Apostol Paul), ac ysbrydolwyd hi. I feddwl y Cristion daeth yn athrawiaeth grefyddol o bwys ymarferol ac nid yn syniad athronyddol megys cynt.

"*Y derbyniasom ni oll.*" Yr oedd y ffaith ein bod "ni oll" wedi derbyn yn brawf o'r "cyflawnder" anherfynol at ba un y cyfeiriwyd. Derbynia'r Cristion oddiwrth Grist, megys o ffynnon ddihysbydd, bobpeth y mae arno angen am dano. Ac nid yw anghenion pob Cristion unrhyw anghenion, ond y maent oll yn derbyn.

"*A gras am ras.*" Y mae'n anhawdd penderfynu i sicrwydd beth yw ystyr yr ymadrodd hwn. Yr hen syniad oedd fod y "gras" a gollwyd ym mherson Adda gynt yn Eden draw wedi cael ei adennill a mwy ym Mherson yr Iesu. Mynnai ereill drachefn mai cyfeiriad sydd yma at y "gras" a roddwyd yn y cyfnod Cristionogol yn rhinwedd yr Ymgnawdoliad o'i gymharu â'r modd y cyfranwyd y rhinweddau dwyfol adeg yr Hen Oruchwyliaeth. Ond diameu mai gwell yw rhoddi o'r neilltu y ddau eglurhad hanesyddol hyn, a chredu fod y

17 Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist.

---

cyfeiriad, beth bynnag ydyw, at ryw oruchwyliaeth bresennol ym mywyd y Cristion. Rhodd a rhad rodd ydyw'r gras, ond yr athrawiaeth Gristionogol ydyw fod y derbyniad yn wirfoddol ar ran y Cristion. Felly gellir dweud fod y Cristion sydd eisoes wedi derbyn un "gras" ac felly wedi ymbaratoi ar gyfer derbyn gras ychwanegol, yn derbyn "gras am ras" pan dderbynia'r ail rodd. Myn ereill gyfieithu "gras ar gyfer gras" neu "gras yn cyfateb i ras," a dywedant mai'r hyn a olygir ydyw fod y Cristion yn derbyn "gras" iddo'i hun sydd yn cyfateb i bob "gras" sydd yn ei gyflawnder ym Mherson ein Harglwydd; h.y., rhyw gyfran o bob "gras" yn union fel y mae angen arno. Gellir cymhwyso'r syniad hwn hefyd nid yn unig at amrywiol anghenion pob Cristion unigol ond at holl gorph Eglwys Crist gyda'i haelodau aneirif. Y maent oll wedi derbyn, ac y mae ym Mherson yr Iesu gyflawnder digonol i gyfleuwi eu holl anghenion. Felly y mae corph yr Eglwys yn cyfranogi o holl adnoddau ei Phen Mawr, a gellir dweud ei bod yn derbyn "gras am ras."

17. "*Canys y gyfraith a ddaeth trwy Moses.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg "trwy" braidd yn fwy cywir na'r Saesneg yma. Nid Moses a roddodd y gyfraith, ond efe oedd yr offeryn trwy ba un y trosglwyddwyd hi i ddynion. Yma cyferbynnir y ddeddf a'r Efengyl, a gwelwn ar unwaith fod yr awdwr yn coleddu syniadau pur debyg i'r rhai a gawn yn Epistolau S. Paul mewn perthynas i'r cwestiwn. Yr oedd y ddeddf yn allanol ac wedi ei hordeinio ar gyfer pwrpas neilltuol. Sylwer y sonnir yma am y "gyfraith" yn cael ei "rhoddi," ond am y "gras a'r gwirionedd" yn "dyfod." Nid oedd y ddeddf ond goruchwyliaeth i barhau dros amser, ond yr oedd yr Efengyl yn rhan hanfodol o'r drefn ddwyfol, yn dyfod yn ei phryd ac i barhau dros byth. Diameu fod yma hefyd gyferbyniad rhwng y "gyfraith" a'r "gras a'r gwirionedd" fel dylanwadau ysbrydol. Yr oedd y ddeddf yn arddanghosiad allanol o gyfiawnder, tra yr oedd gras yn brawf mewnol o'r cariad dwyfol. "Cosbi" oedd term mwyaf nodweddiadol y gyfraith, ond caru a chadw oedd *hall-marks* yr Efengyl.

18 Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd *ef*.

"*Y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist.*" Sylwer y defnyddir y fannod yma o flaen "gras" a "gwirionedd"; nid felly yn adn. 14. Aralleiriad ydynt yma'n ddidadl am holl drefn yr Efengyl a "ddaeth trwy Iesu Grist." Ac y mae pob un o'r ddau derm yn briodol iawn yn y cysylltiad oherwydd y maent ill dau yn dwyn i'r amlwg nodweddion gwahaniaethol yr Efengyl. Y mae'r "gwirionedd" a ddaeth trwy Iesu Grist yn gyferbyniol i'r aneirif gysgodau oeddynt eisoes wedi dyfod. Cyfeirio at y "gwirionedd" gyda mwy neu lai o eglurder yr ydoedd pobpeth o dan yr hen drefn, ond yn awr y mae'r gwirionedd ei hun wedi ei ddadlennu; nid cysgod mwy ond sylwedd, oblegid ymddengys pethau o hyn allan "megys ag y maent." Drachefn y mae'n briodol iawn siarad am yr "Efengyl" fel "y gras," oherwydd y mae'r term yn foddion i egluro ei tharddiad. Rhad rodd Duw yw hi a'r prawf amlycaf o'i gariad anfeidrol. Noder hefyd mai dyma'r tro cyntaf y mae'r awdwr yn defnyddio'r enw cyflawn "Iesu Grist." Rhydd yma Iddo Ei ddau Enw sydd yn Ei ddwyn i'r berthynas agosaf â'r ddynoliaeth. Fel yr "Iesu," enw digon cyfarwydd, yr oedd yn un o blant dynion, ac fel y "Crist" yr oedd yn sylweddoliad mawr gobeithion cenedlaethol yr Iddewon, ac mewn ystyr uwch yn "Eneiniog yr Arglwydd"—i fod yn frenin yr holl fyd. (Cymharer "gyda'i fab Ef Iesu Grist," I. S. Ioan i. 3).

18. Yn yr adnod hon â'r awdwr ymlaen i gyfeirio eto at ddwyfoldeb yr Hwn oedd newydd ei alw yn Iesu Grist. Tebyg mai'r un peth olygir wrth wybodaeth o'r gwirionedd a geir trwy Iesu Grist yn ol adn. 17, a'r "gweled Duw," yr hyn yn ol yr adnod hon sydd yn amhosibl ond trwy hysbysiad Ei unig-anedig Fab o hono.

"*Ni welodd neb Dduw erioed.*" Ni olygir yma nad oedd neb wedi "gweled Duw" yn Ei waith, canys yr oedd yr holl ddynoliaeth wedi gweled Ei greadigaeth; ac ni olygir chwaith nad oedd neb o brophwydi a duwiolion Israel wedi derbyn gweledigaethau o Dduw. Y mae gweled Duw fel yr hysbysir Ef gan y Mab yn rhywbeth uwch o lawer. Y mae'n ddatguddiad o'r natur ddwyfol

ei hunan. O bosibl hefyd dylid pwysleisio'r gair a gyfieithir yma "gwelir," ac yna y mae'r ymadrodd yn brawf o'r amhosibilrwydd o ddyfod i wybodaeth o Dduw ar lwybr natur. O ran Ei hanfod y mae Duw yn "wrthrych" datguddiad ac nid darganfyddiad. Hefyd, os am fanylu, gellir cyfieithu'r geiriau, "Ni welodd neb Dduw erioed eto." Nid y Tad a olygir ond Duw, oblegid ni cheir y fannod o'i flaen.

"*Yr unig-anedig Fab.*" Y mae amryw o ysgrif-lyfrau pwysig yn rhoddi y darlleniad "yr unig-anedig Dduw," ac y mae amryw o'n hysgolheigion mwyaf gofalus yn derbyn y darlleniad. Ond pa ddarlleniad bynnag a dderbyniwn nid ydyw'n gwneud fawr o wahaniaeth yn ystyr yr ymadrodd. Yr un yw "yr unig-anedig Dduw" ac "unig-anedig Fab Duw." Y mae pob un o'r ddau ymadrodd yn foddion i gyfleu y gwirionedd angenrheidiol, sef perthynas eithriadol y Mab a'r Tad.

"*Yr Hwn sydd yn mynwes y Tad.*" Y mae'r gair a gyfieithir "yn" yma yn cyfleu dau syniad—sef "gorphwys yn" a "nesu at." Darlun o agosrwydd a chariad a thynerwch daearol a dynol a geir yma, ac er nad yw ond "eiliw gwan" o'r agosrwydd o fodola rhwng y Personau Dwyfol a'u gilydd, eto y mae'r goreu y medrai'r Efengylwr ei gael. Ceir y syniad o "orphwys yn" hefyd yn xiii. 23, lle y dywedir fod un o'r disgyblion yn "gorphwys ar fynwes yr Iesu," h.y., yr agosaf ato bryd bwyd.

"*Hwnnw a'i hysbysodd Ef.*" Ni cheir y gair "Ef" yn y gwreiddiol, ond nid oes yr un anhawster i lanw i fyny'r gwagle gan fod y meddwl yn amlwg. Rhaid i ni ddeall "Hwnnw a'i hysbysodd Ef"—sef Duw, neu ynte Hwnnw a hysbysodd i ddynion y "gwirionedd" am dano neu'r "wybodaeth" o hono. Yr oedd y gair a gyfieithir yma "hysbysodd" mewn cryn arferiad gan yr ysgrifenwyr clasurol. Dyma'r term a ddefnyddir ymron yn ddieithriad pan y sonnir am rai o ddirgeledigaethau'r duwiau yn cael eu hegluro neu eu datguddio. Rhoddodd yr "unig-anedig Fab" yr hysbysiad hwn nid yn unig trwy Ei eiriau, ond hefyd trwy Ei fywyd a'i weithredoedd.

PWYSIGRWYDD YR ADRAN I. 1—18 I'R EGLWYS.

Er fod Eglwys Loegr yn edrych ar holl lyfrau'r Hen Destament a'r Test. Newydd fel yn meddu ar awdurdod

neilltuol mewn perthynas i iachawdwriaeth dyn, eto y mae'n amlwg fod rhai llyfrau sydd yn cynwys mwy o'i hathrawiaethau sylfaenol na'u gilydd. Yn yr ystyr hon y mae'r Efengylau a'r Epistolau o fwy o bwys i'n Heglwys na rhai o lytrau hanesyddol yr Hen Destament gan ei bod yn amlwg fod yr oll o athrawiaethau gwahaniaethol Cristionogol wedi eu sylfaenu arnynt. Dysgir athrawiaethau'r Cread, a Rhagluniaeth, er engraifft, mewn llawer iawn o fannau yn yr Ysgrythyr, ond ni cheir athrawiaethau'r Adenedigaeth, yr Iawn, a'r Adgyfodiad mor gyffredin. Ac y mae'r Efengyl hon drwyddi o bwys neilltuol i aelodau Eglwys Loegr oherwydd ei bod yn ymdrin yn benodol âg amryw o'i phrif athrawiaethau. Ac yn yr adran hon cawn fod un o'r rhai pwysicaf o honynt yn cael ei dysgu'n amlwg, sef "Tragwyddol ddwyfoldeb a Mabolaeth yr Iesu." Sonnir ar y cychwyn am y "Gair" oedd "yn y dechreuad," oedd "gyda Duw," ac oedd "yn Dduw." Os eithriwn yr hanesion hynny a roddir am enedigaeth a babandod ein Harglwydd gwelwn fod trefn yr Efengylwyr ereill braidd yn wahanol Gwir y cawn y llef o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw Fy anwyl Fab," yn ogystal â chyfaddefiad S. Pedr mai Efe oedd "y Crist, Mab y Duw byw." ond graddol, sylwer, ydyw'r datguddiad a rydd yr Iesu o'i ddwyfol anfoniad a'i berthynas â'r Tad. Yn yr Efengyl hon o'r ochr arall cawn yr Iesu ymron o ddechreu Ei weinidogaeth gyhoeddus, (a chawn yr Efengylwr hefyd ar ddechreu ei lyfr), yn siarad gydag awdurdod am yr Hwn a'i hanfonodd, ac yn mynegi'n ddifloesgni ei fod Ef yn ogyfuwch a Duw. Parodd hyn i'r Iddewon oedd yn credu mai "un Duw sydd" arllwys eu holl ddigllonedd ar Ei ben, fel un oedd yn euog o ryfyg anghredadwy. Nid oes raid hysbysu Eglwyswyr fod yr athrawiaeth yn cael ei dysgu'n llawn mor amlwg yn holl gredoau'r Eglwys Lan Gatholig, ond y mae'n bwysig sylweddoli na ddysgir mo honi yn y credoau ond fel y mae wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth anwadadwy'r Ysgrythyr. Ac yn ein hoes ni, pan y mae pob math o eglurhad ac esboniad yn cael ei gynnyg gan teddylwyr penrhydd a haerllug parthed bywyd a tharddiad bywyd yr Iesu, dylem roddi lle mawr yn ein meddyliau a'n myfyrdod i'r sail ysgrythyrol ar ba un y mae'r athrawiaeth gywir wedi ei sylfaenu. Os gwnawn

hynny'n egwyddorol byddwn mewn gwell sefyllfa, a dweud y lleiaf, i bwyso a mesur yn ofalus a theg unrhyw eglurhad newydd a gynygir gan athroniaeth orbarod yr ugeinfed ganrif. Y cwestiwn mawr y dylem ei ofyn bob amser pan gyfarfyddwn y cyfryw wrthwynebiad ydyw, "Os nad oedd yr Iesu yr hyn y dywed yr adran hon Ei fod, pwy ynte ydoedd a beth ydoedd?" Nid ydyw ond teg i geisio atebiad i'r cwestiwn.

TYSTIOLAETH S. IOAN FEDYDDIWR.—I. 19—36.

Yn yr adran hon cawn adroddiad helaethach, a mwy hanesyddol ac agos, o'r dystiolaeth a ddug y Bedyddiwr i fawredd yr Iesu. Gellir casglu oddiwrth yr adroddiad fod y dystiolaeth wedi cael ei rhoddi'n dair rhan ar dri diwrnod dilynol. (a.) Yn adnodau 19—29 cawn ei dystiolaeth ef i'r ddirprwyaeth o offeiriaid a Lefiaid, (y rhai oeddent hefyd Phariseaid, adn. 24), a anfonasid ato gan yr Iddewon o Jerusalem. (b.) Yn adnodau 29—34 ceir ei dystiolaeth i'r bobl oedd yn ei wrandaw'r ail ddiwrnod. (c.) Yn adnodau 35 a 36 ceir ei dystiolaeth gyhoeddus i ddau o'i ddisgyblion y trydydd diwrnod, y rhai wedi ei chlywed a'i gadawsant ef ac a ddilynasant yr Iesu. Y cwestiwn naturiol sydd yn cyfodi pan ddarllennwn y dystiolaeth helaeth hon ydyw, Paham y mae'r awdwr mor ofalus i argraffu ar feddyliau ei ddarllenwyr beth oedd barn y Bedyddiwr am yr Iesu? Y mae helaethrwydd yr adroddiad yn ogystal a'i fanylder yn brofion digonol fod ganddo amcan neilltuol. Yr oedd amryw nid yn unig o'r Iddewon anghrediniol ond hefyd o'i ddisgyblion ef ei hun wedi bod yn bur amheus ai nid efe oedd y Crist. Ac er i'r Bedyddiwr, fel y gwelwn yma, eu hysbysu'n awr ac eilwaith mai nid felly'r ydoedd, y mae'n ymddangos na fu i'r dybiaeth farw ar unwaith. Flynyddoedd ar ol ei ddydd ef, daeth S. Paul o hyd i ddisgyblion nad oeddent yn gwybod dim ond bedydd Ioan; yr oeddent yn llwyr gredu nad oedd dim yn rhagor i'w ddysgu. Ac yr oedd rhywbeth yn awyrgylch y ganrif Gristionogol gyntaf oedd yn ffafrio ymrafaelion o'r natur yna. Ceir profion digonol fod cryn ymbleidio yngylch pwysigrwydd a lle y ddau Apostol S. Pedr a S. Paul. Drachefn yn Eglwys Corinth yr oedd rhai'n

19 ¶ A hon yw tystiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti?

---

honni eu bod yn eiddo Paul, a'r lleill yn eiddo Apolos, ac ereill eto'n eiddo Cephas. Ac os felly, nid anaturiol ydyw tybied fod rhai'n parhau i gredu mai nid Iesu o Nazareth ond Ioan Fedyddiwr oedd y Messiah. Y mae ymdriniaeth fanwl yr awdwr a thystiolaeth y Bedyddiwr yn ymddangos fel pe buasent wedi eu bwriadu i dorri i lawr rhyw wrthddadleuon o'r natur yna.

19. "*A hon yw tystiolaeth Ioan.*" Y mae rhai am roddi diweddeb (*full stop*) ar ol y gair Ioan, ond gwell yn ddiau ydyw edrych ar y geiriau fel rhagarweiniad i'r hanes sydd yn dilyn. Gellir yn rhwydd egluro'r cysylltair "a" fel wedi ei fwriadu i gyfeirio'r meddwl at y crybwylliad a gafwyd eisoes at dystiolaeth y Bedyddiwr yn adnodau 6 a 15. Rhoddwyd y dystiolaeth o'r blaen yn ei ffurf gyffredinol, ond yma rhoddir hi yn y ffurf neilltuol a ddefnyddiwyd gan y Bedyddiwr ar adeg benodol.

"*Yr Iddewon.*" Ymddengys oddiwrth yr hyn sydd yn dilyn (adn. 24) mai'r blaid Pharisaidd a olygir yn bennaf wrth "yr Iddewon" yma. Hwy oedd yn proffesu bod yn geidwaid purdeb y grefydd Iddewig, ac nid oedd ond naturiol disgwyl eu bod hwy'n fwy parod i wneud ymchwiliad ynghylch dyfodiad y Messiah na neb arall.

"*Offeiriaid a Lefiaid.*" Yr oedd y ddau ddosbarth hwn yn cynrychioli bywyd eglwysig y genedl, ac y mae'n nodweddiadol o'r awdwr ei fod yn gwahaniaethu rhyngddynt. Dengys ei wybodaeth drwyadl o gymdeithas Iddewig yn nyddiau'r Iesu.

"*Pwy wyt ti?*" Yn ol barn unfrydol esbonwyr y mae'r pwyslais i gael ei roddi ar y gair "*ti*." Yr oedd Ioan yn ddigon enwog erbyn hyn iddynt wybod pwy ydoedd, ac yr oedd yr "offeiriaid a'r Lefiaid" yn methu gweled ei bod yn bosibl mai efe ydoedd y Messiah gan fod tystiolaeth unfrydol prophwydoliaeth yn profi mai o lwyth Judah yr oedd y gwaredwr cenedlaethol i ddod, tra'r hannai Ioan, fel mab i offeiriad, o lwyth Lefi.

20 Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd; a chyffesodd, Nid myfi yw y Crist.

21 A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nag ê. Ai y Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nag ê.

---

20. "*Efe a gyffesodd ac ni wadodd.*" Y mae ail-adrodd y gwirionedd a grybwyllwyd eisoes mewn ffurf nacaol fel hyn yn nodweddiadol o arddull lenyddol yr awdwr.

"*A chyffesodd.*" Ail-adroddir mae'n debyg er dodi pwyslais ychwanegol ar y ffaith. Y mae'n brawf o awydd yr awdwr i argyhoeddi ei ganlynwyr.

"*Nid myfi yw y Crist.*" Dyma'r atebiad, sylwer, a roddir i'r cwestiwn "Pwy wyt ti?" ac y mae'n rhaid cyfaddef nad yw'n atebiad o gwbl. Ni soniodd yr "offeiriaid a'r Lefiaid" yr un gair yn eu cwestiwn am y "Crist," ond y mae'n amlwg fod y Bedyddiwr yn meddu ar ryw gymaint o allu rhyfedd ei Ganlynwr mawr i ddarllen meddyliau. Gwyddai nad oedd prif bwnc ymchwiliad y ddirprwyaeth wedi ei arddangos yn eu cwestiwn. Amcana felly roddi boddhad i'w meddyliau'n hytrach na rhoddi atebiad i'w geiriau. Rhoddir atebiad felly, fel y dywed yr Esgob Westcott, i ysbryd y cwestiwn ond nid i'w lythyren.

21. Y maent yn gofyn o ganlyniad gwestiwn naturiol oedd yn tarddu oddiar ei atebiad.

"*Ai Elias wyt ti?*" Y mae'n amlwg fod y negeswyr hyn, fel y gellid disgwyl, yn hollol gyfarwydd â'r prophwydoliaethau. Gwyddent am y rhag-ddywediad yn Mal. iv. 5 fod Elias eto i ddod, ac yr oeddent wedi arfer disgwyl am i Elias y Thesbiad ymddangos megys yn y dyddiau gynt. O bosibl hefyd yr oedd ymddanghosiad allanol Ioan, yn enwedig ei wisg arw, yn ffafrio'r syniad hwnnw.

"*Yntau a ddywedodd, Nage.*" Ac eto, yn S. Mathew xvii. 10—13, cawn ein Harglwydd Ei Hun yn dweud mai Elias ydoedd Ioan Fedyddiwr. Pa fodd y mae cysoni'r ddau ddywediad? Yr unig eglurhad ellir ei roddi ydyw fod yr Iesu'n siarad am y Bedyddiwr yn dyfod "yn ysbryd a nerth Elias,"—yn meddu ar ei sel danllyd a'i ysbryd eofn, tra y gwyddai Ioan fod y rhai oedd yn ei

22 Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun?

23 Eb efe, Myfi *yw* llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd, fel y dywedodd Esaias y prophwyd.

---

holi'n edrych am gyflawniad mwy llythyrennol o'r brophwydoliaeth.

"*I prophwyd.*" Credwn fod y fannod yma'n bwysleisiol, ac mai meddwl yr oeddent am y prophwyd dienw hwnnw yr oedd yr Arglwydd, yn Deut. xviii. 15, wedi addaw ei godi iddynt, ar yr hwn yr oeddent i "wrandaw." I hyn drachefn atebodd y Bedyddiwr yn nacaol, ac yn ol y gwreiddiol braidd yn fwy swta nag o'r blaen.

22. Wedi methu a chael allan pwy ydoedd hyd yma, y maent eto'n ail-ofyn eu cwestiwn gwreiddiol. Ac y mae'r gair gyfieithir "yna" yn arddangos eu rheswm, golyga nid "ar ol hynny" ond "gan hynny," neu "oherwydd hynny." Gan iddo ddweud mai efe oedd y Crist, nac Elias, na'r prophwyd, gofynnant eto pwy gan hynny ydoedd.

23. "*Myfi yw llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch.*" Dyfyniad a rydd efe fel atebiad wedi ei gymeryd o Esaiah xl. 3, a chawn y cymhwysir y brophwydoliaeth hon at y Bedyddiwr gan yr Efengylwyr ereill, pan yn adrodd ei hanes (S. Matt. iii. 3, &c.). Mae'n debyg fod cyferbyniad rhwng y "llef" i ba un y cyffelyba Ioan Fedyddiwr ei hun, a'r Gair am ba un y soniwyd cymaint eisoes yn yr Efengyl. Cyfeiriad sydd yn yr ymadrodd gwreiddiol, mae'n debyg, at yr arferiad dwyreiniol o anfon negesydd i "lefain" fod y brenin yn dyfod. Nis gellir penderfynu i sicrwydd pa un a ddylid cysylltu'r geiriau "yn y diffaethwch" â'r "llef yn gwaeddi," neu ynte âg "unioni'r ffordd." Yn Hebraeg Esaiah cysylltir hwy â'r olaf, ac y mae'r meddwl cyfarwydd â helyntion cenedl Israel yn naturiol yn myned yn ol at daith fuddugoliaethus y genedl o'r Aipht i Ganaan. Nis gellir dweud i sicrwydd chwaith pa un a edrychid gan yr Efengylwyr ar eiriau Esaiah fel rhagddywediad am Ioan Fedyddiwr yn neilltuol ai peidio. Dichon na wnaethant

24 A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid.
25 A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hynny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Crist, nac Elïas, na'r prophwyd?
26 Ioan a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Myfi sydd yn bedyddio â dwfr; ond y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi:

---

ond cyfaddasu prophwydoliaeth i ba un yr ymddangosai efe i gyfateb, mwy neu lai.

24. "*A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid.*" Yn ol y darllen'ad a geir yn y llawysgrifau hynaf dylid cyfieithu—"a hwy a anfonasid oddiwrth y Phariseaid." Yn wir y mae rhai wedi myned mor bell a chredu fod y geiriau'n cyfeirio at ail ddirprwyaeth, ond nid oes unrhyw sail ramadegol i hyn. Fel y cyfeiriwyd eisoes, (ar adn. 19), yr oedd y blaid hon yn dwyn mawr sel dros y gobeithion cenedlaethol oedd wedi canolbwyntio yn y Messiah addawedig. Yr oedd y sect hefyd yn fawr ei gofal am bob ffurf o buredigaeth, ac yr oedd "bedydd" Ioan fel y gwelir (adn. 25) o ddyddordeb neilltuol iddynt. Yr oedd arnynt eisiau deall ei awdurdod a'i amcan.

25. Wedi clywed ei atebion y maent yn awr yn prysuro i'w gondemnio am ei ryfyg os na all ddangos rhyw awdurdod tebyg i'r un y cyfeiriasant atti.

"*Paham gan hynny yr wyt ti'n bedyddio?*" Yr oedd rhagddywediadau yn yr Hen Destament, yn enwedig Ezec. xxxvi. 25, a Zech. xiii. 3, y byddai rhyw fath o fedydd cyffredinol mewn cysylltiad â dyfodiad teyrnas y Messiah, ac nid yw'n anhebyg fod y gwŷr hyn yn gyfarwydd â'r ddefod fel un a arferid pan dderbynnid proselytiaid Cenhedlig i fewn i gylch cysegredig cenedl yr Iddewon. Ond gan nad oedd efe yn honni mai efe ydoedd y Messiah, nac ychwaith ei fod yn ddiwygiwr mawr cenedlaethol, yr oeddent yn methu gweled ar ba sail yr oedd yn ymroddi i "fedyddio" neb.

26. "*Myfi sydd yn bedyddio â dwfr.*" Y mae'r cyferbyniad gwirioneddol i'w wneud nid rhwng y Bedyddiwr a Christ, ond rhyngddo ef a'r Phariseaid. Yr oedd efe wedi canfod ac adnabod yr Hwn oedd yn "sefyll" yno, ac wedi ymgymeryd o ganlyniad â'r moddion priodol i baratoi'r bobl ar Ei gyfer, tra nad oeddent hwy'n ym-

27 Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, yr hwn a aeth o'm blaen i; yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddattod carrai ei esgid.

28 Y pethau hyn a wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio.

---

wybodol o gwbl o'i bresenoldeb. Felly sail ei fedydd ef oedd dyfodiad y Crist ac nid dim arall; nid oedd unrhyw bwysigrwydd ynddo ar wahan i'r pwrpas a grybwyllwyd.

"*Ond y mae un.*" Mae'n bur debyg y dylem yn unol â'r darlleniad cywiraf adael allan y cysylltair "ond," a dechreu'r frawddeg gyda'r geiriau "yn eich plith chwi saif un." Mae'n bosibl hefyd fod y gair "sefyll" yma wedi ei olygu i gyfleu syniad priodol am gadernid sefyllfa urddasol ac ansyfladwy'r Messiah.

27. Y mae dechreu'r adnod hon bron yn ail-adroddiad llythyrennol o adn. 15, ac y mae'n bur debyg y dylid gadael allan yma "a aeth o'm blaen i" gan mai wedi eu copio y mae'r geiriau i ddechreu o'r adnod honno gan ryw ysgrifennydd diofal. Dylid darllen o ganlyniad "Hwn yw'r un sydd yn dyfod ar fy ol i."

"*Yr hwn nid wyf fi deilwng i ddatod carrai Ei esgid.*" Wrth reswm nid esgid fel a wisgir gennym ni a olygir ond sandalau'r dwyrain, y rhai oeddent yn gyfansoddedig o wadn yn unig a charrai i'w rhwymo am y troed. Yr oedd tynnu'r sandalau hyn mewn gwlad boeth a llychlyd yn wir anghenrheidiol er golchi'r traed yn fynych, fel y gwelwn yn hanes yr Iesu a'i ddisgyblion. Sicrheir ni ym mhellach mai gorchwyl y gweision iselaf yn y tŷ oedd datod y cyfryw sandalau, ac y mae'r Bedyddiwr o ganlyniad yn defnyddio'r ymadrodd fel darlun priodol i ddangos pa mor fychan a distadl oedd efe o'i gymharu â'r Hwn oedd yn sefyll yno. Ond er rhagored ei ddesgrifiad o fawredd yr Iesu, ni ymddengys Ei fod wedi llwyddo i godi unrhyw awydd yn y dirprwywyr hyn am ei weled a'i adnabod. Ymddengys eu bod wedi dychwelyd yn bur ddidaro at y rhai a'u hanfonasent.

28. "*Bethabara.*" Hen lygriad mae'n ymddangos ydyw'r enw hwn o'r enw priodol "Bethania," ond yr oedd wedi ei dderbyn fel y darlleniad cywir erbyn dyddiau Origen, ac yr oedd y gwr hwnnw am ddweud mai dyma ddylid ddarllen, oherwydd nad oedd yn ei oes ef

29 ¶ Trannoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod atto; ac *efe* a ddywedodd, Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd.

30 Hwn yw efe am yr hwn y dywedais i, Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i.

---

unrhyw le'n dwyn yr enw Bethania'n agos i'r fangre y tybygid fod y Bedyddiwr wedi bod yn gweinidogaethu ynddi. Ond yn wyneb tystiolaeth tair o'r llawysgrifau hynaf a phwysicaf nis gallwn lai na derbyn y darlleniad "Bethania." Wrth reswm nid y Bethania oedd wrth droed mynydd yr Olewydd, cartref Mair a Martha, a olygir ond dinas yn nhalaeth Perea yn uwch i fyny ar lan yr Iorddonen. Os yw'r esbonwyr hynny'n iawn sydd yn maentumio mai ystyr yr enw Bethania ydyw "Tŷ'r bad," yna rhaid mai enw ydoedd ar ryw rydle lle y croesid yr Iorddonen.

Tystiolaeth Ioan i'r Bobl.—Adn. 29—34.

29. "*Trannoeth.*" Y diwrnod nesaf, mae'n debyg, ar ol dyfodiad y ddirprwyaeth o Jerusalem. Rhaid fod yr Iesu wedi dychwelyd at Ioan a'i ddisgyblion drachefn ar ol Ei demtiad yn yr anialwch, ac nid oedd ond priodol i'w ragredegydd wneud y cyfryw gyhoeddiad ag sydd yn dilyn pan oedd yr Iesu ar ddechreu Ei yrfa. Y tebygolrwydd yw mai dyfod yr oedd yr Iesu ymhlith y dyrfa oedd yn ymgynull fel arfer, a bod y Bedyddiwr wedi cymeryd y cyfleustra hwnnw i alw sylw pawb o'i wrandawyr ato.

"*Wele Oen Duw.*" Y mae'r gair "Wele" yn wir effeithiol. "Y mae yn eich mysg," fel pe dywedai, "gwelwch Ef." Ond paham y cyfeiriodd at yr Iesu o dan yr enw hwnnw, a beth a olygai wrtho? Y mae gwahaniaeth barn dirfawr ymhlith esbonwyr ar bob un o'r ddau gwestiwn. Myn rhai mai'r olwg addfwyn a diniwed oedd ar yr Iesu a barodd iddo drachefn ddyfynnu o brophwydoliaeth Esaiah o'r hon yr oedd yn barod wedi cael darlun priodol i'w ddesgrifio ei hun (adn. 23). Myn ereill mai "Oen y Pasg" a barodd iddo gyfeirio ato felly, ac y mae rhywun wedi bod mor gywrain a dwyn ymlaen y dybiaeth, gan fod y Pasg yn agos, fod yn rhaid fod y

Bedyddiwr yn gweled yn ddyddiol wŷn lawer yn cael eu gyrru i Jerusalem i'w gwerthu yno fel ebyrth. Gallasai un o'r tri darlun hyn beri iddo ddefnyddio'r ymadrodd er desgrifio'r Iesu, pe na buasai ond yn dweud mai "Oen" ydoedd. Nid dyna ddywed, modd bynag, ond "Oen Duw," ac yn ol rheolau gramadeg rhaid y golygir "Oen o eiddo Duw" neu "a ddarparwyd gan Dduw." Felly cyn y gallwn ddyfod i unrhyw benderfyniad paham y defnyddiodd yr ymadrodd rhaid gwybod beth a olygai wrtho. Ai dyfyniad yn unig ydyw'r geiriau heb feddu ond cyfatebiaeth gyffredinol i'r gwrthrych at ba un eu cymhwysir, neu ynte a ydoedd yr hwn a'u llefarodd wedi plymio i ddyfnderoedd hunan-ymwadiad a hunan-aberth yr Iesu? Pan gofiwn fod S. Ioan Fedyddiwr yn brophwyd, ac yn derbyn datguddiad uniongyrchol oddiwrth Dduw, nid oes dim yn amhosibl yn y syniad ei fod ar hyn o bryd wedi derbyn gweledigaeth gyflawn o neges fawr yr Iesu'n y byd. Ond rhaid mai rhyw uchafbwynt a gyrhaeddodd unwaith neu ddwy ydoedd, oherwydd cawn fod ei weledigaeth wedi tywyllu gryn lawer wedi hyn, pan geisiai sicrwydd gan yr Iesu ai Efe oedd y Crist ai nage. Ond os nad oedd wedi derbyn y cyfryw ddatguddiad, pa le y mae priodoldeb y rhan arall o'r adnod mewn perthynas i'r Iesu? Rhaid y cawn yma hen brophwydoliaeth, a hen ddefod genedlaethol yn ogystal a datguddiad presennol a arweiniai feddwl y Bedyddiwr ysbrydoledig at y Gwr oedd i fod yn wir gyflawniad a sylweddoliad pob un o'r ddwy. Ond ar yr un pryd fe ddichon mai dim ond darlun cyffredinol yn unig a welodd, ac na ddeallodd, er godidocced y weledigaeth, ei holl fanylion. Nid ydyw'n angenrheidiol i ni gredu fod Ioan yn deall ar unwaith pa fodd yr oedd yr "Oen" hwn i gyflawni'r hyn a ragddywedodd am dano.

"*Yr hwn sydd yn tynnu ymaith.*" Gall y gair a gyfieithir "tynnu ymaith" olygu "dwyn" neu "gymeryd arno Ei Hun," neu "ddwyn ymaith" fel yn y cyfieithiad Cymraeg, ond nid yw o fawr bwys ymarferol pa un a ddefnyddiwn yma. Yn hanes yr Iesu'n ogystal a'r "oen a arweiniwyd i'r lladdfa" ym mhrophwydoliaeth Esaiah yr oedd dwyn ymaith bechodau'r bobl yn golygu eu cymeryd arno ei hun. Y mae'n ymddangos fod gair o'r un ystyr yn hollol yn yr Hebraeg, yn golygu'r naill beth

31 Ac myfi nid adwaenwn ef: eithr fel yr amlygid ef i Israel, i hynny y deuthum i, gan fedyddio â dwfr.

---

a'r llall,—"cymeryd arno," neu "gymeryd ymaith." Sylwer ymhellach fod y ferf yn yr amser presennol yn arwyddocau fod y gwaith wedi ei ddechreu ac i'w barhau.

"*Pechodau'r byd.*" Nid "pechodau'r byd" a geir yn y gwreiddiol ond "pechod y byd." Ac y mae "pechod y byd" o angenrheidrwydd yn fwy na "pechodau'r byd." Pechod ydyw'r egwyddor fawr gyffredinol sydd yn cyfrif am bob pechod unigol. Oddiwrth y pechod hwn y tardda "pechodau." Ac felly wrth dynnu ymaith bechod y byd sicrheir ni hefyd y symudir yr un pryd ei holl effeithiol amrywiol ac unigol. Sylwer hefyd nad ydyw'r Bedyddiwr am gyfyngu'r oruchwyliaeth hon i'w genedl ei hun. Son sydd yma nid am bechod Israel megys cynt, ond am bechod y byd. Rhaid felly ei fod yn rhagweled ymestyniad teyrnas Crist o'r tu allan i'r hen derfynau, ac yn edrych arno nid fel Iachawdwr cenedl ond fel Gwaredwr byd. Os gofynnir pa fodd y daeth y Bedyddiwr i feddu'r syniad hwn, na chredwyd mohono gan fwyafrif canlynwyr yr Iesu Ei Hun am flynyddoedd lawer, nis gallwn ond cyfeirio'r darllennydd at yr hyn a ddywedwyd eisoes ar y rhan gyntaf o'r adnod. Myn ysgrifenwyr eithafol wrth gwrs ddianc rhag yr anhawster trwy ddweud na lefarodd y Bedyddiwr mo'r geiriau hyn o gwbl, ac mai'r Efengylwr a'u dododd i mewn, fel ar adegau ereill (adn. 16), ond y mae'n amhosibl dderbyn y gyfryw dybiaeth. Credwn hefyd yn gydwybodol fod y geiriau hyn yn ymddangos yn llawn mor ddieithr i wrandawyr y Bedyddiwr ag yr ymddang hosant i ni'n awr pan feddyliwn am dano yn eu llafaru. Cofier yn wastad mai ar ol iddo fedyddio'r Iesu, a derbyn yn ystod y bedydd hwnnw gyflawniad o'r datguddiad a gawsai oddiwrth Dduw, y llefarodd y geiriau hyn. A phwy all ddweud pa ddirgeledigaethau a eglurwyd iddo pan welodd yr Ysbryd yn disgyn megys colomen, a phan yr oedd yr Hwn nad oedd ganddo unrhyw bechod i'w gyffesu, yno'n cymeryd Ei fedyddio er "cyflawni pob cyfiawnder."

31. "*A myfi nid adwaenwn Ef.*" Y mae'r "myfi" yma'n bwysleisiol; nid oedd hyd yn oed Ioan, oedd wedi

32 Ac Ioan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr Yspryd yn disgyn megis colommen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef.

---

ei ddewis i gyflawni gwaith mor bwysig mewn cysylltiad a'i ddyfodiad, yn Ei adnabod ar y dechreu. Prin y ceir sicrwydd digonol fod y Bedyddiwr yn adnabod yr Iesu cyn Ei fedydd, ond, hyd yn oed pe byddai gennym y cyfryw sicrwydd, ni fyddai'r ymadrodd hwn yn gwrthddweyd hynny. Golygir yma nid adnabyddiaeth bersonol,—gwybod Ei Enw a phwy oedd Ei deulu,—ond gallu i ganfod Ei fawredd.

"*Fel yr amlygid Ef i Israel.*" Rhydd yma amcan ei fedydd yn fwy amlwg nag yn adn. 26, er fod y meddwl yr un i raddau. Er Ei "amlygu" yr oedd Ioan (1.) i barotoi'r bobl ar gyfer Ei ddyfodiad trwy eu hannog i edifeirwch; (2) i'w ddangos yn weledig i'r bobl a'u hysbysu pwy ydoedd mewn gwirionedd. Y term "Israel," sylwer, a ddefnyddir yn wastad pan yn siarad am y genedl mewn ystyr grefyddol, fel corph o bobl oedd yn meddu rhagorfreintiau ysbrydol eithriadol.

32. "*Mi a welais.*" Nid am foment neu ar amrantiad a olygir; y mae'r ferf yn yr amser perffaith ac felly'n arddangos edrychiad parhaol. Yr oedd wedi cael y fraint, fel pe dywedai, o syllu ar y weledigaeth.

"*Yr Ysbryd yn disgyn megis colomen o'r nef ac Efe a arhosodd arno Ef.*" Y mae'n anhawdd penderfynu pa un ai gweledigaeth ysbrydol yn unig a olygir yma ai peidio, ond y mae symlrwydd yr iaith, (a hynny yn y pedair Efengyl), yn myned ymhell i brofi fod yma weledigaeth i'r llygad hefyd yn ogystal ag i'r meddwl. Ond nid yw hynny'n golygu fod pawb oedd yno wedi deall ystyr yr olygfa megys ag y gwnaeth y Bedyddiwr a'r Bedyddiedig. Rhaid wrth lygaid i weled, yr ysbrydol yn yr allanol, yn ogystal ag i ganfod yr allanol yn unig. Mae'n amlwg hefyd yr edrychir ar ddyfodiad yr ysbryd fel eneiniad neu ordeiniad swyddogol; o hyn allan yr oedd yr Iesu i ddechreu ar Ei yrfa gyhoeddus, ac y mae nawdd y nefoedd yn cael ei roddi ar Ei waith ar y cychwyn. Y mae dadleu brwd wedi bod ac yn bod ar y cwestiwn pa mor bell yr oedd yr Iesu'n ymwybodol o'i ddwyfol anfoniad a mawredd Ei swydd cyn nyn.

33 A myfi nid adwaenwn ef; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych ŷr Yspryd yn disgyn, ac yn aros arno, hwnnw yw yr un sydd yn bedyddio â'r Yspryd Glân.

34 A mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw.

Myn rhai esbonwyr gor-feirniadol mai'n awr y sylweddolodd Ei allu a'i neges am y tro cyntaf, ond gan ein bod yn credu fod yr Iesu'n Dduw, ar mai nid dyfod yn Dduw a wnaeth, y mae'n anhawdd cydolygu â'r syniad hwn.

33. "*Yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe.*" Y mae'r "efe" yma'n bwysleisiol; nid oedd yr un amheuaeth ym meddwl Ioan pwy ydoedd yr Hwn a'i hanfonodd. Yr oedd wedi derbyn gorchymyn oddiwrth Dduw. Nid ydyw am i ni gredu ychwaith mai wedi rhyw sylweddoli yr ydoedd beth ydoedd ei genadwri. Yr oedd y gorchymyn mor uniongyrchol ac mor orfodol a galwad Amos gynt.

"*Ac yn aros arno.*" Nid rhyw ymweliad byr am unwaith a olygir, tebyg i'r hyn a gawn yn fynych yn hanes prophwydi'r Hen Oruchwyliaeth. Megys ag yr oeddynt hwy, pan o dan ddylanwad uniongyrchol yr Ysbryd, felly yr oedd yr Iesu'n wastadol, a mwy o lawer na hynny. Gan fod yr Ysbryd wedi aros arno Ef, yr oedd yn abl felly i "fedyddio â'r Ysbryd Glan." Beth oedd natur a dull gweithrediad yr Ysbryd ar yr Iesu sydd ddirgelwch anesboniadwy, a chan ein bod yn ymdrin â dau Berson Dwyfol ac Anfeidrol rhaid ei adael felly. Pe na buasai'r Iesu ond dyn yn unig, buasai'n bwnc anhawdd ei benderfynu, ond gan Ei fod yn Dduw-ddyn, y mae'n anhawddach fyth.

34. "*Hwn yw Mab Duw.*" Adsain ydyw'r cyhoeddiad hwn o'i eiddo o'r llef o'r nef a glywodd adeg y bedydd. Yr oedd Mab Duw'n hen deitl digon cyfarwydd i bawb oedd hyddysg yn yr Hen Destament. Defnyddir ef yno am bersonau anhebyg i'w gilydd, a rhaid o ganlyniad deall ei ystyr yng ngoleuni'r cysylltiadau. Ond, o'r diwedd, yr oedd Ioan wedi cael y fraint o weled Un oedd yn llanw holl feddwl y term. Tebyg ei fod hefyd wedi ei gyfyngu ym mysg y genedl er's peth amser fel teitl neilltuol y Messiah.

35 ¶ Trannoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i ddisgyblion:
36 A chan edrych ar yr Iesu yn rhodio, efe a ddywedodd, Wele Oen Duw.
37 A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru, ac a ganlynasant yr Iesu.

IOAN YN TYSTIOLAETHU WRTH EI DDISGYBLION.—ADN. 35—37.

35. "*Trannoeth drachefn y safodd Ioan.*" Yn fwy cywir gyda'r Cyf. Diwyg., "Yr oedd Ioan yn sefyll." Y darlun a gawn ydyw o un yn sefyll ac yn disgwyl.

"*Dau o'i ddisgyblion.*" Yn adn. 40 rhoddir i ni enw un o'r ddau hyn,—Andreas, brawd Simon Pedr, ac y mae'n anhawdd deall paham na fuasai'r awdwr sydd mor ofalus gyda'i fanylion yn dweud rhywbeth am y llall.

36. "*A chan edrych.*" Ceir y gair a gyfieithir yma "edrych" hefyd yn adn. 42, a golyga edrychiad gofalus a chraff ar berson neu ar wrthrych nes ei ddeall yn drwyadl.

"*Yn rhodio.*" Nid mwyach yn rhodio at Ioan ond i gyfeiriad arall. Nid gwrandawr oedd yr Iesu mwyach ond dysgawdwr, ac nid ymhlith disgyblion Ioan yr oedd Ei le. Yr oedd y rhagredegydd wedi cyflawni ei waith, ac yn awr yr oedd y prif arwr i ddechreu ar Ei orchwyl.

"*Wele Oen Duw.*" Sylwer nad ydyw Ioan yn gwneud yr ychwanegiad a wnaeth y diwrnod blaenorol. Yr oedd ei ddisgyblion wedi clywed eisoes beth oedd swydd yr Iesu a'i waith, ac nid ydyw ond am alw eu sylw ato eto, fel Un mwy na'u hathraw, a mwy teilwng o'u gwarogaeth a'u hymlyniad. Ni ddywedodd wrthynt am fyned a'i adael, ond deallasant ei feddwl.

37. "*A ganlynasant yr Iesu.*" Pa athrawiaeth bynnag a goleddwn parthed natur troedigaeth, pa un ai disymwth ydyw, ai hir barhaol a graddol, rhaid fod rhyw adeg yn bod pan gymerwyd yr un cam angenrheidiol i roddi cyfeiriad newydd i'r bywyd. Felly yma, nis gwyddom a oedd y disgyblion hyn wedi penderfynu dilyn yr Iesu'n unig mwyach ai peidio, ond yr oeddent wedi troi i'r cyfeiriad hwnnw, ac fel y derbyniasant fwy o oleuni, bu iddynt barhau i deithio ymlaen.

38 Yna yr Iesu a droes; a phan welodd hwynt yn canlyn, efe a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei geisio? A hwy a ddywedasant wrtho ef, Rabbi, (yr hyn o'i gyfieithu yw, Athraw,) pa le yr wyt ti yn trigo?

39 Efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch, a gwelwch. A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arhosasant gyd âg ef y diwrnod hwnnw: ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr.

Disgyblion cyntaf yr Iesu.—Adn. 38—51.

38. "*Beth yr ydych chwi yn ei geisio?*" Dyma eiriau cyntaf yr Iesu a groniclir yn yr Efengyl, ac y mae ysgrifenwyr duwiolfrydig yn gweled rhywbeth hynod nodweddiadol yn y ffaith mai Ei gwestiwn cyntaf i'r ddynoliaeth oedd gofyn beth oedd arni eisiau. Sylwer hefyd mai nid "Pwy yr ydych yn ei geisio" a ofynna ond "Beth?" Amlwg yw fod yr Iesu am iddynt hwy gychwyn yr ymddiddan trwy roddi datganiad o'u teimlad.

"*Rabbi . . . Athraw.*" Y mae'r cyfieithad Cymraeg yn fwy cywir a digamsyniol na'r Saesneg. Teitl ydoedd y gair Rabbi a roddid i ddysgawdwyr Iddewig, ac y mae'n ymddangos fod tair ffurf arno'n cyfatteb i dair gradd ymhlith y dysgawdwyr hynny. Y mae'r enw hwn, yn ogystal â'r rhai a geir yn adnodau 41 a 42, (Messias, Cephas), yn berffaith gyfarwydd i'r awdwr yn eu hiaith wreiddiol, ond mae'n amlwg nad oedd yn credu y byddai ei ddarllenwyr mor hyddysg yn yr iaith honno, ac felly rhydd gyfieithiad o honynt.

39. "*Deuwch a gwelwch.*" Mae'n debyg mai darllen-iad cywirach yma ydyw "deuwch, a chwi a gewch weled," ac felly nodir allan drefn datblygiad Cristionogol. Gweithred o ffydd a gawn yn gyntaf, "dyfod," ac wedi hynny "gweled."

"*Y ddegfed awr.*" Bu dadleu brwd pa un ai at y drefn Iddewig ai ynte at y drefn Rufeinig o gyfrif amser y cyfeirir yma. Yn ol y dull Iddewig dechreuai'r dydd gyda chodiad haul, ond yn ol y dull Rhufeinig dechreuai ganol nos yn unol â'n trefn ni. Os yr Iddewig a dderbyn-nid rhaid mai pedwar o'r gloch y prydnawn a olygir, ond os y drefn Rufeinig a olygir yna'n ddiau deg o'r gloch y boreu ydoedd yr adeg. Y mae ymchwiliadau diweddar,

40 Andreas, brawd Simon Petr, oedd un o'r ddau a glywsent *hynny* gan Ioan, ac a'i dilynasent ef.

41 Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon, ac a ddywedodd wrtho, Nyni a gawsom y Messias; yr hyn o'i ddehongl yw, Y Crist.

(gan Proff. Ramsay ac ereill), yn profi nad oedd un gwahaniaeth yn bodoli'n ymarferol rhwng y ddau ddull. Yr oedd diwrnod gwaith i'r Iddew a'r Rhufeinwr yn cychwyn yr un pryd, sef chwech o'r gloch y boreu. Felly rhaid mai pedwar o'r gloch y prydnawn a olygir, ac y mae'r ffaith iddynt aros gydag Ef y diwrnod hwnnw'n ffafrio'r golygiad.

40. "*Andreas, brawd Simon Pedr.*" Cyfeirir ato felly, mae'n debyg, am fod ei frawd, yn ol barn yr awdwr, gryn lawer yn enwocach a mwy adnabyddus nag ef. Ond er ei fod mor ddinod, ac yn ol rhai, mor ddidalent, llwyddodd i arwain un o golofnau'r Eglwys Gristionogol at yr Iesu.

41. "*Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon.*" Myn rhai y golygir fod y ddau ddisgybl wedi myned i geisio Simon, ond mai Andreas ei frawd a gafodd hyd iddo gyntaf, tra y mae ereill yn credu y golygir mai Simon ei frawd oedd y cyntaf, (ond nid yr olaf), a ddygodd Andreas at yr Iesu. Ceir yma ddau ddarlleniad, ac y mae'n dibynnu'n hollol pa un o'r ddau a dderbynnir. Nis gallwn gredu fod fawr o rym yng ngwrthddadl rhai beirniaid,—ei bod yn rhy ddiweddar i fyned allan i geisio neb os oedd yn bedwar o'r gloch y prydnawn.

"*Yr a gawsom y Messias.*" Y mae'r gair "cawsom" yn golygu "cael o hyd," ar ol gwneud ymgais i chwilio am dano. Dyma lef yr athronydd enwog pan ddarganfyddodd un o'r cyfrinion! Ond pa bryd y daeth S. Andreas i wybod mai'r Iesu oedd y Messias? Nid oes gennym ddim hanes fod Ioan Fedyddiwr wedi cyfeirio ato o gwbl yn gyhoeddus o dan y teitl hwn; os gwnaeth o gwbl rhaid mai mewn ymddiddan dirgel y gwnaeth hynny. Ond yr oedd cyfeiriadau mynych y Bedyddiwr at Ei fawredd yn sicr o fod wedi troi eu meddyliau i'r cyfeiriad yma. O bosibl, Ei ddilyn i weled ai Efe ydoedd a wnaethant yn gyntaf, ond yn awr ar ol "myned a gweled" yr oedd ganddynt sicrwydd o hynny.

42 Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. A'r Iesu wedi edrych arno ef, a ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona: ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir Carreg.

43 ¶ Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu fyned allan i Galilea: ac efe a gafodd Phylip, ac a ddywedodd wrtho, Dilyn fi.

"*I Crist.*" Sylwer, fel y nodwyd eisoes ar adn. 38, fod yr awdwr yn ofalus i roddi'r cyfieithiad Groeg. Ni cheir yr enw Hebreig ond yma ac yn yr ymddiddan â'r wraig o Samaria (iv. 25).

42. "*Ti yw Simon mab Jona.*" Yn unol â'r llawysgrifau goreu dylid darllen yma a hefyd yn xxi. 15, &c., nid mab Jona ond mab "John." Ond pa fodd y bu i'r Iesu wybod enw ei dad ar unwaith? Myn rhai mai Andreas a'i henwodd ef pan ddygodd ef ato, tra y cred ereill fod yr Iesu wedi cael o hyd i'w enw yn rhinwedd yr un gallu ag a barodd iddo ganfod Nathanael pan oedd dan y ffigysbren (adn. 48).

"*Ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir 'Carreg.'*" Byddai'r cyfieithiad yn fwy cydweddol â bwriad yr awdwr pe darllenid, "Ti yw Cephas, yr hwn a gyfieithir Pedr," gan mai Ei amcan Ef oedd rhoddi gair Groeg, a ddeallai ei ddarllenwyr, cyfatebol o ran ystyr i'r gair Aramaeg Cephas, yr hwn ni ddeallent. Sylwer hefyd mai "a elwir ryw ddiwrnod" yn y dyfodol a olygir. Yr oedd y cyfnewidiad yn yr enw i ddynodi cyfnewidiad cyfatebol yn y cymeriad. Nid yr un yw'r ymddiddan a groniclir yma a'r hanes a gawn o alwad swyddogol yr Apostol gan yr Efengylwr ereill. Y mae'r lle yn wahanol, yr amser yn wahanol, ac nid yw'r cysylltiadau ychwaith yn debyg. (Darllener S. Matt. iv. 18—22; S. Marc i. 16—20; S. Luc. v. 1—11.)

43. "*Trannoeth.*" Dyma y trydydd "trannoeth" a enwir er pan ddaeth y ddirprwyaeth at Ioan Fedyddiwr (adn. 29, 35, 43), ac felly y pedwerydd dydd er hynny.

"*I Galilea.*" Ni roddir i ni'r rheswm paham y bu i'r Iesu ddychwelyd i Galilea; mae'n bosibl mai'r ymwybyddiaeth nad oedd "Ei awr Ef eto wedi dyfod" i ymddangos yn gyhoeddus yn Judea a Jerusalem a barodd iddo wneud hynny. Y mae un esboniwr cywrain yn

44 A Phylip oedd o Bethsaida, o ddinas Andreas a Phetr.

45 Phylip a gafodd Nathanäel ac a ddywedodd wrtho, Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi, am dano, Iesu o Nazareth, mab Joseph.

---

rhoddi'r rheswm syml mai am Ei fod wedi addaw bod yn bresnenol yn y briodas yn Cana Galilea (ii. 1—11).

"*Efe a gafodd Phylip.*" Pa le y cafodd ef nis gwyddom, ond mae'n debyg mai nid cydgyfarfyddiad damweiniol a olygir yma. Yn yr Efengylau ereill ni roddir dim manylion ynghylch y disgybl hwn, yn unig cawn ei enw yn y rhestrau. Yr awdwr hwn yn unig sydd yn rhoddi nodweddion ei gymeriad, ac os troir i vi. 5; xii. 21, a xiv. 3 gellir gweled beth ydynt.

"*Dilyn fi.*" Defnyddir y geiriau hyn ymron yn ddieithriad gan yr Iesu Ei Hun, ac yr ydym o ganlyniad yn rhwym o gredu fod iddynt feddwl ac ystyr neilltuol. Yr oedd y rhai a wahoddid felly i fod yn rhywbeth mwy na chymdeithion dros amser, yr oeddent i fod yn "ddisgyblion."

44. "*O Bethsaida, o ddinas Andreas a Phedr.*" Y mae dau air gwahanol yn cael eu defnyddio am "o" yn y gwreiddiol, a'r meddwl mae'n debyg ydyw fod Phylip yn byw yn Bethsaida ar y pryd, ond fod Andreas a Phedr yn awr wedi symud oddiyno. Cadarnheir hyn gan yr hyn ddywedir gan yr Efengylwyr, crybwyllant fod tŷ gan y ddau ddisgybl hyn, Andreas a Phedr, yn Capernaum. Yn xii. 21 cyfeirir at y ddinas hon fel 'Bethsaida yn Gililea," er mwyn ei gwahaniaethu, mae'n debyg, oddiwrth Bethsaida Julias. Yr oedd y ddinas hon, Bethsaida yn Galilea, ar y ffordd rhwng Bethania lle yr oedd Ioan yn bedyddio, a Chana Galilea lle yr oedd y briodas.

45. "*Phylip a gafodd Nathanael.*" Nid cynt y "cafodd" yr Iesu Phylip, nag y "cafodd" Phylip yr Iesu, ac yr oedd effaith y darganfyddiad yr un arno ef ag oedd ar Andreas (adn. 41). Aeth ar unwaith i geisio rhywun arall i'w weled Ef, a'r rhywun arall a gafodd oedd Nathanael, brodor o Cana yn Galilea. Y mae cryn ddadleu wedi bod pa un oedd y gwr hwn yr un a Bartholomeus, a grybwyllir gan yr Efengylwyr ereill. Ond ym-

46 A Nathanäel a ddywedodd wrtho, A ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Phylip a ddywedodd wrtho, Tyred, a gwel.

---

ddengys, am resymau digonol, mai'r un ydyw. (1.) Y mae'r Efengylwyr ereill yn wastad yn cyplysu Phylip a Bartholomeus, yn union fel y gwna awdwr yr Efengyl hon yma,—Phylip a Nathanael. (2.) Ni enwir Bartholomeus o gwbl gan awdwr yr Efengyl hon, ac ni sonnir gair am Nathanael fel pe buasai'n un o'r prif ddisgyblion. Yr oedd pawb a grybwyllir gydag ef yn apostolion.

"*Cawsom . . . . Iesu o Nazareth mab Joseph.*" Y mae'r pwyslais i'w roddi'n briodol ar y Person y sonnir am dano, a dylid ail-drefnu'r geiriau er cyrraedd hyn, a'u gosod fel y canlyn. "Yr hwn yr ysgrifenodd Moses . . . . a gawsom." Y mae'n deilwng o'n sylw fod Phylip yn cyfeirio at yr Iesu fel "mab Joseph." Tebyg ei fod wedi cyfeirio ato o dan yr enw wrth ba un yr adnabyddid ef yn gyffredin, a phan gofiwn nad oedd ond newydd ddyfod yn ddisgybl i'r Iesu, nid yw'n rhyfedd ei fod eto heb ddyfod i wybod am Ei genhedliad goruwchnaturiol, a lle Ei enedigaeth. Yr oedd wedi darganfod un rhyfeddod yn barod, a honno oedd mai Iesu mab Joseph oedd yr "Hwn yr ysgrifenodd Moses a'r prophwydi am dano."

46. "*A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?*" Y mae'n anhawdd dweud o ba le y tarddodd y syniad hwn. Mae'n wir na chyfeirir at Nazareth o gwbl yng nghorph yr Hen Destament, ond nid yw hynny, debygem, yn ei gwneyd yn fwy didda na llawer dinas fechan ddinod arall na chlywir son am dani. Fel y gwelir oddiwrth vii. 52 credai trigolion Judea a Jerusalem na chodai'r un prophwyd byth o Galilea; ond paham y mae'r disgybl hwn yn dewis Nazareth allan o holl ddinasoedd Galilea nis gwyddom. Ond beth bynag am darddiad y grediniaeth ymddengys fod ymddygiad trigolion y ddinas tuag at yr Iesu, pan ymwelodd âg ardal ei febyd, yn ei chadarnhau i raddau helaeth. (Gwel S. Luc iv. 16—30).

"*Tyred a gwel.*" Nid oedd Phylip eto, fel y gallwn gredu'n rhwydd, yn gwybod digon i allu argyhoeddi Nathanael o'i gamgymeriad, ond nid yw hynny'n profi ei fod yn ansicr yn ei feddwl ei hun. Yr oedd gweled a

47 Iesu a ganfu Nathanäel yn dyfod atto; ac a ddywedodd am dano, Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.

48 Nathanäel a ddywedodd wrtho, Pa fodd y'm hadwaenost? Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit tan y ffigysbren, mi a'th welais di.

---

dilyn yr Iesu wedi dwyn sicrwydd unwaith am byth i'w feddwl ef, ac yr oedd yn credu mai dyna'r ffordd fwyaf effeithiol i argyhoeddi ei gyfaill hefyd.

47. "*Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.*" Ail-adroddiad yw'r ail ran o'r ymadrodd hwn o'r rhan gyntaf o hono. Yr un oedd y gwr di-dwyll a'r gwir Israeliad. Diameu fod yma ryw gyfeiriad at gymeriad Jacob yr hwn a gyfenwyd "Israel." Yr un yw'r gair a ddefnyddir yma am "dwyll" a'r gair a ddefnyddiodd y LXX. i gyfieithu'r gair "twyll" a geir yn Gen. xxvii. 35, lle y sonnir am ei fab Jacob wedi dyfod "mewn twyll" i ddwyn ymaith y fendith a berthynai yn briodol i'w frawd Esau. O bosibl felly, yr hyn a olygai'r Iesu ydoedd fod Nathanael yn Israeliad oedd yn rhydd oddiwrth "dwyll" yr Israeliad cyntaf. Sylwer hefyd fod yr Iesu yma, fel ag y gwnaeth gyda'r disgyblion oedd ganddo, eisoes, yn darllen meddwl a chymeriad y disgybl cynti'r disgybl ddweud yr un gair. (Cymharer adn. 38, 42, a 43).

48. "*Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit dan y ffigysbren, mi a'th welais di.*" Yr ystyr ydyw "Mi a'th welais di dan y ffigysbren, cyn i Phylip dy alw di." O bosibl, hefyd, dylem gyfieithu "pan oeddit dan dy ffigysbren," oblegid y mae'n amlwg mai'r ffigysbren a dyfai yn ei ardd ei hun a olygir. Yr oedd Phylip wedi myned i dŷ Nathanael i'w geisio, ac wedi ei gael, yn unol â'i gymeriad duwiolfrydig, mewn myfyrdod neu weddi dan ei ffigysbren. Efallai mai myfyrio yr oedd am ddyfodiad "diddanwch yr Israel," am yr hwn yr oedd pob gwir Israeliad yn disgwyl. (Cymharer S. Luc ii. 25). Mae'n debyg y golygir mwy wrth yr ymadrodd "mi a'th welais di" na'i weled â'i lygaid; yr ystyr yw, efallai, gweled i ddyfnderoedd ei galon, ac adnabod ei gymeriad syml di-dwyll.

49 Nathanäel a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, Rabbi, ti yw Mab Duw; ti yw Brenhin Israel.

50 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, O herwydd i mi ddywedyd i ti, Myfi a'th welais di dan y ffigysbren, a ydwyt ti yn credu? ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn.

---

49. "*Rabbi.*" Y mae pob amheuaeth a phob rhagfarn eisoes wedi diflannu o feddwl Nathanael; y mae wedi cael golwg, megys mewn amrantiad ar fawredd yr Iesu, ac y mae'n Ei gyfarch fel gwr o bwysigrwydd a dylanwad a dysg.

"*Ti yw Mab Duw, ti yw Brenin Israel.*" Y mae'r cyffesiad hwn yn dangos y Messiah yn ei berthynas â Duw, Efe oedd "Mab Duw"; a hefyd yn Ei berthynas â chenedl Israel, Efe oedd ei Brenin, ac yma cawn un o ddeiliaid y frenhiniaeth, Israeliad yn wir, yn cyfarch ei Frenin. Ond beth a feddyliai Nathanael wrth alw'r Iesu'n Fab Duw? Dichon ei fod wedi clywed tystiolaeth y Bedyddiwr am dano (adn. 34) ond nad oedd hyd yn hyn wedi deall ei chyflawn ystyr. Rhaid cofio hefyd y gelwid y Messiah yn "fab Duw" weithiau gan yr Iddewon fel y gwelwn oddiwrth gwestiwn yr archoffeiriad yn S. Math. xxvi. 63, ac felly nid oedd Nathanael ond yn defnyddio term a arferid yn fynych am y Messiah. Myn rhai ei fod wedi derbyn gweledigaeth eglur, wedi cael ei ddyrchafu yn feddyliol ac ysbrydol nes deall am foment berthynas yr Hwn oedd yn ymddiddan âg ef â Duw. Wrth reswm nid yw'r eglurhad hwn yn amhosibl, ond credwn ei fod yn ddianghenraid. Y mae'n anhawdd dweud hefyd beth a olygai wrth "frenin Israel." A oedd efe eisoes wedi deall natur ysbrydol teyrnas yr Iesu, ai ynte a oedd efe'n unig yn rhoddi i'r Messiah un o'i deitlau priodol? Yn hanes y disgyblion ereill gwelwn iddynt gymeryd amser mawr i sylweddoli nad oedd Ei deyrnas ef o'r byd hwn.

50. "*A ydwyt ti yn credu?*" Y mae rhai am ddweud mai nid cwestiwn ddylai fod ond gosodiad.—"yr ydwyt ti yn credu,"—ond credwn fod y meddwl yn cael ei amlygu'n well trwy ei roddi yn y ffurf hon. Synnai'r Iesu fod Nathanael yn barod i gredu ar sail mor fechan, ond yr oedd am ei wobrwyo hefyd trwy addaw seiliau

51 Ac efe a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn.

---

mwy a chadarnach i'w ffydd. Yr oedd i weled amlygiadau eglurach o ddwyfol anfoniad y Messiah na'r wybodaeth yr oedd yr Iesu wedi ei harddangos o ddirgelion Ei hanes (adn. 48).

51. "*Yn wir, yn wir.*" Yn y gwreiddiol, "Amen, Amen," yw'r geiriau hyn, a chawn y ffurf ddyblyg hon 25 o weithiau yn yr Efengyl hon. Ni cheir hi o gwbl yn yr Efengylau ereill. Dyma'r ffordd a ddefnyddiai'r Iesu er rhoddi sicrwydd i feddyliau ei wrandawyr ei fod yn siarad gydag awdurdod. Yr oedd megys yn myned ar ei lw bob tro y defnyddiai'r ymadrodd. Sel yr hen brophwydi gynt oedd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," siarad dros arall yr oeddent hwy, ond sel yr Iesu oedd, 'Yn wir, yn wir, *meddaf* i chwi."

"*Y nef yn agored.*" Yma nid agoriad gwyrthiol o'r nefoedd wybrenol a olygir ond agoriad ysbrydol. Hyd yma yr oedd y nefoedd wedi bod yng nghau mewn ystyr ysbrydol oherwydd pechod, ond yn awr yr oedd dyfodiad y Cyfryngwr wedi gwneud cymundeb rhwng Duw a dyn yn bosibl eto.

"*Angylion Duw yn disgyn ac yn esgyn.*" Rhaid fod yma gyfeiriad at weledigaeth Jacob yn Bethel gynt; cawsom gyfeiriad eisoes ato yn yr ymadrodd "Israeliad yn wir." Ond unwaith y gwelodd Jacob y negeswyr nefol wrth eu gwaith, tra'r ymddengys yma eu bod mwyach i fod wrtho o hyd. Yr oedd dyfodiad y Crist yn sicrwydd y byddai cymundeb cyson rhwng nef a daear. Sylwer mai dyma'r unig gyfeiriad a gawn yn yr Efengyl hon at weinidogaeth angylion.

"*Mab y dyn.*" Y mae amrywiol deitlau wedi cael eu rhoddi i'n Harglwydd yn y benmod hon gan ereill; Efe oedd yr Un mwy na Ioan Fedyddiwr, ac Efe a alwyd gan y Bedyddiwr yn "Oen Duw." Gelwid Ef drachefn yn "Fessiah" ac yn "Fab Duw." Ond yma rhydd Efe deitl iddo Ei Hun, teitl sydd yn arddangos Ei gysylltiad neilltuol â'r ddynoliaeth. Efe oedd y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,—gwir gynrychiolydd yr hil ddynol,—yr ail Adda. Y mae eryn ddadleu pa un ai enw newydd

PENNOD II.

A'r trydydd dydd yr oedd priodas yn Cana Galilea: a mam yr Iesu oedd yno.

---

ai hen enw ydyw "Mab y dyn." Nid oes dim yn amhosibl yn y syniad fod yr Iesu wedi dewis enw newydd iddo Ei Hun, ond nid yw'n unol â'i arferiad. Cymeryd hen dermau oedd Ei arfer Ef, a rhoddi iddynt feddyliau ac ystyron newydd. Yr oedd hen brophwydoliaeth yn Daniel vii. 13 am Fab y dyn, ac y mae'r Iesu am ddangos mai Efe'n unig, ac nid unrhyw archoffeiriad llywodraeth-ol o gyfnod y Maccabeaid, oedd yn cyfateb mewn gwirionedd i'r teitl mawreddog hwnnw. Y mae'r cyfeiriad a geir at "angylion" yn llyfr Daniel ac yma yn tueddu i gadarnhau'r syniad hwn.

PENNOD II.

Y wyrth gyntaf.—Pennod ii. 1—11.

Hyd yma, ni a glywsom ereill yn dwyn tystiolaeth i fawredd, gallu, a gogoniant yr Iesu, yma ni a'i gwelwn Ef Ei Hunan yn rhoddi arddanghosiad nodedig o hono. Yr oedd Ei ddisgyblion wedi Ei ddilyn o'r blaen, ond yn awr y maent yn dechreu darganfod rhesymau dros gredu ynddo.

1. "*Trydydd dydd.*" Y "trydydd dydd" mae'n debyg o'r diwrnod diweddaf a grybwyllwyd,—"trannoeth," adn. 43. Dywedir fod pellter o ryw 60 milltir o'r lle'r oedd Ioan yn bedyddio i Nazareth, ac nid yw'n anaturiol iddynt gymeryd tri diwrnod i'w deithio.

"*Priodas.*" Yn fwy priodol "gwledd-briodas," yr hon a barhâi'n fynych am amryw ddyddiau. Myn rhai fod mynediad yr Iesu i briodas yn arwyddocaol dros ben, —yr oedd priodas yn rhan o drefn ordeiniedig Duw ac felly'n perthyn i'r ddynoliaeteh yn ei sefyllfa ddibechod. Nis gwyddom a yw hyn yn rhywbeth mwy na dychymyg gwr duwiolfrydig sydd yn barod i weled arwyddocad neilltuol ym mhob gweithred o eiddo'r Iesu.

2 A galwyd yr Iesu hefyd a'i ddisgyblion i'r briodas.
3 A phan ballodd y gwin, mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt mo'r gwin.

"*Cana Galilea.*" Gelwid y ddinas hon felly i'w gwahaniaethu oddiwrth y Cana arall oedd yn rhandir Aser. Nis gwyddys i sicrwydd pa bentref sydd yn cynrychioli Cana gynt. Myn rhai mai Kefr Kenna, tua phedair milltir a hanner i'r gogledd-ddwyrain o Nazareth, tra y mae ereill yn dal mai enw'r ddinas yn bresennol yw "Kenna El Jelil," tuag wyth milltir i'r gogledd-orllewin o Nazareth. Ond ymddengys fod ymchwilwyr diweddar wedi methu cael gafael ar unrhyw le yn dwyn yr enw olaf hwn, ac felly, os yw'r ddinas ar gael yn bresennol, rhaid mai "Kefr Kenna" ydyw.

"*Mam yr Iesu.*" Nid yw'r Efengylwr hwn byth yn rhoddi i ni enw mam yr Iesu. Cred llawer, oherwydd na chrybwyllir gair am Joseph yma, fod yn rhaid ei fod wedi marw cyn hyn, ond dylid cofio nad oedd yr Efengylwr o dan rwymau i enwi pawb oedd yno.

2. "*A galwyd yr Iesu a'i ddisgyblion.*" Wrth "galwyd" dylid deall "gwahoddwyd." Nid oedd wedi ei wahodd o'r blaen, ond ymddengys iddo gael ei wahodd pan welsant Ef ar ol iddo ddychwelyd oddiwrth Ioan Fedyddiwr. Dyma'r cyfeiriad cyntaf a gawn at y berthynas ym mha un y safai'r rhai a ganlynent yr Iesu i'w Hathraw mawr, a chred rhai mai eu dyfodiad anisgwyliadwy hwy gydag Ef a achosodd briuder y gwin yn y wledd!

3. "*Mam yr Iesu a ddywedodd wrtho Ef, Nid oes ganddynt mo'r gwin.*" Y mae pob math o resymau wedi cael eu rhoddi gan esbonwyr paham y bu i fam yr Iesu alw Ei sylw at y diffyg. Cred rhai fod y rheswm yn cael ei roddi'n eglur yn yr hanes. Wrth weled Ei ddisgyblion yn dechreu casglu o'i amgylch, nis gallai Ei fam lai na galw i gof y rhagfynegiadau rhyfedd am Ei ddyfodol. Mae'n bosibl ei bod wedi clywed hefyd am dystiolaeth Ioan Fedyddiwr am dano. Yr oedd wedi dyfod i gredu fod awr Ei ymddanghosiad i'r Israel wedi dod o'r diwedd, ac y mae am iddo gychwyn Ei yrfa trwy ddangos Ei allu rhyfeddol. Myn ereill nad oes yma'r un cyfeiriad at y gwyrthiol o gwbl. Yr oedd Ei fam,

4 Iesu a ddywedodd wrthi, Beth sydd i mi *a wnelwyf* â thi, wraig? ni ddaeth fy awr i etto.

5 Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr, Beth bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch.

(yn enwedig os gwir y dybiaeth fod Joseph wedi marw), wedi arfer dibynnu llawer ar Ei bwyll a'i gyfarwyddyd Ef mewn amgylchiadau cyfyng yn y cartref bach yn Nazareth, ac felly'n naturiol yn apelio ato yn y cyfynder presennol.

4. "*Beth sydd i mi a wnelwyf a thi, wraig?*" Yr oedd yr hen Brotestaniaid yn arfer edrych ar y geiriau hyn fel cerydd, ac yn credu eu bod yn cael yma saif gref dros gondemnio Mair-addoliaeth y Pabyddion. Ond nid oes dim yn y geiriau'n cyfiawnhau'r cyfryw syniad. Defnyddia'r Iesu y gair "gwraig" megys ag y gwna yma lawer o weithiau, ond nid oes yr un sail dros gredu Ei fod am ddiraddio mewn unrhyw fodd y rhai a gyfarchai felly. Y cyfieithiad llythyrennol o'r geiriau ydyw "Beth sydd i mi ac i ti?" a'r hyn a olygant yn ddiameu ydyw fod yr Iesu mwyach wedi gadael y cylch cartrefol lle y rhoddai ufudd-dod addas i'w fam, ac wedi dechreu ar waith Ei weinidogaeth gyhoeddus. Yr oedd pawb a gyflawnent orchymyn Ei Dad o hyn allan i fod yn "fam ac yn frodyr ac yn chwiorydd" iddo.

"*Ni ddaeth fy awr i eto.*" Defnyddir yr ymadrodd fynychaf yn yr Efengylau i gyfeirio at ddioddefaint olaf ein Harglwydd yn yr ardd ac ar y groes, ond yma yn ddiau, yr amser i arddangos Ei allu i gyflawni nerthoedd a rhyfeddodau a olygir. Ond yr oedd cysylltiad hefyd rhwng yr awr hon, pryd yr arddanghosodd Ei ogoniant trwy wyrth, a'r awr olaf honno, pryd yr oedd i arddangos Ei ogoniant yn fwy trwy ddioddefaint. Yma cawn yr hyn y gallai'r Iesu fod, pe mynnai, ond yno, yr hyn a ddewisodd fod, o'i wirfodd Ei hun.

5. "*Ei fam a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr.*" Nid yw'r gair a ddefnyddir yma am wasanaethwyr yn golygu fod y teulu oedd yn dathlu'r briodas yn deulu cyfoethog, ac yn meddu llawer o weision cyflogedig. Tebyg mai rhai o bobl ieuainc y dref a olygir, y rhai oedd wedi cymeryd arnynt eu hunain y gwaith o weini yn ystod y briodas.

6 Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod, yn ol defod puredigaeth yr Iuddewon, y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.

7 Iesu a ddywedodd wrthynt, Llenwch y dyfr-lestri o ddwfr. A hwy a'u llanwasant hyd yr ymyl.

---

6. "*Yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini.*" Mae'n debygol mai wrth y porth yr oedd y llestri hyn, ac nid yn ystafell y wledd. Yr oedd angen am gynifer o lestri, cherwydd fod yno nifer fawr o wahoddedigion. Yn ol traddodiad Iddewig, llestri pridd neu feini a ddylid eu defnyddio bob amser i o'chi dwylaw cyn ac wedi bwyd.

"*Yn ol defod puredigaeth yr Iddewon.*" Arfer yr Iddewon o buro eu hunain trwy amryw olchiadau. Edrychent ar y cyfryw fel yn meddu ar holl awdurdod ordeiniadau crefyddol.

"*Y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.*" Yr oedd y ffircyn yn cyfateb i ryw wyth galwyn o'n mesur ni. Felly rhaid fod yr Iesu wedi cynyrchu dros gan galwyn o win trwy Ei allu gwyrthiol. Dadleua rhai nad oedd angen am gymaint o gyflawnder, ac mai rhyw wyrth oedd hon i ddarparu mwy nag angenrheidiau bywyd. Ond rhaid cofio fod gwin yn un o angenrheidiau bywyd, fel y credai trigolion gwlad Canaan, a hefyd nad oes dim yma i brofi fod yr holl win a gynyrchwyd yn y modd gwyrthiol hwn wedi ei yfed yn ystod y briodas. Y mae dosparth arall o feddylwyr—y llwyr-ymwrthodwyr—yn methu deall pa fodd y bu i'r Iesu ddefnyddio Ei allu gwyrthiol i gynyrchu cymaint o win os oedd y gwin hwnnw'n feddwol. Y mae'n amhosibl dweud pa un a oedd yn feddwol ai peidio, ond y mae'n amlwg fod y gwyr hyn yn camgymeryd ystyr gwin mewn gwledd fel yng ngwlad Canaan. Yr oedd yn rhan hanfodol o'r wledd, ac nid yn rhywbeth dros ben fel yr edrychir arno gennym ni. Fel y gwelir oddiwrth adn. 3 yr oedd y ffaith fod y gwin wedi darfod yn taflu sarhad mawr ar y wledd briodas.

7. "*Ac efe a ddywedodd wrthynt.*" Dylid edrych ar adn. 6 fel mewn cromfachau. Os cydiwn adn. 7 wrth adn. 5 gwelwn y cysylltiad.

8 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch yn awr, a dygwch at lywodraethwr y wledd. A hwy a ddygasant.
9 A phan brofodd llywodraethwr y wledd y dwfr a wnaethid yn win, (ac ni wyddai o ba le yr ydoedd, eithr y gwasanaethwyr, y rhai a ollyngasent y dwfr, a wyddent.) llywodraethwr y wledd a alwodd ar y priod-fab,
10 Ac a ddywedodd wrtho, Pob dyn a esyd y gwin da yn gyntaf; ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth: tithau a gedwaist y gwin da hyd yr awrhon.

---

8. "*Gollyngwch yn awr a dygwch at lywodraethwr y wledd.*" Yr hen gred oedd fod yr oll o'r dwfr oedd yn y llestri wrth y drws wedi ei droi'n win, ond ymddengys nad oes fawr o sail i'r dybiaeth yna yn yr hanes. Yr hyn a ddywedir ydyw fod cymaint o ddwfr ag a ollyngasant ac a gludasant at lywodraethwr y wledd, wedi ei droi'n win pan brofodd ef. Felly y mae'r ddwy wrthddadl at ba rai y cyfeiriwyd (ar adn. 6) yn torri i lawr ar unwaith.

"*Llywodraethwr y wledd.*" Cred rhai mai un o'r gwahoddedigion oedd hwn—wedi ei ethol ganddynt i lywyddu yn y wledd, ond gwell yw credu mai rhyw fath o *head-waiter* a olygir, gwaith yr hwn oedd trefnu'r ystafell, a phrofi'r bwydydd cyn eu rhoddi o flaen y gwahoddedigion.

9. "*Y dwfr a wnaethid yn win.*" Y mae beirniaid anghrediniol wedi ceisio cyfrif am ddyfodiad y gwin ymhob ffordd, rhai o honynt yn dweud mai'r Iesu ddaeth a'r gwin fel anrheg i'r par ieuanc, ereill yn dweud mai Mair Ei fam a ddaeth ag ef, ac ereill drachefn am ddweud nad oedd yno win o gwbl, ond fod effaith presenoldeb a geiriau'r Iesu yn gyfryw ag i beri i'r gwahoddedigion gredu eu bod yn yfed gwin, tra nad oedd ganddynt ond dwfr. Y mae afresymoldeb y tri esboniad hyn yn ymddangos ar y wyneb, ac nid oes eisiau dweud gair mwy am danynt.

10. "*Ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth.*" Y mae'r gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol am "yfed yn dda" yn golygu'n ddieithriad, "pan fyddont wedi meddwi." Dyma'r hen gyfieithad a roddid gan Tyndall a Cranmer, ond y mae cyfieithwyr diweddarach wedi ceisio lleddfu rhyw gymaint ar arwder y term am ei bod yn

11 Hyn o ddechreu gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, ac a eglurodd ei ogoniant; a'i ddisgyblion a gredasant ynddo.

12 ¶ Wedi hyn efe a aeth i waered i Capernaum, efe, a'i fam, a'i frodyr, a'i ddisgyblion: ac yno nid arhosasant nemmawr o ddyddiau.

---

wrthun ganddynt glywed son am feddwdod lle yr oedd yr Iesu. Ond ni ddywedir, sylwer, fod y gwahoddedigion yn y wledd hon wedi meddwi; y gwas sydd yma n adrodd mewn ffordd hanner chwareugar yr hyn oedd wedi cymeryd lle lawer gwaith o fewn cylch ei brofiad ef.

11. "*Hyn o ddechreu gwyrthiau.*" "Arwyddion" yw'r gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol yma. Yr oedd gwyrthiau'r Iesu'n "arwyddion" allanol, yn profi Ei awdurdod a'i allu. Nid yw'r Efengylwr hwn byth yn son am wyrthiau yr Arglwydd Iesu fel "nerthoedd." Iddo ef, yr Iesu oedd creawdwr y byd, ac nid oedd Ei wyrthiau iddo Ef o ganlyniad yn ddim ond "gweithredoedd" naturiol Person o'i allu Ef.

"*Ac a eglurodd Ei ogoniant.*" H.y., gogoniant yr Iesu ei hun. Pan gyflawnai ereill wyrthiau dangos gogoniant a gallu Duw yr oeddent hwy, ond dangos yr eiddo Ei Hun y mae'r Iesu. Er disgyn o hono i'r ddaear a dyfod yn ddyn, eto yr oedd ein Harglwydd yn cadw Ei ogoniant cynhennid, ac ar adegau, megys yma, ceid arddanghosiadau allanol o hono.

"*A'i ddisgyblion a gredasant ynddo.*" Golyga'r ymadrodd a geir yn y gwreiddiol fod y disgyblion wedi symud eu hymddiriedaeth oddiwrthynt eu hunain, ac wedi ei osod ar yr Iesu. O'r diwedd yr oeddent wedi cael prawf eglur o'r hyn oeddent wedi ddechreu gredu o'r blaen. Fel yr oeddent yn dyfod i adnabyddiaeth lwyrach o'r Iesu, yr oedd eu ffydd yn cryfhau fwy fwy o hyd.

Puro'r deml.—Adn. 12—22.

12. "*Efe a aeth i waered i Capernaum.*" Safai'r dref hon ar lan mor Galilea, ac felly siaredir am yr Iesu yn myned i "waered." Ystyr y rhan gyntaf o'r enw Caper neu Caphar ydyw "pentref,"—"Pentref Nahum." Y mae llawer o ddadleu wedi bod ym mhlith dacarydd-

13 ¶ A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem;

---

wyr ac esbonwyr ynghylch safle'r ddinas. Myn rhai mai lle o'r enw Khan Minyeh sydd yn awr yn dynodi safle yr hen Gapernaum, tra y mae ereill o'r farn, (yr Esgob Westcott yn eu plith) fod safle'r ddinas wedi ei phrofi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol i fod yr un a Tell Hum. Pan fo cymaint gwahaniaeth rhwng dysgedigion, nis gall y cyffredin byth obeithio penderfynu. Yn ddiweddarach cawn fod yr Iesu wedi symud i fyw i Capernaum, a chyfeirir ati yn S. Matt. ix. 1 fel "Ei ddinas Ei Hun."

"*A'i frodyr.*" Y mae tri eglurhad yn cael eu roddi ar y pwnc pwy oedd ei frodyr.

(1.) Mai plant ereill Joseph a Mair oeddent. Yn hanes genedigaeth e'n Harglwydd fel ei rhoddir gan S Mathew a S. Luc dywedir fod Mair wedi "esgor ar ei mab cyntaf-anedig."

(2.) Mae hanner brodyr oeddent i'r Iesu, sef plant Joseph o'i wraig gyntaf. Gadewir argraff ar y meddwl rywfodd, er na ddywedir hynny'n bendant, fod Joseph gryn lawer yn hŷn na Mair. Credir hefyd ei fod wedi marw cyn dechreu gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd (gwel ar adn. 1). Pe na buasai Mair yn weddw a diamddiffyn ni fuasai llawer o ystyr i waith ein Harglwydd yn ei gorchymyn i ofal y disgybl anwyl yn awr Ei ing olaf ar y groes. Dadleuir dros yr eglurhad hwn yn gryf gan yr Esgob Lightfoot, ac ereill o brif esbonwyr ein Heglwys.

(3.) Mai cefnderwyr i'r Iesu oeddent, sef meibion Alpheus. Sail y dybiaeth hon ydyw'r tebygolrwydd a fodola rhwng yr enwau, ond y mae amheuaeth a yw dau o'r enwau yn gywir. Dyma farn S. Jerome a S. Awstin, ond nid oes lle i gredu fod unrhyw sail iddi ond yn unig tebygolrwydd yr enwau.

Er nad oes sail mor gadarn ag y dymunem i'r ail dybiaeth eto credwn ei bod yn fwy tebygol i fod yn iawn na'r un o'r ddwy arall.

13. *A Phasg yr Iddewon oedd yn agos.*" Credir y pwysleisia'r Efengylwr ar Basg yr Iddewon i'w wahaniaethu oddiwrth y Pasg Cristionogol. Cyfeiria'r awdwr

14 Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychain, a defaid, a cholommennod, a'r newidwyr arian yn eistedd.

---

at tri Pasg yn ystod gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd, ii. 13; vi. 4; ac xviii. 39. Yn wir, cyfeiria at bedwar os at wyl y Pasg y cyfeiria yn v. 1, "gŵyl yr Iddewon." Ni sonnir gan yr Efengylwyr ereill ond am un yn unig, sef y Pasg olaf. Y mae uwchfeirniaid anghredinol yn gweled anghysondeb mawr yn hyn, ond credwn y gellir yn rhwydd lawn egluro'r anghyssondeb. Adrodd hanes gweinidogaeth yr Iesu'n Galilea ydoedd amcan yr Efengylwyr ereill yn bennaf, tra y mae'r Efengylwr hwn am roddi hanes Ei gysylltiadau â'r Iddewon yn Judea a Jerusalem. Yr "Iddewon" oeddynt i'r awdwr gynrychiolwyr y genedl mewn ystyr wleidyddol a chrefyddol, a chyferbynnir hwy, yn eu hymddygiad tuag at yr Iesu, â'r torfeydd a'i dilynent o Galilea. Felly yr oedd yn anhebgorol angenrheidiol rhoddi desgrifiad o holl wyliau'r Iddewon a'r hyn a gymerodd le ynddynt.

14. "*Ac Efe a gafodd yn y deml.*" Yr oedd yn arferiad i bob pen-teulu chwilio ei dŷ cyn yr ŵyl er mwyn iddo gael taflu allan bob surdoes, ac y mae meddylwyr wedi gweled rhyw debygolrwydd rhwng yr arferiad a gwaith yr Iesu yn ymgymeryd â glanhau tŷ Ei Dad ar yr un adeg. Wrth y "deml" yma y golygir nid yr holl adeilad ond y cyntedd allanol—cyntedd y Cenhedloedd—lle y cynhelid marchnad. Y mae dau air yn cael eu defnyddio yn y Test. Newydd am "deml"; un yn golygu'r holl adeilad, a'r llall yn golygu dim ond y ddau gysegr—y Sanctaidd a'r Sanctaiddiolaf—rhannau mwyaf pwysig y deml.

"*Rai yn gwerthu ychen a defaid a cholomennod.*" Amcan gwerthu'r pethau hyn yn y deml oedd er mwyn i'r addolwyr a ddeuent o bell gael anifeiliaid priodol (h.y., difai) i'w haberthu.

"*A'r newidwyr arian yn eistedd.*" Yr oedd llawer o'r Iddewon oedd ar wasgar yn ymgasglu i Jerusalem ar gyfer y gŵyliau, ond ni dderbynnid arian tramor at wasanaeth y deml, felly yr oedd yn rhaid i'r cyfryw newid eu harian am y sicl Iddewig. Ac hyd yn oed yng ngwlad Palestina ei hun, arian Rhufeinig a ddefnyddid.

15 Ac wedi gwneuthur fflangell o fân reffynnau, efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r deml, y defaid hefyd a'r ychain; ac a dywalltodd allan arian y newidwyr, ac a ddymchwelodd y byrddau:

16 Ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colommennod, Dygwch y rhai hyn oddi yma; na wnewch dŷ fy Nhad i yn dŷ marchnad.

---

ac yr oedd yn rhaid i'r Iddewon a drigai yno wrth y newidwyr arian cyn y byddai eu rhoddion yn dderbyniol. Y mae'r gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol yma'n golygu un sydd yn newid arian mwy i arian mân.

15. "*Ac wedi gwneuthur fflangell o fân reffynnau.*" Cred rhai mai cymeryd y fflangell a wnaeth yr Iesu er dangos Ei awdurdod, ond gwell gennym gredu Ei fod wedi ei chymeryd er mwyn ei defnyddio os byddai angen. Yr oedd digon o reffynnau brwyn yn gorwedd o amgylch er rhwymo'r anifeiliaid. Dyma'r unig fan lle y cawn yr Iesu yn defnyddio nerth er cyrraedd ei amcan.

"*Efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r deml—y defaid hefyd a'r ychen.*" Beth a olygir wrth yr "oll" yma? Myn rhai mai yr oll o'r defaid yn ogystal â'r ychen a feddylir, ond credwn mai gwell yw cymeryd fod yr "oll" yn cynwys y dynion hefyd yn ogystal a'r anifeiliaid.

"*Y newidwyr.*" Nid yr un gair a ddefnyddir yma ag yn yr adnod flaenorol. Ystyr lythyrennol y gair hwn ydyw "y rhai oedd yn derbyn tâl am newid arian.

16. "*Dygwch y rhai hyn oddiyma.*" Yr oedd y colomennod, mae'n debyg, mewn cawellau, ac felly nis gallai'r Iesu eu gyrru allan o'r deml Ei Hun megys ag y gwnaeth â'r defaid a'r ychen. Myn rhai ddweud fod yr Iesu'n ymddwyn yn fwy tyner at y colomennod am mai offrymau dynion tlodion oeddent (gwel S. Luc ii. 24), ond nid ydym yn credu fod unrhyw sail i'r dybiaeth hon.

"*Na wnewch dŷ fy Nhad i yn dŷ marchnad.*" Y mae'r Iesu am iddynt ddeall fod perthynas agos rhyngddo â'r Hwn yr oedd y "tŷ" wedi ei neilltuo iddo, ac am hynny Ei fod yn dwyn mawr sel drosto. Yr oeddent hwy o'r ochr arall wedi anghofio tŷ pwy ydoedd, neu ni fuasent yn gadael i'r fath afreoleidd-dra bydol gael ei gario ymlaen yn ei gynteddoedd. Ond pa le yr

17 A'i ddisgyblion a gofiasant fod yn ysgrifenedig, Zêl dy dŷ di a'm hysodd i.

18 ¶ Yna yr Iuddewon a attebasant ac a ddywedasant wrtho ef, Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?

---

oedd y drwg o werthu anifeiliaid ar gyfer aberthu yn y deml? Nid mewn gwerthu'r anifeiliaid ar gyfer pwrpas mor ragorol yn sicr, ond yn hytrach am fod stwr y marchnata'n torri ar ddistawrwydd y lle. Gallesid gwerthu'r anifeiliaid yr un fath yn union yn rhywle arall yn ninas Jerusalem. Y mae profion diymwad hefyd fod gwerthwyr yr anifeiliaid yn cymeryd mantais ar yr amgylchiadau i godi pris eithafol am yr hyn a werthent.

17. "*Zel dy dŷ di a'm hysodd i.*" Dyfyniad ydyw'r geiriau hyn o Psalm LXIX. 9, Psalm a ddyfynnir yn aml iawn yn y Test. Newydd. Nis gellir dweud ei bod yn Psalm Fessianaidd—yn rhagddywediad eglur am ddioddefaint ein Harglwydd,—darlunia ddioddefiadau un o'r hen seintiau yng ngwasanaeth ei Arglwydd, ond teimlai Ei ddisgyblion Ei fod Ef yn cyfateb i'r desgrifiad mewn modd neilltuol. Wrth "Zel dy dŷ di" yn ddiau y golygir Ei eiddigedd dros sancteiddrwydd tŷ Ei Dad.

18. "*Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni?*" Yn Ei waith yn glanhau'r deml yr oedd yr Iesu eisoes wedi rhoddi iddynt arwydd, ond nid oeddent hwy wedi ei dderbyn fel y cyfryw. Yr oedd y disgyblion wedi deall ei ystyr, ond parhâi arweinwyr yr Iddewon yn eu hangrediniaeth. Gwyddent oddiwrth brophwydoliaethau'r Hen Destament, (yn enwedig Mal. iv. 1—3), fod y Messiah pan ddeuai i ddwyn i mewn gyfnewidiadau mawr yn yr addoliad cenedlaethol; yr oedd y weithred a gyflawnasai'r Iesu o natur ddiwygiadol, ond yr oedd arnynt eisieu gwybod ar ba sail y cyflawnodd Efe'r weithred honno. Rhaid oedd iddynt hwy gael arwydd allanol, anianyddol a gweledig. Ond y mae gennym brofion amlwg yn hanesiaeth yr Efengylau na chredent hyd yn oed pe rhoddai'r Iesu iddynt yr hyn a fynnent. Pan gyflawnodd wyrthiau yn eu plith ychydig wedi hyn, beth oedd eu barn am dano? Ei fod mewn undeb nid â Duw ond â Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid!

19 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi.
20 Yna yr Iuddewon a ddywedasant, Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon; ac a gyfodi di hi mewn tridiau?
21 Ond efe a ddywedasai am deml ei gorph.

---

19. "*Dinystriwch y deml hon ac mewn tridiau y cyfodaf hi.*" Nid yw'r gair a ddefnyddir yma am "deml" yn gyfystyr â'r un a gawn yn adn. 14. Golyga'r gair hwn y Cysegr Sanctaidd a'r Cysegr Sancteiddiolaf yn unig, tra y cynwysa'r gair a geir yn adn. 14 yr holl deml. Felly pan ddefnyddir y gair mewn ystyr ffigyrol, rhaid mai at y rhan fwyaf mewnol a chyfrin (o unrhyw beth) y cyfeirir. Gwnaeth y geiriau argraff ddofn ar feddwl y disgyblion yn ogystal â'r Iddewon. Ffurfiai'r ymadrodd un o gyhuddiadau'r Iddewon pan oedd yr Iesu ar Ei brawf, a chofiodd y disgyblion iddo ddywedyd felly ar ol yr Adgyfodiad. Ond beth a olygai'r Iesu wrth y gair "teml"? Rhoddir dau eglurhad arno,—un gan yr Iddewon yn yr adnod nesaf, a'r llall gan yr Efengylwr yn adn. 21.

20. "*Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu'r deml hon.*" Golyga'r geiriau hyn yn ddiameu fod y gwaith o adeiladu'n myn'd ymlaen o hyd. Hysbysir ni gan Josephus mai yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Herod Fawr y dechreuwyd y gwaith a'i fod wedi ei orphen yn y flwyddyn o.c. 64, chwe' blynedd cyn llosgiad y deml gan y Rhufeiniaid yn o.c. 70. Y mae'r dyddiad a roddir yma'n hynod bwysig am y gallwn gasglu oddiwrtho pa bryd y ganwyd yr Iesu. Os ydyw'r cyfrif hwn yn gywir rhaid mai am Wyl y Pasg yn y flwyddyn o.c. 28 y cawn hanes yn y bennod hon, ac os oedd yr Iesu'r pryd hwn yn 30 mlwydd oed, rhaid ei fod wedi cael ei eni ddwy flynedd yn gynarach nag a dybir yn gyffredin. Y mae'r cyfeiriad a gawn yn S Luc iii. 1 at y "bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius Cesar" hefyd yn myned i brofi mai am Basg y flwyddyn o.c. 28 y sonnir yma. Dyma'r eglurhad a roddai'r Iddewon ar eiriau'r Iesu yn adn. 19. Credent mai at yr adeilad gorwych ar fynydd Seion y cyfeiriai.

21. "*Am deml Ei gorph.*" Yma cawn eglurhad yr Efengylwr ar y geiriau, yr esboniad yn ddiau a dderbyn-

22 Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddisgyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy: a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddywedasai yr Iesu.

---

iodd y disgyblion trwy gyfrwng yr Adgyfodiad. Y mae dadleu hir a brwd wedi bod ymhlith esbonwyr parthed yr eglurhad hwn. Ai eiddo'r Iesu Ei Hun ydyw, ai ynte eiddo'r Efengylwr? Myn llawer o esbonwyr anghrediniol mai am y deml weledig y llefarai'r Iesu, yn adn. 19, a bod yna gyfeiriad at waith yr Iddewon yn llygru eu teml trwy oddef y masnachu a gondemniwyd ganddo yn adnodau 15, 16. Prophwydai'r Iesu ymhellach, yn ol yr esbonwyr hyn, y deuai dinystr ar y deml faterol a welid o'u blaen, ond y deuai erbyn hynny deml ysbrydol i lanw ei lle. Wrth reswm, yr Efengylwr sydd yma, yn ol eu barn hwy, yn rhoddi ei esboniad ei hun, ond yn anffortunus dywed yr un esbonwyr mai'r awdwr sydd hefyd yn gyfrifol am adn. 19. Os felly y mae'r Efengylwr yma yn egluro'r anhawster a greodd ei hun, ac nid y dirgelwch a geir yn ngeiriau'r Iesu o gwbl. Y mae'n bwysig iawn i ni gofio'r hyn a ddywed yr awdwr yn yr adnod nesaf. Yno sonnir am y disgyblion ar ol yr Adgyfodiad yn cofio am y geiriau ac yn eu deall mewn ystyr hollol newydd. Paham ynte y cofiasant am danynt ar ol yr Adgyfodiad mwy nag ar ryw adeg arall? Credwn nad oedd hyd yn oed ddisgyblion yr Iesu Ei Hun wedi deall Ei ystyr ar y pryd, a bod y geiriau yn llawn mor dywyll iddynt o ran eu gwir ystyr ag yr oedd natur ysbyrdol teyrnas y Messiah 'n gyffredinol. Y mae lle cryf i feddwl fod yna gyfeiriad at y deml weledig, ond yn ol arfer yr Iesu pan yn llefaru damegion, llyncir i fyny'r meddwl llythyrennol gan y meddwl dyfnach a olygir drwyddo. Nid oedd y deml weledig felly'n ddim ond offeryn er cyfleu'r gwirionedd am y deml uwch oedd yno,—corph yr Iesu yn yr hwn y trigai'r Duwdod adeg yr Ymgnawdoliad. Defnyddid y gair am y Cyssegr Sancteiddiolaf lle yr ymddanghosai y Shechinah—gogoniant yr Arglwydd,—ond defnyddia'r Iesu ef am y Cysegr Sancteiddiach, lle y preswylia Duw Ei Hun.

22. Gweler y nodiadau ar yr adnod flaenorol.

"*A hwy a gredasant yr Ysgrythyr.*" Credwn mai cyfeiriad sydd yma nid at unrhyw adran yn benodol, ond

23 ¶ Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasc yn yr wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe.

24 Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai efe hwynt oll;

25 Ac nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb *iddo* am ddyn: o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.

---

at y prophwydoliaethau am Adgyfodiad yr Iesu'n gyffredinol. Yr oedd y rhai hyn yn gyfarwydd i bob Iddew, a phan ddaeth y goleuni newydd deallasant eu hystyr.

Yr Iesu yn y ddinas.—Adn. 23—25.

23. Am weinidogeth yr Iesu yn ninas Jerusalem, ar wahan i'w waith yn y deml, y sonnir yma.

"*Llawer a gredasant yn Ei Enw Ef.*" Y mae'n amlwg mai nid at yr adran swyddogol o'r genedl (y rhai a gawn yn adn. 18) y cyfeirir, ond at y bobl gyffredin oedd wedi ymgasglu i'r ŵyl o bob rhan o'r wlad. Credwn fod y "credu yn Ei Enw Ef" a geir yma'n wahanol i'r un a gawn yn i. 12. Rhaid oddiwrth yr hyn sydd yn dilyn mai credu yn yr Iesu fel y Messiah a olygir yma. Nid oedd Efe, i feddwl y bobl hyn, ond gwaredwr addawedig cenedl yr Iddewon.

"*Wrth weled yr arwyddion a wnaethai Efe.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yma'n fwy cywir na'r Saesneg—"arwyddion" nid "gwyrthiau." Yr oedd y bobl hyn yn gweled yn Ei waith brofion allanol o'i ddwyfol anfoniad, ac am hynny credent ynddo. Yr oedd Ei ddisgyblion yn credu ynddo heb weled arwyddion, tra y pallai'r Phariseaid a'r ysgrifenyddion gredu er gweled y cyfryw. Y mae'r dosbarth yma'n rhywle rhwng y ddau eithaf-bwynt.

24. Yr un gair a ddefnyddir yma am "ymddiried" ag a geir yn adn. 23 am "gredu," a diameu fod yma gyferbyniad. Ymddiriedent hwy ynddo Ef, ond nid oedd yr Iesu am ymddiried ynddynt hwy, oblegid Ei fod yn gallu darllen eu cymeriadau a'u meddyliau. Gwyddai nad oedd eu crediniaeth yn ddim ond ffrwyth brwdfrydedd y foment, yr oeddent yn Ei ddilyn nid er Ei

PENNOD III.

Ac yr oedd dyn o'r Phariseaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon:

---

fwyn Ei Hun ond er mwyn syllu ar y rhyfeddodau a wnelai Efe.

25. "*Am ddyn.*" Credwn mai nid at ddynoliaeth yn gyffredinol y cyfeirir, oblegid ceir y fannod yn y Groeg. Y meddwl yw Ei fod yn adnabod pob dyn ar ei ben ei hun, y wybodaeth fanylaf felly y gallai unrhyw un ei mheddu.

"*Oherwydd yr oedd Efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.*" Yr oedd yr Iesu yn gwybod am gyfansoddiad y natur ddynol,—yr oedd yn hyddysg yn nodweddion y teulu, ond fel y gwelir oddiwrth yr adran flaenorol, gwyddai hefyd am gymeriad personol pob aelod o'r teulu. Y mae'r gair a gyfieithir yma "gwybod" yn cyfeirio'n fynychaf at wybodaeth ddynol mewn cyferbyniad i hollwybodaeth Duw, ond pan sonnir am yr Iesu'n gwybod rhaid fod y gair hwn fel llawer gair arall wedi derbyn ystyr uwch pan ddefnyddir ef am dano Ef. Y mae gwybodaeth y Duw-ddyn, yn ogystal a'i weithredoedd, yn rhan o ddirgelwch mawr yr Ymgnawdoliad. Y mae'n rhwystr mawr ar ein ffordd i gredu mewn unrhyw athrawiaeth o ymwaghad o'r fath ag a ddysgir gan lawer o esbonwyr beirniadol.

PENNOD III.

YMDDIDDAN CRIST A NICODEMUS.—PENNOD III. 1—21.

Yr hyn a gawn yn yr ymddiddan hwn, fel yn yr ymddiddanion ereill a groniclir yn yr Efengyl, ydyw crynhodeb o'r hyn a gymerodd le, mor bell ag yr oedd disgyblion yr Iesu yn gallu cofio. Y mae braidd yn amhosibl credu y cawn adroddiad air am air, ac y mae'n llawn mor amhosibl derbyn y syniad gorfeirniadol mai dim ond cordeddu ei ddychymygion ei hun y mae'r awdwr.

1. "*Ac yr oedd dyn o'r Phariseaid.*" Y mae'n amlwg fod y gair "dyn" a geir yma'n cysylltu'r adnod hon â

2 Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef.

---

diwedd y bennod flaenorol. Yr oedd y gwr hwn yn un o'r rhai hynny a gredasent yn "enw" 'r Iesu'n ystod yr wyl. Ceid y synwyr priodol pe dywedid "Er engraifft, yr oedd dyn."

"*A'i enw Nicodemus.*" Golyga'r enw hwn yn y Groeg "gorchfygwr y bobl." Ni wyddis fawr i sicrwydd am dano ond yr hyn a ddywedir wrthym yn yr Efengyl hon. Yn vii. 50 sonnir am dano'n cyhuddo'r Phariseaid o farnu'r Iesu heb fyned i'w glywed, ac yn xix. 39 dywedir ei fod ar ol y Croeshoeliad wedi dwyn myrr ac aloes i eneinio corph yr Iesu. Yr oedd yn aelod o'r Sanhedrin, a dywed traddodiad iddo gael ei ddiswyddo ar ol yr Adgyfodiad oherwydd iddo gyffesu'r Iesu'n gyhoeddus.

2. "*Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos.*" Myn rhai mai'n ffigyrol y defnyddir y geiriau, ac mai nos ysbrydol a olygir. Ond y mae'n amlwg mai nos naturiol a olygai'r awdwr, ac nad yw am wneud unrhyw gyfeiriad at gyflwr ysbrydol Nicodemus. Y mae amrywiol esbonwyr wedi ei gondemnio am iddo ddod i geisio'r Iesu yn y nos; dywedant ei bod yn amlwg ddigon mai dyn llwfr iawn ydoedd; ond rhaid cofio ei fod yn swyddog prysur a hefyd fod yr Iesu'n annerch y torfeydd yn ystod y dydd. Credwn fod Nicodemus yn dangos ei ddoethineb o'r hyn lleiaf wrth ddyfod at yr Iesu pan y daeth.

"*Nyni a wyddom.*" Yr oedd Nicodemus, mae'n amlwg, wedi derbyn yr Iesu fel diwygiwr a chanddo genadwri, ac wedi dyfod i geisio rhagor o wybodaeth oddiwrtho.

"*Wedi dyfod oddiwrth Dduw.*" Gosodir y geiriau "oddiwrth Dduw" ar ddechreu'r frawddeg yn y gwreiddiol, ac felly y maent yn bwysleisiol.

"*Canys ni allai neb wneuthur . . . . Duw gydag ef.*" Sylwer fod Nicodemus am nodi allan wyrthiau'r Iesu fel rhai neilltuol,—"y gwyrthiau yr wyt Ti'n eu gwneuthur." Yr oeddent yn brofion i Nicodemus o'i

3 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.

---

awdurdod, ond, er hynny, sicrwydd oeddent nid o'i ddwyfoldeb ond o'i ddwyfol anfoniad fel dysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw.

3. "*Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrtho.*" Dyma engraifft arall o waith yr Iesu'n darllen meddwl ei wrandawr cyn dywedyd o hono un gair ynghylch y pwnc yr oedd yn myfyrio arno. (Gwel i. 38, 48).

"*Yn wir yn wir.*" Gwel ar i. 51.

"*Meddaf i chwi.*" Llefarai'r Iesu o hono Ei Hun; nid oedd raid iddo ddefnyddio unrhyw ymadrodd yn dynodi mai llefaru yn enw yr Arglwydd yr oedd.

"*Oddieithr geni dyn drachefn.*" Yr oedd Nicodemus yn swyddog Iddewig, ac yn ddiddadl, fel y rhelyw o'r genedl etholedig, yn credu fod braint ei enedigaeth o had Abraham yn ei wneud yn etifedd teyrnas nefoedd. Felly rhaid fod geiriau'r Iesu'n swnio yn bur newydd iddo, "Oddieithr geni dyn drachefn." Y mae dwy ystyr i'r gair a gyfieithir yma "drachefn"; un ydyw "oddi-uchod," "oddi fyny," a'r llall yw'r cyfieithiad a roir yma, "drachefn." Yn yr ystyr olaf y mae'n amlwg y deallodd Nicodemus ef, fel y gwelir oddiwrth yr adnod nesaf. Sicrheir ni ymhellach mai "drachefn" ydyw'r unig ystyr a fedd y gair yn yr iaith Aramaeg, yr hon yn ddiau a siaradai'r Iesu a Nicodemus. Yr oedd cael ei eni'n Iddew fel y sylwyd, yn dwyn braint ysbrydol, ac felly credwn ei bod yn hollol naturiol i'r Iesu son wrth Iddew fel Nicodemus am adenedigaeth ysbrydol fel "geni dyn drachefn," ac nad oedd yn angenrheidiol o gwbl dywedyd "geni oddi-uchod."

"*Ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.*" Dyma'r unig fan lle y defnyddia'r awdwr yr ymadrodd "teyrnas Dduw," ond ceir ef yn bur fynych yn Efengylau S. Marc a S. Luc, ac yn yr Efengyl yn ol S. Mathew ceir ymadrodd yn cyfateb iddo,—"teyrnas nefoedd." Yr oedd yr ymadrodd mewn arferiad ymhlith awdwyr Iddewig cyn dyddiau'r Iesu, oblegid dyma un o'r termau a ddefnyddient i ddesgrifio teyrnas y Messiah disgwyliedig. Y mae iddo dair o wahanol ystyron o leiaf yn

4 Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?

5 Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.

---

yr Efengylau. (1.) Y nefoedd,—cartref y cadwedigion. (2.) Eglwys weledig Crist ar y ddaear. (3.) Crefydd bersonol yng nghalon dyn. Credwn yn ddiysgog mai yn yr ail ystyr y defnyddir ef yma, ac mai am ddyfod yn aelod o'i Eglwys weledig y sonia'r Iesu. Ond nid yw hyn wrth reswm yn cau allan yr ystyr gyntaf, y mae'r rhai a enir o ddwfr ac o'r Ysbryd ar eu derbyniad i gynulleidfa defaid Crist yn y cyflwr a'r lle priodol i'w parotoi ar gyfer mwynhau'r deyrnas yn yr ystyr gyntaf.

4. Y mae amryw feirniaid anghrediniol yn tybied mai gwadiaith ar ran Nicodemus a geir yma, ond nid oes angen dweud fod hyn yn hollol anghydweddol â'i holl ymddygiad ar yr achlysur hwn, yn ogystal ag â'i gymeriad cyffredinol fel ei darlunir yn yr Efengyl hon. Gwr difrifol ac ymofyngar ydoedd, a phan glywodd ef fel Iddew son am eni yn galluogi dyn i weled teyrnas Dduw, y mae'n gofyn yr unig gwestiwn y medrai ei ofyn. Ac hyd yn oed pe buasai wedi deall ar unwaith mai am "adenedigaeth ysbrydol" yn yr ystyr Gristionogol y soniai'r Iesu, byddai'n hollol naturiol iddo ofyn, "Pa fodd?" Dyma'r cwestiwn a ofynwyd gan grefyddwyr mwyaf profiadol yr oesau, dyma'r dirgelwch anamgyffredadwy y mae seintiau dirif wedi bod yn ceisio ei ddeall,—geni dyn drachefn. Felly nis gallwn gredu fod Nicodemus yn ffol nac yn wawdlyd pan ofynnodd ef.

5. "*Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd.*" Gadewir allan "o" o flaen "Ysbryd," ac felly'r cyfieithiad priodol ydyw "o ddwfr a'r Yspryd. Gadawyd yr "o" allan yn ddiameu'n fwriadol gan yr awdwr er mwyn dwyn y dwfr a'r Ysbryd i gysylltiad agosach â'u gilydd. Gan fod gweinidogaeth a bedydd Ioan Fedyddiwr yn fyw ym meddwl Nicodemus a phawb o'r Iddewon, nid oedd y son am "eni o ddwfr," fel yn arwyddo cyfnewidiad bywyd, yn ddieithr iddo. Yr hyn oedd yn ddyryswch iddo ef oedd "geni o ddwfr a'r Yspryd," ac

6 Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Yspryd, sydd yspryd.

---

y mae wedi parhau i fod o'i ddyddiau ef hyd heddyw yn anhawster mawr. Myn rhai esbonwyr o dueddiadau Anghydffurfiol nad yw'r ddau'n cymeryd lle'r un pryd am y rheswm, yn ol eu barn hwy, fod adenedigaeth ysbrydol yn beth mor wahanol i'r ddefod weledig o fedydd. Ond credwn fod agosrwydd y geiriau yn y frawddeg yn ddigon i brofi fod yr awdwr yn golygu fod y "geni o ddwfr" a'r "geni o'r Yspryd" yn cymeryd lle'r un pryd. Ond pan sonia'r esbonwyr hyn am "adenedigaeth" y maent yn edrych yn neilltuol ar grefydd a buchedd bersonol y credadyn; adenedigaeth iddynt hwy ydyw "troedigaeth" yr unigolyn, ac o ganlyniad nis gall gymeryd lle hyd oni chyrhaeddir "oedran pwyll." Ond pan y sonia esbonwyr Eglwys Loegr am "ailenedigaeth" yr hyn a olygant ydyw fod yr hwn a "ailenir" trwy'r bedydd yn cael ei impio "yn yr Eglwys," ar yr hon yr edrychant fel corph Crist yma ar y ddaear. "Arwyddir yn weledig, a selir trwy'r Ysbryd Glan, yr addewidion am faddeuant pechodau a'n mabwysiad i fod yn feibion i Dduw." (Gwel Erthygl xxvii., Llyfr Gweddi Gyffredin). Felly y mae'r plentyn a enir o ddwfr a'r Ysbryd yn dyfod i weled teyrnas Dduw oherwydd iddo gael ei osod o fewn Eglwys Crist, i ba un yn unig yr addawyd datguddiad o'r deyrnas honno. Dywedir wrthym drachefn nad yw wiw i ni gredu mai am y bedydd Cristionogol yr oedd yr Iesu'n son yma, gan nad oedd y bedydd hwnnw eto, o anghenrheidrwydd, wedi dyfod i arferiad. Yr atebiad i'r wrthddadl ydyw mai siarad yr oedd yr Iesu yn ol Ei arfer am egwyddorion Ei deyrnas nad oedd Ei ddisgyblion eto'n eu deall. Yn raddol y tyfodd y pren, ond yr oedd ein Harglwydd yn sicr ddigon wedi plannu'r hedyn. Goleuni Glan Ysbryd Duw'n raddol a arweiniodd feddyliau credinwyr i ddeall yr ystyr.

6. "*Yr hyn a aned o'r cnawd . . . . . o'r Ysbryd sydd Ysbryd.*" Cyferbynnir y "cnawd" yma â'r "Ysbryd," a'r hyn a olygir wrtho ydyw'r natur ddynol, yn cynwys y corph dynol a'i holl nwydau a'i chwantau. Dyma'r natur a etifeddir gan y mab oddiwrth ei dad,

7 Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.

8 Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno: a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly mae pob un a'r a aned o'r Yspryd.

---

ac ar wahan i ddylanwad Ysbryd Duw arni y mae o anghenrheidrwydd yn fynych yn anifeilaidd, aflywodraethus, a phechadurus. Effaith pob dylanwad drwg ydyw peri i'r elfen bechadurus hon gynyddu nes llindagu pob egwyddorion rhinweddol a daionus. Ond y mae elfen arall yn y cyfansoddiad dynol, hedyn a blanwyd ynddo gan ei Greawdwr ddydd y cread, ond atelir tyfiant y planhigyn hwn gan y dylanwadau a nodwyd yn y dyn cnawdol a phechadurus. Yn y dyn ysbrydol, ar yr ochr arall, ("yr hyn a aned o'r Ysbryd") y mae'n graddol ddatblygu i fywyd o dan effeithiau iachusol Ysbryd Duw. Y mae'r un egwyddor etifeddol, meddai'r awdwr, yn llywodraethu'r ddau fywyd.

7. "*Y mae'n rhaid eich geni chwi drachefn.*" Credwn fod "chwi" yma'n bwysleisiol; yr oedd ein Harglwydd am i'r Iddew hwn a ymffrostiai gymaint yn ei freintiau ddeall fod angen cyfnewid hyd yn oed genedl etholedig Duw. Yr oedd yn rhaid i'r elfen ysbrydol ddyfod i feddu'r "oruchafiaeth a'r gorfod" yn eu hanes hwythau hefyd.

8. "*Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno . . . . . a aned o'r Ysbryd.*" Yr un gair a ddefnyddir yn yr adnod am "wynt" ac am "Ysbryd," ond y mae'n amhosibl cyfleu hyn yn Gymraeg nac yn Saesneg, oherwydd ein bod ni'n defnyddio gwahanol eiriau. Yn yr Aramaeg a siaradai'r Iesu y mae i'r gair y ddwy ystyr hyn hefyd. Gan y defnyddir yr un gair ganddo am y ddau credir gan lawer mai cymharu'r gwynt a'r Ysbryd —ystyr is ac ystyr uwch y gair, oedd ei amcan. Ond y mae'n amlwg oddiwrth ffurf y frawddeg olaf o'r adnod, mai cymharu gweithrediadau'r gwynt â gweithrediadau'r Ysbryd y mae. Nid oedd yn golygu, wrth ddweud fod y gwynt yn chwythu lle y mynno, fod yr elfen hon yn berffaith afreolus, ond yn hytrach nad ydoedd dyn yn gwybod am y deddfau oedd yn llywodraethu ei symud-

9 Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?

10 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?

11 Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu; a'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn.

---

iadau. Felly, meddai'r Iesu, y mae gyda dylanwadau'r Ysbryd; ni wyddis wrth ba reol y gweithiant, ond nid yw hynny'n golygu nad oes deddf yn llywodraethu hyd yn oed weithrediadau Ysbryd Duw. Y mae tebygolrwydd arall rhwng y gwynt a'r Ysbryd yn eu gwaith. Clywir effeithiau'r gwynt meddai'r Iesu, (" ti a glywi ei swn ef "), ac felly hefyd canfyddir dylanwad Ysbryd Duw trwy arwyddion allanol.

9. "*Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?*" Yr oedd Nicodemus yn parhau o hyd yn ei syndod ymofyngar, ac y mae'r pwyslais i'w roddi o'r gair "dichon." Yr oedd yn yr ystad ysbrydol honno lle yr ymdrecha dyn ddeall dirgelwch y byd ysbrydol, ac nid oedd eto wedi dyfod i'r cyflwr sydd yn galluogi dyn i dderbyn dirgelwch trwy ffydd er nad yw'n ei deall.

10. "*A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel?*" Ceir y fannod yn y gwreiddiol, ac y mae'n ddiameu'n bwysleisiol. " Ai ti yw *y* dysgawdwr yn Israel? Ai ti yw'r aelod parchus o'r Sanhedrin, cynrychiolydd Iddewiaeth swyddogol yr oes?" Ni olygir ei fod yn fwy doeth na'i gyd-swyddogion yn y cyngor hwnnw, ond yn hytrach ei fod yn ddysgedig ac yn ddoeth o'i gymharu â'r bobl.

11. "*Yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru.*" Cwestiwn mawr y frawddeg hon ydyw pwy a olygir wrth y " ni." O bosibl yr oedd yr Iesu'n defnyddio'r frawddeg mewn ystyr gyffredinol am yr ymdrechion oedd wedi cael eu gwneud am oesau i oleuo'r Iddewon parthed y bywyd ysbrydol, a'i fod yn cyfeirio at waith y prophwydi a goronwyd gan Ei ymdrechion Ef Ei Hunan. Y mae'r frawddeg sydd yn dilyn yn wir yn yr ystyr hon. Ond credwn mai gwell ydyw meddwl mai ato Ei Hun a'i ddisgyblion y mae'r Iesu'n cyfeirio, yr ychydig hynny oedd eisoes wedi dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd a ddat-

12 Os dywedais i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu; pa fodd, os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch?

13 Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddi eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, *sef* Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef.

---

guddid trwyddo Ef. Yn ol eu gallu yr oeddent hwy, yn ogystal a'u Hathraw, yn llefaru'r hyn a wyddent.

"*A'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn.*" Yr oedd hyn yn wir am dderbyniad cenadwri'r prophwydi, ac yr oedd yn wir mewn ystyr neilltuol yn hanes yr Iesu a'i ganlynwyr. Cyrhaeddodd y diystyrwch cenedlaethol ei eithaf-bwynt yn Ei achos Ef.

12. "*Os dywedais i chwi bethau daearol . . . . bethau nefol, y credwch.*" Wrth "bethau daearol" golygir nid yn unig yr hyn sydd yn faterol a gweledig ond pob peth a gymer le ar y ddaear. A chan y dechreuir y "bywyd ysbrydol" tra yma, rhaid fod ein Harglwydd yn gosod yr ail-enedigaeth a'i ganlyniadau ymhlith "pethau daearol." Ond er dywedyd o hono wrth Nicodemus am yr "ail-enedigaeth" eto ni fynegwyd mo'r hanner. Y mae yna ddirgelwch ar ol dirgelwch i'w datguddio. Beth yw hanes y bywyd ysbrydol ar ol gadael y ddaear? Nid oes ond yr enedigaeth yn cymeryd lle yma'n fynych; beth am ei ddatblygiad yn y byd a ddaw? Ond, meddai'r Iesu, os nad ydych yn foddlon i dderbyn y dechreu, pa fodd y derbyniwch y diwedd? Rhaid, fel pe dywedai, i chwi ddeall rheolau a deddfau'r bywyd ysbrydol ar y ddaear, ac ufuddhau iddynt cyn y medrwch dderbyn na deall yr egwyddorion sydd yn rheoli ei dyfiant yn y byd anweledig.

13. "*Ni esgynodd neb i'r nef.*" Myn rhai mai ystyr leol yn unig sydd i'w roddi i'r gair nef, ac y golyga'r adnod mai'r Iesu'n unig oedd yn y cyflwr moesol angenrheidiol i dderbyn a chyfleu datguddiad dwyfol. Credwn mai gwell ydyw meddwl Ei fod, yn ol Ei arfer, yn derbyn syniadau'r oes fel y cafodd hwynt, a'i fod yn son am y nefoedd fel lle. Y mae'r geiriau "esgyn," a "disgyn" yn ffafrio hyn er nad o angenrheidrwydd. Os oedd dynoliaeth i dderbyn datguddiad dwyfol, yr oedd yn rhaid i rywun o'r ddaear esgyn i'r nef i'w geisio. Ond ni esgynnodd neb yno, meddai'r Iesu, a'r unig ffordd

14 ¶ Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn;
15 Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

---

arall ydoedd i un o'r nefoedd ddisgyn i'r ddaear er cyfleu r datguddiad hwn i'w phreswylwyr.

"*Yr hwn sydd yn y nef.*" Gadewir y frawddeg hon allan yn gyfangwbl mewn amryw lawysgrifau, ac y mae amryw ysgolheigion galluog am ei gwrthod. Dywedant mai pwrpas yr ychwanegiad a wnaed gan rywun ydoedd dwyn i'r amlwg y cyferbyniad rhwng esgyniad yr Iesu a'i arhosiad yn y nef. Os cedwir y geiriau rhaid deall mai ystyr foesol sydd i'r gair "nef" yn yr adnod, neu pa fodd y mae'n bosibl siarad am hyd yn oed ein Harglwydd fel "yn y nef"? Dichon mai'r anhawster o egluro'r frawddeg yng ngoleuni'r cysylltiadau a barodd i'r ysgrifennydd cyntaf adael y geiriau allan, gan gyflawn gredu mai camgymeriad rhywun o'i flaen oedd wedi eu dodi yno.

14. *Ac megys y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch.*" Y mae'r cysylltair "ac" yn uno'r adnod hon â'r un flaenorol. Y mae'r Iesu wedi bod yn son am Fab y Dyn yn uno nef a daear, ac yma y mae am son yn ychwanegol am Ei angeu, fel canlyniad y disgyniad o'r nefoedd. Megys ag yr oedd Moses, ar ororau Gwlad yr Addewid, wedi dyrchafu'r sarff er dwyn iechyd corphorol i'r rhai oedd wedi eu brathu gan seirff gwenwynig y diffaethwch, felly y mae dyrchafiad Mab y Dyn i fod yn foddion hefyd i roddi i glwyfedigion dynolryw iechyd a gwaredigaeth. Ni ddywedir wrthym eto pa fodd y mae Mab y Dyn i gael Ei ddyrchafu, ond y byddai iddo, mewn rhyw ffordd, fod mewn sefyllfa lawn mor amlwg a'r sarff bres yn y diffaethwch.

15. "*Fel na choller . . . . . fywyd tragwyddol.*" Tebyg mai rhyw gopiwr a ddygodd i mewn y geiriau "na choller ond," ac os gadewir hwy allan, yna dylid cyfieithu'r adnod fel y canlyn,—"Fel y caiff pwy bynnag a gredo ynddo Ef fywyd tragwyddol." Meddwl yr adnod ydyw mai megys ag y derbyniodd pob Israeliad oedd yn credu yn Nuw genadwri oddiwrth Dduw trwy'r sarff bres, felly hefyd yr oedd pwy bynnag oedd yn credu yn Nuw i

16 ¶ Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na cholle'r pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

---

dderbyn cenadwri trwy ddyrchafiad Mab y Dyn i'r un amlygrwydd. Ond nid yw pob dyn mewn cyflwr priodol i ddeall y genadwri. Gwirionedd ysbrydol ydyw cynwys y genadwri, ac nis gall ond y rhai sydd yn credu ei derbyn. Sylwer hefyd nad yw'r Iesu'n cyfyngu'r fendith hon o fywyd tragwyddol i genedl Israel, ond yn hytrach dywedir fod pob un a gredo i dderbyn y cyfryw. Y mae dydd breintiau genedigol wedi myned heibio a gwawr iachawdwriaeth gyffredinol ar dorri.

16. Y mae rhai esbonwyr am ddweud fod yr ymddiddan â Nicodemus yn gorphen gydag adn. 15, ond y mae cysylltiad mor agos rhwng adnodau 15 a 16 o ran geiriad ac o ran meddwl fel mai prin y gellir credu hynny. Gwir ei bod yn bur anhawdd penderfynu mewn amrywiol fannau yn yr Efengyl pa un ai'r awdwr, ai ynte un o'r personau y sonnir am danynt sydd yn siarad, ond ni chawn yn unrhyw un o'r engreifftiau hynny fod y cysylltiad mor agos ag ydyw yma.

"*Canys felly y carodd Duw y byd.*" Y mae dau air yn cael eu defnyddio am gariad Duw yn y Beibl, ac y mae amryw esbonwyr wedi ceisio dangos y gwahaniaeth rhyngddynt. Un ydyw'r cariad o drugaredd, a thosturi, a chydymdeimlad â phechadur yn ei drueni,—dyma'r cariad am ba un y sonnir yma. Y cariad arall ydyw'r teimlad o anwyldeb sydd yn y Fynwes ddwyfol tuag at bawb o deulu Duw sydd eisoes wedi eu hail-eni. Y mae clywed fel hyn am gariad Duw yn beth perffaith gyfarwydd i ni, ond credwn fod Nicodemus wedi clywed y geiriau am y waith gyntaf erioed o enau'r Iesu'n awr. Dyma, meddai'r Iesu, oedd sail holl weithrediadau Mab y Dyn ar y ddaear; o'r fan yma yr oedd pob peth wedi tarddu. Ac nis gellir myned o'r tu ol i'r cariad dwyfol hwn, na gwybod beth oedd yr achos ohono; nid oes na dechreuad na gwraidd na sylfaen i gariad Duw; y mae fel yr hanfod ddwyfol ei hun yn dragywydd ac yn anfeidrol.

"*Ei unig-anedig Fab.*" Ceir y fannod o flaen "Mab" ac o flaen "unig-anedig" yn y gwreiddiol, er

17 Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.

---

mwyn rhoddi pwys neilltuol ar yr olaf. Dyma'r unig fan lle y cawn yr Iesu yn defnyddio'r teitl aruchel hwn am dano Ei Hun, a dyma un o'r rhesymau paham y myn rhai o'r esbonwyr at ba rai y cyfeiriwyd uchod, mai nid yr Iesu ond yr Efengylwr oedd yn ei ddefnyddio. Noder hefyd mai nid "fel yr anfonodd" a ddywedir ond "fel y rhoddodd." Golyga'r geiriau mai offrwm cariad oedd y Mab, ac yr oedd rhoddi'r offrwm mewn rhyw ffordd ddirgelaidd yn golygu hunan-amddifadiad ar ran y Tad. Pe buasem yn siarad yn ddynol buasem yn dweud fod rhyw wahaniad a rhyw bellter wedi dyfod i fodolaeth rhwng y ddau, lle nad oedd ond cariad angerddol ac anwahanedig o'r blaen. Yr oedd mawredd y rhodd uwchlaw deall na dychymyg dyn, ac y mae hyn wedi arwain meddylwyr galluog a chraff mewn gwahanol oesau i geisio rhoddi rhyw eglurhad ar Berson y Mab heblaw'r un cyffredin. Os oedd y Mab yn ogyfuwch â Duw, ac yn wrthrych cariad tragwyddol y Tad, dywedant ei bod yn amhosibl iddo Ei "roddi," ac o gaulyniad er mwyn dyfod dros ben yr anhawster, iselhant y Mab. Er engraifft, dywedai Arius a'i ganlynwyr mai rhywun a grewyd cyn bod dyn oedd Mab Duw,—y cyntaf-anedig o'i frodyr.

"*Fel na choller . . . ond caffael . . .*" Nid yr un amseriad a geir yn y ddwy ferf; golyga'r gyntaf "colli unwaith am byth," tra y mae amseriad yr ail yn golygu mai "cael yn barhaus" a feddylir. Nid "credu ynddo Ef" a ddywed y gwreiddiol ond "credu arno Ef," a barnwn fod y gwahaniaeth yn un bwriadol. Yr hyn a olygir wrth "gredu arno Ef" ydyw ymorphwys yn hollol arno am gadwedigaeth,—rhoddi ein holl ymddiriedaeth arno Ef.

17. "*Oblegid ni ddanfonodd Duw . . . . . fel yr achubid y byd trwyddo Ef.*" Y mae'r gair "damnio" a geir yn y cyfieithiad yn gryfach o lawer na'r gair a geir yn y Groeg. Golyga'r gair "ddewis rhwng dau" neu "feirniadu"; gair trymach a ddefnyddir yn wastad am gondemnio. Defnyddir dau air hefyd yn y Test. Newydd am "ddanfon,"—un a geir yma, (gwraidd yr

18 ¶ Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir: eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes; o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw.

---

hwn a geir yn y gair Apostol), yn golygu anfon i gyflawni gwaith penodol neu gyhoeddi cenadwri neilltuol, a gair arall yn dwyn o'n blaen yr unig berthynas rhwng yr anfonedig ar hwn sydd yn ei anfon. Diameu fod yma gyfeiriad yn yr ymadrodd "barnu'r byd" at y gred fod y Messiah pan ddeuai i eistedd mewn barn ar y Cenhedloedd,—syniad a dyfodd yn ystod y cyfnod a aeth heibio rhwng adeg y prophwyd olaf a dyfodiad yr Iesu. Cawn gyfeiriadau mynych ato yn rhai o lyfrau'r Apocrypha, ffrwyth dychymyg yr oesoedd hynny. Gorthymid y genedl yn dost, ac nid oedd ond naturiol iddynt gredu y byddai i'w Gwaredwr addawedig ddwyn dialedd a chosbedigaeth ar eu gelynion. Ond nid fe'ly yr oedd i fod meddai'r Iesu yma; nid dyfod yr oedd y Mab i farnu ond i achub pawb. Ceir y syniad hefyd mai nid achub cenedl a olygir ond achub y byd yn eglur mewn un adnod ar ol y llall,—15, 16, a 17. Ceir y ferf "achubid" hefyd yn y ffurf oddefol, tra y mae "damnio" yn y ffurf weithredol, a gwel rhai ysgrifenwyr fwriad ar ran yr awdwr i bwysleisio'r gwirionedd mai oddiwrth Dduw Ei Hun y daw iachawdwriaeth, ac mai cydsynio â'r drefn trwy ffydd y mae'r credadyn, tra y mae ei farnu a'i golli'n dibynnu'n hollol arno ef ei hun.

18. "*Credu arno ef*" a geir yn y gwreiddiol yma eto, a rhoddir i ni ganlyniad yr ymorphwysiad llwyr at ba un y cyfeiriwyd (adn. 16). Y mae'r hwn sydd yn credu wedi peidio a dibynnu am ei gyfiawnder na'i anghyfiawnder, yn yr ystyr hon, ar ei weithredoedd ei hun; y mae'n ymorphwys yn hollol ar ei Waredwr; y mae "yng Nghrist" ac am hynny ni fernir ef. Ni ddaeth y Mab, fel y dengys yr adnod flaenorol, i'r ddaear i gyhoeddi barn, ac eto yr oedd Ei ddyfodiad yn achos barn. Ynddo Ef ceid safon cyfiawnder perffaith, ac yr oedd gwrthodiad o hono fel yr unig un a fedrai gadw rhag condemniad, ynddo ei hun yn dwyn barn ar y rhai a wnaent hynny. Felly y mae'r hwn na chredo'n dwyn y farn arno ei hun; y mae'n gondemniedig yn wyneb deddf cyfiawnder. Ond nid yw'r ffaith na fernir y credadyn mwy'n golygu nad

19 A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni; canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

---

ydyw Duw o hynny allan yn sylwi pa un a'i drwg ai da yw ei weithredoedd. Nid yw hyd yn oed credu yn Unig-anedig Fab Duw yn gwneud i ffwrdd â chyfrifoldeb personol. Y mae anghofio'r gwirionedd olaf hwn wedi arwain pobl mewn gwahanol oesau i eithafion anghredadwy.

19. "*A hon yw y farn, ddyfod y goleuni i'r byd.*" Wrth "farn" y golygwn yn fynych y ddedfryd a roddir neu'r ddewisiad a wneir rhwng dau beth, ond nid dyna ydyw ystyr y gair a geir yn y gwreiddiol yma. Golyga hwn y "barnu" sydd yn myned ymlaen yn barhaus. Y mae dyfodiad Iesu Grist i'r byd yn yr Ymgnawdoliad wedi gosod safon wrth ba un y pwysir ac y mesurir pawb, ac y mae'r pwyso a'r mesur yn myned ymlaen o hyd meddai'r Efengylwr. Nid "dyfod goleuni" a ddywedir yn y gwreiddiol,—gallasai hynny gyfeirio at unrhyw ddatguddiad dwyfol,—ond "dyfod y goleuni."

"*A charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni.*" Y mae amseriad y ferf yma'n golygu fod dynion wedi dyfod i benderfyniad unwaith am byth. Y mae llawer o ddadleu wedi bod ynghylch ystyr yr adran hon. Myn rhai fod hyd yn oed yr anghredinwyr mwyaf gwargaled yn caru'r goleuni i ryw raddau, ond fod eu hymlyniad wrth y tywyllwch lawer yn gryfach; ond y mae cyfeithiad mwy cywir o'r adnod yn gwneud i ffwrdd â'r anhawster,—"a charu o ddynion y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni." Ond tra y parhao anghredinwyr yn y byd, wrth reswm nid ydynt heb fod yn gweled y goleuni; yr hyn a ddywedir ydyw nad oes ynddo'r un swyn iddynt o'i gymharu â'r tywyllwch a garant mor fawr. Y mae'r gair a ddefnyddir yma "tywyllwch" yn wastad yn cael ei ddefnyddio mewn cyferbyniad i "oleuni."

"*Canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.*" A dilyn trefn y gwreiddiol dyma geir,—"Canys drwg oedd eu gweithredoedd hwy," ac ysgrifennodd yr awdwr felly er mwyn pwyslais. Sylwer mai anfoesoldeb buchedd a rydd yr Iesu fel rheswm am yr anghrediniaeth, ac

20 O herwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoeddêr ei weithredoedd ef.

21 Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhâer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt.

---

nid methiant ar ran y deall dynol i weled rhagoroldeb y goleuni. Y mae dynion yn anghredu, meddai Ef, am na fynnant weled.

20. Gair arall a ddefnyddir am "ddrwg" yma, yr hwn a olyga'n wreiddiol "rhywbeth ysgafn, dibwys," a'r syniad oedd o flaen meddwl yr awdwr yn ddiameu ydoedd bywyd ysgafn, penchwiban, nad ydyw wedi sylweddoli ei fawredd ei hun na'i bwysigrwydd. Nid ydyw pobl felly'n euog o gyflawni pechodau cyhoeddus, y maent yn allanol yn ddiargyhoedd ddigon, ond nid ydynt erioed wedi treiddio i mewn i feddwl ac ystyr bywyd. Cynrychiolid y dosbarth hwn gan Phariseaid oes yr Iesu.

"*Fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef.*" Y mae'r gair a gyfieithir "argyhoeddi" yn y frawddeg hon yn ogystal ag mewn mannau ereill yn yr Efengyl yn golygu dau beth,—(1) pwyso a mesur y weithred; (2) ei chondemnio,—dangos i'r gweithredwr ei bod yn ddrwg os "ceir hi yn brin." A dyma'n union yr hyn y mae'r anghredadyn yn ei ofni,—cael ei dafoli.

21. "*Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd.*" Y mae'r ymadrodd "gweuthur gwirionedd" mewn un ystyr yn gyferbyniol i'r ymadrodd "gwneuthur drwg" a geir yn adn. 20, ond nid yr un ferf a ddefnyddir. Yr hyn yn ddiameu a olygir wrth "wneuthur drwg" yn adn. 20 ydyw cyflawni nifer o weithredoedd drwg; ond nid y syniad o gyflawni amrywiol weithredoedd da a gawn yma, ond yr holl weithredoedd hynny mewn un cyfanswm. Cyfeirir atynt o ran eu tarddiad a'u heffeithiau fel "gwirionedd." Gwirionedd ydyw'r ffynhonnell o ba un y tarddant un ac oll, ac o dan y darlun a ffurfiant gyda'u gilydd hefyd gellid ysgrifennu "gwirionedd."

"*Fel yr eglurhaer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt.*" Ni olygir yma fod y credadyn yn

22 ¶ Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Judea; ac a arhosodd yno gyd â hwynt, ac a fedyddiodd.

23 ¶ Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim; canys dyfroedd lawer oedd yno: a hwy a ddaethant, ac a'u bedyddiwyd;

---

awyddus am i'w weithredoedd gael eu pwyso er mwyn iddo ef yn bersonol dderbyn clod ac anrhydedd, ond y mae'n dyfod i'r goleuni er mwyn dangos o ba le y maent wedi tarddu, a phrofi mai ei gymundeb agos ef â Duw, a'i ymorphwysiad hollol arno sydd yn cyfrif am y cyfan. Rhoddir pwyslais neilltuol yn y gwreiddiol ar yr ymadrodd "yn Nuw," a'r hyn a olygir ydyw mai trwy allu Duw, a roddir i'r credadyn sydd mewn undeb âg Ef, y gwnaed hwynt oll. Nid y dyn trwy ei nerth ei hun a'u cyflawnodd ond gras Duw a'i galluogodd i wneud hynny.

22—36. Gellir rhannu'r adran hon yn dair rhan. (1.) Crynhodeb o waith yr Iesu yn Judea (22—24). (2.) Tystiolaeth Ioan Fedyddiwr (25—30). (3.) Ymhelaethiad yr Efengylwr ar y dystiolaeth honno (31—36).

22. "*Wedi y pethau hyn.*" Nid ydym i ddeall fod yr Iesu a'i ddisgyblion wedi gadael Jerusalem ar unwaith.

"*Gwlad Judea.*" Yma golygir y dalaeth Rufeinig oedd yn dwyn yr enw, ar wahan i'r brif-ddinas. Nid oes dim gwybodaeth eglur parthed gweinidogaeth yr Iesu yng ngwlad Judea am ba un y sonnir yma, ond tybir nad oedd yn gyfyngedig i un lle penodol. Rhaid i ni feddwl am yr Iesu a'i ddisgyblion yn ymdeithio o fan i fan, a thorfeydd lawer yn Ei ddilyn. Yn adn. 26 fe'n hysbysir fod pawb yn dyfod ato Ef.

"*Ac a fedyddiodd.*" Mor bell ag y medrwn gasglu oddiwrth iv. 2 mae'n debyg mai nid yr Iesu Ei Hun oedd yn gweinyddu'r bedydd ond Ei ddisgyblion. Y mae tebygolrwydd mawr rhwng gwaith yr Iesu, fel ei desgrifir yma, a gwaith Ioan Fedyddiwr. Yr oedd yr Iesu wedi ymweled â'r brif-ddinas ac wedi Ei wrthod gan gynrychiolwyr Iddewiaeth swyddogol. Yn awr y mae wedi troi at y werin bobl ac yn gwneud Ei apel ar linellau tra gwahanol.

23. "*Yn Ainon yn agos i Salim.*" Ystyr yr enw Ainon ydyw "ffynhonnau," ac o bosibl cyfeirir at hynny

24 Canys ni fwriasid Ioan etto yng ngharchar.
25 ¶ Yna y bu ymofyn rhwng *rhai* o ddisgyblion Ioan a'r Iuddewon, yng nghylch puredigaeth.

---

yn yr ymadrodd, "Canys dyfroedd lawer oedd yno." Y mae cryn amheuaeth ynghylch safle pob un o'r ddau le. Yr hen syniad oedd mai yn nyffryn yr Iorddonen yr oedd y ddau, rhyw 8 milldir islaw Bethsan. Yr hyn oedd yn milwrio yn erbyn derbyn y golygiad yna ydoedd fod yr adnod flaenorol yn cyfyngu gweinidogaeth yr Iesu i dalaeth Judea, a bod cysylltiad mor agos rhwng y ddwy adnod. Y mae un darganfyddwr wedi dod o hyd i ryw le yn cyfateb i'r desgrifiad a geir yn yr adnod, (yn dwyn yr enw Wady Farah), oddeutu 5 milltir o Jerusalem, ond y mae'n anhawdd penderfynu gan na wyddis ond y nesaf peth i ddim am yr un o'r ddau le.

24. Ymddengys oddiwrth yr adnod fod y weinidogaeth hon o eiddo'r Iesu yn Judea yn blaenori'r un yn Galilea am ba un y sonia'r Efengylwyr ereill. (Cymharer S. Ioan iv. 3; S. Math. iv. 12). Gwir fod hanes yn yr Efengyl hon (ii. 1—12) am weinidogaeth yr Iesu yn Galilea, ond mae'n debyg mai fel rhagbaratoad ar gyfer Ei yrfa gyhoeddus y mae i ni edrych ar y gwaith hwnnw.

25. "*Ymofyn rhwng rhai o ddisgyblion Ioan a'r Iddewon.*" Yn ol y llawysgrifau goreu nid Iddewon ddylid ddarllen yma ond "Iddew." Mae'n debyg oddiwrth eiriad yr adnod mai disgyblion Ioan a ddechreuodd y ddadl. Ni roddir fawr o oleuni ynghylch pwnc neilltuol y ddadl, yr unig beth a ddywedir ydyw ei bod "ynghylch puredigaeth." Diameu ei bod yn dwyn rhyw gysylltiad â'r ddefod o fedydd a weinyddid gan Ioan Fedyddiwr ac hefyd gan ddisgyblion yr Iesu. Efallai fod ein Harglwydd wedi bod yn tynnu'r llen yn ol, megys ag y gwnaeth yn achos Nicodemus, ac yn dechreu dysgu ei ganlynwyr am berthynas y ddefod hon o fedydd âg adenedigaeth ysbrydol. Nid oedd Ioan wedi dysgu dim am y fath athrawiaeth, gofyn yr oedd efe am edifeirwch ar ran pawb a ddeuai, fel paratoad i buredigaeth y bedydd. Os oedd yr Iesu wedi dysgu mwy nid oedd ond naturiol fod rhai o ddisgyblion syml Ioan oedd yn dwyn mawr sel dro eu hathraw mewn cryn ddyryswch.

26 A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr hwn oedd gyd â thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnnw yn bedyddio, a phawb yn dyfod atto ef.

27 Ioan a attebodd ac a ddywedodd, Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef.

28 Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef.

---

26. Yr oedd yr Iesu'n fwy poblogaidd, meddent hwy, na hyd yn oed eu hathraw,—"pawb yn dyfod atto Ef." Y mae'n ymddangos fod torfeydd lawer yn gadael y Bedyddiwr ac yn dilyn y Dysgawdwr newydd. Gwelir nad oedd disgyblion Ioan Fedyddiwr eto'n deall natur ei weinidogaeth er cymaint o eglurhad a roddasai efe arni. Yr oeddent yn hynod anfoddlon fod neb yn meiddio bedyddio ond Ioan.

27. "*Ni ddichon dyn . . . . wedi ei roddi iddo o'r nef.*" Y mae cryn amheuaeth ymhlith esbonwyr pa un ai ato ei hun y mae'r Bedyddiwr yn cyfeirio ai at yr Iesu. O bosibl, dyfynnu egwyddor gyffredinol yr ydoedd, egwyddor y gellid ei chymhwyso at bob un o'r ddau. Fel pe dywedai, "Nis gallaf gael dim mwy o awdurdod nag sydd gennyf, ac nis gall yr Hwn yr ydych yn son am dano ychwaith wneud dim ond yr hyn a orchymynwyd iddo oddi uchod." Os oedd disgyblion Ioan yn teimlo gallu a dylanwad yr Iesu'n tynnu'r holl wlad i'w ddilyn yr oedd yn ddyledswydd arnynt i edrych ar y cyfryw fel dawn y nefoedd.

28. "*Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi.*" Y maent wedi dangos eisoes yn adn. 26 fod Ioan wedi dwyn tystiolaeth i'r Iesu, ac y mae efe am eu hadgofio beth oedd cynwys y dystiolaeth. Onid oedd ef wedi dweud wrthynt o'r dechreuad fod yr Hwn oedd i ddyfod yn fwy nag ef, ac eto, y maent yn teimlo'n eiddigeddus oherwydd fod ei dystiolaeth yn cael ei gwirio! Nid oedd yr hyn a welent ond canlyniad natur y gwirionedd mawr yr oedd efe wedi ei gyfleu iddynt.

29 Yr hwn sydd ganddo y briod-ferch, yw y priod-fab: ond cyfaill y priod-fab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr oblegid llef y priod-fab: y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd.

30 Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihâu.

31 Yr hwn a ddaeth oddi uchod, sydd goruwch pawb oll: yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru: yr hwn sydd yn dyfod o'r nef, sydd goruwch pawb.

---

29. Dyma'r unig fan yn yr Efengyl lle y cawn gyfeiriad at arferion neilltuol gwlad y dwyrain mewn cysylltiad â phriodas. Y mae'r darlun hwn o'r priodfab a'r briodferch yn cael ei ddefnyddio amryw weithiau yn yr Hen Destament er dangos y berthynas agos a fodolai rhwng Jehovah a'r bobl.

"*Cyfaill y priodfab.*" Hwn oedd yn gwneud pob trefniadau ar gyfer y briodas, yn gofyn am law'r ferch, &c. Bodolai'r arferiad ymhlith y Groegiaid yn ogystal a'r Iddewon. Gan fod y "cyfaill" yma felly mewn sefyllfa mor bwysig a chyfrifol, rhaid ei fod yn bur falch pan welai ei ymdrechion wedi eu coroni â llwyddiant, a dydd y briodas wedi dod.

"*Llef y priodfab.*" Tebyg mai cyfarchiad llon y priodfab i'r briodferch, yr hon a welai gyntaf wrth fwrdd y wledd briodas, a olygir yma. Yr oedd yn argoeli'n dda am lwyddiant yr undeb ac felly yr oedd cyfaill y priodfab yn llawen. Yn ol y desgrifiad a roddir yma, yr Iesu yw'r priodfab, yr Eglwys ydyw'r briodferch, a Ioan Fedyddiwr oedd cyfaill y priodfab, yr hwn oedd wedi gwneud trefniadau ar gyfer y briodas.

30. "*Rhaid ydyw iddo Ef gynnyddu, ac i minnau leihau.*" Yr oedd Ioan i leihau trwy gael ei garcharu ac yn y diwedd ei ddienyddio. Pan dynnodd Ioan ei anadl olaf, yr oedd dydd yr Hen Oruchwyliaeth wedi darfod, a gwawr y cyfnod Cristionogol yn torri ar ein byd.

31. Yn yr adnod hon cymharir gwaith pob athraw daearol oedd wedi dyfod ac wedi myned â gwaith yr un Athraw a ddaeth oddi uchod. Nid "yr hwn a ddaeth" a ddywedir yn y gwreiddiol ond yr "hwn sydd yn dyfod,"

32 A'r hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu: ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef.

---

edrychid ar ei ddyfodiad fel rhywbeth presennol. (Cymharer dywediad yr Iesu yn li. 33, "Canys bara Duw ydyw yr IIwn sydd yn dyfod i waered o'r nef").

"*Yr hwn sydd o'r ddaear . . . . . am y ddaear y mae yn llefaru.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yn cadw'r ail-adroddiad o'r geiriau "o'r ddaear" a geir yn y gwreiddiol. Y mae tri cyferbyniad yn y geiriau.

(1.) Yr oedd Ioan Fedyddiwr o'r ddaear,—dyma ei darddiad a'i gychwyniad, tra yr oedd yr Iesu o'r nef.

(2.) Yn unol â'i darddiad, yr oedd yn ddaearol, h.y., yn gyfyngedig o ran ei alluoedd, tra yr oedd yr Iesu'n meddu ar alluoedd anherfynol.

(3.) Yr oedd dysgeidiaeth y Bedyddiwr hefyd o angenrheidrwydd yn cael ei chyfyngu gan ei darddiad daearol a'i alluoedd egwan o'i gymharu â'r Iesu, yr Hwn oedd rydd oddiwrth bob rhyw lyffetheiriau, ac yn siarad gydag awdurdod am bethau'r byd ysbrydol. Yr oedd Efe gartref yn y byd hwnnw, ac yn gallu ei ddesgrifio'n effeithiol, tra nas gallai Ioan, er derbyn o hono ddatguddiad oddi uchod, wneud hynny gyda'r un awdurdod. Yn yr olwg ar ragoriaeth yr Iesu, a'i gymharu nid yn unig â'r Bedyddiwr ond â phob dysgawdwr arall, y mae'r Efengylwr yn barod i waeddi Ei fod "goruwch pawb oll."

Myn rhai adael allan y geiriau "sydd goruwch pawb" ar ddiwedd yr adnod flaenorol, ac felly cyfieithu diwedd yr adnod honno a dechreu'r adnod hon fel y canlyn,—'Yr hwn sydd yn dyfod o'r nef sydd yn tystiolaethu am yr hyn a welodd efe," &c.

32. "*Y mae efe yn ei dystiolaethu.*" Geiriau'r awdwr yw'r rhai hyn, ac eto y mae'n siarad am yr Iesu yn yr amser presennol yn dwyn tystiolaeth yr adeg honno,—adeg ysgrifeniad yr Efengyl. Hyd yn oed ar ol iddo adael ein daear, yr oedd o hyd yn parhau i dystiolaethu trwy Ei Eglwys.

"*Ac nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef.*" Diameu fod yr Efengylwr yma'n siarad o dan ddylanwad teimlad cryf, a'i galon ar dorri wrth weled aflwyddiant gwaith ei Arglwydd—megis Elias gynt, a dylem dderbyn y

33 Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef, a seliodd mai geirwir yw Duw.

34 Canys yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw; oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi *iddo ef* yr Yspryd.

---

geiriau fel gormodiaeth yn tarddu oddiar ei sel angerddol. Cawn ddisgyblion Ioan, o dan ddylanwd teimlad cyffelyb, yn dweud fod "pawb yn dyfod ato ef."

33. Os nad gormodiaeth oedd "neb" yr adnod flaenorol, yna y mae'r Efengylwr yn gwrth-daweud ei hun yn yr adnod hon. Yr oedd rhai'n derbyn y dystiolaeth. "*Yr hwn a dderbyniodd . . . . . a seliodd mai geirwir yw Duw.*" Megys ag y gosodid sel ar weithred gyfreithiol i brofi ei dilysrwydd, felly yr oedd y rhai oedd wedi derbyn y dystiolaeth, o ran eu buchedd, yn ffurfio'r prawf goreu o eirwiredd Duw; danghosent Ei fod wedi rhoddi'r hyn a addawsai. Yr oedd bodolaeth rhai gwir ddisgyblion yn profi mai nid ar y datguddiad yr oedd y bai. Sonnir mewn adrannau ereill am Dduw'n selio'r dyn trwy'r ymwybyddiaeth a feddai yn ei galon, ymwybyddiaeth a gynyrchid gan yr Yspryd Glan, ond edrychir ar y gwirionedd o safbwynt braidd yn wahanol pan siaredir felly am dano.

34. "*Canys yr hwn a anfonodd Duw sydd yn llefaru geiriau Duw.*" Yr oedd hyn yn wir am bawb oedd wedi derbyn datguddiad oddiwrth Dduw, ond yr oedd yn wir am yr Iesu mewn ystyr neilltuol. Efe'n unig, o'r holl genhadon a anfonodd Duw i'r byd, a roddodd ddatguddiad cyflawn o wirioneddau ysbrydol. Gellir cymeryd y geiriau hefyd mewn ystyr lythyrennol hollol.—mai Iesu Grist yn unig a lefarodd eiriau Duw, oherwydd mai Mab Duw Ei Hun ydoedd. Siarad dros Dduw yr oedd pawb ereill, ond siarad drosto'i Hun yr oedd yr Iesu.

"*Canys nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Yspryd.*" Ni cheir y geiriau "Duw" ac "iddo ef" yn y gwreiddiol. Ceir un esboniad ar yr adnod trwy ddodi'r geiriau hyn i mewn. Yn ol y syniad hwn Duw sydd yn rhoddi'r Ysbryd, ac nid wrth fesur y mae'n Ei roddi, ond yn Ei gyflawnder. I'r Iesu'n unig y rhoddwyd Ef felly, a dyma oedd yn cyfrif am Ei ragoriaeth. Esboniad arall ydyw mai'r Iesu sydd yn rhoddi'r Ysbryd

35 Y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef.

---

i'w ganlynwyr. Y mae Ei eiriau Ef yn cael eu gwirio a'u profi trwy Ei waith yn cyfrannu'r Ysbryd yn Ei gyflawnder i'w ganlynwyr. Myn ereill drachefn mai'r Ysbryd sydd yn rhoddi Ei ddoniau. Yr Ysbryd a ddisgynnodd ar yr Iesu yn Ei fedydd, ac a arhosodd arno, oedd yn cyfrannu iddo'r gwirionedd yn ddifesur. Credwn mai'r esboniad a geir yn yr adnod ei hun,—mai "Duw sydd yn rhoddi"—ydyw'r mwyaf rhwydd i'w dderbyn. "Y mae'r hwn a anfonodd Duw'n llefaru geiriau Duw am mai nid wrth fesur yr oedd Duw yn rhoddi'r Ysbryd iddo." "Ond," meddai rhywun, "os oedd yr Iesu'n Fab Duw, pa angen rhoddi'r Yspryd iddo?" Nis gellir ateb pa angen oedd; y mae cysylltiadau'r Trindod o Bersonau a'u dibyniaeth ar eu gilydd yn ddirgelwch mawr. Ond gellir cyfeirio at hanes bedydd Crist, ynghylch yr hwn nid oes dim amheuaeth. Disgynnodd yr Yspryd arno yno, ar ddechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, a diameu fod yr Efengylwr a'i feddwl ar y digwyddiad hwnnw,—beth bynnag olygai,—yr adeg yr ysgrifennodd y geiriau.

35. "*Y mae'r Tad yn caru'r Mab.*" Credwn y ceir cyfeiriad yma at y cariad diddechreu â pha un y carai'r Tad y Mab. Dyma sylfaen a ffynhonnell pob cariad arall. Y mae'r iaith a'r ddiwinyddiaeth yn nodweddiadol o'r Efengyl hon, ond ceir geiriau cyffelyb, er cryn syndod i rai esbonwyr, yn S. Math. xi. 27. Cymharer hefyd v. 20. "yn caru'r Mab ac yn dangos iddo'r hyn oll y mae yn ei wneuthur."

"*Efe a roddodd pob peth yn Ei law Ef.*" Pob peth yn nhrefn y greadigaeth a phob peth hefyd yn nhrefn yr iachawdwriaeth. Trwyddo Ef y gwnaethpwyd y dyn cyntaf, yr hwn a ddaeth i fod yn "hen Adda," a thrwyddo Ef y gwneir pawb o'i ddisgynyddion dirywiedig yn "ddynion newydd." Yn Ei law Ef fel Cyfryngwr yr oedd bywyd yn ei holl agweddau,—naturiol, meddyliol, ac ysbrydol. Dyma'r prawf amlycaf o fawredd cariad y Tad tuag ato, am ymddiried o hono bob peth byw iddo. Anfonodd Ef i gadw bywyd, er gwaethaf pechod, cyflog yr hwn yw marwolaeth, a hefyd i gadw'n

36 Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

---

ddilychwin gymeriad gorsedd fawr y nef. Mab y brenin yn unig a ddewiswyd, Efe yn unig a allai wneud y gwaith.

36. Ceir ymron yr un geiriau o enau'r Iesu yn adn. 15, 16.

"*Yr hwn sydd yn credu . . . . fywyd tragwyddol.*" Nid rhyw dderbyn yr Iesu ar amrantiad sydd raid iddo wneud, ond Ei dderbyn yn barhaus,—parhau i gredu ynddo. Y mae'r ferf yn yr amser presennol, oblegid credu y mae'r Cristion yn wastad. Y mae gan yr hwn sydd yn dal i gredu yn y Mab fywyd tragwyddol yn awr, y mae'n feddiant presennol iddo, er nad yw i gyrraedd ei gyflawn addfedrwydd hyd nes cyrhaeddo'r byd a ddaw.

"*A'r hwn sydd heb gredu i'r Mab.*" Nid yr un gair a ddefnyddir yma am gredu ac yn yr adnod flaenorol. Y mae'r gair a geir yma'n golygu anufuddhau,—gwrthodiad ystyfnig i ymostwng. Dengys y gair felly wir natur ffydd. Nid rhywbeth i'r deall i'w gyflawni ydyw, ond rhywbeth i'r ewyllys. Yr ewyllys sydd yn pallu plygu i Fab Duw.

"*Eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.*" Yn y fan hon yn unig y sonnir am ddigofaint Ouw, a rhyfedd ein bod yn clywed son am dano mewn cysylltiad mor agos â chariad Duw. Ond gwyliwn rhag camgymeryd yr hyn a olygir wrth ddigofaint. Nid rhyw nwyd aflywodraethus, tebyg i digllonedd afresymol yr hen dduwiau paganaidd, ydyw digofaint Duw, ond eiddigedd cyfiawn yn erbyn pob drwg a phob pechod. Yn wir, os ydyw cariad Duw mor angerddol tuag at yr hyn sydd sanctaidd a da, y mae'n rhaid fod Ei lid yn erbyn drwg hefyd yn angerddol. Ni ddywedir fod y digofaint yn disgyn fel cospedigaeth, yr hyn a olygir ydyw mai fel yna y mae Duw'n edrych ar bob anghredadyn sydd yn anfoddlon i dderbyn Ei Fab. Ni ddywedir yr un gair am y rhai na chawsant y fraint o ddyfod i unrhyw gysylltiad â'r Mab; am y rhai sydd wedi ei chael, ac wedi ei gwrthod gyda dirmyg y sonnir.

PENNOD IV.

Pan wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan,

2 (Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddisgyblion ef,)

Gweinidogaeth yr Iesu yn Samaria.—Pennod iv. 1—42.

Gellir rhannu'r adran yn dair rhan. (1.) Ymadawiad yr Iesu o Judea (1—3). (2.) Ymddiddan yr Iesu â'r wraig o Samaria ac â'i ddisgyblion (4—38). (3.) Yr Iesu a'r Samariaid.

Ni chroniclir yr hanes a geir yma gan yr un o'r Efengylwyr ereill, ac y mae arwyddion amlwg mai llygad-dyst o'r digwyddiadau sydd yn eu hadrodd.

1. "*Gan hynny pan wybu'r Arglwydd.*" Ambell waith yn unig y mae'r awdwr yn defnyddio'r term "Arglwydd" am yr Iesu, a hynny, mae'n debyg, pan feddylia am dano nid fel yr hyn ydoedd i'w ddisgyblion ar y pryd, ond fel yr hyn a ddaeth i fod i feddyliau a chalonnau Ei ddisgyblion. Efe oedd eu Harglwydd. Ceir y teitl hefyd yn vi. 23, xi. 2, a xx. 20. Nid yw'r gair "wybu" yma'n cyfeirio at unrhyw wybodaeth oruwchnaturiol.

"*Glywed o'r Phariseaid.*" Nid cyfeirio at y ffaith eu bod wedi clywed ydyw amcan yr awdwr, ond galw sylw at yr ysbryd chwerw a gelyniaethus a'u meddiannodd pan glywsant. Ym marn yr awdwr y Phariseaid oedd cynrychiolwyr crefydd swyddogol y wlad. Nid oeddent yn hoffi gwaith Ioan Fedyddiwr yn galw arnynt i edifarhau, ond yr oeddent yn chwerwach fyth yn erbyn yr Iesu oherwydd dywedyd o hono bethau mwy nag Ioan.

2. Y mae'r Efengylwr yma am gywiro'r adroddiad a dderbyniasai'r Phariseaid, yn ogystal a'r hyn a ddywedwyd yn iii. 22. Yr oedd yr Iesu'n gadael i'w ddisgyblion weinyddu'r ddefod o "fedyddio â dwfr"; Ei waith Ef oedd bedyddio â'r Ysbryd Glan. Nid y bedydd Cristionogol a olygir yma o gwbl, ond bedydd Iddewig, arwydd o buredigaeth a glanhad. Yr oedd yn rhaid i'r Iesu ddioddef, marw ac adgyfodi cyn y byddai'n bosibl gweinyddu'r "Sacrament" o fedydd.

3 Efe a adawodd Judea, ac a aeth drachefn i Galilea.
4 Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria.
5 Efe a ddaeth gan hynny i ddinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph:

---

3. Graddol ydyw ymadawiad yr Iesu. Yn gyntaf gadawodd y deml i weinidogaethu i dorfeydd Jerusalem; yna gadawodd y ddinas yn gyfangwbl am "wlad Judea", ac yma cawn ef yn gadael y dalaeth am Galilea. Defnyddir gair cryf iawn yn y gwreiddiol am "adawodd," yr hwn a olyga "gadael allan o sylw yn gyfangwbl," "gadael i'w thynged."

"*Ac a aeth drachefn i Galilea.*" Diameu mai cyfeirio y mae "drachefn" at yr ymweliad a gofnodir yn i. 43. Y mae'n anhawdd iawn penderfynu pa un ai at yr ymweliad y sonnir am dano yn S. Mathew iv. 12 y cyfeirir yma ai peidio. Os yr un ydyw, yna yr ydoedd Ioan Fedyddiwr eisoes wedi ei garcharu. Ond os nad yr un ydyw, ac os mai gyda'i ymweliad â Galilea (Ei drydydd ymweliad), ar ol yr "wyl" yn y bummed bennod, y mae'r Efengylwyr ereill yn dechreu Ei hanes, yna rhaid credu fod yr awdwr hwn yn rhoddi hanes blwyddyn ymron o weinidogaeth gyhoeddus yr Iesu na chlywir gair o son am dani gan yr Efengylwyr ereill. Credwn, modd bynag, mai gwell yw derbyn barn y mwyafrif o esbonwyr mai'r un yw'r ymweliad yma a'r hwn a geir yn S. Math. iv. 12.

4. "*Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria.*" Yr oedd yn "rhaid" iddo mewn ystyr ddaearyddol, gan fod talaeth Samaria'n gorwedd rhwng Judea a Galilea. Gwel rhai esbonwyr duwiolfrydig "raid" arall, sef rhaid rhagordeiniad tragwyddol,—yr oedd yr Iesu i fod i fyned trwy Samria. Y mae'n anhawdd dweud pa fodd i gysoni gwaith yr Iesu yn myned trwy Samaria ac yn goleuo ei thrigolion â'r gorchymyn a rydd yn S. Math. x. 5 yn gwarafun i'w ddisgyblion fyned yno.

5. "*I ddinas yn Samaria a elwid Sychar.*" Y mae llawer yn meddwl mai llygriad o'r gair Sichem ydyw Sychar, ond y mae'n anhawdd credu y byddai tref oedd wedi llanw lle mawr yn hanesion traddodiadol y genedl yn cael cyfeirio ati fel dinas ddinod fel y gwneir yma.

6 Ac yno yr oedd ffynnon Jacob. Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon: ac ynghylch y chweched awr ydoedd hi.

7 Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr: a'r Iesu a ddywedodd wrthi, Dyro i mi i yfed.

Ni fyddai un angen ychwanegu "dinas yn Samaria" pe Sichem a olygid. Tybir yn gyffredin gan esbonwyr diweddar mai pentref bychan o'r enw Askar sydd yn dynodi safle'r hen Sychar.

6. "*Ffynnon Jacob.*" Tebyg fod Jacob wedi cloddio'r ffynon hon ar ei dir ei hun er mwyn i'w fugeiliaid ef beidio cweryla â bugeiliaid ereill ynghylch dyfrhau eu hanifeiliaid. Yr oedd hyn yn fynych yn ofid blin i'r patriarchiaid. (Gwel Gen. xxi. 25).

"*Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith.*" Rhydd yr Efengylwr hwn, fel y gwelwyd eisoes, y pwys mwyaf ar ddwyfoldeb ein Harglwydd, ond gwelir oddiwrth y frawddeg hon nad oedd am anwybyddu Ei ddynoliaeth ychwaith. Dengys yma Ei fod wedi cymeryd ein natur a'i holl wendidau dibechod,—yr oedd yr Iesu yn blino fel dyn.

"*Y chweched awr.*" Gwel ar i. 39.

7. "*Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr.*" Y mae'r Iesu'n torri i lawr ragfarn genedlaethol a'r rhagfarn rywogaethol; yr oedd yn ymddiddan âg un o Samaria, a gwraig ydoedd! Yr oedd y Samariaid hyn yn gwahaniaethu o ran gwaedoliaeth a hefyd o ran crefydd oddiwrth yr Iuddewon a breswylient wlad Judea. Ar ol caethgludo'r deg llwyth i Nineveh anfonodd brenin Assyria (Esarhaddon) bobl gymysg o'i wlad ei hun i boblogi'r wlad, yr hon oedd i raddau'n anghyfannedd. Mae'n debyg i'r dieithriaid ymbriodi â phreswylwyr y wlad, (y rhai oedd yn ol o honynt), a derbyn eu crefydd. Ond yr oedd gelyniaeth barhaus rhyngddynt â'r Iddewon gwirioneddol, ac yn nyddiau Nehemiah adeiladwyd teml Samaritanaidd ar fynydd Gerizim i gyfateb i'r un Iddewig yn Jerusalem. Llosgwyd y deml cyn dyddiau'r Iesu, ond yr oedd y ffurf Samaritanaidd o addoli'n parhau. Dywedir mai pum' llyfr Moses yn unig a dderbyniai'r Samariaid, ac mai'n unol â'r rhai hynny'r oeddent yn ymdrechu addoli a byw. Tybir hefyd mai

8 (Canys ei ddisgyblion ef a aethent i'r ddinas i brynu bwyd.)

9 Yna y wraig o Samaria a ddywedodd wrtho ef, Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, yn gofyn dïod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria? oblegid nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid.

10 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yf'ed; tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol.

---

gwraig o sefyllfa isel mewn ystyr gymdeithasol ydoedd hon, oblegid ni byddai gwragedd urddasol byth yn myned i dynnu dwfr megys yn y dyddiau gynt.

8. "*Canys Ei ddisgyblion a aethent i'r ddinas i brynu bwyd.*" Pe buasai'r disgyblion yno, diameu y buasent yn dwyn iddo ddwfr yn y gostrel a gerid gan deithwyr. Tebyg eu bod wedi myned â'r gostrel honno gyda hwy, ac am hynny nid oedd gan yr Iesu "ddim i godi dwfr" (adn. 11). Gellid prynu wyau, ffrwythau, &c., hyd yn oed gan y Samariaid, (er lleied o gyfeillach oedd rhyngddynt), gan y credid nas medrai'r cyfryw fwydydd gludo unrhyw aflendid.

9. "*Pa fodd yr wyt ti, a thi yn Iddew,*" *&c.* Tebyg fod y wraig wedi Ei adnabod wrth Ei wisg a hefyd o bosibl wrth Ei acen. Yr oedd un llythyren yng nghyfarchiad yr Iesu i'r wraig nas medrai'r Samariaid byth ei seinio, sef y llythyren Hebraeg *Shin*. Felly yr ydoedd gyda'u cyndadau'r Ephraimiaid (gwel Barn. xii. 5, 6), a bu yn achlysur dinystr tost iddynt.

"*Oblegid nid yw'r Iddewon yn ymgyfeillachu â'r Samariaid.*" Y mae'r gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol am ymgyfeillachu yn golygu "cymdeithasu yn gyfeillgar"; nid yw'n golygu o gwbl nad oedd trafnidiaeth fasnachol rhyngddynt. Mewn amryw hen lawysgrifau gadewir allan yr "Iddewon" a'r "Samariaid," ac os y wraig a'i llefarodd (fel y tybiwn ni), o bosibl nid oedd angen am danynt gan ei bod hi'n Samariad a'r Iesu yn Iddew. Myn ereill mai'r Efengylwr a'i llefarodd fel math o eglurhad ar ymddygiad y wraig.

10. "*Pe adwaenit ti ddawn Duw.*" Beth ydyw'r rhodd (oblegid dyna ystyr y gair "dawn")? Y mae pob

11 Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid oes gennyt ti ddim i godi *dwfr*, a'r pydew sydd ddwfn: o ba le gan hynny y mae gennyt ti y dwfr bywiol hwnnw?
12 Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a yfodd o hono, a'i feibion, a'i anifeiliaid?
13 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn:

---

math o atebion wedi eu rhoddi, ond credwn nad oes angen ei chyfyngu i unrhyw rodd neilltuol ac mai'r hyn a olygir ydyw'r oll oedd Duw wedi ei wneyd er lles dynoliaeth,—y cyfan yn cael ei goroni gan anfoniad ei Fab i'w gwaredu. Yr oedd pob dawn arall yn gynwysedig yn y rhodd fawr hon.

"*Efe a roddasai i ti ddwfr bywiol.*" Yr hyn a olygir wrth "ddwfr bywiol" ydyw dwfr nad yw byth yn pallu, ond yn parhau i lifo'n ddibaid. Yr oedd yr Iddewon yn gyfarwydd â'r gymhariaeth (gwel Zech. xiv. 8; Jer. ii. 13), ond nis gellir bod yn sicr am y Samariaid.

11. "*Arglwydd.*" Yr oedd rhywbeth yn ymddygiad yr Iesu oedd wedi ennyn parch yng nghalon y wraig, ac y mae o ganlyniad yn Ei gyfarch fel gwr parchus. Nid gwawdiaith a geir yma o gwbl,—fel y myn rhai. Oddiwrth ei hiaith gwelir yn amlwg nad oedd y wraig eto wedi dilyn yr Iesu pan groesodd i'r byd ysbrydol. Siarad y mae hi o hyd am ddwfr naturiol a phydew daearol.

12. "*Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob?*" Y mae'r rhagenw "ti" yn bwysleisiol. Nis gallai'r wraig gredu fod yr Hwn oedd yn eistedd yn ei hymyl, y teithiwr blin a llychlyd yn fwy na'r patriarch Jacob a barchai mor fawr. Gwelir oddiwrth yr hyn a ddywed y wraig mai brif fost y Samariaid oedd eu bod yn ddisgynyddion Jacob. Yr oeddent yn barod i anwybyddu'n hollol eu cyn-dadau Assyriaidd ac eilun-addolgar.

13. Dim ond rhywbeth i ddisychedu dyn dros amser oedd y dwfr a geid hyd yn oed yn ffynnon Jacob; buan y byddai'r cyfryw'n sychedig drachefn ac yn dyheu am ragor.

14 Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol.

15 Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn, fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi *dwfr*.

16 Iesu a ddywedodd wrthi, Dos, galw dy wr, a thyred yma.

17 Y wraig a attebodd ac a ddywedodd, Nid oes gennyf wr. Iesu a ddywedodd wrthi, Da y dywedaist, Nid oes gennyf wr:

---

14. Ond am yr hwn a dderbynio'r "dyfroedd bywiol" nid oes son am sychedu yn ei hanes mwy. Gwir y parha i ddrachtio'n helaethach o hyd o'r dyfroedd iachusol hynny, ond nid ydyw'r syched difaol a'i blinai o'r blaen byth yn dychwelyd. Pwysleisir y ffaith hon yn y gwreiddiol, ac er mwyn gwneud cyfiawnder â'r desgrifiad dylid cyfieithu "ni sycheda mewn un modd dros byth." "*Y dwfr a roddwyf . . . . . yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol.*" Nid digon ar gyfer angenrheidiau'r foment yn unig ydyw, ond digon dros byth. Rhywbeth i barhau ac i gynyddu ydyw'r dwfr hwn. Y mae'r dwfr yn dyfod yn raddol yn ffynnon, a'r ffynnon yn cynyddu hyd nes y delo o'r diwedd yn "fôr y bywyd tragwyddol."

15. Nid yw'r adnod hon yn golygu fod y wraig eto wedi deall meddwl yr Iesu, ond yr oedd wedi deall digon i wybod fod y dwfr am ba un y siaradai'r gwr mawr yn tra rhagori ar y dwfr yr oedd hi wedi arfer ei godi o ffynnon Jacob.

16. Yr oedd y wraig yn dyfod yno i dynnu dwfr i ereill fel y dengys ar ddiwedd yr adnod flaenorol, ac o ganlyniad y mae'r Iesu am iddi alw'r rhai oedd anwyl ganddi hefyd i gyfranogi o'r rhodd. Defnyddia'r Iesu yr hyn a ddywedodd fel moddion felly i'w goleuo parthed Ei feddwl Ef. Y mae am i'r wraig dorri trwy leu y naturiol a chroesi i'r byd moesol ac ysbrydol am ba un yr oedd Efe'n llefaru.

17. "*Nid oes gennyf fi wr.*" Y mae'r pwyslais yn ddiameu i'w ddodi ar y gair "gwr"; y mae'r wraig o'r

18 Canys pump o wŷr a fu i ti; a'r hwn sydd gennyt yr awrhon, nid yw wr i ti: hyn a ddywedaist yn wir.
19 Y wraig a ddywedodd wrtho ef, Arglwydd, mi a welaf mai prophwyd wyt ti.

---

diwedd yn barod i gyfaddef y trueni moesol y mae'n byw ynddo, a derbynia gymeradwyaeth yr Iesu, ("da y dywedaist"), am wneud hynny. Wedi ei chael i gyfaddef, y mae rhyw obaith ei hargyhoeddi.

18. "*Canys pump o wyr a fu i ti.*" Y mae rhai beirniaid eithafol am i ni gredu mai fel rhyw fath o alegori y dywedodd yr Iesu hyn, gan gyfeirio at y pum' cenedl Assyriaidd, cyndadau'r wraig, ond credwn mai gwell ydyw cymeryd y geiriau yn eu hystyr lythyrennol i olygu fod y wraig wedi priodi bum' gwaith. Credwn hefyd fod yma gyfeiriad at rwyddineb ysgariad yn Samaria.

"*A'r hwn sydd gennyt yr awrhon nid yw wr i ti.*" Myn rhai ddodi pwyslais neilltuol ar y rhagenw "ti," a chymeryd y geiriau i awgrymu fod y wraig yn cyd-fyw â gwr priodasol rhywun arall, ond nid ydym yn credu fod unrhyw sail i'r dybiaeth. Ond pa fodd y gwyddai'r Iesu ei holl hanes mor drwyadl? Myn rhai mai rhywun oedd wedi dweud wrtho, ond mae'r dybiaeth yn amhosibl. Cred ereill mai fel prophwyd y gwyddai'r Iesu. Gwyddai prophwydi'r Hen Destament,—Eliseus, er engraifft, —am ddigwyddiadau a gymerent le yn mhell oddiwrthynt (II. Bren. v. 25—27), ac felly gwyddai r Iesu'r hyn oedd wedi digwydd i'r wraig o Samaria. Tybia ereill drachefn fod yr Iesu, yn rhinwedd Ei alluoedd naturiol fel dyn perffaith, yn gallu darllen holl hanes y wraig ar y pryd. Yn rhinwedd Ei feddwl treiddgar gwelai i waelodion ei henaid a darllenai yno ei holl hanes. Tueddir ni braidd i dderbyn y dybiaeth olaf, yr hon nad yw, o angenrheidrwydd, yn anghyson â'r ail. Y mae llawer o son yn ein dyddiau ni am allu dyn, hyd yn oed yn ei ystad ddirywedig bresenol, i ddeall meddyliau pobl ereill. Os yw hynny'n wir, pa faint mwy y meddai'r Iesu, yr hwn oedd ddyn perffaith, y cyfryw allu? Nid oedd Ei feddwl Ef wedi Ei amharu, na'i welediad wedi ei bylu gan bechod.

19. Y mae'r pwyslais yma i'w ddodi ar y teitl, ac nid ar y rhagenw,—"prophwyd" oedd Efe. Iddew cyff-

20 Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn; ac yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y man lle y mae yn rhaid addoli.

21 Iesu a ddywedodd wrthi hi, O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem.

---

redin oedd yn y dechreu, wedi hynny daeth yn Iddew parchus ("Arglwydd," adn. 11), ac yma y mae wedi esgyn yn ei meddwl hi i safle "prophwyd."

20. "*Ein tadau.*" O bosibl at ei chyn-dadau a adeilasant y deml ar fynydd Gerizim y cyfeiria, ond y mae'n fwy tebyg mai at y patriarchiaid. Yr oedd yr ardal yn gysegredig yn eu hoes hwy. "Y mynydd hwn" —mynydd Gerizim, at ba un, mae'n debyg, y pwyntiai'r wraig.

"*Ond yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae yn rhaid addoli.*" Gan nad oedd y Samariaid wedi derbyn dim ond pum' llyfr Moses yr oeddent hwy'n methu gweled pa bwysigrwydd crefyddol na pha gysylltiadau cysegredig oedd yn perthyn i Jerusalem. Gwir fod yna son am Salem a'i brenin rhyfedd yn llyfr Genesis, ond credai'r Samariaid yn gydwybodol mai yn rhywle yn eu gwlad hwy y safai'r ddinas honno. Yr oedd y cwestiwn at ba un y cyfeiriai'r wraig yn hen gwestiwn oedd wedi bod yn blino'r ddwy genedl er's oesau, ac nis gallai'r wraig feddwl am unrhyw wasanaeth mwy a fedrai'r prophwyd newydd ei gyflawni, na phenderfynnu'r cwestiwn hwn unwaith am byth.

21. Y mae'r Iesu'n anwybyddu'r ddadl a ddygasai'r wraig ger ei fron yn gyfangwbl, ac yn hytrach yn ymgymeryd âg egluro iddi wir natur addoliad yn ogystal a chyffredinolrwydd teyrnas nefoedd.

"*Y mae'r awr yn dyfod.*" Credwn ein bod i ddeall y deuai ar fyr amser. Yr oedd teml Gerizim eisoes yn adfeilion, wedi ei dinystrio gan John Hyrcanus (c.c. 129), ac yr oedd teml Jerusalem hefyd a'i dyddiau wedi eu rhifo. Dinystriwyd hi yn o.c 70.

"*Y Tad.*" Y mae yma gyfeiriad yn ddiameu at y tynerwch a'r cariad oedd i feddianu calonnau'r addolwyr, o'i gymharu â'r dychryn oedd yn elfen mor gryf yn addoliad hanes paganaidd y Samariaid.

22 Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch: ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon.

23 Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd: canys y cyfryw y mae y Tad yn ceisio i'w addoli ef.

---

22. "*Chwychwi ydych yn addoli'r peth ni wyddoch.*" Y peth ydoedd "Duw," yr Hwn yr oedd y Samariaid yn Ei addoli. Cytunent yn hyn â'r Iddewon,—Jehovah oedd eu Duw, ond ni wyddent ddim am Ei gymeriad a'i briodoleddau oherwydd gwrthodent dderbyn y datguddiad cyflawn a roddid yn yr Hen Destament. Ond yr oedd yr Iddewon yn raddol wedi dyfod i adnabyddiaeth helaethach o gymeriad y Tad, atynt hwy yr oedd afon datguddiad wedi llifo am oesau, ac o'u plith hwy hefyd ar ol y cyfryw baratoad yr oedd y Gwaredwr i gyfodi. Cyfeirir yn yr adnod hefyd at un o ddirgeledigaethau mawr yr Ymgnawdoliad. Y mae'r Iesu'n cyfeirio ato Ei Hun ("ninnau") fel addolwr. Nis gallai addoli fel Person Dwyfol, rhaid felly mai trwy Ei undeb â'r natur ddynol yn yr Ymgnawdoliad yr oedd yn alluog i offrwm i fyny addoliad. Pa fodd yr oedd y cyfryw undeb yn ei gwneud yn bosibl i addoli nis gwyddom, y mae'n aros yn ddirgelwch.

23. "*Ac yn awr y mae hi.*" Cyfeiriai'r Iesu at yr "awr" yn adn. 21, ac yn nechreu'r adnod hon fel "yn dyfod," ond yma y mae wedi dyfod. Cyfeirio yr oedd yno at yr amhosibilrwydd naturiol i addoli pan nad oedd teml yn aros mwy i wneud hynny ynddi, ond yma cyfeir'o y mae at egwyddor newydd addoliad, yr hon oedd eisoes wedi ei datguddio ac wedi dyfod i weithrediad, yn ol yr hon nid oedd angen am le neilltuol i addoli.

"*Y gwir addolwyr.*" Nid y gwir addolwyr o'u cymhar. âg addolwyr gau yn unig a olygir, ond addolwyr oeddent mewn gwirionedd yr hyn a broffesent fod.

"*Mewn ysbryd a gwirionedd.*" Dyma ddau anhebgor mawr addoliad—teimlad a gwybodaeth; rhaid caru'r gwrthrych a addolir, a rhaid hefyd gwybod rhyw gymaint am dano. Tebyg fod yma gyfeiriad at amherffeithrwydd addoliad yr Iddewon a'r Samariaid, addoliad y

24 Yspryd *yw* Duw: a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd.

25 Y wraig a ddywedodd wrtho, Mi a wn fod y Messias yn dyfod, yr hwn a elwir Crist: pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni bob peth.

26 Iesu a ddywedodd wrthi hi, Myfi, yr hwn wyf yn ymddiddan â thi, yw *hwnnw*.

---

llythyren yn fynych oedd eiddo'r Iddewon ac nid addoliad mewn ysbryd,—ac addoliad o'r hyn na wyddent oedd addoliad y Samar'aid. Y mae'r addoliad newydd yn cyflenwi diffygion pob un o'r ddau. Yn yr Ymgnawdoliad dygwyd dyn i gymundeb â Duw, ac felly gall addoli mwyach "mewn ysbryd," ac ym Mherson y Mab rhoddwyd y fath ddatguddiad eglur o Dduw fel ag y mae'r addolwr mwyach yn "gwybod" beth y mae yn ei addoli,—yn gallu addoli mewn "gwirionedd."

24. "*Ysbryd yw Duw.*" Os felly, y mae Duw yn rhydd oddiwrth holl lyfetheiriau amser a lle, ac ysbryd yn unig yw Efe, ac nid fel dyn sydd a rhan o hono'n ysbryd. Yr oedd hwn yn wirionedd oedd wedi ei ddatguddio er's amser, a chondemniai'r Iddewon y Cenhedloedd yn llym am eu bod yn ei wadu trwy fateroli Duw, ond nid oedd yr Iddewon erioed wedi deall y canlyniad a roddir yn y frawddeg nesaf, sef fod yn rhaid felly addoli Duw mewn "ysbryd."

25. "*Mi a wn fod Messias yn dyfod.*" Credid pan ddeuai'r Messias addawedig, (am yr hwn y sonnid yn Deut. xxiii. 18), y byddai iddo Ef roddi datguddiad helaethach ar natur addoliad, ond fel rhyw ail Foses y mae'r wraig hon yn ei ddisgwyl, fel deddf-roddwr, ac y mae'n methu gweled fod gan y gwr hwn, er cyfaddef o honi ei fod yn "brophwyd" hawl i wneud hynny.

"*Efe a fynega i ni bob peth.*" Yr oedd y datguddiad i fod yn un eglur ac yn un cyflawn.

26. "*Myfi yw hwnnw.*" Fel prophwyd yr oedd y wraig yn disgwyl y Missiah, ac fel y cyfryw y mae'r Iesu'n datguddio Ei Hun iddi. Yr oedd y wraig hon, er mor anwybodus ac anfoesol yr ydoedd, eto'n meddu syniad eglurach am gymeriad y gwir Fessiah nag aml i Pharisead dysgedig yn Jerusalem. Yr oedd hefyd yn disgwyl am dano, ac y mae'r Iesu yn gwobrwyo ei disgwyliad.

27 ¶ Ac ar hyn y daeth ei ddisgyblion; a bu ryfedd ganddynt ei fod ef yn ymddiddan â gwraig: er hynny ni ddywedodd neb, Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddiddan â hi?

28 Yna y wraig a adawodd ei dwfr-lestr, ac a aeth i'r ddinas, ac a ddywedodd wrth y dynion,

29 Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum: onid hwn yw y Crist?

30 Yna hwy a aethant allan o'r ddinas, ac a ddaethant atto ef.

---

27. "*Bu ryfedd ganddynt Ei fod yn ymddiddan â gwraig.*" Ceir y fannod o flaen y gair gwraig yn Saesneg, ac os cedwir hi rhaid i ni ddeall mai rhyfeddu yr oedd y disgyblion fod yr Iesu'n ymddiddan â gwraig o'r cymeriad hwn. Ond pa fodd y gwyddai'r disgyblion ddim am ei chymeriad? Credwn mai gwell yw'r cyfieithiad Cymraeg sydd yn gadael y fannod allan. Rhyfeddu'r oedd y disgyblion fod eu Hathraw'n ymddiddan â gwraig o gwbl yn gyhoeddus, gan yr ystyrid hynny'n ddiraddiad mawr gan y Rabbiniaid Iddewig. Credent na ddylai dyn gyfarch hyd yn oed ei wraig ei hun yn gyhoeddus.

28. Gadawodd y wraig ei llestr wrth ymyl y ffynnon, nedd rhai, fel arwydd ei bod yn myned i ddychwelyd, ond credwn ei bod ar ol yfed o'r dyfroedd bywiol wedi anghofio'r cwbl yn ei gylch, ac yn brysio i geisio ereill iddynt gael eu disychedu yn yr un modd. Yr oedd yr ysbryd cenhadol wedi cymeryd meddiant o honi ar unwaith.

29. "*Yr hyn oll a wnaethum.*" Nid yw hyn yn golygu fod yr Iesu wedi adrodd Ei holl hanes wrthi, ond credai'r wraig, a barnu oddiwrth yr hyn a ddywedodd, y gallai ddywedyd y cyfan pe mynnai. Yr oedd wedi cyfeirio at brif ddigwyddiadau ei bywyd,—digwyddiadau na fynnai er dim son am danynt. Yr oedd mewn gwirionedd wedi dadlennu ei chymeriad.

"*Onid hwn yw y Crist?*" Nid "efallai mai hwn yw y Crist" a olygir; disgwyliai'r wraig yn ddiameu ateb cadarnhaol, gan fod yr hwn y soniai am dano'n dwyn holl arwyddion y Messiah y disgwylient am dano.

30. "*Ac a ddaethant atto ef.*" Y mae'r ferf yn yr amser amherffaith ac yn desgrifio eu dyfodiad graddol—un ar ol y llall.

31 ¶ Yn y cyfamser y disgyblion a attolygasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, bwytta.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta yr hwn ni wyddoch chwi oddi wrtho.

33 Am hynny y disgyblion a ddywedasant wrth eu gilydd, A ddug neb iddo *ddim* i'w fwytta?

34 Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef.

35 Onid ydych chwi yn dywedyd, Y mae etto bedwar mis, ac *yna* y daw y cynhauaf? Wele, yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meusydd; canys gwŷnion ydynt eisoes i'r cynhauaf.

---

32. "*Y mae genyf fi fwyd i'w fwyta yr hwn ni wyddoch chwi oddiwrtho.*" Megis y trodd yr Iesu feddwl y wraig oddiwrth y dwfr naturiol at y dwfr bywiol, felly y mae'n awr am i'w ddisgyblion ymddyrchafu o ran eu meddyliau oddiwrth y bwyd naturiol at y bwyd ysbrydol —Ei wir ymborth Ef.

33. Yr oedd y disgyblion eto heb ddeall mai am ymborth ysbrydol y siaradai, ac ni feiddient ofyn iddo am eglurhad.

34. Nid yr un gair a gyfieithir "bwyd" yma ac yn adn. 32. Cyfeiriai'r gair hwnnw yn fwyaf neilltuol ar y weithred o fwyta, ond y mae'r gair a geir yn yr adnod hon yn golygu defnydd y bwyd. Yr oedd i chelgais mawr Ei fywyd yn ddigon i'w gynnal.

"*Gwneuthur ewyllys . . . . a gorphen ei waith ef.*" Y mae'r gair a gyfieith'r "gorphen" yn golygu nid yn unig "ddwyn i derfyniad" ond "dwyn i'w derfyniad priodol,"—cario allan amcan yr Hwn a'i hanfonodd yn unol â'i ewyllys Ef. Ufudd-dod oedd nod mawr Ei fywyd—gwas ydoedd Ef i gyflawni Ei waith i'r llythyren fel y gorchymynasai'r meistr.

35. "*Y mae eto bedwar mis ac yna daw'r cynhauaf.*" Cred rhai mai dihareb ydyw'r geiriau hyn, ac y mae rhywbeth yn y modd y cyfeiria'r Iesu atynt ("yr ydych chwi," &c.) yn ffafrio hynny. Ond myn ereill mai cyfeirio y mae at dymhorau naturiol y flwyddyn—fod pedwar mis eto cyn y cynhauaf. Y mae'r amser y cyfeirir ato

36 A'r hwn sydd yn medi, sydd yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragywyddol: fel y byddo i'r hwn sydd yn hau, ac i'r hwn sydd yn medi, lawenychu ynghyd.

37 Canys yn hyn y mae y gair yn wir, Mai arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi.

38 Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch: eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.

---

bedwar mis yn llai na'r amser rhwng "hau" a "medi," ac felly'n ffafrio'r golygiad hwn. Y mae cryn wahaniaeth barn hefyd yng nghylch pa gynhauaf a olygir. Myn rhai mai'r cynhauaf haidd a olygir (mis Mai), ac os felly, ym mis Chwefror y llefarai'r Iesu, tra y mae ereill yn gryf o'r farn mai'r cynhauaf gwenith dechreu mis Ebrill a olygir. Os y farn hon sydd yn gywir, yna tua diwedd Rhagfyr oedd hi pan lefarai'r Iesu.

"*Dyrchefwch eich llygaid, &c.*" Diameu fod y disgyblion yn gweled o'u hamgylch arwyddion cynhauaf toreithiog, ond meddwl y mae'r Iesu am gynhauaf ysbrydol Samaria—yno yr oedd y cnwd yn dra amharod i'w dorri.

36. Cyflog yr hwn sydd yn medi ydyw'r gorfoledd o gasglu ereill i ddiddosrwydd bywyd tragwyddol megys ag y casgl dynion wenith i ysgubor. Ceir gwobr nid yn unig am y gwaith ond yn y gwaith. Credwn mai nid cyfeirio ato Ei Hun fel hauwr a'i ddisgyblion fel medelwyr y mae'r Iesu, ond mai son y mae am y prophwydi oedd wedi bod yn hau am oesau, ac am dano Ef Ei Hun a'i ddisgyblion yn medi ffrwyth eu llafur. Derbynia'r medelwyr gyflog yn awr, yn ogystal â gwledd y cynhauaf ddydd a ddaw, pan gaiff yr hauwr a'r medelwyr lawenychu ynghyd am ddyfod o'r cynhauaf i ddiddosrwydd.

37. "*Yn hyn y mae'r gair yn wir.*" Cyfeirio y mae'n ddiau at ymadrodd oedd gyfarwydd ar lafar gwlad.

Ceir yma gyfeiriad at y gwaith oedd y disgyblion eisoes wedi gyflawni yng ngwlad Judea (adn. 2), ond ni byddai'n bosibl iddynt wneud hyn oni bai fod rhywun wedi paratoi'r bobl i'w derbyn. Ac yma yn Samaria yr oedd yr un peth yn wir.

38. "*Ereill a lafuriasant . . . . i'w llafur hwynt.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "llafurio" yn golygu

39 ¶ A llawer o'r Samariaid o'r ddinas honno a gredasant ynddo, o herwydd gair y wraig, yr hon oedd yn tystiolaethu, Efe a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum.

40 Am hynny pan ddaeth y Samariaid atto ef, hwy a attolygasant iddo aros gyd â hwynt. Ac efe a arhosodd yno ddeuddydd.

41 A mwy o lawer a gredasant ynddo ef oblegid ei air ei hun.

42 A *hwy* a ddywedasant wrth y wraig, Nid ydym ni weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di: canys ni a'*i* clywsom *ef* ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddïau yw y Crist, Iachawdwr y byd.

---

gweithio'n galed, hyd at fethu. Fel y gwelwn yma nid oedd yr Iesu'n honni Ei fod wedi dyfod i wneud pob peth o'r newydd. Iddo ef yr oedd Iddewiaeth yn baratoad angenrheidiol i Gristionogaeth, ac ni byddai'r olaf yn bosibl, a siarad yn ddynol, heb y gyntaf. Nid oedd ychwaith am i'w ddisgyblion gredu mai i'w llafur hwy eu hunain yn unig yr oeddent yn ddyledus am eu llwyddiant, rhag iddynt ymfalchio.

39. Fel y gwelir oddiwrth y gair yn y gwreiddiol a gyfieithir yma "gair" nid yr ymadrodd a grybwyllir yn yr adnod oedd y rheswm eu bod wedi credu, ond yr holl hanes a adroddodd y wraig wrthynt.

40. Yr oeddent wedi tramwyo mor bell ar lwybr ffydd fel ag i ddymuno cael clywed rhagor gan yr Iesu.

41. Dengys yr adnod hon, fel amryw adnodau ereill o natur grynodebol, mor ychydig ydym yn wybod, hyd yn oed gyda help y pedair Efengyl am waith yr Iesu yn ei gyflawnder. Gwir y dywedodd yr Efengylwr hwn, ped adroddid y cyfan na "chynwysai'r byd y llyfrau a ysgrifennid" (xxi. 25).

42. Yr oedd y Samariaid erbyn hyn wedi derbyn sail sicrach i'w ffydd oddiwrth yr Iesu Ei Hun. Er hynny ni ddywedir fod y Samariaid wedi gweled yr un arwydd o'r fath a geisiai'r Iddewon.

"*Mai hwn yw y Crist Iachawdwr y byd.*" Er mai am ychydig amser yr oedd yr Iesu wedi bod yn gweinidogaethu yn eu plith, ymddanghosent fel pe buasent wedi dysgu llawer yn Ei gylch Ef a'i deyrnas. Yn ol

43 ¶ Ac yn mhen y ddeuddydd efe a aeth ymaith oddi yno, ac a aeth i Galilea.

44 Canys yr Iesu ei hun a dystiolaethodd, nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun.

---

tystiolaeth y llawysgrifau goreu dylid gadael allan "y Crist," a darllen "hwn yw Iachawdwr y byd." Mae'n syndod mai'r Samariaid ac nid yr Iddewon oedd wedi derbyn cymaint o ragbaratoad oedd y rhai cyntaf i roddi mynegiad eglur parthed swydd a gwaith neilltuol yr Iesu. Ond hyd heddyw, am ryw reswm neu gilydd, gwelir y di-fraint yn mwynhau'r ychydig freintiau sydd ganddo, yn fwy o lawer na "phlant y deyrnas" sydd wedi derbyn breintiau i gyd.

IACHAU MAB Y PENDEFIG.—ADN. 43—54.

Myn rhai mai'r un wyrth a gawn yma a'r wyrth o iachau mab y canwriad, am ba un y sonia S. Math. (viii. 5, &c.) a S. Luc (vii. 2, &c.). Gwir fod yna debygolrwydd rhyngddynt, ond credwn fod y gwahaniaeth yn fwy na'r tebygolrwydd, ac am hynny nis gallwn dderbyn y dybiaeth mai'r un ydyw. Gall y darllennydd weled maint y gwahaniaeth ond iddo gymharu'r ddau hanes.

43. Ymadawodd yr Iesu a Samaria ar ol treulio'r ddeuddydd am ba rai y sonir yn adn. 40.

44. "*Nad yw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun.*" Y pwnc mawr i'w benderfynu yma ydyw beth a olygir wrth "ei wlad ei hun." Oherwydd y defnyddir yr ymadrodd yn yr Efengylau ereill (S. Marc. vi. 4, &c.) am Nazareth, y mae rhai esbonwyr yn gryf o'r farn mai'r hyn a olygir yw fod yr Iesu wedi penderfynu peidio myned yn agos i'w le genedigol, ond i gilio i barthau ereill gwlad Galilea. Myn ereill mai Gal'lea'n gyffredinol a olygir, ac mai amcan y ddihareb a'i chymhwysiad ydyw rhoddi rheswm paham y dechreuodd yr Iesu Ei weinidogaeth yng ngwlad Judea ac nid yn Galilea. Pe buasai wedi dechreu gartref buasai e'ddigedd rhai o'i gydwladwyr tuag ato'n rhwystr mawr ar ffordd Ei lwyddiant. Felly, aeth i Judea yn gyntaf, ymhell o ardal Ei febyd, a dychwelodd yn ol yno ar ol ennill cryn enwogrwydd. Derbyniwyd Ef gan y Galile-

45 Yna pan ddaeth efe i Galilea, y Galileaid a'i derbyniasant ef, wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth efe yn Jerusalem ar yr wyl: canys hwythau a ddaethant i'r wyl.

46 Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. Ac yr oedd rhyw bendefig, yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.

47 ¶ Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachâu ei fab ef: canys yr oedd efe ym mron marw.

---

aid gyda pharodrwydd, a rhoddir fel rhesym am hynny eu bod wedi gweled "yr holl bethau a wnaethai Ef yn Jerusalem ar yr wyl." Myn ereill eto mai Judea a olygir wrth "ei wlad ei hun," ac mai cyfeirio y mae yr Iesu at yr aflwyddiant oedd wedi dilyn Ei weinidogaeth yn Jerusalem a Judea. Ond pa fodd y medrai'r Iesu siarad am Judea fel Ei wlad Ei Hun pan y cafodd Ei fagu yn Nazareth? Credwn fod dau reswm dros 'ddo wneud hynny. (1.) Judea oedd Ei wlad Ei Hun am mai yno y coleddid y disgwyliadau mwyaf disglaer am ddyfodiad y Messiah. (2.) Judea hefyd oedd Ei wlad Ei Hun am mai trigolion Judea oedd cynrychiolwyr anuniongyrchol y genedl etholedig, ac felly hwy oedd wedi derbyn y paratoad mwyaf trwyadl ar gyfer Ei ddyfod. Rhaid gadael i'r darllennydd benderfynu rhwng yr ail olygiad a'r trydydd—sef Galilea a Judea.

45. Yr oedd y Galileaid yn ogystal a thrigolion Judea (ii. 18) yn meddwl cryn lawer o arwyddion allanol, a dyma'r rheswm, medd yr adnod hon, iddynt Ei dderbyn mor barod. Er fod yr Iesu wedi methu dylanwadu nemawr ar feddyliau pobl Judea a Jerusalem, eto y mae'r son am Ei wyrthiau'n sicrhau iddo dderbyniad yn Galilea.

46. "*I Cana yn Galilea.*" Mae'n amlwg oddiwrth yr hanes a gawn am gyflawniad y wyrth (ii. 1, 2) fod gan yr Iesu gyfeillion os nad perthynasau hefyd yn Cana

"*Rhyw bendefig.*" Golyga'r gair a geir yn y gwreiddiol wr o swydd neu deulu urddasol, a meddylir mai rhyw swyddog ym myddin Herod Antipas a olygir.

47. Tebyg mai wedi clywed son am wyrthiau'r Iesu yr oedd y pendefig hefyd, gan mai ceisio ymwared i'w

48 Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch.

49 Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen.

50 Iesu a ddywedodd wrtho ef, Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw. A'r gwr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu wrtho, ac efe a aeth ymaith.

51 Ac fel yr oedd efe yr awrhon yn myned i waered, ei weision a gyfarfuant âg ef, ac a fynegasant, gan ddywedyd, Y mae dy fachgen yn fyw.

52 Yna efe a ofynodd iddynt yr awr y gwellhasai arno. A hwy a ddywedasant wrtho, Doe, y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef.

---

fab oedd amcan ei ddyfodiad ato. Gwelir hyn yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywed yr Iesu yn yr adnod nesaf.

48. "*Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau ni chredwch.*" Er ei bod yn amlwg y dylid rhoddi pwyslais ar y rhagenw "chwi" eto credwn mai cyfeirio at agwedd ysbrydol Ei gyd-genedl yn gyffredinol yr ydoedd yr Iesu. Wrth reswm yr oedd y pendefig hwn yn cael ei gymeryd i fewn yn eu mysg. Yr oedd hwn wedi arddangos digon o ffydd i ddyfod i geisio cynorthwy y meddyg. Eto pethau allanol oedd sail ei ffydd yntau, fel y gwelodd yr Iesu ar unwaith.

49. "*Fy machgen.*" Y mae'r gair a geir yn y gwreiddiol yn arddangos anwyldeb a chariad tad,—"fy mhlentyn bach i."

50. "*Y mae dy fab yn fyw.*" Nid yw'r geiriau "yn fyw" yn golygu ei fod hyd yn hyn "ar dir y byw" ond ei fod yn holl iach.

51. Y mae'r ymadrodd a ddefnyddir am "wellhau" yma yn un anghyffredin ac yn argraffedig ar feddwl pawb sydd wedi darllen yr Efengyl hon yn y gwreiddiol pan yn fachgen. Tybir fod yr ymadrodd mewn arferiad cyffredin fel term meddygol, yn golygu "dechreu gwella" neu "ar wellhad."

52. "*Doe, y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef.*" Am y seithfed awr gweler ar i. 39. Y mae'r cyfeithiad Seisnig yn fwy cywir yma na'r un Cymraeg; nid cryd oedd ond twymyn fel y dengys y gwreiddiol.

53 Yna y gwybu y tad mai yr awr honno *oedd*, yn yr hon y dywedasai Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ.

54 Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth yr Iesu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

PENNOD V.

Wedi hynny yr oedd gwyl yr Iuddewon; a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem.

---

53. Golyga'r rhywbeth mwy wrth gredu yma nag yn adn. 50. Credu addewid benodol yr Iesu yng nghylch ei fab yr oedd yno, ond yma credu yn yr Iesu fel y Messiah a olygir.

54. Yr ail wyrth yn Galilea a olygir yma, oblegid mae son am dano'n cyflawni "gwyrthiau yn Jerusalem ar yr wyl" (ii. 23). Cymerodd y wyrth gyntaf hefyd le yma.

PENNOD V.

Iachad y claf wrth lyn Bethesda a'r canlyniad o hynny.—Pennod v. 1—18.

Y mae'r wyrth hon yn neilltuol o bwysig i bawb sydd am ddilyn hanes datblygiad gelyniaeth yr Iddewon yn erbyn yr Iesu. Dyma achlysur yr ymrafael cyntaf o gyfres a gymerodd le.

1. "*Wedi hynny.*" Yn llythyrennol "wedi y pethau hyn." Defnyddir yr ymadrodd gan yr Efengylwr i ddynodi cysylltiad llai agos nag a olygir wrth "wedi hyn" (rhif unigol).

"*Yr oedd gŵyl yr Iddewon.*" Pe ceid y fannod o flaen y gair "gŵyl"— "yr ŵyl," yna diameu mai gŵyl y Pasg a olygid. Ond ni cheir y fannod, ac am hynny y mae llawer o ddadleu wedi bod ymhlith esbonwyr pa ŵyl ydoedd. Ac y mae braidd yn bwysig penderfynu gan fod ein syniad am hyd gweinidogaeth yr Iesu'n dibynnu ar hynny. Os gŵyl y Pasg ydoedd, fel y cred llawer, yna parhaodd gweinidogaeth gyhoeddus yr Iesu

2 Ac y mae yn Jerusalem, wrth *farchnad* y defaid, lyn a elwir yn Hebraeg, Bethesda, ag iddo bùm porth;

---

dros dair blynedd, ac ymestynnodd dros bedwar Pasg. Ond dadleuir, os gŵyl y Pasg a olygir yma, y buasai'r awdwr yn ei henwi yma megys y gwna ymhob lle arall. Dywed ereill mai gŵyl y Pentecost a olygir, ond y mae'n anhawdd credu fod digon o amser rhwng y Pasg a'r Pentecost i'r holl ddigwyddiadau a gofnodir yn iii. a iv. i gymeryd lle. O'r ochr arall, dywedir yn iv. 45 fod digwyddiadau gŵyl y Pasg yn fyw ym meddwl y Galileaid. Myn dosbarth arall o esbonwyr mai gŵyl a elwir y Purim—gwyl i gofio am waredigaeth yr Iddewon rhag dichell Haman yn nyddiau'r frenhines Esther, a olygir. Cymerai'r ŵyl hon le yn mis Mawrth, ac felly gryn amser ar ol y Pasg, ond nid oes dim cysylltiad rhwng yr ymddiddan sydd yn dilyn â'r ŵyl hon mewn un ffordd. Y mae'r diweddar Esgob Westcott yn gwahaniaethu oddiwrth esbonwyr eraill, ac yn credu mai "Gŵyl yr Udgorn" a olygir wrth yr wyl hon. Cedwid yr ŵyl hon yn mis Medi er cof am roddiad y ddeddf, a rhaid cyfaddef fod rhyw gysylltiad rhwng y cyfryw syniad a'r ymddiddan a geir yn y bennod. Ond y mae'n amhosibl penderfynu rhwng y gwahanol farnau. Credwn mai un o'r gwyliau mawr ydoedd,, naill a'r Pasg neu Pentecost. Ond os y Pasg nis gallwn ddeall paham y gadewir ei henw allan, ac y mae'n anhawdd cael digon o le i'r holl ddigwyddiadau os y Pentecost ydoedd.

2. "*Ac y mae yn Jerusalem.*" Defnyddir yr amser presennol yma, ond nid yw hynny'n sicrwydd fod yr Efengyl wedi cael ei hysgrifennu cyn dinystr Jerusalem (o.c. 70). Diau mai dull bywiog yr awdwr o adgofio digwyddiadau'r gorphennol sydd yn cyfrif am dano. Cred rhai fod y porth a'r llyn wedi dianc rhag dinystr pan ddistrywiwyd y ddinas.

"*Wrth farchnad y defaid.*" Ni cheir y gair "marchnad" yn y gwreiddiol, ac y mae y rhan fwyaf o gyfieithwyr yn credu mai "porth y defaid" ddylai fod.

"*Llyn a elwir yn Hebraeg Bethesda.*" Nid iaith glasurol yr Hen Dest. a feddylir ond yr Aramaeg a siaredid. Y mae rhai am ddarllen Bethsaida ac ereill Bethzetha, ond y mae'n anhawdd gweled fod yna sail

3 Yn y rhai y gorweddai lliaws mawr o rai cleifion, deillion, cloffion, gwywedigion, yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr.

4 Canys angel oedd ar amserau yn disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a âi yn iach o ba glefyd bynnag a fyddai arno.

5 Ac yr oedd rhyw ddyn yno, yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain.

6 Yr Iesu, pan welodd hwn yn gorwedd, a gwybod ei fod ef *felly* yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, A fynni di dy wneuthur yn iach?

---

gref iawn dros wneud hynny. Ni chrybwyllir am y llyn gan unrhyw ysgrifennwr Iddewig, ac nid oes fawr o sicrwydd am ei safle.

"*Pum' porth.*" Tebyg mai rhyw fath o *passages* neu *cloisters* a thô iddynt a olygir,—yno yn y cysgod y gorweddai'r cleifion.

3 a 4. Gadewir allan y frawddeg olaf o'r adnod hon, (ar ol "gwywedigion"), yn ogystal a'r oll o'r adnod nesaf yn y llawysgrifau goreu, a chredir mai eglurhad rhyw ysgrifennydd bore ar bresenoldeb y cleifion wrth y llyn ydyw'r geiriau, a'u bod wedi cael eu dodi ar ymyl y ddalen i ddechreu. Pe buasem ni yn rhoddi desgrifiad o'r llyn yn iaith mwy gwyddonol a materyddol ein dyddiau ni, tebyg y buasem yn ei ddesgrifio fel ffynnon fwnawl, *mineral spring*, ac yn priodoli iachad y cleifion i'r gwahanol nwyau oedd yn byrlymu drwyddo. Dywed yr hanesydd Eusebius fod y dyfroedd yn "rhyfeddol o goch," ac os felly rhaid mai rhyw fath o ddwr haearn (*chalybeate spring*) ydoedd.

5. Cyfeiria'r awdwr at amser maith ei nychdod er profi mor anfeddyginiaethol ydoedd, yn debyg fel y dywed am y dyn dall yn y nawfed bennod, ei fod yn "ddall o'i enedigaeth."

6. "*Yr Iesu pan welodd . . . . a gwybod. . . .*" Gweled yn achos yr Iesu ydoedd "gwybod," oherwydd yr oedd yn medru darllen trwy'r gweledig os mynnai, (i. 38; iv. 18, 48). Myn rhai i ni gredu mai rhywun a hysbysodd yr Iesu am ei nychdod blin, ond nid oedd hynny'n angenrheidiol. Gan fod yr Iesu'n ddigon

7 Y claf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i.

8 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a rhodia.

9 Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach; ac *efe* a gododd ei wely, ac a rodiodd. A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.

---

galluog i roddi gwellhad i'r claf, paham nad oedd hefyd yn ddigon galluog i wybod am ei angen? Ag eithrio mab y pendefig yr Iesu sydd yn cymeryd y cam cyntaf yn mhob un o'r gwyrthiau a groniclir yn yr Efengyl hon.

"*A fynni di dy wneuthur yn iach.*" Yr oedd yn eithaf posibl i'r claf hwn oedd wedi bod yn gorwedd gyhyd fod wedi rhoddi i fyny bob gobaith am wellhad, ac y mae'r Iesu am wybod a yw efe'n "ewyllysio" cael gwaredigaeth.

7. Eglurha'r claf mai nid diffyg ewyllys oedd yn cyfrif am ei fod o hyd heb ei wella ond diffyg moddion. Ei dlodi eithriadol a'i ystad ddiamddiffyn oedd yn cyfrif am y ffaith ei fod yn glaf o hyd. Y mae'r gair a gyfieithir "bwrw" yn ol rhai yn golygu "taflu ar unwaith," "yn sydyn," er mwyn i'r claf, mae'n debyg, ddisgyn iddo cyn i'r cynhyrfiad fyned heibio.

8. Nodir tri cham ymlaen ar ran y claf,—codi, cymeryd ei wely, a rhodio, ac yn mhob un o'r tri yr oedd galw am ymdrech ar ran y claf ei hun, ei ewyllys egwan ef yn gwneud ei goreu a nerth anfeidrol yr Iesu yn gwneud yr hyn oedd yn eisieu.

9. Mae'n ymddangos er hynny fod y cyfan wedi cymeryd lle mewn amrantiad ymron, ac mai nid rhyw gryfhau yn raddol a wnaeth y claf.

"*A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.*" Y cyfieithiad llythyrennol ydyw "Ac yr oedd Sabbath ar y diwrnod hwnnw," ac y mae'r ffurf anghyffredin hon ar yr ymadrodd wedi arwain rhai esbonwyr i gredu mai rhyw fath o ddydd gwyl neilltuol ydoedd hwn, ac nid y Sabbath wythnosol. Yn yr adnod nesaf dywedir "y Sabbath yw hi" fel pe buasai'r Sabbath arferol, a chredwn hefyd fod yr ymddiddan sydd yn dilyn yn colli llawer o'i bwynt os nad yr ŵyl wythnosol a or-berchid gan yr Iddewon a olygir.

10 ¶ Am hynny yr Iuddewon a ddywedasant wrth yr hwn a wnaethid yn iach, Y Sabbath yw hi: nid cyfreithlawn i ti godi *dy* wely.

11 Efe a attebodd iddynt, Yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely, a rhodia.

12 Yna hwy a ofynasant iddo, Pwy yw y dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely, a rhodia?

13 A'r hwn a iachasid ni wyddai pwy oedd efe: canys yr Iesu a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan *honno*.

14 Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd ef yn y deml, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ti a wnaethpwyd yn iach: na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth.

---

10. "*Nid cyfreithlawn i ti godi dy wely.*" Yr oedd gan yr Iddewon reolau manwl parthed cadwraeth y Sabbath yn yr Hen Dest., megys yn y pedwerydd gorchymyn, ac yr oedd y Rabbiniaid Iddewig wedi gorfanylu ar y rhai hynny drachefn. Ag eithrio'r hyn a wneid yn y Synagogau ac yn y Deml nid oedd neb i gyflawni unrhyw fath o orchwyl oedd yn gofyn am ymdrech. Yr oedd rheol neilltuol nad oedd neb i gario dim byd o le cyhoeddus i'w dŷ, ac y mae'n debyg mai o dan y rheol hon y cyhuddent y claf am godi ei wely.

11. *Efe a ddywedodd wrthyf.*" Credai'r claf fod yr hwn oedd wedi rhoddi iachad iddo ef mewn ffordd mor ryfedd uwchlaw pob deddf a rheol, ac yn meddu awdurdod uwch na'r holl Rabbiniaid.

12. Sonnir ganddynt, mae'n debyg, am "y dyn" o'i gymharu â'u deddf sanctaidd hwy a dderbyniasent o law Duw, ac y mae'r gair neilltuol a ddefnyddir yn y gwreiddiol yn dangos eu bod am ddirmygu'r Iesu. Nid ydynt hwy ychwaith yn son dim am waith yr Iesu'n iachau'r claf, yr hyn y gafaelent hwy ynddo oedd y trosedd seremoniol.

13. "*Canys yr Iesu a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan honno.*" Tybir gan rai mai amcan yr Iesu'n cilio oedd er mwyn peidio deffro cywreinrwydd y dorf, gan fod llawer o bobl yno, tra y cred ereill fod y dorf yn cael ei henwi er mwyn dangos mor rhwydd oedd iddo Ef ddiflannu.

14. "*Wedi hynny.*" Yr un ymadrodd ag a geir yn nechreu'r bennod. Pa mor fuan ydoedd ar ol cyflawniad

15 Y dyn a aeth ymaith, ac a fynegodd i'r Iuddewon, mai yr Iesu oedd yr hwn a'i gwnaethai ef yn iach.

16 Ac am hynny yr Iuddewon a erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y Sabbath.

---

y wyrth nis gwyddis. Credwn fod y dyn claf yn Iddew duwiolfrydig, a'i fod wedi myned i'r deml i ddiolch am ei adferiad.

"*Na phecha mwyach rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth.*" Nid ydym i gasglu oddiwrth hyn fod yr Iesu am ddweud mai pechod oedd unig achos afiechyd, oblegid gwelwn oddiwrth ix. 1—3 mai nid dyna oedd Ei ddysgeidiaeth Ef. Ond, er hynny, y mae cysylltiad yn bodoli rhwng y ddau. Nis gall fod un amheuaeth nad yw llawer wedi andwyo eu hiechyd trwy eu harferion pechadurus.

15. "*Y dyn a aeth ymaith,*" &c. Y mae'n anhawdd gwybod paham yr aeth y dyn ar unwaith i fynegi i'r Iddewon, gan ei fod yn gwybod (gwel adnodau 10—13) am eu llid yn Ei erbyn. Rhaid ei fod yn credu fod yr Hwn oedd wedi cyflawni gwyrth mor rhyfedd arno ef yn alluog hefyd i roddi rheswm digonol i'r Iddewon paham y bu iddo dorri eu man reolau hwy i wneud hynny. Y mae'r syniad fod y dyn yn aniolchgar, ac am roddi'r bai ar yr Iesu, yn wrthun iawn.

16. "*Yr Iddewon.*" Nid corph y genedl a olygir ond yr Iddewon swyddogol,—dyna ystyr arferol y gair yn yr Efengyl hon. Y mae'n anhawdd dweud pa un ai ei ddwyn o flaen y llŷs, ai ynte drygu ei gymeriad a olygir yma wrth "erlid."

"*Ac a geisasant ei ladd Ef.*" Dylid gadael allan y geiriau hyn megis ag y gwneir yn y Cyf. Diwyg. Y tebygolrwydd yw eu bod wedi eu rhoddi i mewn yma o adn. 18.

"*Oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y Sabbath.*" Y mae'r ferf yn yr amser amherffaith, a golyga hynny e' fod yn arferol o wneud y pethau hyn ar y Sabbath. Dyma'r waith gyntaf y sonnir am dano yn eu gwneud yn yr Efengyl hon, ond yn yr Efengylau ereill ceir amrywiol engreifftiau. Y mae'n anhawdd gwybod pa un ai cyfeirio y mae'r awdwr at y rhai hynny ai peidio.

17 ¶ Ond yr Iesu a'u hattebodd hwynt, Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio.

18 Am hyn gan hynny yr Iuddewon a geisiasant yn fwy ei ladd ef, oblegid nid yn unig iddo dorri y Sabbath, ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo, gan ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw.

---

17. "*Ond yr Iesu a'u hatebodd hwynt.*" Os ei "erlid" mewn ystyr gyfreithiol a olygir yn adn. 16, yna rhaid mai'r hyn a olygir ydyw fod yr Iesu wedi gwneud amddiffyniad ffurfiol o flaen y llŷs, ond os ei erlid mewn ystyr mwy cyffredinol yr oeddent yna yr hyn a gawn yma ydyw'r Iesu yn cymeryd mantais ar y cyd-gasgliad yn y deml i egluro iddynt beth oedd Ei berthynas â'r Tad, ac effaith y berthynas honno ar Ei ymddygiad ("torri'r (?) Sabbath").

"*Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr wyf finnau yn gweithio.*" Er fod Duw wedi "gorphwys" oddiwrth Ei waith fel creawdwr ar y seithfed dydd, a bod hynny'n ffurfio sail y Sabbath Iddewig, eto nid dydd diwaith oedd y Sabbath i fod. Yr oedd Duw wedi gorphen creu'r adeg honno, ond yr oedd yn parhau o hyd i gynnal, a hyny ar y Sabbath fel pob dydd arall. Gan hynny, rhaid fod Duw yn gweithio. Yr oedd Duw hefyd wedi gorphen Ei waith gweledig, ond yr oedd Ei waith mwy ysbrydol ac anweledig yn parhau. Yr oedd wedi gorphen creu "yr hen ddyn," ond yr oedd yn parhau i greu "y dyn newydd." Felly dydd llawn o waith oedd y Sabbath i Dduw, ac y mae'r Iesu yn honni nad oedd Efe wedi torri'r Sabbath trwy iachau'r claf, ond Ei fod yn ei gadw'n union megys ag yr oedd Ei Dad yn gwneud. Nid dydd i segura ydyw, ond dydd i wneud daioni.

18. "*A geisiasant yn fwy ei ladd ef.*" Eglurir y geiriau "yn fwy" gan yr hyn sydd yn dilyn fel yn golygu "am reswm ychwanegol."

"*Oblegid nid yn unig iddo dorri y Sabbath.*" Nid yw'r gair am "dorri" y Sabbath yn golygu troseddu deddf y Sabbath ar un amgylchiad, ond yn hytrach Ei fod yn barhaus yn ymdrechu ym mhob ffordd i "lacio" rhwymyn ei gadwraeth.

19 Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono ei hunan, eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur: canys beth bynnag y mae efe yn ei wneuthur, hynny hefyd y mae y Mab yr un ffunyd yn ei wneuthur.

"*Ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo.*" Ni wnaeth yr Iddewon yr un camgymeriad ynghylch yr hyn a ddywedodd. Deallasant Ei fod yn honni awdurdod i wneud a fynnai ar y Sabbath yn rhinwedd Ei berthynas â Duw. Y mae'r ymadrodd a ddefnyddiant hefyd yn profi eu bod wedi deall fod yr Iesu yn honni fod Duw yn Dad iddo Ef mewn ystyr neilltuol, yn wahanol i'r rhelyw o blant dynion. Yr oedd y syniad fod Duw yn Dad yn un cyfarwydd iddynt, ond honnai'r Iesu rywbeth mwy na hynny,—ei fod ef yn Fab Duw, a thrwy hynny yn "gystal a Duw."

AMDDIFFYNIAD YR IESU; (1) EI BERTHYNAS A'R TAD (19—23); (2) EI BERTHYNAS A DYNION (24—29).—ADNODAU 19—29.

19. Sylwer fod yr Iesu pan yn son am dano Ei Hun yn ogyfuwch a Duw yn siarad yn Ei enw Ei Hun, "yn wir, yn wir *meddaf* i chwi."

"*Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono Ei Hunan.*" Defnyddia'r Iesu y teitl "y Mab," nid "Mab Duw" na "Mab y dyn." Y mae am ddeffro dyddordeb ynddynt yn y pwnc o berthynas y Mab a'r Tad heb gyfeirio'n neilltuol ato Ei Hun fel y Mab, ac felly gyffroi eu heiddigedd yn Ei erbyn. Gwel rhai yn yr ymadrodd "y Mab" brawf mai am dano fel yr Ail Berson yn y Drindod y sonia'r Iesu,—am y ffaith o'i gynhanfodiad a'i gydraddoldeb tragwyddol, ond credwn mai mewn perthynas neilltuol âg ymddanghosiad y Mab ar y ddaear, (yr Ymgnawdoliad), y siarada. "Gwaith" a "gwneuthur" ydyw eiriau mawr yr adnodau hyn, ac yr oedd Duw'n "gweithio" mewn modd neilltuol yn yr Ymgnawdoliad. Pan yr ymgymerodd y Mab â'i waith cyfryngol ac achubol daeth yn rhinwedd hynny yn "swyddog" i gario allan ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd, a'r hyn y mae'n honni yma ydyw Ei fod yn swyddog da

20 Canys y Tad sydd yn caru y Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur: ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd mwy na'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi.

---

a ffyddlawn, gan nad oedd wedi gwneud dim uwchlaw'r hyn a orchymynwyd iddo, (ei *orders*).

"*Canys beth bynnag y mae Efe yn ei wneuthur.*" Nid y meddwl yw fod y Tad yn gwneud rhywbeth yn gyntaf, a'r Mab yn gwneud Ei oreu i'w efelychu, ond fod y Mab yn gwneud pob peth yn union fel y Tad oherwydd yr undeb a'r cydgordiad perffaith a fodolai rhyngddynt fel Personau yn yr hanfod Ddwyfol. Ac oherwydd Eu bod felly "nis gall," "ni ddichon" y Mab wneud dim arall, nid oherwydd Ei ddiffyg ond oherwydd rheidrwydd ei natur ddwyfol.

20. "*Canys y Tad sydd yn caru'r Mab.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "caru" yn golygu cariad sydd yn tarddu yn bennaf oddiar anwyldeb y gwrthrych. Yr oedd y Tad yn caru'r Mab yn yr ystyr hon oherwydd iddo ymgymeryd â chyflawni Ei ewyllys Ef. Arwydd eglur o'r cariad hwn ydoedd fod y Tad yn datguddio iddo Ei holl feddwl.

"*Ac efe a ddengys iddo weithredoedd mwy na'r rhai hyn fel y rhyfeddoch chwi.*" "Mwy" na gweithredoedd fel y wyrth o iachau'r claf a olygir. Y mae'r gair a gyfieithir yma gweithredoedd yn nodweddiadol o'r Efengyl hon; edrychai'r awdwr ar wyrthiau'r Iesu fel gweithredoedd naturiol Person mor fawr. Myn rhai gasglu oddiwrth yr ymadrodd "Efe a ddengys" mai yn raddol yr ydoedd yr Iesu yn dyfod yn ymwybodol o'r hyn yr oedd wedi ymgymeryd â'i gyflawni, ond credwn yn hytrach mai prawf sydd yma Ei fod yn rhagweled y cyfan, ond Ei fod yn siarad am dano fel datguddiad graddol er mwyn i'r Iddewon ei ddeall. Y mae'n defnyddio iaith ddynol am mai dynion oedd yn gwrando arno. Ar yr olwg gyntaf tarewir ni â syndod wrth glywed yr Iesu yn son am y "gweithredoedd" hyn fel yn cael eu dangos er mwyn i'r bobl ryfeddu, tra y mae'n barhaus yn condemnio'r Iddewon oherwydd gofyn o honynt iddo ddangos rhyw arwydd,—rhywbeth i dynnu eu sylw. Gwir fod yr Iesu yn condemnio cywreinrwydd

21 Oblegid megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw, ac yn *eu* bywhâu; felly hefyd y mae y Mab yn bywhâu y rhai a fynno.

22 Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab;

---

hylldremiol, ond ar yr un pryd yr oedd yr Hwn oedd yn gwybod beth oedd mewn dyn yn gwybod fod rhyw gymaint o ryfeddu yn wastad yn rhagflaenu credu,—synnu at fawredd y Person yn y lle cyntaf, ac ymorphwys arno wedi hynny.

21. "*Oblegid megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw ac yn eu bywhau.*" Yr oedd yr Iesu newydd ' fywhau un oedd ar fin marw, ac yr oedd y weithred yn fyw yn meddwl ei wrandawyr. Y mae rhai am gyfyngu gwaith y Tad yn "cyfodi" ac yn "bywhau" at y gweithredoedd goruwchnaturiol a gyflawnwyd gan Ei weision, y prophwydi, o dan yr Hen Oruchwyliaeth, megys Eliseus yn cyfodi mab y Sunamees; ond credwn mai gwell yw deall fod y geiriau yn cyfeirio at bob rhoddiad bywyd o eiddo'r Tad, a bod hynny'n cynwys bywyd ysbrydol yn ogystal a'r bywyd naturiol.

"*Felly hefyd y mae'r Mab yn bywhau y rhai a fynno.*" Y mae gallu'r Mab yn cyfateb yn hollol i allu'r Tad. Gall Ef hefyd gyfrannu bywyd naturiol ac ysbrydol i rai difywyd. Credwn fod cyfeiriad neilltuol yn y geiriau "y rhai a fynno" at gyffredinolrwydd gwaith yr Iesu,—nid rhoddi bywyd i Israel yn unig yr oedd Efe ond i bawb,—"yr holl fyd."

22. Profir y ffaith fod y Mab yn gallu bywhau fel y mynno gan y ffaith fod bob barn wedi cael ei throsglwyddo iddo. Gall gondemnio neu gadw y sawl a fynno. Pan ymgymerodd â'i waith cyfryngol derbyniodd y cyfryw lywodraeth o law Ei dad. Sylwer hefyd fod "pob barn" wedi ei rhoddi iddo, ac nad yw'n bosibl o dan y drefn apelio at unrhyw lŷs uwch—y mae barn y Mab yn derfynol. O bosibl mae yna gyfeiriad yn y geiriau "pob barn" at y farn unigol sydd yn cymeryd lle yn awr yn ogystal a'r farn gyffredinol "ddydd a ddaw."

23 Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef.

24 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y neb sydd yn gwrandaw fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

25 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab Duw: a'r rhai a glywant, a fyddant byw.

---

23. Dyma amcan rhoddi "pob barn i'r Mab," er mwyn i'r byd ddyfod i gydnabod Ei awdurdod a'i anrhydeddu megys yr anrhydeddant y Tad. Yr oedd Efe wedi derbyn pob llywodraeth frenhinol er mwyn iddynt Ei gydnabod yn Frenhin. Ac o'r ochr arall y mae'n wir nas gellir anrhydeddu'r Tad o dan drefn yr Ymgnawdoliad ond trwy arhydeddu'r Mab sydd a'r llywodraeth yn Ei law.

"*Yr hwn a'i hanfonodd ef.*" Y mae'r ymadrodd yn nodweddiadol o'r Efengyl hon, a defnyddia'r Iesu ef fel enw arall ar y Tad.

24. Ceir yma ddau anhebgor cadwedigaeth, sef (1.) gwybod ("gwrandaw fy ngair i"), ac (2.) credu. Wrth "gredu yr hwn a'm hanfonodd" yn ddiau y golygir credu y genadwri sydd yn dyfod oddiwrtho, ac a gyhoeddir i'r byd gan yr Hwn a anfonwyd.

"*A gaiff fywyd tragwyddol.*" Dengys y gwreiddiol mai nid i'w gael rywbryd yn y dyfodol y mae'r credadyn ond ei fod yn feddiant iddo yn awr. Tragwyddol o ran ei natur a olygir, nid tragwyddol yn yr ystyr isel o barhad yn unig.

"*Ac ni ddaw i farn.*" Ni olygir nad yw'r hwn a gredo i glywed cyhoeddiad y farn fawr gyffredinol. Bydd y credadyn yno hefyd, ond ni bydd y llŷs yn barnu ei gyflwr, dim ond ei weithredoedd, oherwydd bydd efe eisoes wedi "myned drosodd,"—wedi croesi'r llinell rhwng bywyd a marwolaeth. Condemnir ei bechod ef fel pob drwg arall, ond ni chollir y pechadur.

25. Myn rhai mai cyfeiriad sydd yma at yr adgyfodiad cyffredinol, ond os felly, beth yw ystyr y geiriau

26 Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun;

27 Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn.

' yn awr y mae "? Credwn mai gwell yw edrych arrynt fel yn cyfeirio at yr adgyfodiad ysbrydol oedd i gymeryd lle yn hanes pob credadyn. Ac ar ddydd y Pentecost rhoddwyd arddanghosiad nodedig o'i allu i "fywnau" yn ysbrydol. Yr oedd yn meddu'r gallu i fywhau pan yma ar y ddaear "yn awr y mae," ond ychydig oedd wedi derbyn "bywyd" yr adeg honno o'u cymhuru â'r lluoedd a dderbyniasant y fendith wedi hynny.

"*A'r rhai a glywant a fyddant byw.*" Sylwer y rhoddir lle yma i weithrediad yr ewyllys ddynol,—rhaid gwrando cyn clywed. Y mae'r llef yn galw ar bawb, ond nid yw pawb yn disgwyl am ei chlywed nac yn ei deall.

26. Megis ag y trosglwyddwyd "pob barn" yn adn. 22, felly yma rhoddir pob bywyd oedd gan y Tad i'r Mab. Gellir deall o bosibl fod y Tad wedi rhoddi 'i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo ei hun" fel Person yn yr hanfod Ddwyfol, ond credwn fod yna gyfeiriad neilltuol yma at roddiad bywyd i fod ynddo adeg yr Ymgnawdoliad. O'r Tad yr oedd pob bywyd yn tarddu yn wreiddiol ac Efe a'i "rhoddes i'r Mab i fod yn fywyd ynddo."

27. Ac oherwydd fod y Tad wedi rhoddi "bywyd" i'r Mab, felly hefyd y mae wedi rhoddi barn yn Ei law. Gan y Tad yr oedd yr awdurdod i farnu hefyd yn ogystal a bywhau, ond Efe a'i rhoddes i'r Mab.

"*Oherwydd ei fod yn Fab Dyn.*" A oes gwahaniaeth rhwng "Mab Dyn" yma—heb y fannod—a Mab y dyn fel ei ceir yn gyffredin? Credwn fod yna wahaniaeth, ond ei bod yn bur anhawdd ei egluro. Mab y Dyn ydoedd yr Iesu oherwydd ei fod yn cynrychioli dynoliaeth, ond Mab Dyn oherwydd ei fod yn gyfrannog o'r natur ddynol. Yr oedd yno lawer yn perthyn iddo fel dyn sydd yn perthyn i bawb o blant dynion, ac felly yr oedd yn meddu ar y wybodaeth yn ogystal â'r cydymdeimlad angenrheidiol i farnu yn gyfiawn.

28 Na ryfeddwch am hyn: canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef;

29 A *hwy* a ddeuant allan: y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.

30 Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan: fel yr ydwyf yn clywed, yr ydwyf yn barnu: a'm barn i sydd gyfiawn; canys nid ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

---

28. "*Na ryfeddwch am hyn—canys.*" Cyfeirio y mae hyn at y "bywhad" ysbrydol y sonnir am dano yn adn. 25. Y mae'r bywhad ysbrydol presennol i gael ei ddilyn gan fywhad cyffredinol a barn gyffredinol.

"*Yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed Ei leferydd Ef.*" Y mae'r "clywed" yn dilyn y 'llefain" yn uniongyrchol, ac nid oes son am gydymffurfiad yr ewyllys ddynol. Yn yr adgyfodiad ysbrydol "gwahodd" y mae'r llef, ond yn adgyfodiad y rhai "sydd yn y beddau" gorchymyn y mae'r llef. Nid perswadio y mae yn awr ond gorfodi. Y mae'r pwyslais felly i'w roddi ar y gair "pawb,"—dim ond rhai sydd yn derbyn adgyfodiad ysbrydol.

29. Y mae pawb a adgyfodir yn "ysbrydol" yn myned i "fyw," ond dim ond "a ddeuant allan" a ddywedir am y rhai a gyfodant y dydd diweddaf. Y mae yna sail Ysgrythyrol sicr dros ddweud mai y meirw yng Nghrist a gyfodant yn gyntaf, ac ymddengys fod yna ryw gyfeiriad at y drefn yma.

"*Y rhai a wnaethant dda . . . . y rhai a wnaethant ddrwg.*" Ceir y fannod o flaen y geiriau "da" a "drwg," a dengys hynny mai "da" a "drwg" penodol a olygir. Y "da" sydd yn tarddu o ffydd ddiysgog yn yr Iesu a olygir, a'r drwg sydd a'i wraidd mewn anghrediniaeth gyson, gyndyn, ac ystyfnig. Nid oes son am "farnu" y rhai a gredant, oblegid y maent hwy wedi myned trwodd o farwolaeth i fywyd (adn. 24), ond nid oes yr un amheuaeth mai barn condemniad a olygir wrth "farn" yr anghredadyn.

30. Y mae'r adnod hon yn ol y farn gyffredin yn aros ar ei phen ei hun,—yn ddiweddglo i'r adran o'i blaen

31 Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hunan, nid yw fy nhystiolaeth i wir.

32 ¶ Arall sydd yn tystiolaethu am danaf fi; ac mi wn mai gwir yw y dystiolaeth y mae efe yn ei thystiolaethu am danaf fi.

33 Chwychwi a anfonasoch at Ioan, ac efe a ddug dystiolaeth i'r gwirionedd.

---

ac yn ddechreuad i'r adran ar ei hol. Y mae hefyd yn nodi'r fan lle y mae'r Iesu yn croesi oddiwrth y Mab at ba un y cyfeiriodd hyd yma at y Crist personol a phresennol a geir oddiyma ymlaen.

"*Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan.*' Ailadroddiad mewn ffurf fwy personol ydyw hyn o'r hyn a ddywedir am y "Mab" yn adn. 19. Fel yr oedd gwaith y Mab yn rhoddi "bywyd" yn cyfateb yn union i waith y Tad yn gwneud hynny, felly hefyd y mae barn y Mab yn seiliedig ar Ei wybodaeth drwyadl o feddwl Ei Dad, a'i anghof hollol o hono Ei Hun.

TYSTIOLAETH Y TAD AC ANGHREDINIAETH Y RHAI A'I CLYWANT.—ADNODAU 31—47.

31. Myn rhai fod yr Iesu wedi llefaru felly am i rywun Ei gyhuddo o "dystiolaethu am dano Ei Hun." Ai gwir hynny nis gwyddom. Yn sicr gwyddai'r Iesu yn eithaf na dderbynnid tystiolaeth neb yn ei achos ei hun mewn llys cyfraith, ac nid yw'n dywedyd dim yn erbyn yr egwyddor, ond yn ei defnyddio yn hynod effeithiol er mwyn arwain i fyny at dystiolaeth Ei Dad.

32. "*Arall yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fi.*" Y mae llawer o ddadleu ymhlith esbonwyr pwy a olygir wrth yr "arall." Myn rhai mai Ioan Fedyddiwr, ond siaredir yn yr adnod ddilynol am y Bedyddiwr yn y gorphenol, tra mai "yn tystiolaethu" a geir yma. Yr oedd Ioan Fedyddiwr wedi ei fwrw i garchar erbyn hyn, ac nid oedd ei dystiolaeth yn glywadwy mwy i'r Iddewon. Mae pob peth ynghylch yr adnod a'i chysylltiadau'n myned i brofi mai nid Ioan ond y Tad olygir.

33. "*Chwychwi a anfonasoch at Ioan.*" Siaredir yn yr amser perffaith, a golyga hynny fod y dystiolaeth a'i heffeithiau'n parhau. Cyferbynnir hefyd safon tystiolaeth gywir yn ol meddwl yr Iddewon a barn yr Iesu,—

34 Ond myfi nid ydwyf yn derbyn tystiolaeth gan ddyn: eithr y pethau hyn yr ydwyf yn eu dywedyd, fel y gwareder chwi.

35 Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo; a chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef.

"Chwychwi . . . . ond myfi." Wrth reswm nid yw hyn fel y dengys y frawddeg olaf yn yr adnod yn diystyru tystiolaeth y Bedyddiwr mewn un modd.

34. Credwn fod y fannod, yr hon a geir yn y gwreiddiol, yn bwysleisiol. Dim ond un dystiolaeth oedd yn wir bwysig yn ngolwg yr Iesu, a honno ydoedd tystiolaeth Duw. Er fod un "mwy a phrophwyd" wedi tystiolaethu "i'r gwirionedd," eto nid oedd hynny'n ddigon.

"*Eithr y pethau hyn yr wyf yn ei dywedyd fel y gwareder chwi.*" Y mae y "pethau hyn" yn ddiamau yn cyfeirio at dystiolaeth Ioan (adn. 33), ac y mae'r Iesu'n gwasgu arnynt i dderbyn tystiolaeth Ioan Bedyddiwr,—"yr wyf yn pledio pob peth" fel pe dywedai.

35. "*Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo.*" "Oedd" am nad ydoedd mwy. Yr oedd ei waith wedi ei orphen a'i lais wedi tewi. Y mae'r cyfieithwyr i gyd am roddi sylw neilltuol i'r berfau a ddefnyddir yma "yn llosgi" ac "yn goleuo," oblegid credant fod y ferf gyntaf yn cyfeirio at y ffaith mai wedi derbyn goleuni yr ydoedd Ioan, megis lamp yr hon sydd raid ei chynneu cyn y goleua, o'i gymharu â'r Iesu yr Hwn oedd y Goleuni. Hefyd rhaid cofio fod y "lamp" wrth 'losgi''n graddol ddifa ei gallu i oleuo, tra y mae goleuni'r "Haul" yn ddihysbydd. Sylwer mai "lamp" yw'r gair cywir, ac nid "canwyll."

"*A chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef.*" Profir hyn gan yr adroddiad a roddir (S. Math. iii. 5) am boblogrwydd Ioan Fedyddiwr. Yr oedd eu gor-orfoledd er hynny'n bradychu eu cam-ddealltwriaeth. Yr oeddent yn falch o weled ei arddanghosiad o allu, ond nid oeddent mor barod i ufuddhau i'w rybuddion er llymed oeddent.

36 ¶ Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan: canys y gweithredoedd a roddes y Tad i mi i'w gorphen, y gweithredoedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur, sydd yn tystiolaethu am danaf fi, mai y Tad a'm hanfonodd i.

37 A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, efe a dystiolaethodd am danaf fi. *Ond* ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef.

---

36. Y mae'r pwyslais i'w roddi ar y "fi," o'i gyferbynnu â "chwi" yr adnod flaenorol. Tystiolaeth y Tad ydoedd y dystiolaeth fwy nag Ioan. Y mae'n anhawdd deall oddiwrth y gwreiddiol pa un ai tystiolaeth fwy na thystiolaeth Ioan Fedyddiwr ai ynte tystion mwy sicr na Ioan a olygir.

"*Canys y gweithredoedd . . . . sydd yn tystiolaethu am danaf fi.*" Dyma un prawf oedd amlwg i bawb ar y pryd. Defnyddia'r Efengylwr ei derm neilltuol am wyrthiau'r Iesu, a chredwn mai Ei wyrthiau'n neilltuol a olygir yma. Myn rhai esbonwyr nad yr ystyr neilltuol o "wyrthiau" a ddylid ei roddi i'r gair yn yr adnod hon, ond y mae'n anhawdd derbyn y syniad yn wyneb arferiad cyffredin yr awdwr. Golyga'r Iesu hefyd yn ddiameu nad oedd dim byd yn ddamweiniol yn perthyn i'w weithredoedd,—eu bod wedi eu rhagordeinio. Nid i foddio Ei uchelgais bersonol Ei Hun na'u cywreinrwydd hwy y cyflawnodd hwynt. Y mae'r "rhoddi" yma gan y Tad i'r Mab yn nodweddiadol o'r Efengyl,—"rhoddi bywyd," "rhoddi barn," &c.

37. "*A'r Tad yr Hwn a'm hanfonodd i, efe a dystiolaetha am danaf fi.*" Dyma'r ail dystiolaeth a grybwyllir, ac y mae amheuaeth mawr ymhlith esbonwyr beth a gynwysir ynddi. Tybia rhai mai at dystiolaeth y Tad yn y Bedydd y cyfeirir. Dadleuir yn erbyn y farn hon nad oedd llawer o wrandawyr yr Iesu beth bynnag yn bresenol pan glywodd y Bedyddiwr y llef, ac felly nas gellir eu cyhuddo yn gyfiawn o beidio ei derbyn; amddiffynnir hi, ar yr ochr arall, gan y rhai sydd yn ei choleddu ar y tir fod y Bedyddiwr wedi taenu'r son am dani. Barna ereill mai tystiolaeth Duw yn ysgrythyrau'r Hen Dest. a olygir. Os felly, paham y cyfeirir yn neilltuol at yr "ysgrythyrau" yn adn. 39. Tybia ereill

38 Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch: canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu iddo.

39 ¶ Chwiliwch yr ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynthwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.

---

drachefn mai cyfeiriad cyffredinol sydd yma at holl brophwydoliaethau a chysgodau'r Hen Dest., yn ogystal a'r goleuni a roddwyd yn nghalon dyn gan y Creawdwr ddydd ei gread. Y mae'r ymadrodd sydd yn dilyn ("ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser," &c.) braidd yn ffafrio'r golygiad olaf. Er y dydd y daethant i fyny o wlad yr Aipht, gwargaled ac anghrediniol oeddent wedi bod yn wastad.

"*Ond ni chlywsoch . . . . ei wedd ef.*" Credwn mai ffordd ffigyrol o siarad a geir yma am ddadguddiedigaethau yr Hen Dest., ac nid cyfeiriad neilltuol at y "llais" a'r "llun" yn y Bedydd.

38. "*Ac nid oes gennych mo'i air ef yn aros ynoch.*" Rhoddir i ni yma y rheswm paham nad oedd yr Iddewon yn clywed llais Duw mewn datguddiad gweledig,—am nad oedd Ei "air" yn eu calonnau. Yr oedd llais Duw, sydd yn llefaru yn nghydwybod dyn ac yn ei alluogi ef, o ran ei ymwybodolrwydd ysbrydol i weled a chydnabod Duw mewn pethau gweledig, wedi distewi yn eu hanes hwy er ys amser. Myn ereill fod yna gyfeiriad at ryw genadwri benodol, (megys eiddo'r Bedyddiwr), a glywsent ond a anghofiasent ar unwaith. Yr oedd pob un o'r ddau olygiad yn wir am danynt.

39. "*Chwiliwch yr ysgrythyrau.*" Nid yw'r ferf o angenrheidrwydd yn y ffurf orchymynnol yn y gwreiddiol, a chredwn mai camgymeriad ydyw cyfieithu'r gair felly, megys y gwneir yn y cyfieithiad Cymraeg. Yn sicr ddigon ni ellid cyhuddo'r Iddewon swyddogol, wrth ba rai gan mwyaf y siaradai'r Iesu, o beidio chwilio'r ysgrythyrau. Eu bai hwy'n hytrach oedd gorfanylwch gyda'r gwaith hwnnw, yr hyn oedd yn peri iddynt roddi gormod o bwys ar y llythyren ac anwybyddu'r ysbryd, ac yn esgor yn y diwedd ar draddodiadau diddiwedd y tadau. Yr oeddent mor fanwl gyda'i hastudiaeth nes gweled cysgod neu alegori yn y digwyddiad mwyaf distadl. Ac

40 Ond ni fynnych chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd.

41 Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.

---

os gadewir allan y ffurf orchymynnol, a chyfieithu "yr ydych yn chwilio'r ysgrythyrau" gwelir mai dyna'r cyhuddiad neilltuol a ddwg yr Iesu yn eu herbyn yma. Y mae'r gair a ddefnyddir yn y Groeg am "chwilio" hefyd yn profi hyn. Golyga'r gair hwnnw "chwilio gyda'r manylder mwyaf," "llygadrythu am rywbeth."

"*Canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol.*" Cofnodir dywediad o eiddo'r Rabbi Hillel, oedd wedi gwneyd casgliad o draddodiadau'r tadau, sydd ymron yn aralleiriad o'r hyn a ddywed yr Iesu yma,—"Yr hwn sydd ganddo eiriau'r gyfraith sydd ganddo fywyd y byd a ddaw." Sylwer na ddywed yr Iesu mai yn yr ysgrythyrau yr oedd cael bywyd, ond eu bod hwy yn credu felly. Nid rhoddi bywyd oedd gwaith yr ysgrythyrau, ond eu harwain at y Person yr oedd bywyd ganddo. Trwy yr ysgrythyrau yr oedd cael bywyd, nid yn yr ysgrythyrau.

"*A hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.*" Dyma wir amcan yr ysgrythyrau, arwain y darllennydd at Grist, ac felly moddion i baratoi'r meddwl i dderbyn goleuni eglurwch y person oeddent.

40. Ond er derbyn o honynt yr ysgrythyrau a'u chwilio mor fanwl eto nid oeddent yn barod i'w dderbyn Ef. Gyda'r llythyren farw yr arhosent o hyd, ni ddeuent at ysbryd y bywyd. Rhoddir pwys mawr yn yr adnod hon fel mewn llawer o fannau ereill yn yr Efengyl hon, ar y gwirionedd fod gan ddyn hawl i ddewis ei gadwedigaeth dragwyddol trwy dderbyn y Ceidwad.

41. "*Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddiwrth ddynion.*" Defnyddir y gair a gyfieithir "gogoniant" gan yr Efengylwr fel rheol am y parch a ddylid ei roddi gan ei gyd-genedl i'r Iesu fel ei Messiah addawedig. Y mae trefn y geiriau yn y gwreiddiol yn nodedig,—"gogoniant oddiwrth ddynion nid wyf yn ei dderbyn." Oddiwrth Dduw'n unig yr oedd efe i dderbyn cymeradwyaeth yn Ei swydd gyfryngol, a'r hyn oedd yn rhoddi gogoniant arno oedd Ei berthynas agos â Duw.

42 Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad Duw ynoch.

43 Myfi a ddeuthum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i: os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch.

44 Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant *sydd* oddi wrth Dduw yn unig?

---

42. Y mae'r gair a gyfieithir yma "adwaen" yn golygu gwybod trwy brofiad. Yr oedd yr Iesu wedi bod yn sylwi ar eu hymddygiadau, ac wedi bod yn darllen eu cymeriadau, ac felly wedi derbyn profion digonol eu bod allan o bob cydgordiad â'r hyn oedd ddwyfol.

"*Cariad Duw.*" Ni cheir yr ymadrodd hwn ond anfynych yn yr Efengylau. Defnyddir ef amrywiol weithiau yn Epistolau S. Ioan a hefyd eiddo S. Paul. Y mae'n ymadrodd anhawdd i'w ddeall, am na ellir bod yn sicr pa un ai cariad at Dduw,—Duw fel gwrthrych y cariad—ai ynte cariad oddiwrth Dduw—y cariad sydd yn tarddu oddiwrth Dduw, ffynhonnell pob cariad, a olygir.

43. Dyma brawf amlwg o'r hyn a ddywedwyd yn yr adnod flaenorol. Yr oedd y Mab wedi dyfod yn enw'r Tad, ond am nad oedd cariad Duw ynddynt gwrthodasant Ei dderbyn.

"*Yn enw fy Nhad.*" Yr oedd yr Iesu wedi dyfod i gynrychioli'r Tad, wedi dyfod trwy awdurdod y Tad, ac wedi dyfod yn bennaf oll i ddatguddio'r Tad. Yr oedd wedi ymroddi mor llwyr i'r gwaith cyfryngol hwn nes cyrraedd pwynt uchaf hunan-ymwadiad. Nid oedd byth yn meddwl nac yn cofio am Ei enw Ei Hun, cyflawni ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd oedd ei uchelgais bennaf.

"*Os arall . . . . hwnnw a dderbyniwch.*" Cyfeiriad sydd yma yn ddiau at y gau Gristiau a gyfodent ac a honnent mai hwy oedd i wared eu gwlad. Nodwedd fawr y cyfryw fyddai eu hymdrechion dibaid i foddio eu canlynwyr, ac yr oedd yr Iddewon yn ddigon anystyriol ac anysbrydol i'w derbyn yn llawen. Nid oeddent yn deall nac yn parchu hunan-ymwadiad, hunan-glod oedd eu hefengyl hwy.

44. "*Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd?*" Yn hyn o beth

45 Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad: y mae a'ch cyhudda chwi, *sef* Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio.

46 Canys pe credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minnau: oblegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe.

---

ffurfiai'r Iddewon gyferbyniad hollol i'r Iesu; derbyn cymeradwyaeth Duw oedd uchaf ganddo ef, ond derbyn clod gan ddynion ("gogoniant") oedd eu huchelgais bennaf hwy. Gan fod y gydwybod gyhoeddus wedi syrthio mor isel a hyn, nid rhyfedd eu bod yn derbyn twyllwyr hunangeisiol mor llawen (adn. 43). Yr oeddent yn cyfateb yn hollol i'w syniad hwy am fawredd; dyna *ideal* yr Iddew swyddogol (Gwel S. Math. vi. 1—7).

"*Ac heb geisio y gogoniant sydd oddiwrth Dduw yn unig.*" Y mae cryn amrywiaeth barn yng nghylch y mater, ond credwn fod camgymeriad yn y cyfieithiad Cymraeg. Nid "Duw yn unig" y dylid cyfieithu'r geiriau, ond "yr unig Dduw." Credwn mai amcan yr Iesu wrth gyfeirio felly at Dduw ydoedd rhwystro neb i gredu, er cymaint oedd wedi ddywedyd am Ei ddwyfoldeb, Ei fod am osod Ei Hun o'u blaen fel Duw arall. Y mae rhywbeth yn "nhinc" y geiriau "yn gystal a Duw" (v. 18) sydd yn peri i ni gredu fod y perygl hwnnw yn bodoli. Gwnaed yr un camgymeriad gan amrywiol amheuwyr yn yr Eglwys Gristionogol flynyddoedd wedi hyn.

45. Nid oedd yr Iesu yn myned i'w cyhuddo wrth y Tad am nad oedd angen iddo Ef wneyd hynny. Moses a gyfyd yn y farn ac a gondemnia'r genhedlaeth honno, am iddo ef roddi iddynt ddeddf Duw i'w chadw, ac addoliad Duw i'w barchu. Darlun oedd o'r Gwaredwr oedd Duw wedi ddarparu i achub Ei bobl. Yr oedd Efe wedi eu hannog i wrando ar y prophwyd a gyfodai, a gwrthodasant wneud hynny (Gwel Deut. xviii. 15, &c.). Enwir Moses yn ddiau fel cynrychiolwr y ddeddf a barchai'r Iddewon mor fawr (Gwel ar v. 39). Yr oeddent wedi torri'r ddeddf,—hwy oedd wedi gwneud hynny ac nid Efe—ac am hynny byddai Moses yn erlynwr anrhugarog ryw ddydd!

46. Pe buasent wedi deall ysbryd holl ordeiniadau Moses buasent mewn cyflwr priodol i'w dderbyn Ef.

47 Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?

PENNOD VI.

Wedi y pethau hyn yr aeth yr Iesu dros fôr Galilea, hwnnw yw *môr* Tiberias.

"*Canys am danaf fi yr ysgrifenodd Efe.*" Y mae lle'r geiriau "am danaf fi" yn y gwreiddiol yn profi y dylent fod yn bwysleisiol. Y Messiah oedd prif bwnc Moses yn ei ysgrifeniadau; disgyblu'r bobl ar ei gyfer, a thynnu darluniau o hono i'w harwain oedd holl waith y deddfroddwr enwog hwnnw.

47. Ni feddylir yma fod ysgrifeniadau Moses yn eglurach ac o hynny'n rhwyddach i'w derbyn na geiriau'r Iesu, ond mai'r un egwyddorion oedd gan y ddau pe buasai'r genedl gibddall wedi peidio gor-barchu ffurf ac anwybyddu ysbryd yr hyn a ysgrifenodd Moses. Yr oedd efe wedi rhagddywedyd am gyfnewidiadau, ond eto nid oedd y genedl a broffesent ei barchu mor fawr yn barod i'w dderbyn. Nid oeddent wedi credu Moses yn y pethau hynny, ac am hynny nid oedd gobaith iddynt gredu Crist ychwaith.

PENNOD VI.

Porthi y Pum Mil.—Pennod vi. 1—15.

Dyma'r unig wyrth y ceir ei hanes gan bob un o'r pedwar Efengylwr (Cymh. S. Math. xiv. 13—21; S. Marc vi. 30—44; S. Luc ix. 10—17 â'r adroddiad a geir yma). Nis gall fod yr un amheuaeth nad yr un digwyddiad a groniclir, gan bob un o'r pedwar, ac eto y mae'r adroddiad a geir yma'n gwahaniaethu llawer oddiwrth yr hyn a ddywed y lleill. Ni cheir hanes y digwyddiadau a arweiniasant i fyny at gyflawniad y wyrth yn yr Efengyl hon, a darlunir ein Harglwydd yn ymddiddan â S. Phylip a S. Andreas yn unig ac nid â'r holl ddisgyblion fel yn yr Efengylau ereill. Ni roddir yr un manylion ychwaith parthed y lle y cyflawnwyd y wyrth ynddo.

1. "*Wedi y pethau hyn.*" Nid oes cysylltiad agos

2 A thyrfa fawr a'i canlynodd ef; canys hwy a welsent ei arwyddion, y rhai a wnaethai efe ar y cleifion.

3 A'r Iesu a aeth i fynu i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion.

---

rhwng y bennod hon â'r flaenorol fel y dengys y geiriau hyn. Faint o amser oedd wedi myned heibio nis gwyddom, am nas gellir penderfynu yn derfynol (fel y gwelsom) pa ŵyl a olygir yn v. 1.

"*Dros fôr Galilea, hwnnw yw môr Tiberias.*" Ni cheir y teitl môr Tiberias ond yma ac yn xxi. 1 o fewn y Test. Newydd. Derbyniodd yr enw hwn, mae'n debyg, oddiwrth y ddinas a adeiladasai Herod y Tetrarch ar ei lan ac a alwasai ar enw yr Ymherawdwr Tiberius. Dyna'r enw a ddefnyddir yn ddieithriad gan ysgrifenwyr clasurol, a defnyddia'r awdwr ef yn ddiameu am mai dyna'r enw cyffredin pan ysgrifennodd ei Efengyl. Ni chrybwyllir o ba le y bu i'r Iesu groesi, ond y mae'r gair a gyfieithir yma "aeth" yn golygu "gadael," "myned ymaith," a chasgla rhai y dylem ddeall fod yr Iesu am ymneilltuo.

2. Y mae pob un o'r berfau yn yr adnod hon yn yr amser amherffaith. Yr oedd y dyrfa *yn arfer* ei ddilyn, ac yn *parhau* i sylwi ar yr arwyddion yr oedd Efe *yn barhaus* yn eu cyflawni ar y cleifion.

3. "*A'r Iesu a aeth i fyny i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyda'i ddisgyblion.*" Ceir y fannod yn y gwreiddiol o flaen "mynydd," a myn rhai gasglu oddiwrth hynny y golygir rhyw fynydd penodol, ond credwn mai at y rhes o fynyddoedd oedd yn amgylchu'r môr ar ddwy ochr y cyfeirir. Dywed yr Efengylwr S. Luc eu bod yn agos i ddinas a elwid Bethsaida, ac y mae dadleu brwd wedi bod pa un ai Bethsaida Julias, ym mhen gogledd-ddwyreiniol y llyn, a olygir, ai ynte Bethsaida Galilea, cartref Phylip yr Apostol. Rhoddir dau reswm gan yr Efengylwyr ereill paham y bu i'r Iesu ymneilltuo felly gyda'i ddisgyblion. (1.) Yr oedd wedi clywed y newydd trist am lofruddiad Ioan Fedyddiwr, ac yr oedd Ei yspryd yn ymofidio ynddo oherwydd gweled o hono lais cyfiawnder yn distewi felly o flaen gormes teyrn hunan-geisiol a dialgar. (2.) Yr oedd poblogrwydd yr Iesu wedi cynyddu cymaint "fel nad oeddent yn cael encyd cymaint ag i fwyta."

4 A'r pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos.
5 ¶ Yna yr Iesu a ddyrchafodd *ei* lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto; ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?

"*Ac a eisteddodd.*" Os cysylltir hyn â'r hyn a ddywedir yn adn. 5 gwelir mor fyw yw'r desgrifiad,—yr Iesu a'i ddisgyblion yn eistedd ar y mynydd a r dyrfa yn tyrru tuag ato.

4. "*A'r Pasg, gŵyl yr Iddewon, oedd yn agos.*" Sylwer ar yr eglurhad "gŵyl yr Iddewon" yn unol âg arfer yr Efengylwr. Y mae gwahaniaeth barn ymhlith esbonwyr ynghylch yr hyn a olygir wrth "yn agos." Y mae rhai esbonwyr hen a newydd yn dal mai newydd fyned heibio a olygir, ond nis gallwn gredu fod sail ddigonol i'r dybiaeth. Ond paham yr enwir yr ŵyl hon mewn modd neilltuol? Nis gallwn gredu mai er dynodi'r amser y cymerodd y digwyddiadau le y gwneir hynny. Nid oes un math o dreîn amseryddol yn rhedeg trwy'r llyfr. Gwell ydyw derbyn y syniad a goleddir gan rai esbonwyr, mai galw sylw at y cysylltiad rhwng aberth mawr yr ŵyl (oen y Pasg) a phregeth yr Iesu a ddilynodd y wyrth, oedd amcan yr awdwr. Nid oes dim grym yn yr wrth-ddadl mai i gyfrif am bresenoldeb y tyrfa oedd—fel ar eu ffordd i'r ŵyl—y gwneir hynny.

5. "*Ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto.*" Nid yr un peth a olygir yma ac yn adn. 2. Desgrifiad cyffredinol o boblogrwydd a dylanwad yr Iesu a geir yno, ond yma sonnir am un dyrfa neilltuol. Myn rhai mai nid ar yr un dydd ag y daeth y dyrfa y cyflawnodd yr Iesu y wyrth ond y diwrnod dilynol, a seiliant eu cred yn bennaf ar y geiriau a geir yn adn. 6, fod yr Iesu yn gwybod beth yr ydoedd ar fedr ei wneuthur, neu yn myned i'w wneud, nid y diwrnod hwnnw ond y dydd dilynol.

"*Ac a ddywedodd wrth Phylip,*" &c. Rhoddir pob math o resymau gan esbonwyr paham y bu i'r Iesu annerch S. Phylip ac nid neb arall o'r disgyblion. Ceir yr eglurhad yn amlwg ddigon yn yr adnod nesaf,—nid am mai S. Phylip oedd yn gofalu am yr ymborth, nac ychwaith

6 (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.)

7 Phylip a'i hattebodd ef, Gwerth dau càn ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig.

8 Un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas, brawd Simon Petr,

9 Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau bysgodyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer?

---

am mai Efe oedd nesaf at yr Iesu ar y pryd. —ond am fod ein Harglwydd am ei brofi ef.

6. Nid yw'r geiriau "i'w brofi ef" yn cynwys y syniad o demtio o gwbl. Yr oedd yr apostol hwn wedi cael y fraint o fod yn llygad-dyst o amryw o weithredoedd nerthol yr Iesu, ac yr oedd y Dysgawdwr mawr am wele l a oeddent wedi ennyn ynddo ysbryd ymddiriedaeth a disgwyliad.

"*Canys Efe a wyddai . . .*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "wyddai" yn golygu gwybodaeth wahanol i'r un a geir yn v. 42. Gwybod trwy weled a thrwy brofiad a geir yno, ond yma cyfeiria'r Efengylwr at y wybodaeth a feddai'r Iesu ynddo Ei Hun yn anibynnol ar bob help daearol. Golyga'r gair a geir yma'n wastad wybodaeth ddiamodol. Y mae'r wybodaeth a arddangosa'r Efengylwr o weithrediadau meddyliol yr Iesu yn nodweddiadol o hono.

7. "*Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy,*" &c. Er y ceir y gair "ceiniog" yn y cyfieithiad Saesneg a'r un Cymraeg eto nid ceiniog o'n harian ni a olygir, oblegid yr oedd y darn at ba un y cyfeirir *(denarius)* yn cyfateb i ryw wyth a dimai o'n harian ni. Felly credai S. Phylip y byddai raid prynu gwerth dros saith bunt o fara cyn y cawsai pob aelod o'r dyrfa fawr ychydig.

8. Y mae cysylltiad agos rhwng S. Andreas a S. Phylip ar bob achlysur, yr oedd felly ar y dechreu (i. 44), a pharhaodd ar ol hynny (xii. 22).

9. Myn rhai mai caethwas oedd y "bachgennyn" hwn, a gallasai fod felly oddiwrth y gair a ddefnyddir. Ni chredwn mai gwas i'r disgyblion ydoedd mewn un ffordd.

10 A'r Iesu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eistedd i lawr. Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan *honno*. Felly y gwŷr a eisteddasant i lawr, ynghylch pùm mil o nifer.

11 A'r Iesu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddïolch, efe a'u rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag y fynnasant.

---

rhaid mai rhyw bobydd wedi gweled y dorf a anfonodd ei was ar antur i geisio masnachu.

"*A chanddo bum torth haidd.*" Ni ddywedir gan yr un o'r Efengylwyr eraill mai torthau haidd oeddynt. Haidd ydoedd bwyd y bobl gyffredin, ac y mae'n amlwg mai bara'r tlodion a olygir.

"*A dau bysgodyn.*" Ni olyga'r gair a ddefnyddir yma o angenrheidrwydd "bysgod," ond rhywbeth wedi ei goginio, a chan mai pysgod yn ddiau oedd prif fwyd preswylwyr glan môr Golilea, nid oes yr un amheuaeth ynghylch y cyfeithiad. Defnyddia'r Efengylwyr ereill y gair priodol am bysgod.

10. Ni ddefnyddir yr un gair am "dynion" yn nechreu'r adnod ag a geir yn niwedd yr adnod am "wŷr." Golyga'r gair olaf "wŷr" ar wahan i wragedd a phlant (Cymh. S. Math. xiv. 21). Y mae'r gair a gyfieithir yma eistedd yn golygu lled-orwedd yn ol arfer gwledydd dwyreiniol.

11. "*Ac wedi iddo ddiolch.*" Nid yr un gair a gyfieithir yma "diolch" ag a geir yn yr Efengylau ereill. Y mae'r gair a ddefnyddir yma o'r un gwreiddyn a'r gair a ddefnyddir gan Eglwyswyr Seisnig yn fynych am Sacrament Swper yr Arglwydd,—*Eucharist.* Tybir gan amryw esbonwyr y dylid gadael allan y geiriau "i'r disgyblion, a'r disgyblion," ac mai rhyw ysgrifennydd a'u rhoddodd i mewn yma oherwydd y ceir hwy yn S. Math. xiv. 19. Y mae rhai esbonwyr cywrain wedi bod yn dadleu llawer ynghylch pa bryd y cynyddodd yr ymborth. Y mae ymron yn amhosibl dweud pa bryd, ac yr ydym yn methu deall pa amcan defnyddiol a gyrhaeddid pe gellid dywedyd i sicrwydd. Ni fyddai'r wybodaeth fanylaf o'r adeg yn ychwanegu dim at fawredd y wyrth nac yn rhoddi unrhyw eglurhad ar ei nhatur oruwchnaturiol.

12 Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briw-fwyd gweddill, fel na choller dim.

13 Am hynny hwy a'u casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briw-fwyd o'r pùm torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasent.

14 Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddïau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.

---

12. "*Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim.*" Syniad y Cymro cyffredin ydyw mai y briwsion a gollwyd gan y dyrfa wrth ymborthi a olygir yma, ond camgymeriad ydyw hynny. Golyga'r gair a gyfieithir "briwfwyd," y darnau i ba rai y torrodd yr Iesu y teisenau a roddwyd iddo. Ni cheir y gorchymyn am gasglu'r gweddill ond yn yr Efengyl hon yn unig.

13. "*Ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd.*" Y mae esbonwyr anghredinioi wedi bod yn ymholi'n fanwl o ba le y cafwyd y deuddeg basged hyn, ac y mae un eglurhad wedi ei roddi sydd yn fwy teilwng o'n sylw na'r cwestiwn o lawer. Dywedir mai math o fasged a olygir yma a gerid gan bob Iddew pan ar ei daith i gludo ymborth rhag ei angen, ac felly yr eglurhad a roddir ar y "deuddeg" ydyw mai un i bob disgybl oedd yno. Y mae'n anhawdd dweud a oes sail ddigonol i'r dybiaeth uchod. Nid yw cyfieithwyr i gyd o'r un farn beth a olygir wrth y gair gwreiddiol. Nid yw'r un gair ag a geir yn hanes porthi'r pedair mil, a'r tebygolrwydd yw fod y basgedau hynny yn fwy o ran eu maint ac yn ystwythach o ran defnydd na'r rhai y cyfeirir atynt yma. Pan y mae ein Harglwydd yn adgofio Ei ddisgyblion am y gwyrthiau hyn o borthi'r miloedd (S. Math. xvi.) defnyddia ddau air gwahanol am fasged, megys y ceir hwy yn yr hanesion gwreiddiol.

14. "*Y prophwyd.*" Y mae'n anhawdd dywedyd pa un ai fel y Messiah addawedig yr edrychent arno ai peidio. Ceir y fannod o'i flaen, a diameu fod yma gyfeiriad at Deut. xviii. 15, &c. Rhywun wedi dyfod oddiwrth Dduw oedd Efe iddynt hwy, oherwydd gwneuthur o hono y cyfryw weithredoedd.

15 ¶ Yr Iesu gan hynny, pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenhin, a giliodd drachefn i'r mynydd, ei hunan yn unig.

16 A phan hwyrhaodd hi, ei ddisgyblion a aethant i waered at y môr.

17 Ac wedi iddynt ddringo i long, hwy a aethant dros y môr i Capernaum. Ac yr oedd hi weithian yn dywyll, a'r Iesu ni ddaethai attynt hwy.

RHODIO AR Y MOR.—ADNODAU 15—21.

15. "*Pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod a'i gipio Ef i'w wneuthur yn frenin.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "cipio" yn golygu "cymeryd trwy drais," neu "orfodi." Am "wybod" ceir yr un gair ag a ddefnyddir yn gysou gan yr awdwr i arddangos gwybodaeth ddynol. Yr oedd yr Iesu'n gallu gweled wrth eu symudiadau allanol beth yr oeddent ar fedr ei wneyd. Y mae pobpeth yn y desgrifiad a roddir yn golygu fod brwdfrydedd afreolus ar ennill yr oruchafiaeth. Myn rhai y disgwylient i'r Iesu, wedi clywed am ddienyddiad Ioan Fedyddiwr, gasglu byddin a'i harwain i ddadymchwelyd gorsedd y teyrn a'i llofruddiodd, ond nid oedd yr Iesu am ymddiried llwyddiant Ei achos i'r fath gorsennau ysig.

"*Ei hunan, yn unig.*" Eglurir gan yr Efengylwyr ereill mai gweddio oedd Ei amcan. Y tebygolrwydd yw Ei fod wedi anfon Ei ddisgyblion ymaith yn gyntaf i fyned i'r môr, ac yna wedi cilio o afael y dyrfa wrtho Ei Hun. Dywedir mai dyna eithafbwynt Ei boblogrwydd yn Galilea,—yr oeddent yn barod i'w dderbyn â banllefau fel eu brenin ac eto gwrthododd yr Iesu. A oedd hi yn rhyw ymdrech ar ran ei natur ddynol i roddi heibio'r cyfryw gyfleustra? Y mae rhywbeth yn yr amgylchiadau yn union yr un peth ag yn y demtasiwn honno o eiddo'r diafol o roddi iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant.

16. "*A phan hwyrhaodd hi.*" Yr adeg a olygir wrth yr "hwyr" yn ddiameu ydyw'r amser o fachludiad haul hyd y tywyllai.

17. Sicrheir ni gan awdurdodau galluog y dylid gadael allan y fannod yma, ac felly y mae'r cyfieithiad Cymraeg "i long" yn gywir.

18 A'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd.
19 Yna, wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau, hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y môr, ac yn nesâu at y llong; ac a ofnasant.
20 Ond efe a ddywedodd wrthynt, Myfi yw; nac ofnwch.

"*Dros y môr i Capernaum.*" Dywedir yn S. Marc vi. 45 mai i Bethsaida yr oeddent yn amcanu myned, ac felly, o bosibl, yr ystorm a'u gyrrodd hwynt allan o'u cwrs ac a'u gorfododd i hwylio i gyfeiriad Capernaum.

"*A'r Iesu ni ddaethai atynt hwy.*" Yn ol y darllenlad a dderbynnir yn gyffredin dylid cyfieithu, "Ni ddaethai yr Iesu *eto* atynt hwy." Pa un a yw hyn yn golygu fod yr Iesu wedi apwyntio man i'w cyfarfod y mae'n anhawdd dweyd. Myn rhai mai dim ond cyfeirio ymlaen y mae "eto" at adn. 19.

18. Y mae'r ferf yn yr amser amherffaith, ac o bosibl yn cyfeirio at barhad yr ystorm.

19. "*Wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau.*" Gan fod y môr yn ei fan lletaf yn rhyw ddeugain o ystadiau (6 milltir) rhaid fod y disgyblion yn agos yn ei ganol erbyn hyn.

"*Yn rhodio ar y môr.*" Defnyddir yr ymadrodd a gyfieithir yma "ar y môr" hefyd yn xxi. 1, a'i ystyr yn y fan honno heb unrhyw amheuaeth ydyw "ar hyd y traeth." Gan hynny y mae esbonwyr anghrediniol yn gryf o'r farn mai dyna ei ystyr yn y fan hon hefyd, ac nad oes yma yr un cyfeiriad o gwbl at y goruwchnaturiol. Ond os oeddent wedi rhwyfo yn groes i'r môr fel y credwn ni, rhaid eu bod bellder mawr oddiwrth y lan. Os rhodio ar y traeth a olygir nid oes llawer o ystyr i'r ymadrodd ei fod "yn nesau at y llong," ac nis gallwn ddarganfod un rheswm paham yr oedd yn rhaid iddynt ofni wrth Ei weled yn gwneud peth mor arferol a "rhodio ar y traeth."

20. "*Myfi yw.*" Cymharer iv. 26 (yr Iesu a'r wraig o Samaria), a hefyd y teitl "Ydwyf" yn llyfr Exodus, y teitl wrth yr hwn y dymunai Duw gael Ei adnabod gan Moses a chenedl Israel.

21 Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong: ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir yr oeddynt yn myned iddo.

---

21. "*Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong.*" Yn fwy llythyrennol gellid cyfieithu "yr oeddent yn ewyllysio Ei dderbyn Ef i'r llong." Defnyddir yr amser amherffaith er dynodi parhad y dymuniad. Ceir yr ymadrodd a gyfieithir "derbyn yn chwannog," neu "ewyllysio Ei dderbyn," mewn mannau ereill yn golygu dymuniad na chyflawnwyd, ac o bosibl dyna a barodd i'r cyfieithwyr Cymreig ysgrifenu "a'i derbyniasant yn chwannog," rhag bod cam-ddealltwriaeth. Dywedir gan yr Efengylwyr ereill (S. Marc vi. 49; S. Math. xiv. 26) eu bod wedi credu ar y cyntaf mai drychiolaeth ydoedd, ac felly naturiol oedd iddynt Ei dderbyn yn llawen ar ol iddynt glywed Ei lais a deall mai'r Iesu mewn gwirionedd ydoedd.

"*Yn ebrwydd . . . . wrth y tir yr oeddent yn myned iddo.*" Rhoddir eglurhad ar "yn ebrwydd" gan yr Efengylwyr ereill, y rhai ychwanegant fod y gwynt wedi tawelu ar ol dyfodiad yr Iesu i'r llong, ac felly nid oedd cymaint rhwystr ar y ffordd. Prin y medrwn gredu fod dim yn yr adran hon o'r adnod sydd yn ffafrio'r syniad eithafol fod yr Iesu wedi symud y llong i'r lan ar unwaith mewn modd gwyrthiol. Yr ydym yn methu gweled un rheswm dros wasgu cymaint ar y geiriau "yn ebrwydd." Yn ol rheolau gramadeg gall yr ymadrodd a gyfieithir yma "wrth y tir" olygu (1.) yng nghyfeiriad y lan, neu "yn gwneud am y lan," neu (2.) ar y lan,—y llong wedi cyrhaedd y traeth. Credwn mai'r olaf a olygir yma, ond nid yw'n gwneyd fawr wahaniaeth pa un o'r ddau a dderbynnir.

Y Gwyrthiau yn Efengyl S. Ioan.

Ar ol cofnodi hanes cyflawniad gwyrth gyntaf yr Iesu yn Cana Galilea defnyddia awdwr yr Efengyl hon air sydd yn hynod nodweddiadol. Yr oedd y wyrth hon yn ddechreuad "arwyddion," (oblegid dyna ystyr y gair yn y gwreiddiol ii. 11). Dyna oedd y gwyrthiau iddo Ef, "arwyddion" nid "nerthoedd" megis i ereill. Yn ol ei farn ef trwy'r "Gair" y "gwnaethpwyd pob peth,"

22 ¶ Trannoeth, pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll y tu hwnt i'r môr, nad oedd un llong arall yno ond yr un honno i'r hon yr aethai ei ddisgyblion ef, ac nad aethai yr Iesu gyd â'i ddisgyblion i'r llong, ond myned o'i ddisgyblion ymaith eu hunain;

---

ac nid oedd unrhyw angen felly iddo ef bwysleisio ar y gwyrthiau fel arddanghosiad o allu. Yr oeddent yn cydfyned â'r Person a'u cyflawnodd ac yn "naturiol" iddo Ef, ac o ganlyniad sonia'r awdwr am danynt yn fynych fel "gweithredoedd." Ond y maent er hynny'n "arwyddion" i brofi i ereill mai'r Iesu "oedd y Crist, Mab Duw." Nid ydynt yn rhyfeddodau i beri syndod ac i enill edmygedd, ond yn hytrach arwyddion anianyddol ac allanol o ryw ffaith fawr ysbrydol. Y maent yn brofion fod yr Iesu'n alluog i roddi bywyd yn ogystal ag i'w gynnal, a llanwant yr un lle ym myd gwaith a gallu ag a leinw'r damhegion ym myd llenyddiaeth. Ac ni raid i'r darllennydd wrth gymorth dychymyg fywiog ddwyreiniol cyn gallu deall i ryw raddau pa agweddau o'r gwirioneddau mawrion ysbrydol a nodwyd a gysgodir gan yr wyth gwyrth y cawn eu hanes yma. Er mwyn ei gynorthwyo i wneyd hynny rhoddwn restr o honynt.

Troi'r dwfr yn win yn Cana Galilea, ii. 1—12.
Iachau mab y Pendefig, iv. 47—54.
Iachau'r claf wrth lyn Bethesda, v. 1—10.
Porthi'r pum mil, vi. 1—15.
Yr Iesu'n rhodio ar y môr, vi. 16—21.
Agoryd llygaid y dall, ix. 1—8.
Cyfodi Lazarus, xi. 1—45.
Yr helfa fawr o bysgod, xxi. 1—14.

Wrth fyfyrio arnynt, fel y dywed S. Awstin yn ei draethawd ar yr Efengyl, y mae "gwyrthiau'r Gair yn troi yn air i ni," ac yn llefaru'n uchel wrthym am fawredd digyffelyb Ei Berson a'i gymeriad.

Y DYRFA YN CEISIO'R IESU.—ADNODAU 22—25.

22. "*Pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll y tu hwnt i'r môr.*" Myn rhai mai y rhai mwyaf selog o'r dyrfa a anfonodd yr Iesu ymaith a olygir yma, ond y mae'n anhawdd gennym gredu y medrir cyfieithu'r geiriau i olygu eu bod wedi aros yn y fan lle'r oeddent trwy'r nos.

23 (Eithr llongau eraill a ddaethent o Tiberias yn gyfagos i'r fan lle y bwyttasent hwy fara, wedi i'r Arglwydd roddi diolch:)

24 Pan welodd y dyrfa gan hynny nad oedd yr Iesu yno, na'i ddisgyblion, hwythau a aethant i longau, ac a ddaethant i Capernaum, dan geisio yr Iesu.

Credwn y buasai'r awdwr wedi ychwanegu rhyw air neu ymadrodd i olygu "o hyd" pe mai hynny feddyliai. Wrth reswm nid oes dim yn erbyn y syniad iddynt aros yn rhywle yn y gymydogaeth, a dyfod i chwilio am yr Iesu drannoeth i'r man y llefarsai Efe am dano wrthynt y dydd blaenorol. Y mae'r adnod hon a'r adnodau dilynol yn anhawdd iawn eu deall, nid o ran eu cynwys ond o ran eu gramadeg. Rhoddir dwy frawddeg i mewn yn y canol gan yr Efengylwr fel math o eglurhad; os gadewir y rhai hynny allan gwelir y cysylltiad yn well—"Pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll . . . nad oedd yr Iesu yno . . . aethant i longau." Ond rhydd yr Efengylwr ddau eglurhad i mewn, y cyntaf i brofi paham yr arhosasant yr ochr honno i'r mor—am nad oedd un llong arall yno, ac am nad aethai'r Iesu, ond myned c'i ddisgyblion ymaith eu hunain, a'r ail eglurhad i brofi pa fodd y bu iddynt felly fedru croesi. "Eithr llongau ereill a ddaethant o Tiberias," &c.

"*Ac nad aethai'r Iesu gyda'i ddisgyblion i'r llong.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma llong yn golygu "llong fach." Yr oedd y ffaith na welsent yr Iesu yn ymadael gyda'i ddisgyblion yn rheswm dros iddynt ddyfod i'r un man i chwilio am dano drannoeth.

23 Bernir fod y llongau hyn wedi cael eu gyrru yno gan ystorm y noson flaenorol. Maentumia rhai ar sail go gref mai'r dref Tiberias a olygir ym, ond credwn fod naturioldeb yn galw am i ni ddeall mai'r llongau a olygir.

24. Y mae'r geiriau "hwythau a aethant" yn gryfach yn y gwreiddiol, a golygant "hwythau eu hunain a aethant." neu "hwythau hefyd" o'u cyferbynnu â'r Iesu a'i ddisgyblion, y rhai oeddent wedi ymadael y noson o'r blaen.

25 Ac wedi iddynt ei gael ef y tu hwnt i'r môr, hwy a ddywedasant wrtho, Rabbi, pa bryd y daethost ti yma?
26 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a ch digoni.

---

25. "*Dros y môr.*" Yr ochr arall i'r môr,—yr ochr orllewinol.

"*Rabbi, pa bryd y daethost ti yma?*" Y mae esbonwyr er's blynyddoedd wedi sylwi fod "pa bryd" yma'n cynwys "pa fodd." Sylwer na roddodd yr Iesu atebiad i'w cwestiwn, dengys yr hyn a ddywedodd wrthynt nad oedd am foddio eu cywreinrwydd afiach trwy adrodd wrthynt hanes Ei daith ar y mor heb yr un llong.

Y BARA O'R NEF—CRIST EI HUN.—ADNODAU 26—41.

Y mae un esboniwr galluog wedi dosrannu'r bregeth fawr hon o eiddo'r Iesu, (gan ddefnyddio iaith llai barddonol a dwyreiniol), rywbeth yn debyg i hyn. (1.) Amcan holl ymdrech y credadyn (26, 27). (2.) Y modd y dylai ymdrechu (28, 29). (3.) Sicrwydd ei lwyddiant (30—33). (4.) Sylweddoliad ei obeithion (34—41).

26. "*Yr ydych chwi yn fy ngheisio i nid oherwydd . . . . . ond oherwydd.*" Ar yr olwg gyntaf gallesid meddwl fod yr Iesu'n cyfeirio at Ei wrandawyr fel rhai nad oeddent wedi bod yn llygad-dystion o'i wyrthiau, ond ar un achlysur oeddent wedi bod yn gyfranogion o'r bara a gynyrchodd Efe yn rhinwedd Ei allu gwyrthiol, ac am hynny yn Ei ddilyn am y credent fod ganddo rywbeth i'w roddi. Ond os sylwir yn fanwl gwelir mai nid dyna'r ystyr o gwbl. Yr oeddent wedi gweled Ei wyrthiau, ("arwyddion" yw y gair yn y gwreiddiol), ond nid oeddent wedi deall eu hamcan. Edrychent arnynt fel "rhyfeddodau" 'n unig, a pharhaent i'w ddilyn am eu bod i weled rhagor o'r un fath. Rhaid rhoddi ei le a'i ystyr briodol i'r gair a gyfieithir "gwyrthiau" yma os am ddeall yr adnod yn iawn.

"*A'ch digoni.*" Defnyddir y gair am anifeiliaid sydd, yn unol â'u greddf, wedi bwyta eu gwala o ymborth, a chredwn fod ein Harglwydd yn fwriadol yn gochel gorleddneisrwydd.

27 Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi: canys hwn a seliodd Duw Dad.

---

27. "*Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "llafuriwch" (gweithiwch) yn bwysleisiol, ac am hynny ceir ef ar ddechreu'r adran. Y mae rhai am gasglu oddiwrth anogaeth yr Iesu yma Ei fod yn gwahardd dilyn unrhyw alwedigaeth fydol am y telid cyflog am y gwaith, ac mai rhyw fywyd mynachaidd a diegni y cynghora Efe Ei ganlynwyr i'w ddilyn. Ond y mae'n amhosibl credu fod yr Hwn oedd wedi treulio blynyddoedd gyda Joseph y saer yn Nazareth yn rhoddi unrhyw waharddiad o'r fath. Myn rhai fod yna gyfeiriad hyd yn oed yn yr adnod hon ("y bwyd a dderfydd") at y manna yr hwn a lygrai os cedwid ef, ond beth bynnag am hynny y mae'r geiriau yn ddarluniad byw o natur cyflog y gweithiwr. Gwaria ei arian i brynnu ei ymborth, a defnyddia'r ymborth i ddiwallu ei angen ac i gynnal ei nerth, nid oes dim yn aros, mae pobpeth yn myned o dan gyfnewidiad parhaus. Y mae dau gyferbyniad yn yr adnod ni gredwn, sef (1.) rhwng y bwyd a "dderfydd" a'r bwyd a bery i fywyd tragywyddol ac (2.) rhwng "llafuriwch" yn nechreu yr adnod a "dyry" yn nes ymlaen. Nid ennill bywyd tragywyddol y mae'r credadyn,—rhodd Duw ydyw. Felly y mae'n gyfangwbl o'r un natur a'r wobr honno a dderbyn gweithiwr am waith gonest heblaw yr arian a ennilla. Derbyn hefyd ryw foddhad i'r rhan uchaf o'i natur.

"*Yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi.*" Fel y cyfeiriwyd eisoes "rhodd" yw ac nid cyflog. Pe cyflog yn unig fuasai mesurid hi gan faint a gwerth y gwaith. Sylwer fod yr Iesu yn seilio Ei hawl i roddi y cyfryw ar y ffaith mai Mab y dyn ydyw. Efe fel gwir gynrychiolydd dynoliaeth a rydd iddynt yr ymborth hwn. Trwy'r Ymgnawdoliad y mae'r credadyn wedi ei alluogi i gyfranogi i ryw raddau o'r dwyfol yr hwn sydd o ran ei natur yn dragywyddol.

"*Canys hwn a seliodd Duw Dad.*" Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg yn cyfleu cyflawn ystyr y gwreiddiol.—"yr hwn a seliodd y Tad, sef Duw." Y mae'r Iesu am bwysleisio ar y ffaith mai Duw oedd "Tad" Mab y Dyn.

28 Yna y dywedasant wrtho, Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?

29 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe.

30 Dywedasant gan hynny wrtho ef, Pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? pa beth yr wyt ti yn ei weithredu?

Wrth "selio" y golygir fod Duw wedi Ei neilltuo Ef ar gyfer y gwaith hwn, a hefyd wedi rhoddi profion amlwg a diymwad o'r awdurdod a drosglwyddwyd iddo.

28. "*Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?*" Myn rhai fod yma gyfeiriad at yr amhosibilrwydd i unrhyw ddyn "weithredu gweithredoedd Duw," ond credwn yn hytrach eu bod yn credu y gallai dyn wneud hynny, a mwy, eu bod yn dirgel gredu eu bod hwy trwy eu haberthau a'u seremoniau wedi bod yn gwneud hynny ar hyd yr oesau. Gan hynny gofynant mewn ysbryd difrifol ddigon, "Beth arall sydd raid i ni ei wneuthur?" Nid ydym yn credu eu bod am foment am wadu y dylai fod amcan uwch i waith nag ennill cyflog.

29. "*Hyn yw gwaith Duw.*" Sylwer y defnyddia'r Iesu y rhif unigol tra y defnyddia Ei wrandawyr y rhif lliosog. Iddynt hwy, oedd mor gyfarwydd a galwadau diderfyn y ddeddf, yr oedd llawer o weithredoedd yn angenrheidiol, ond iddo Ef dim ond un gwaith oedd Duw yn ofyn i ddynion gyflawni, sef "credu."

"*Credu o honoch.*" Cyfeirir yma nid yn unig at y ffaith o gredu (yr "act") ond hefyd at yr ymdrech ddynol oedd yn ei rhagfyned ac yn esgor ar yr ymddiriedaeth anghenrheidiol.

30. "*Pa arwydd yr wyt Ti yn ei wneuthur?*" Credwn eu bod yn cyfeirio'n ol at y cyhuddiad a ddug yr Iesu yn eu herbyn yn adn. 26, nad oeddent yn deall Ei "arwyddion" er iddynt weled Ei wyrthiau. Y mae'r rhagenw 'Ti" yn bwysleisiol,—golygant Ei fod wedi gorchymyn iddynt wneud cymaint, ac y maent eisiau gwybod pa awdurdod oedd ganddo i wneud hynny.

31 Ein tadau ni a fwyttasant y manna yn yr anialwch, fel y mae yn ysgrifenedig, Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwytta.

32 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef: eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara o'r nef.

---

31. "*Ein tadau ni a fwytasant y manna yn yr anialwch.*" Y mae'r cyfeithiad Cymraeg yma'n gywirach na'r un Saesneg am y ceidw'r fannod o flaen "manna." Nid 'manna" ond "y manna,"—y rhodd ryfeddol honno â pha un yr oedd yr Iddew ymron yn reddfol yn cymharu pob rhyfeddod arall. Yn wir dywedir fod yna draddodiad y byddai i'r Gwaredwr (Messiah) pan ddeuai eto gyfrannu "manna" i gynnal ei genedl megis ag y gwnaeth ei gwaredwr cyntaf "yr hwn a'u dug hwynt allan o wlad yr Aipht." Y mae'r ffaith eu bod yn disgwyl am fendith dymhorol o'r fath, heb wneud unrhyw ymdrech i'w meddiannu, yn profi'n eglur natur gobeithion y genedl.

"*O'r nef.*" "Yn y nefoedd" a ddywedir yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Salm lxxviii. 24, o ba un y mae'r ymadrodd wedi ei gymeryd. Golyga nid yn unig fod y "manna" wedi disgyn oddi uchod ond ei fod wedi dod o drysordy rhagluniaeth Duw. Yn yr adnod ddilynol yn y Salm gelwir ef yn "fara angelion."

32. Y mae dau gyferbyniad yn yr adnod hon. (1.) Nid "Moses" ond "Duw." (2.) Y "manna" a'r "gwir fara."

"*Eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara o'r nef.*" Sylwer fod yr Iesu'n siarad am y Tad yn rhoddi yn yr amser presennol gan gyfeirio o bosibl at y disgwyliad cenedlaethol am ail fanna am ba un y soniwyd uchod. (Gwel ar adn. 31). Yr oedd y "gwir fara" yn rhagori ar y "manna" (1.) o ran ei barhad,—yr oedd yn para 'i fywyd tragywyddol" (adn. 27), fel y "dwfr" am ba un y soniodd yr Iesu am dano wrth y wraig o Samaria yr hwn oedd "yn tarddu i fywyd tragywyddol." (2.) O ran ei effeithiau,—dim ond cynnal bywyd dros amser a fedrai'r manna ei wneud, ond yr oedd y "bara" hwn yn parhau i fywyd tragywyddol.

33 Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd.

34 Yna hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol.

35 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.

---

33. "*Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef.*" Myn rhai fod y rhagenw "hwn" yn cyfeirio at yr Iesu, ond credwn mai gwell ydyw edrych ar y geiriau, "yr hwn sydd yn dyfod, &c., fel ansoddair yn rhoddi desgrifiad pellach o'r bara. Profa cwestiwn y gwrandawyr yn yr adnod nesaf mai am y bara yr oeddent hwy yn meddwl o hyd. Cyfeiria'r Iesu atto Ei Hun fel "bara y bywyd" am y tro cyntaf yn adn. 35.

"*Yn rhoddi bywyd i'r byd.*" Credwn fod pwyslais y frawddeg i gael ei roddi ar y ferf "rhoddi," i brofi rhagoriaeth y bara hwn ar y manna yr hwn nas medrai ond cynnal bywyd oedd eisoes wedi ei roddi.

34. Cymharer cwestiwn y wraig o Samaria yn iv. 15. Y mae'n anhawdd credu mai mewn gwawd y gofynasant y cwestiwn er eu bod ymhell o ddeall meddwl yr Iesu'n gyflawn.

35. "*Myfi yw bara y bywyd.*" Cyhuddir awdwr yr Efengyl hon weithiau gan feirniaid anghrediniol o fod yn anrhefnus ac afrosgo gyda'r gwaith o ail-adrodd dywediadau'r Iesu, a haerant mai rhyw dryblith cymysglyd a geir ganddo. Cawn yma brawf amlwg nas gellir cyfiawnhau'r cyhuddiad. Yn yr adnod hon cymerir cam ymlaen yn yr ymresymiad, a dygir gwirioneedd newydd i mewn. Ond y mae hyn yn dilyn yn naturiol oddiwrth yr hyn yr oedd yr Iesu a'i wrandawyr wedi ddywedyd eisoes. Sonia'r Iesu yn adn. 27 am 'Fab y Dyn" yn rhoddi iddynt y bara a bery i fywyd tragywyddol, ac yn adn. 34 cydnabydda'r Iddewon y medra'r Iesu ei roddi iddynt ac erfyniant arno wneud hynny. Yma eglura'r Iesu ymhellach iddynt natur y 'bara" oedd i ddigoni anghenion dyn dros byth. Nid rhywbeth marw i gynnal bywyd oedd i gael ei roddi ond Person byw, yr hwn fel y cyfryw a allai ddigoni anghenion dyfnaf enaid dyn yn ogystal a'i gorph. Pan yn

36 Eithr dywedais wrthych, i chwi fy ngweled, ac nad ydych yn credu.

37 Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw attaf fi: a'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim.

---

ceisio egluro iddynt ddarpariaeth Duw, y mae'r Iesu ar yr un pryd yn dadansoddi anghenion dyn oedd yn cyfrif am y ddarpariaeth honno. Ym mhob cyfundrefn athronyddol a chrefyddol arall yr athrawiaeth sydd fwyaf pwysig ac nid y dysgawdwr neu'r sant a ddarganfyddodd yr athrawiaeth, ond yn y gyfundrefn Gristionogol—trefn yr Efengyl—yr Athraw yw canolbwynt pobpeth, derbynia pob athrawiaeth a ddysgodd ei phwysigrwydd a'i hawdurdod oddiwrth Ei Berson Ef.

"*Yr hwn sydd . . . . ni newynna, a'r hwn sydd . . ni sycheda.*" Hyd yma son am "fara" i ddigoni'r newynnog ydym wedi glywed, ond y mae bara'r bywyd yn ddigon ar gyfer holl angenion dyn, ei newyn a'i syched. Sylwer ar y cyferbyniad rhwng "dyfod ataf fi" a "chredu ynof fi."

36. "*Dywedais wrthych.*" Y mae'n anhawdd dweud pa bryd. Myn rhai mai cyfeiriad sydd yma at gyfarchiad cyntaf yr Iesu yn adn. 26, ond o bosibl galw i'w cof ryw ddywediad o'i eiddo na chroniclir mo hono yn yr Efengylau y mae. Cofier nad yw'r cyfan wedi ei ysgrifennu (cymh. xxi. 25). Yr Iesu Ei Hun oedd yr arwydd o'r nef yr oeddent yn crefu am dano; yr oedd yr arwydd wedi ei roddi, ond nid oeddent hwy wedi ei ganfod.

37. Ymddengys fel pe buasai'r Iesu yn aros am foment yma i synfyfyrio ar anghrediniaeth dyn, ond penderfyna ar unwaith nad oedd hynny yn ddigon cryf i ddadymchwelyd trefn Duw.

"*Yr hyn oll . . . . a'r hwn . . .*" Rhoddir y gwirionedd mewn ffurf fwy personol yn yr ail adran na'r adran gyntaf, ac y mae'r cyfieithiad Cymraeg yn cyfleu'r syniad a geir yn y gwreiddiol yn hollol. "Yr hyn . . yr hwn." Edrychir ar y credadyn yn yr adran gyntaf fel un o'r "dyrfa fawr nas gallai neb ei rhifo," y rhai (oll) a roddwyd i'r Mab gan y Tad yn nhrefn yr achub, ond yn yr ail adran edrychir arno ar ei ben ei hun—yn ngrym ei ewyllys egwan yn cydweithredu â threfn fawr

38 Canys myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd.
39 A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; o'r cwbl a roddes efe i mi, na chollwn ddim o hono, eithr bod i mi ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf.

Duw—yn tynnu at y Gwaredwr. Yr ydym yn methu'n deg a gweled fod yma sail i unrhyw athrawiaeth eithafol am etholedigaeth Duw. Y mae'n wir fod Duw yn rhinwedd Ei hollwybodaeth anherfynol wedi rhagweled pwy a fyddai gadwedig, ac wedi anfon Ei Fab i'w hachub, ond nid yw hynny'n cau allan y syniad a geir yn yr ail adran fod yna rywbeth yn nhrefn Duw i'r credadyn unigol ei wneud. Y mae unigolion yr ail adran gyda'u gilydd yn gwneud i fyny gyfanrif yr adran gyntaf. Cauir allan felly pob syniad o anghyfiawnder a gorfodaeth ar ran Duw, gan y gwneir achubiaeth y pechadur i ddibynnu, mor bell ag y perthyn iddo ef wybod, ar ei ewyllys ef ei hun. Nid ei waith ef ydyw llygadrythu ar gyfrinion y Duwdod, nac ychwaith synied am yr Anfeidrol fel yn rhwym, trwy raid anorfod, wrth y fath safon ddaearol a nifer benodol yn nhrefn achubiaeth dyn.

38. "*Canys myfi a ddaethum i lawr o'r nef.*" Ag eithrio iii. 13 ac o bosibl Eph. iv. 9, ni ddefnyddir yr ymadrodd "dyfod i lawr o'r nef" ond yn y bennod hon, lle y ceir ef bedair o weithiau, adn. 38, 50, 51, 58. Y mae'r ffaith Ei fod wedi dyfod "i lawr o'r nef" yn profi Ei gynhanfodiad yn y nef cyn adeg Ei Ymgnawdoliad.

39. "*A hyn yw ewyllys y Tad.*" Camgymeriad rhyw gopiwr ydyw rhoddi y gair "Tad" i mewn yma, yn yr adnod ddilynol y mae ei le priodol.

"*O'r cwbl . . . . na chollwn ddim . . .*" Yr un yw'r gair a gyfieithir yma "cwbl" a'r "oll" a geir yn adn. 37. Edrychai ar y crediuwyr yma eto fel cyfangorph, ac yn lle dweud na chollai yr un o honynt dywed yr Iesu na chollai ddim o honynt.

"*Eithr bod i mi ei adgyfodi ef y dydd diweddaf.*" Yma siaredir am adgyfodiad y Saint fel cyflawniad ewyllys y Tad, ond mewn mannau ereill (adnodau 40, 44, 54) sonnir am dano fel yn dibynnu ar weithrediad ewyllys y Mab. Ni cheir yr ymadrodd "y dydd diweddaf" ond yn yr Efengyl hon yn unig.

40 A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.

41 Yna yr Iuddewon a rwgnachasant yn ei erbyn ef, o herwydd iddo ddywedyd, Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef.

42 A hwy a ddywedasant, Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae efe yn dywedyd, O'r nef y disgynais?

---

40. Cymharer yr hyn a ddywedir yn adn. 35 am "ddyfod ato" Ef a "chredu ynddo" Ef. Y mae'r gair a gyfieithir yma gweled yn llawer cryfach na'r gair a ddefnyddir yn gyffredin. Y gair cyffredin a ddefnyddiwyd yn adn. 26, oblegid darlunio y mae'r Iesu yno edrychiad diathrylith y dorf ar yr Hwn oedd yn gwneuthur "rhyfeddodau," ond yma golygir eu bod yn gweled, yn canfod, ac wedi hynny, yn credu.

PERTHYNAS Y MAB A'R TAD AC A DYNOLIAETH.—ADNODAU 41—51.

Cnawd Crist yn wir fara. Fel y gwelir oddiwrth y penawd uchod y mae perthynas agos rhwng yr adran hon a'r un flaenorol. Yma eto pwysleisir ar le a gwaith y Mab yn nhrefn achubiaeth dyn, a'r awdurdod oedd yn tarddu oddiar Ei swydd gyfryngol. Y mae cysylltiad hefyd rhyngddi a'r adran ddilynol fel y gwelir oddiwrth adn. 48 a 51, y rhai a baratoant y meddwl ar gyfer derbyn yr athrawiaeth (ynghylch corph Crist, &c.) a ddysgir yn y drydedd adran.

41. "*Am hyny'r Iddewon a rwgnachasant.*" Wrth yr "Iddewon" y golygir nid yr holl dorf oedd yn gwrando ar yr Iesu, ond yr Iddewon swyddogol, y rhai a broffesent gynrychioli'r grefydd genedlaethol. Nid yw'r gair a gyfieithir yma "grwgnach" yn golygu drwg deimlad o angenrheidrwydd, ond y mae'n amlwg oddiwrth adn. 42 fod y cyfryw eisoes yn bodoli. Yr oedd yr Iesu wedi honni Ei fod Ef wedi disgyn o'r nef, ac am hynny yr oedd yr "Iddewon" am ymosod arno yn ddiarbed.

42. Y mae'r "ni" yn bwysleisiol, ac y mae gradd o ddirmyg i'w glywed yn y rhagenw "hwn." Ymddengys

43 Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Na furmurwch wrth eich gilydd.

44 Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef: a myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.

---

fod yr "Iddewon" hyn ar ol clywed yr Iesu yn cyfeirio ato Ei Hun fel wedi dyfod i waered o'r nef, wedi gwneud ymchwiliad ac wedi dyfod o hyd i'r manylion hyn ynghylch dinodedd ei rieni. Nis gallent fod wedi dyfod i wybod am hanes Ei enedigaeth wyrthiol, gan nad oedd yr hanes hwnnw eto wedi dyfod yn feddiant i'r cyhoedd. Baich gwrthddadl yr "Iddewon" ydyw hyn,—"Pe buasai wedi dyfod o'r nef, buasai wedi disgyn i'r ddaear mewn rhyw fforddwyrthiol nes peri i'r byd synnu at Ei ddyfodiad." Ac am na ddaethai gydag unrhyw arwyddion goruwchnaturiol yr oeddent am Ei wrthwynebu hyd yr eithaf.

43. Myn rhai mai galw am osteg yn unig yr ydoedd ein Harglwydd yma, ond credwn Ei fod yn peri iddynt dewi am y gwyddai beth oedd yn eu meddyliau.

44. "*Ni ddichon neb ddyfod attaf fi oddi eithr i'r Tad . . . . ei dynnu ef.*" Fel y sylwyd eisoes (ar adn. 37) gellir edrych ar waith y credadyn yn dyfod at Grist i gael ei achub o ochr dyn,—y dyn yn "ewyllysio" bod yn gadwedig,—neu ynte o ochr Duw. Ochr Duw a geir yn yr adnod hon, ond dylem fod yn ofalus i gadw pob syniad o orfodaeth ddaearol ymhell oddiwrth y mater. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng atyniad anorchfygol a gorfodaeth noeth. Y blaenaf a ddynodir wrth drefn Duw o dynnu'r pechadur. Y mae'n berffaith gywir dweud, fel y dywed yr Iesu yma, fod yn rhaid i'r Tad dynnu pawb a ddeuant at Grist, ond rhaid cofio fod pob credadyn a gedwir yn cael ei dynnu oherwydd ei fod yn teimlo fod yr apel a'r atyniad yn anorchfygol. Y mae Duw yn tynnu'r pechadur trwy ordinhadau ei Eglwys, trwy "drefn" yr Efengyl, ac yn bennaf oll trwy ddangos cariad hunan-aberthol yr Iesu. Dyma *charm* mawr Duw i dynnu'r pechadur.

45 Y mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod attaf fi.

46 Nid o herwydd gweled o neb y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw; efe a welodd y Tad.

47 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol.

---

45. Profir yr hyn a ddywedwyd eisoes (ar adn. 37 a 44) am ran dyn a rhan Duw yn nhrefn achubiaeth pechadur gan y dyfyniad a wneir gan yr Iesu yn yr adnod hon. Perthynas dyn â Duw ydyw perthynas disgybl âg athraw. Nis gall y disgybl ddysgu ei hun, rhaid iddo wrth gynnorthwy'r athraw, ond gall droi'n ystyfnig a pheidio derbyn yr athrawiaeth a gynygia ei Feistr. Wrth y "prophwydi" yma y golygir y rhan o ysgrythyrau'r Hen Dest. a alwai'r Iddewon ar yr enw hwnnw. Tybir mai at Esaiah liv. 13 y mae'r Iesu yn cyfeirio. Y mae'r pwyslais pennaf i'w roddi n'd ar yr "oll" ond ar "wedi eu dysgu gan Dduw."

"*Pob un gan hynny a glywodd . . . . sydd yn dyfod ataf fi.*" Dywedir y dylid gadael allan "gan hynny," gan na cheir ef yn y llawysgrifau goreu. Cawn yma gyfeiriad arall at ran dyn yn nhrefn yr achub, gan fod yr Iesu'n ofalus i wahaniaethu rhwng y rhai sydd yn clywed a'r rhai sydd yn dysgu. Nid yw pawb sydd yn clywed yn dysgu. Dynoda'r ymadrodd hefyd drefn y dyfodiad. Y mae'r credadyn yn "clywed" ar unwaith, ond yn raddol y mae yn dyfod i "ddysgu" a deall (Cymh. troedigaeth S. Paul a'r blynyddoedd a dreuliodd yn Arabia).

46. Llefarodd ein Harglwydd y geiriau hyn yn ddiameu rhag ofn i rai o'i wrandawyr dynnu casgliad camarweiniol oddiwrth yr hyn a ddywedir ganddo yn adn. 45. Nid ydyw fod dyn yn cael ei "ddysgu gan Dduw" yn golygu fod cymundeb uniongyrchol rhwng y ddau. Ni adnabyddir y Tad mewn gwirionedd "megis ag y mae" ond gan yr hwn "sydd o Dduw" yn unig; adnabyddir Ef gan ddynion yn unig trwy'r "Mab" yr hwn a "welodd y Tad."

47. Teimla'r Iesu Ei fod yn awr wedi ateb gwrthddadl yr "Iddewon" yn adn. 42 yn effeithiol, ac o

48 Myfi yw bara y bywyd.
49 Eich tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac a fuont feirw.
50 Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono, ac na byddo marw.
51 Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi, yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.

---

ganlyniad y mae'n myned yn ol at yr hyn a ddywedodd yn adn. 35 a 36.

48. Dyma'r ail waith i'r Iesu adrodd y geiriau hyn. Gwel ar adn. 35.

49. Tebyg y dyfynnir y geiriau hyn gan ein Harglwydd o wrthddadl yr Iddewon yn adn. 31. Nis gallai y "bara angelion" a roddwyd dan yr Hen Oruchwyliaeth achub dyn rhag colli ei fywyd, fel y dengys marwolaeth yr Israeliaid yn yr anialwch, llawer llai y medr gyfrannu "bywyd."

50. Pan yn siarad am y "bara" hwn o ran ei effeithiau bywhaol y mae ein Harglwydd yn wastad yn defnyddio'r amser presennol megis yma. Wrth reswm nid yw'r Iesu'n golygu na ddaw dydd yr ymddatodiad yn hanes y credadyn; bydd yn rhaid iddo yntau, fel pawb arall, fyned trwy borth angau, ond myned trwodd o farwolaeth i fywyd fydd hi mewn gwirionedd yn ei hanes ef.

51. Cyfeirio y mae'r Iesu yn awr at Ei ddyfodiad hanesyddol yn yr Ymgnawdoliad fel ffaith neilltuol yn y gorphennol, ac am hynny defnyddia'r amser perffaith —"yr hwn sydd wedi dyfod." Y mae "bara," er yn farw ei hun, yn gallu bod yn gynhaliaeth bywyd, ond y mae'r "bara hwn" nid yn unig yn gallu cyfrannu yn ogystal a chynnal bywyd, ond y mae hefyd yn "fyw" Ei Hun—y "bara bywiol." Yr oedd Duw wedi anfon dynion i ddysgu'r gwirionedd dan yr Hen Oruchwyliaeth, yma y mae'n anfon Ei Fab Ei Hun, nid yn unig i'w dysgu ond i fod yn arddanghosiad "byw" o hono yn Ei Berson Ei Hun.

"*A'r bara a roddaf fi yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.*" Y mae'r rhagenw "fi"

52 Yna yr Iuddewon a ymrysonasant â'u gilydd, gan ddywedyd, Pa fodd y dichon hwn roddi i ni *ei* gnawd i'*w* fwytta.

---

yma yn bwysleisiol er mwyn dangos y cyferbyniad rhwng yr Iesu, yr Hwn oedd yn rhoddi'r "bara bywiol," a Moses, yr hwn oedd wedi rhoddi iddynt y "manna." Sylwer y sonia'r Iesu am "roddi'r bara" yn ogystal ag am "roddi Ei gnawd" yn y dyfodol. Ond myn rhai adael allan y geiriau "a roddaf fi" yn adran olaf yr adnod. Y mae'r rhai a wnant hyn ymron yn ddieithriad yn honni mai cyfeiriad at yr Ymgnawdoliad yn gyffredinol a geir yma—yr Iesu trwy Ei ddyfodiad i'r byd a'i wneuthur yn gnawd yn rhoddi "bywyd" lle nad oedd ond pechod o'r blaen yn dwyn dinystr a marwolaeth. Os cedwir y geiriau a "roddaf fi" y mae'n amlwg fod ein Harglwydd yn cyfeirio at Ei ing a'i ddioddefaint olaf ar y groes. Ceir y syniad o aberth ym mhob un o'r ddau olygiad.

Cnawd a Gwaed Crist yn fwyd—y cwestiwn a'r atebiad.—Adnodau 50—59.

Fel ar ddechreu'r adran flaenorol, y mae'r Iddewon yma eto'n ymryson yn eu plith eu hunain ac o'r diwedd yn gwynebu'r Iesu gyda chwestiwn arall. Nid ydynt yn gofyn mwyach sut yr oedd yn bosibl cyflawnhau honiadau mor fawr ar ran dyn o darddiad mor ddinod, ond yn hytrach gofynnant, "A chaniatau fod rhai o'i honiadau'n gywir, pa fodd yr oedd yn myned i wneud yr hyn a broffesai? Pa fodd y dichon hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwyta?" Ni rydd yr Iesu iddynt atebiad uniongyrchol a phendant i'w cwestiwn, ond yn ol Ei arfer ymdrecha roddi iddynt y wybodaeth a'u galluogai, os mynnent, i ddarganfod yr eglurhad eu hunain.

52. Y mae'n amlwg oddiwrth ddechreu'r adnod hon nad oedd yr Iddewon i gyd eto o'r un farn ynghylch yr Iesu a'i athrawiaeth. Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yma'n gywirach na'r Saesneg,—"a'u gilydd" nid "yn eu plith eu hunain." Sylwer fod yr "Hwn" yma yn bwysleisiol gyda chyfeiriad yn ddiameu at adn. 42.

53 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni fwyttêwch gnawd Mab y dyn, ac *oni* yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch.

---

53. Ar ddechreu Ei eglurhad y mae'r Iesu'n defnyddio yr ymadrodd awdurdodol, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi." Cymerai yr holl gyfrifoldeb am yr hyn a ddywedai.

"*Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn ac oni yfwch Ei waed Ef.*" Yn lle lleddfu rhyw gymaint ar y geiriau a ddefnyddiasai o'r blaen, y mae'r Iesu'n siarad mewn iaith fwy llythyrennol nag erioed. Yr oedd yr Iddewon oedd wedi arfer edrych ar fwyta cnawd dynol, ac yn enwedig ar yfed gwaed, fel ffieidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd yn methu deall beth a feddyliai'r Iesu ac yntau'n honni Ei fod yn Iddew. Am hynny y mae'r Iesu yn manylu ar y mater gyda'r eglurder mwyaf, a'i amcan yn ddiameu oedd peri i'r Iddewon ymddyrchafu o ran eu meddyliau oddiwrth y materol a'r gweledig, yr hwn oedd mor atgas ganddynt, at yr ysbrydol, yr hyn a ddarlunid mor eglur, pe gallasent ond ei ddeall, gan yr hyn a wrthwynebent mor benderfynol. Sylwer fod yr Iesu yma'n rhannu'r hyn nad oedd ond corff o'r blaen i fod yn "gorff" a "gwaed," ac yn ofalus i gysylltu'r ddau yn y modd mwyaf digamsyniol â Mab y Dyn." Gan hynny nid fel Person Dwyfol—yr ail yn y Drindod—yr oedd yn mynd i roddi Ei gorff dros fywyd y byd (adn. 51). Y mae'r gair "corff" yn ddiau yn cyfeirio at fywyd dynol yr Iesu, a'r "gwaed" at Ei farwolaeth, ac y mae'r credadyn trwy'r weithred hon i ddyfod yn gyfrannog o bob un o'r ddau. Bu'r Iesu fyw a marw dros bechadur. Cyfeirir at yr un peth drachefn yn y "bwyta" a'r "yfed." Y mae'r hyn a fwyteir ac a yfir yn dyfod yn rhan o'r cyfansoddiad dynol, ac felly yr oedd bywyd perffaith yr Iesu a'i hunan-ymwadiad digyffelyb yn dyfod trwy'r weithred hon yn feddiant i'r credadyn ac yn aros ynddo yn ffynnon o fywyd diddarfod. Ond y mae meddiant o'r bywyd hwn yn dibynnu yn hollol ar hyn. "Oni . . . . nid oes."

54 Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.

55 Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd yn ddïod yn wir.

56 Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau.

---

54. Y mae'r gair a gyfieithir yma "bwyta" lawer yn gryfach na'r gair a geir yn adn. 53. Golyga hwn nid yn unig "fwyta" ond y "bwyta" ynghyd â'r pleser a dderbynnir trwy wneud hynny. Y mae'r ferf hefyd yn yr amser presennol, ac yn golygu fod yn rhaid cyfrannogi'n barhaus os ydym am i'r bywyd a roddir drwyddo barhau.

"*Yr hwn sydd yn bwyta . . . . sydd ganddo fywyd tragywyddol.*" Ffurf gadarnhaol a geir yma ar yr hyn a ddywedwyd yn yr adnod flaenorol.

"*Ac myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.*" Cysylltir yr Adgyfodiad yn barhaus â'r bywyd tragywyddol, ac y mae rhai esbonwyr yn teimlo fod rhoddi'r pwys anarferol hwn ar yr Adgyfodiad cyffredinol y dydd diweddaf braidd yn anghyson a dysgeidiaeth amlwg yr Iesu yn yr Efengyl hon fod bywyd tragywyddol yn feddiant presennol i'r credadyn, ond credwn fod y ffaith ei fod yn feddiannol ar y bywyd ysbrydol hwn yn awr, pan y mae'n cael ei luddias gymaint gan lyfetheiriau cnawd pechadurus, yn galw'n uchel am ryw ryddhad o'r fath pan y bydd y bywyd ysbrydol sydd yn feddiant presennol, a chorff gogoneddus yr Adgyfodiad, mewn undeb â'u gilydd, yn cynyddu'n ddyn perffaith "at fesur oedran cyflawnder Crist."

55. Rhoddir yma eglurhad paham y mae yr hwn a gyfranoga yn dyfod yn feddiannol ar fywyd. Y mae felly oherwydd fod rhoddi bywyd yn un o effeithiau anghyfnewidiol corff a gwaed Mab y Dyn. Credwn mai yr ansoddair a geir yma ac nid yr adferf, felly nid "yn wir" ond gwirioneddol. Y mae Ei gnawd Ef yn meddu ar holl nodweddion a holl effeithiau bwyd.

56. "*Sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau.*" Dyma sylfaen yr hyn a ddywedwyd yn adnodau 53 a 54

57 Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad: felly yr hwn sydd yn fy mwytta i, yntau a fydd byw trwof fi.

58 Dyma y bara y ddaeth i waered o'r nef: nid megis y bwyttaodd eich tadau chwi y manna, ac y buont feirw. Y neb sydd yn bwytta y bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.

(Gwel ar adn. 53). Pan y del y credadyn, trwy gyfrannogi felly o gorff a gwaed Mab y dyn, yn feddiannol ar Ei fywyd perffaith Ef, gellir yn briodol siarad am dano fel yn aros yng Nghrist a Christ ynddo yntau. Y mae yn dyfod yn un o aelodau corph dirgeledig yr Iesu, ac ar yr un pryd y mae yn ffurfio teml i Grist breswylio ynddi fel y dywed S. Awstin. Y mae Crist ynddo yn cyfrannu bywyd, ac fel aelod o gorph Crist y mae mewn awyrgylch ffafriol i'r bywyd hwnnw ddatblygu.

57. Y mae'r geiriau "fel yr anfonodd," &c., yn profi fod yr Iesu yn siarad yma am Ei berthynas Ef â'r Tad, nid fel ail berson y Trindod, nid fel Gair Duw, ond fel Mab ymgnawdoledig y Tad,—fel Mab y dyn. Ac y mae'r ddibyniaeth hon o eiddo'r Mab ar y Tad yn ddarlun arucheł a gogoneddus o ddibyniaeth symlach y credadyn ar Grist. Y mae bywyd yng Nghrist mor hanfodol yn y person, mor bell ag y mae a fynno â'r credadyn, ag ydyw bywyd y Tad yn ei berthynas â'r Mab. Y mae amrywiol esbonwyr o'r farn mai nid "trwy" y dylid cyfieithu'r gair yma ond "oherwydd." A'r ymadrodd y "Tad byw" cymharer y "Duw byw," yr hwn a geir yn llawer mwy cyffredin.

"*Yntau a fydd byw trwof fi.*" Y mae'r rhagenw "yntau" yn bwysleisiol ac yn galw sylw neilltuol at y tebygolrwydd rhwng dibyniaeth hollol y credadyn ar Grist a dibyniaeth Crist ar y Tad. Y mae'r naill a'r llall yn sugno bywyd oddiwrth arall.

58. Cyfeiria'r Iesu yn ol yma ar ddiwedd Ei bregeth at yr hyn a ddywedodd yn y dechreu (adn. 33 a 35), a chawn drachefn y gymhariaeth rhwng y "manna" a bara'r bywyd, a rhwng tynged y rhai a fuant feirw a'r credadyn yr hwn sydd i fyw byth. Sylwer hefyd mai nid "credinwyr" a ddywedir yma ond "credadyn," "Y neb sydd," &c. Pwysleisir yn barhaus ar y pwysig-

59 Y pethau hyn a ddywedodd efe yn y synagog, wrth athrawiaethu yn Capernaum.

---

rwydd personol sydd yn perthyn i'r mater. Y mae'r credadyn yn aelod o Eglwys Crist, ond edrychir arno yn nhrefn yr Efengyl, fel unigolyn yn gyntaf ac yna fel aelod. Rhaid iddo ddewis yn gyntaf ei hun.

59. Sylwer mai nid llefaru'r geiriau hyn a ddywedir ond dywedyd y "pethau" hyn, nid ffrwyth dychymyg oeddent ond gwirioneddau sylweddol.

"*Yn y synagog.*" Yn un o saflecedd honedig Capernaum, y mae synagog orwych ac ardderchog wedi ei darganfod, a chredir mai yno y bu i'r Iesu ddysgu'r bobl. Ond gan na cheir y fannod yn y gwreiddiol y mae rhai esbonwyr o'r farn mai nid yr adeilad a olygir o gwbl ond "cynulleidfa'r bobl."

Ai at Sacrament Swper yr Arglwydd y cyfeirir yma (adn. 52—59)? Er y dyddiau boreuaf y mae gwahanol farnau wedi cael eu coleddu parthed y cwestiwn uchod, a gellir rhannu'r ysgrifenwyr a'r esbonwyr sydd wedi ymdrin â'r mater i ryw dri dosbarth.

(1.) Y dosbarth a gredent nad oes yma unrhyw gyfeiriad o gwbl at y Sacrament. I'r dosparth hwn y perthynai rhai o brif enwogion y byd, megis Origen a Luther. Er hynny nis gellir peidio sylwi eu bod i gyd yn enwog naill ai fel uwchfeirniaid esboniadol neu ynte fel gwrthryfelwyr yn erbyn cyfundrefnau crefyddol eu hoes. Ac nid yw'n rhyfedd gweled y nodwedd ddiweddaf oherwydd y mae yna oesau wedi bod yn hanes Cristionogaeth pan y telid parch ofergoelus, yn ymylu ar fod yn addoliad, i'r Sacrament sanctaidd hon. Y canlyniad oedd gwrthryfel a phwysleisio'n eithafol ar grefydd bersonol—yr enaid unigol a Duw,—ac anghofio i raddau pell ordinhadau'r addoliad cyhoeddus. Y rhwystr mawr yn erbyn y farn hon ydyw fod yna y fath debygolrwydd rhwng dysgeidiaeth yr Iesu a'r hyn a ddywed adeg sefydliad y Sacrament. Honnir gan y dosbarth hwn nad oedd y Sacrament hon eto wedi ei sefydlu a bod yn afresymol disgwyl unrhyw gyfeiriad ati, ac na cheir unrhyw gyfeiriad ati trwy gydol yr Efengyl. Nid oes fawr o rym yn yr wrthddadl gyntaf, mwy nag yn yr wrthddadl gyffelyb a ddygir ymlaen i brofi nad oes unrhyw gyfeiriad o gwbl

at y Sacrament o Fedydd yn ymddiddan yr Iesu â Nicodemus (iii. 5, &c.). Y mae hyn yn cymeryd yn ganiataol mai dim ond unwaith y soniodd yr Iesu am yr un pethau, a hefyd nad oedd dim angen paratoi meddyliau Ei wrandawyr er deall ordeiniadau dyfnion trefn yr Efengyl, ac y mae'n anhawdd caniatau yr un o'r ddau. Am yr wrthddadl arall na cheir cyfeiriad at ordeiniad y Sacrament o gwbl yn yr Efengyl, os ydym yn credu fod yr Efengyl wedi cael ei hysgrifenu pan oedd y Bedydd a Swper yr Arglwydd wedi dyfod yn Sacramentau sefydlog yr Eglwys, yna nis gallwn weled fod angen mawr am wneud cyfeiriad uniongyrchol atynt. Ond yr oedd angen mawr yn ddiau am alw sylw at y gwirioneddau pwysig ysbrydol oedd yn cael eu harddangos trwy'r ordinhad allanol.

(2.) Ceir dosbarth arall eto'n credu mai cyfeiriad uniongyrchol at y Sacrament a geir yma. Y mae'r esbonwyr sydd yn coleddu y farn hon o ran daliadau cyffredinol yn hollol wrthgyferbyniol i'r dosbarth cyntaf. Dygent un ac oll fawr sêl dros ordinhadau allanol yr Eglwys Gristionogol, a chredent fod ffyddlondeb yng nghyflawniad y ddyledswydd o gyfranogi o'r Sacrament hon yn bwysig. Fel ag yr oedd y dosbarth cyntaf yn barod i anwybyddu pob cyfeiriad, felly ym marn y meddylwyr hyn y mae pob tebygolrwydd geiriol ar unwaith yn dyfod yn gyfeiriad uniongyrchol. Ond ar wahan i'r rhesymau cyffredinol yna, y mae anhawsterau neilltuol ar ein ffordd i dderbyn y syniad hwn. Yma sonnir nid am gorff a gwaed Crist megis yn hanes ordeiniad y Sacrament ond am gnawd a gwaed Crist, ac nis gall unrhyw dalent ymresymiadol brofi mai'r un peth a olygir. Nid oes ychwaith unrhyw sail dros gredu fod yr Efengylwr ei hun yn edrych ar yr ymadrodd a geir yma fel ordeiniad ffurfiol y Sacrament. Cyfeirir hefyd yn barhaus at y bwyta a'r yfed yn y presennol, ac y mae gennym resymau cryfion dros gredu y bwriadai yr Iesu i'w ganlynwyr ddeall y medrent gyfranogi o'r "cnawd" a'r "gwaed" yn ogystal ag o'r bywyd y pryd hwnnw.

(3.) Cred y dosbarth hwn fod yr Iesu'n cyfeirio'n uniongyrchol at "fwyta" ac yfed yn ysbrydol trwy "gymundeb" bywiol â Mab y Dyn, ac eto Ei fod wedi dadlennu'r gwirionedd fel y gwnaeth oherwydd Ei fod yn rhag-

60 Llawer gan hynny o'i ddisgyblion, pan glywsant, a ddywedasant, Caled yw yr ymadrodd hwn; pwy a ddichon wrandaw arno?

---

weled dydd yn dod pan y byddai iddo Ef ordeinio Sacrament weledig a materol er galluogi Ei Eglwys i sylweddoli a deall y cymundeb hwn. Nid oedd angen am allanolion yn gymaint tra yr ydoedd Mab y Dyn gyda hwy, ond ar ol dydd Ei ymadawiad yr oedd angen am arwyddion allanol i osod allan wirioneddau mawrion ysbrydol. Y mae'r farn hon yn dderbyniol o nerwydd nad yw'n angenrheidiol i ni mwyach gyfrif am y gwahaniaeth a fodola rhwng dysgeidiaeth yr Iesu yma ac ordeiniad y Sacrament, ac nad yw yn ein gorfodi ni i gredu mai apostol crefydd bersonol ydoedd awdwr yr Efengyl a'i fod yn elyn anghymodlawn i bob Sacrament. Yn amddiffyniad mawr S. Paul o athrawiaeth yr Adgyfodiad (I. Cor. xv. 20, &c.) sonnir am "yr anianol yn gyntaf ac wedi hynny yr ysbrydol," ond yn nanes Sacrament Swper yr Arglwydd credwn mai fel arall yr oedd, "yr ysbrydol yn gyntaf ac wedi hynny yr anianol." Cyfeiria ein Harglwydd at y cymundeb ysbrydol yn gyntaf ac wedi hynny ordeinia Sacrament o fara a gwin i fod yn foddion neilltuol y cymundeb hwnnw.

Canlyniad y ddysgeidiaeth.—Adnodau 60—71.

Yr effaith (1.) ar y disgyblion yn gyffredinol, (2.) ar y deuddeg disgybl. Dylanwad cyntaf yr athrawiaeth hon ydoedd creu murmur ymhlith Ei ddisgyblion a pheri i'r Iesu mewn canlyniad roddi eglurhad pellach ar gymeriad Ei wir ganlynwyr (60—66). Wedi hynny bu ymranniad rhwng y rhai ni chredent a'r ffyddloniaid,—ymranniad allanol (66—69) ac ymranniad meddyliol ac ysbrydol (70 a 71) yn eu plith eu hunain.

60. Ym mhlith y disgyblion yma yn ddiameu ceid llawer oedd wedi Ei ddilyn yn ffyddlon hyd yn hyn, cyhyd ag y parhaodd i weithio mwy neu lai ar yr un llinellau a diwygwyr cenedlaethol ereill.

"*Caled yw yr ymadrodd hwn.*" Ni olygir yma fod yr hyn yr oedd yr Iesu wedi ei ddweud yn aneglur ac yn anhawdd ei ddeall, ond ei fod yn anhawdd ei dderbyn. Y mae llawer o ddadleu wedi bod ymhlith esbonwyr pa

61 Pan wybu yr Iesu ynddo ei hun, fod ei ddisgyblion yn grwgnach am hyn, efe a ddywedodd wrthynt, A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi?

62 *Beth* gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?

---

ymadrodd a feddylir. Yn ol rhai cyfeirir at yr oll a ddywedodd, tra y mae ereill o'r farn mai at y dywediad am fwyta corph ac yfed gwaed Mab y Dyn y meddylient. Ond gan fod y dywediad hwn yn ganolbwynt yr holl "ymadrodd" nid yw yn gwneud fawr o wahaniaeth ymarferol pa un a dderbyniwn.

"*Pwy a ddichon wrandaw arno?*" Nid ar yr Iesu a olygir ond ar yr "ymadrodd."

61. Wrth "wybod" yma, fel yr eglurir i ryw raddau yn yr ymadrodd ei hun, golygir ymwybyddiaeth fewnol yr Iesu o'u meddyliau; nid yw'n angenrheidiol meddwl eu bod wedi siarad yn ddigon uchel iddo glywed.

62. "*Beth gan hynny os gwelwch Fab y Dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?*" Gadewir allan y gair "beth" yn y gwreiddiol, ac felly nid yw'r Iesu yn gorphen gofyn y cwestiwn, "Os gan hynny . . . . o'r blaen?" O bosibl nid oedd Ei wrandawyr yn ei deimlo felly, oherwydd gwneid i fyny am y diffyg yn ddiameu gan dôn y llais a'r osgo gorphorol.

Y mae dadleu brwd wedi bod ynghylch yr hyn a olygir yma wrth "ddyrchafu," ac y mae holl ystyr y cwestiwn yn dibynnu ar yr eglurhad a roddir. Myn rhai mai dyrchafu i'r groes a feddylir, ac mai amcan yr Iesu oedd dangos i'w ddisgyblion fod pethau rhyfeddach lawer nag a glywsent eisoes yn myned i ddigwydd. Os oeddent wedi cael eu "rhwystro" oherwydd dywedyd o hono wrthynt fod yn rhaid iddynt fwyta Ei gnawd ac yfed Ei waed Ef, mewn ystyr ysbrydol, beth a feddylient pan welid Ef yn hongian ar y groes ynghanol gwarth a dirmyg. Y mae tri rheswm yn erbyn derbyn y farn hon. (1.) Ni ddefnyddir yr un gair yn y gwreiddiol am "ddyrchafu" ag a arferir yn gyffredin am ddyrchafu Crist i'r groes.

(2.) Y mae yn anhawdd meddwl pa fodd y medrir son am ddyrchafu'r Iesu i'r groes fel "dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen."

63 Yr yspryd yw yr hyn sydd yn bywhâu; y cnawd nid yw yn llesâu dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt, a bywyd ydynt.

(3.) Y mae rhywbeth yn ffurf yr ymresymiad sydd yn peri i ni feddwl fod yna gyferbyniad rhwng y dyrchafu yma a'r "disgyn o'r nefoedd" y soniwyd cymaint am dano. Collir y cyferbyniad hwn yn hollol os dyrchafu i'r groes a olygir.

Y mae ereill yn credu mai at Ei Esgyniad i'r nefoedd y cyfeirir, ac mai Ei amcan ydoedd ateb amheuaeth Ei ddisgyblion parthed yr hyn a ddywedodd ynghylch ei ddisgyniad o'r nefoedd, a'r cysylltiad agos a fodolai rhyngddo a rhoddiad bywyd tragywyddol i'r credadyn. Os rhwystrwyd hwy pan glywsant son am hynny, beth a ddywedent pan welent ef yn esgyn yn ol i'r un fan ag y disgynasai o hono, gan brofi yn derfynol Ei ddwyfol anfoniad yn ogystal ag ysbrydolrwydd Ei Berson. Fel y gwelir y mae'r eglurhad hwn yn rhydd oddiwrth bob un o'r gwrthddadleuon uchod. Defnyddir y gair cyffredin am "esgyn," y mae'n eglur ddigon ei fod yn dyrchafu lle yr oedd o'r blaen, ac y mae'r cyferbyniad rhwng y dyrchafiad a'r disgyniad yn cael ei gadw.

Sylwer hefyd fod yr Iesu'n defnyddio'r teitl "Mab y Dyn" a'i fod yn siarad am dano fel Mab y Dyn lle yr oedd Efe o'r blaen. Efe, er dyddiau tragywyddoldeb oedd y Cyfryngwr ordeiniedig rhwng Duw a dynion, tragywyddol Fab y Dyn.

63. "*Yr ysbryd yw yr hyn sydd yn bywhau*," &c. Mae rhai wedi myned mor bell a chredu mai at y Trydydd Person yn yr hanfod Dwyfol y cyfeirir yma, ond y mae'n amlwg oddiwrth y cyferbyniad rhyngddo a'r cnawd mai nid yr Ysbryd Glan a olygir yma. Ysbryd y dyn a olygir,—y gallu hwnnw trwy ba un y mae yn dyfod i gymundeb â'r byd anweledig, sydd felly yn wrthgyferbyniol i'r cnawd trwy'r hwn y mae dyn yn dyfod i gysylltiad a phethau gweledig a materol. Y mae pob un o'r ddau'n gweithredu yn ei gylch ei hun, ac felly rhaid i'r bywyd ysbrydol, am ba un y sonia'r Iesu, ddyfod o fyd yr ysbryd ac nid y cnawd.

"*Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt a bywyd.*" Credwn mai cyfeirio y mae'r term

64 Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu. Canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef.

65 Ac efe a ddywedodd, Am hynny y dywedais wrthych, na ddichon neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi iddo oddi wrth fy Nhad.

66 ¶ O hynny allan llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyd âg ef.

' geiriau" nid at holl ddysgeidiaeth yr Iesu ond at y bregeth oedd newydd draddodi, gyda'i holl ddadgudd-iadau rhyfedd o ddibyniaeth yr hil ddynol ar Grist a'u perthynas agos iddo. Wrth fod Ei "eiriau" yn "ysbryd" y golygir yn ddiau eu bod yn tarddu o "fyd yr ysbrydoedd a byw," ac felly'n dragywyddol wir.

64. Dyma engraifft arall o "wybod" rhyfedd yr Iesu. Er Ei fod wedi eu cyfarch hyd yma un ac oll fel Ei ganlynwyr, eto nid oedd heb wybod eu dichellion hwy. Gwahana, gan hynny, y ffyddloniaid oddiwrth y lleill, ac a ymlaen i'w hannerch hwy. Ond nid oedd ond yr un hen hanes yn perthyn iddynt hwythau; yr oedd yno rai oedd yn myned i droi'n fradychwyr pan welent Ef yn nesu at Ei nod,—gogoniant trwy ddioddefaint.

"*O'r dechreuad.*" Y mae llawer o ddadleu wedi bod ar y pwnc pa ddechreuad a olygir. Ond credwn ei bod yn eglur ddigon yn ngoleuni'r cysylltiadau mai dechreuad gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd a olygir, pan gynygiodd Ei Hun gyntaf i'r byd fel Arweinydd i'w ddilyn ac fel Athraw i ddysgu ganddo. Y mae'r farn hon yn cyd-fyned i raddau helaeth â'r syniad mai dechreuad cysylltiad personol yr Iesu â Judas Iscariot a feddylir.

65. Gwel ar adnodau 44 a 45. Rhaid gadael yr anhawster mawr hwn, fel y dywed yr Esgob Westcott, trwy ddweud fod gan Dduw Ei ran yn nhrefn achubiaeth dyn, a'i ran ei hun gan ddyn i'w chyflawni. Ceir yr un syniad am ran fawr Duw yn yr "Ail Golect ar y Brydnawnol Weddi."

66. Y mae i'r ymadrodd a gyfieithir yma "ar hyn" ddau ystyr. (1.) Ar ol hyn o ran amser; (2.) oherwydd hyn, am y rheswm hwn. Y mae'n anhawdd dweud pa un o'r ddau a olygir. Diau fod pob un o'r ddau yn wir.

67 Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?

68 Yna Simon Petr a'i hattebodd ef, *O* Arglwydd, at bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol.

Defnyddir ymadrodd desgrifiadol iawn am y gwrthgilwyr,—"a aethant yn eu hol"—wrth yr hyn yn ddiameu y golygir eu bod nid yn unig wedi gadael yr Iesu yr adeg honno ond hefyd eu bod wedi rhoddi heibio bob peth a ddysgasent ganddo ynghylch ysbrydolrwydd crefydd, &c. Y mae'r desgrifiad a geir yma o'r Iesu'n rhodio oddiamgylch a'i ddisgyblion yn Ei ganlyn yn profi Ei fod yn dilyn yr un drefn a dysgawdwyr ereill yn ngwlad y dwyrain.

67. Y mae'r cyfeiriad a geir yma at y "ddeuddeg" fel pe buasent yn hollol adnabyddus yn cyd-fyned âg arfer yr awdwr o gymeryd yn ganiataol fod ei ddarllenwyr yn gyfarwydd eisoes â phrif ddigwyddiadau bywyd daearol yr Iesu.

"*A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?*" Y mae'n amlwg mai ateb nacaol a ddisgwyliai'r Iesu i'r cwestiwn, ond rhaid fod Ei ysbryd wedi tristau wrth weled gwrthgiliad mor fawr. Mae'n bosibl Ei fod hefyd wedi ei ofyn er gweled pa effaith a gafodd yr olygfa ar feddyliai y deuddeg.

68. Cymer S. Pedr yr un lle blaenllaw yma ag a roddir iddo gan yr Efengylwyr ereill. Dengys ei gyffesiad ef fod y deuddeg wedi cael yn yr Iesu yr oll oedd arnynt eisiau, a'u bod yn ymwybodol fod ganddo eto ystôr diddiwedd er cyflenwi eu holl angenion. Yr oeddent hwy'n ddiddaddl wedi teimlo'r un anhawster ynglyn â'i bregeth ag a deimlai'r dorf, ond yr oeddent yn gwahaniaethu oddiwrth y dorf gan eu bod yn barod i gymeryd eu hamherffeithrwydd a'u hanallu i ystyriaeth, ac nid prysuro fel y rhelyw i feio'r Iesu a'i adael. Ac os na fedrai Efe eu goleuo ar y pynciau dyrys hynny nis gwyddent am neb arall oedd yn fwy abl i wneud hynny.

"*Gennyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.*" Sonnir am yr "Efengyl," y datguddiad yn ei gyflawnder fel y "gair" ond nid fel "geiriau," felly y mae'n amlwg mai at ddywediadau neilltuol o eiddo'r Iesu y cyfeiria

69 Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw.

S. Pedr. Gall yr ymadrodd "geiriau bywyd tragywyddol" olygu (1.) geiriau ynghylch y bywyd tragywyddol,—y goleuni a daflasai'r Iesu ar natur a nodweddion y bywyd hwnnw, (2.) geiriau oedd o ran eu heffeithiau yn foddion i ddwyn bywyd tragywyddol i afael pawb a'u clywent. Credwn mai yr ail ystyr sydd fwyaf amlwg yma.

69. "*Ac yr ydym ni yn credu ac yn dyfod i wybod.*" Y mae'r apostol yma am wahanaethu rhyngddynt hwy a'r dorf, ac y mae'n amlwg fod y "ni" yn bwysleisiol. Yr oeddent wedi dyfod i'r penderfyniad er ys amser eu bod hwy'n myned i lynnu wrtho fel y dengys y berfau, y rhai sydd yn yr amser perffaith. Sylwer hefyd ar drefn datblygiad y credadyn,—credu yn gyntaf, ac wedi hynny dyfod i wybod. Y mae llawer o ddadlu wedi bod pa un ai ffydd ai gwybodaeth a ddylai ragflaenu, ac y mae'n gwestiwn, yn bur debyg, na phenderfynir mo hono byth. Y mae angen am un i gynorthwyo'r llall; y mae'n rhaid cael rhyw gymaint o wybodaeth am yr Iesu cyn y gellir credu ynddo, ac ar y llaw arall nis gellir cyrraedd gwybodaeth drwyadl o unrhyw berson heb feddu graddau o gydymdeimlad â'r gwrthrych.

"*Tydi yw y Crist, Mab y Duw byw.*" Y mae esbonwyr yn gryf o'r farn mai "ti yw Sanct Duw" ydyw y darlleniad priodol yma, ac mai rhyw gopiwr a roddodd i mewn y geiriau hyn o S. Math. xvi. 16. Os cymharer y gyffes hon o eiddo'r apostol â un a geir yno, gwelir ei fod yn darlunio yma gymeriad mewnol yr Iesu fel yr adnabyddid Ef gan y deuddeg. Rhaid mai nid yn ei ystyr foesol o "bur" o ran gymeriad y defnyddir y gair yma. Yr un meddwl sydd iddo i raddau pell ag a berthyn i'r ymadrodd hwnnw a geir am Dduw yn yr Hen Dest., "Sanct yr Israel," lle y golyga rywun "gwahanedig" a "phell," ac oddiwrth hynny daw i feddwl rhywbeth wedi ei gysegru i amcanion addoliadol. Ac o bob peth a neilltuwyd erioed ar gyfer y cyfryw amcan, y dyn Crist Iesu, y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, oedd y pennaf. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y syniad yna a'r cyfarchiad hanner-swyddogol a ddefnyddia'r un apostol yn S. Math. xvi. 16.

70 Iesu a'u hattebodd hwynt, Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol?
71 Eithr efe a ddywedasai am Judas Iscariot, *mab* Simon: canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef, ac efe yn un o'r deuddeg.

---

70. Yr oedd yr apostol yn adn. 68, 69 wedi siarad yn e· w'r deuddeg ("ni"), ond y mae'r Iesu yma am ddangos nas medrai neb ateb gyda sicrwydd dros arall mewn materion perthynol i deyrnas Dduw. Sylwer hefyd fod yr Iesu'n annerch y "deuddeg" ac nid S. Pedr fel eu cynrychiolydd. Y mae'r ferf a gyfieithir "dewisais" mewn ffurf yma sydd yn golygu "dewis" iddo e· hun, ar gyfer amcanion neilltuol. Mewn mannau ereill cyfieithir yr un gair "ethol." Y mae lleoliad y ddau ragenw "fi" a "chwi" yn golygu fod y ddau yn bwysleisiol. Credir nad ydyw'r Iesu yn enwi'r "deuddeg" er mwyn galw sylw at eu nifer, ond er mwyn pwysleisio ar neilltuolrwydd eu swydd a'u cysylltiad âg ef.

"*Ac o honoch chwi y mae un yn ddiafol.*" Hyd yn oed o'r deuddeg dewisedig hyn yr oedd un yn myned i droi'n anffyddlon. Ni cheir y fannod o flaen y gair "diafol," ac felly nid person yr un drwg a olygir ond fod un o'r deuddeg yn gyfrannog o'r holl natur dieflig Ystyr wreiddiol y gair "diafol" ydyw "enllibiwr," ond gan fod yna raddau o enllibiaeth nid yw'r gair yn ddigon cryf i ddesgrifio'r bradychwr. Yr oedd hwn wedi cyrraedd eithafbwynt enllibiaeth ddieflig, sef troi da yn ddrwg, ymdrechu defnyddio'r "Cyfiawn Hwnnw" er cyrraedd ei amcanion isel-wael ei hun. Ychydig yn ddiweddarach cawn yr Iesu'n desgrifio yr apostol S. Pedr fel "Satan," ond nid yr un oedd ei drosedd ef a'r eiddo Judas (Gwel S. Math. xvi. 21—24).

71. "*Judas Iscariot mab Simon.*" Yn ol darlleniad y prif lawysgrifau dylid cyfieithu yma "Judas mab Simon Iscariot," a chan fod y gair Iscariot yn cael ei gysylltu â'r tad a'r mab meddylir mai enw lleol ydoedd, ac mai ei ystyr ydyw un o "Kerioth." Dywed rhai y sonnir am Kerioth fel dinas o Judah yn llyfr Josua (xv. 25), ond y mae'n bur amheus a yw y darlleniad yn gywir yno. Y mae esbonwyr ereill am ddweyd fod yr enw wedi ei roddi i Judas fel yr un oedd yn cario'r gôd, neu

PENNOD VII.

A'r Iesu a rodiodd ar ol y pethau hyn yn Galilea: canys nid oedd efe yn chwennych rhodio yn Judea, oblegid bod yr Iuddewon yn ceisio ei ladd ef.

---

ynte ei fod wedi ei roddi ar ol ei farwolaeth i ddesgrifio ei ddiwedd gwaradwyddus. Ond credwn mai gwell ydyw derbyn y golygiad cyntaf, sef mai brodor o Judea oedd Judas.

"*Ar fedr Ei fradychu.*" Yr oedd Judas wedi gweled y dorf yn gadael yr Iesu ac yn gwrthgilio, a phob gobaith o dderbyn lles daearol oddiwrth y "Messiah" hwn wedi diflannu, ac yn yr awr honno daeth i'w feddwl y medrai yntau hefyd Ei adael, a hynny er lles iddo ei hun, "yr oedd a'i fryd ar fradychu."

Penodau vii.—xii.

Yn y penodau hyn ceir hanes ymddiddanion yr Iesu a'r Iddewon (1.) yn ngwyl y Pebyll (vii. a viii); (2.) yn y gysegr-wyl (ix. x.); ynghyda gwrthgiliad cyffredinol yr Iddewon a'u hymgais i'w ladd Ef (xi. xii.). Cyflawnodd yr Iesu ddwy wyrth hefyd yn ystod y cyfnod hwn. (1.) Iachau y dyn dall o'i enedigaeth (ix.). (2.) Cyfodi Lazarus o feirw (xi.), y rhai a fuant yn foddion ychwanegol i greu gagendor rhyngddo ag arweinwyr Ei genedl. Ond yn raddol y cymerodd y gwrthgiliad hwn le, ac y mae yr awdwr yn rhoddi desgrifiad manwl o bawb a ymddiddanasant â'r Iesu, ynghyda'r rhesymau paham y gadawsant Ef. Nid yr un peth oedd yn tramgwyddo pawb.

PENNOD VII.

Gwyl y Pebyll—yr Iesu a'i frodyr yn myned yno.—Pennod vii., adnodau 1—13.

1. "*Ar ol y pethau hyn.*" Sef y "pethau" a ddilynasant gyflawniad y wyrth o borthi'r pum mil. Gan fod y pethau hynny wedi cymeryd lle adeg y Pasg (vi. 4) rhaid fod chwe mis wedi myned heibio, gan fod yr wyl

2 A gwyl yr Iuddewon, *sef* gwyl y pebyll, oedd yn agos.
3 Am hynny ei frodyr ef a ddywedasant wrtho, Cerdda ymaith oddi yma, a dos i Judea; fel y gwelo dy ddisgyblion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwneuthur.

---

hon yn cael ei chynnal ym mis Hydref. Ceir hanes y chwe mis hyn yn S. Math. xii.—xvii.

"*Yr Iesu a rodiodd oddiamgylch yn Galilea.*" Dengys hyn fod awdwr yr Efengyl yn gwybod am weinidogaeth yr Iesu yn Galilea er mai adrodd Ei hanes yn Judea ydyw ei brif amcan Ef.

"*Nid oedd efe yn chwennych rhodio yn Judea . . . . ceisio ei ladd ef.*" Cyfeiriad sydd yma at yr hyn a ddilynodd waith yr Iesu yn iachau'r claf wrth lyn Bethesda (v. 18). Nid oedd yr Iesu am fyned i Jerusalem a'r cyffiniau, ond pan y byddai yno ddigon o dorfeydd o'r wlad yn bresennol. Yr adeg honno ni feiddiai yr Iddewon swyddogol ymyryd âg ef "rhag ofn y bobl."

2. Gŵyl yr Iddewon, sef gŵyl y Pebyll. Gŵyl oedd hon a gynhelid yn mis Tisri (Hydref), o'r 15fed dydd hyd yr 22ain, i gofio am waith cenedl Israel yn preswylio mewn pebyll yn yr anialwch. Ymddengys hefyd ei bod yn cael ei galw yn Wyl y Cynull, ac yn ffurfio Gŵyl o Ddiolchgarwch am y Cynhauaf. Nid oedd yr ŵyl ar y dechreu ond saith diwrnod, ond ychwanegodd cenedl Israel yn nghwrs amser ddiwrnod at y saith,—yr wythfed dydd i gofio am fynediad y genedl i mewn i wlad yr addewid. Hwn ydoedd "dydd mawr" yr ŵyl (adn. 37). Y mae Josephus a Philo yn cyfeirio at wyl y Pebyll fel yr ŵyl fwyaf poblogaidd o brif wyliau'r genedl.

3. "*Ei frodyr ef.*" Gwel ar ii. 12. Y mae rhywbeth yng ngwaith Ei frodyr yn cynghori'r Iesu beth i wneud sydd yn ffafrio'r syniad mai plant Joseph y Saer oeddent, ac yn henach na'r Iesu, ond y mae'n anhawdd dweud fod yna lawer o rym yn y rhywbeth hwnnw, gan y gwelwn oddiwrth adn. 5 nad oeddent yn gofalu llawer beth a ddeuai o hono.

"*Fel y gwelo Dy ddisgyblion Di.*" Myn rhai mai at y disgyblion yr oedd yr Iesu wedi eu hennill yn Jerusalem a "gwlad Judea" y cyfeirir, ond credwn mai gwell ydyw cymeryd mai Ei ddisgyblion yn gyffredinol trwy'r holl

4 Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn ddirgel, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd: od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r byd.

5 Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.

6 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt hwy, Ni ddaeth fy amser i etto: ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod.

---

wlad a feddylir yma. Byddent oll ymhlith y torfeydd a gyrchent i Jerusalm adeg yr ŵyl, a chredai Ei frodyr na ddylai esgeuluso'r cyfleustra hwn o roddi rhyw gymaint o *display* o flaen Ei edmygwyr.

4. Os oedd yr Iesu yn honni mai Efe oedd Messiah addawedig yr Iddewon, Ei ddyledswydd bennaf Ef yd-oedd "amlygu" Ei Hun ar un o'r gwyliau mawr cyhoeddus, lle y caffai gyfleustra i ddylanwadu ar y torfeydd a gyrchent yno, a byddai gwneud yr amlygiad ar yr wyl yn gyson a'i honiadau fel gwaredwr cenedlaethol.

5. "*Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.*" Myn rhai mai yr oll a olygir yma ydyw nad oedd gan Ei frodyr ffydd gref iawn ynddo, ond y mae'n anhawdd derbyn y syniad gan nad oes fawr ddim ond amseriad y ferf yn ei ffafrio. Wrth reswm credu ynddo fel Messiah a olygir. Y mae'n amlwg nad oedd Ei frodyr yn anymwybodol o'r gweithredoedd oedd wedi gyflawni (adn. 3 a 4), ac eto yr oedd Ei waith yn rhodio parthau anghysbell Galilea yn lle yn Jerusalem, canolbwynt y bywyd cenedlaethol, yn ddyryswch iddynt. Yr oeddent eisiau ei weled yn mynd yn fawr neu yn fychan. Os mawr a fyddai yna derbynient hwythau ryw gymaint o anrhydedd ymhlith eu cenedl trwy eu cysylltiad âg Ef, ac os diffoddi a wnai fel goleuni cenedlaethol, yna ni ddisgynnai llawer o waradwydd arnynt hwy, os diflannai o'r golwg yn fuan.

6. "*Ni ddaeth fy amser i eto.*" Golyga'r gair a gyfieithir yma "amser," amser cyfaddas. Y mae'n amlwg mai nid yr amser i fyned i fyny i'r ŵyl a olygir, ond yn hytrach yr amser mwyaf cyfaddas iddo Ef amlygu ei Hun i'r genedl. Nid felly yr oedd yn eu hanes hwy, oblegid nid oeddent hwy wedi ymgymeryd â'i waith pwysig Ef, ac nid oedd unrhyw angen iddynt hwy fod yn ofalus ynghylch dewis eu cyfleusterau.

7 Ni ddichon y byd eich casâu chwi; ond myfi y mae yn ei gasâu, o herwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.

8 Ewch chwi i fynu i'r wyl hon: nid wyf fi etto yn myned i fynu i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd fy amser i etto.

---

7. "*Ni ddichon y by' eich casâu chwi.*" Wrth y "byd" yma, fel mewn amrywiol fannau yn yr Efengyl hon, y golygir pawb nad oeddent yn credu yn yr Iesu. Ac y mae'n enw cyfaddas ryfeddol, gan fod eu gwelediad ysbrydol mor egwan fel nas gallent dreiddio trwy'r byd gweledig i'r byd anweledig ac ysbrydol. Yr oedd yn amhosibl i'r "byd" eu casâu hwy am eu bod o'r un anianawd foesol ag ef, ac oherwydd hynny nis gallai'r un anghydgordiad byth fodoli rhyngddynt. Ond yr oedd y byd, sef anghredinwyr, yn casâu'r Iesu, o'r ochr arall, am fod eu pethau mawr hwy'n dd'bwys yn Ei olwg Ef, a'i bethau pwysig Ef yn ddiwerth yn eu golwg hwy. Yr oeddent hwy o'r byd, ac yntau o'r byd arall, ac am hynny nis gellid atal gwrthdarawiad rhyngddynt. Tebyg fod cyfeiriad neilltuol yn niwedd yr adnod at gondemniad llym yr Iesu o ragrith yr Iddewon swyddogol.

8. Y mae'r pwyslais yn y frawddeg gyntaf i'w roddi ar "chwi," i'w gwahaniaethu oddiwrtho "Ef."

"*Nid wyf fi eto yn myned . . . . fy amser i eto.*" Y mae tipyn o amheuaeth ynghylch y darlleniad cywir yn yr adnod hon, ac o ganlyniad mae amrywiol esboniadau yn cael eu rhoddi arni. (1.) Myn rhai y dylem adael allan "eto," a chyfieithu "nid wyf fi yn myned i'r wyl hon," ond y mae'r ffaith ddarfod i'r Iesu yn ddiweddarach ymweled â'r brif-ddinas yn gwrth-brofi hyn. (2.) Esboniad arall a roddir ydyw fod yr Iesu'n bwriadu myned i Jerusalem ond nid i gadw'r ŵyl. Prif sail yr eglurhad hwn ydyw y dywedir yn adn. 14 ei bod eisoes yn "ganol yr wyl" pan ymddanghosodd yr Iesu. (3.) Ereill a roddant eglurhad pur debyg trwy ddweud mai'r hyn a olygir yw nad oedd yn bwriadu myned i fyny gyda'r teulu. (4.) Pwysleisia ereill eto ar yr "ŵyl hon," gan gredu fod yr Iesu am gyfeirio at ŵyl arall,—y Pasg—pan yr elai i fyny i Jerusalem, ac y byddai Ei

9 Gwedi iddo ddywedyd y pethau hyn wrthynt, efe a arhosodd yn Galilea.

10 ¶ Ac wedi myned o'i frodyr ef i fynu, yna yntau hefyd a aeth i fynu i'r wyl; nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel.

11 Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe?

12 A murmur mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl. Canys rhai a ddywedent, Gwr da yw: ac eraill a ddywedent, Nag ê; eithr twyllo y bobl y mae.

"amser" Ef wedi dyfod. Credwn y ceir yr eglurhad mwyaf tebygol i fod yn gywir trwy gyfuno yr ail olygiad a'r olaf. Mae son am yr Iesu yn "bwyta'r Pasg" fel Iddew defosiynol.

9. Cawn yma brawf eto, (fel yn adn. 1), fod yr awdwr yn gwybod am weinidogaeth yr Iesu yn Galilea.

10. Dywedir mai'r darlleniad cywir yma ydyw, "Ac wedi myned o'i frodyr Ef i fyny i'r ŵyl, yna yntau hefyd a aeth i fyny," ac y mae hyn yn ffafrio'r ail esboniad a roddwyd ar adn. 8.

"*Nid yn amlwg ond megis yn ddirgel.*" Y mae'n amlwg oddiwrth hyn fod cryn sail i'r trydydd esboniad a roddwyd ar adn. 8. Ni aeth Efe i fyny gyda'r dorf ond wrtho Ei Hun. Nid oedd felly unrhyw berygl i'w sêl fyr-barhaol hwy ddyrysu Ei amcanion a'i rwystro i gyflawni Ei waith.

11. "*Pa le y mae Efe?*" Wrth yr "Iddewon" y golygir penaethiaid crefyddol y genedl, a myn rhai eu bod yn bwrpasol yn gadael Ei enw allan, er taflu dirmyg arno, ond credwn fod y rhagenw yn cael ei ddefnyddio er cyfeirio ato fel un yr oeddent yn gyfarwydd âg Ef, ac wedi clywed cymaint am dano.

12. "*A murmur mawr oedd am dano Ef ym mysg y bobl.*" Y mae'r gair a gyfieithir yma "bobl" yn golygu yn hytrach "dorfeydd." Yr Iesu oedd prif bwnc ymddiddan pob un o'r torfeydd bychain hyn ar hyd a lled y brif-ddinas yn ystod yr ŵyl. Golyga'r "murmur" yma sibrwd yn isel wrth eu gilydd; yr oedd arnynt ofn mynegi eu barn yn uchel ac ar gyhoedd.

"*Gwr da yw.*" Gwr anhunangar a didwyll.

13 Er hynny ni lefarodd neb yn eglur am dano ef, rhag ofn yr Iuddewon.

14 ¶ *Ac* yr awrhon ynghylch canol yr wyl, yr Iesu a aeth i fynu i'r deml, ac a athrawiaethodd.

---

13. Nid oedd arweinwyr y genedl eto wedi dyfod i unrhyw benderfyniad terfynol yn Ei gylch, er nad oedd yn anhawdd gweled i ba gyfeiriad y tueddai y mwyafrif mawr o honynt. O dan yr amgylchiadau credai y rhai a'i dilynent yn ogystal a'r rhai a'i gwrthwynebent mai gwell oedd iddynt beidio traethu er barn. Dylid cofio y ceir y fannod yn y gwreiddiol o flaen y gair "ofn," a golygir yr ofn oedd wedi cymeryd meddiant o bawb. Y mae i'r gair a gyfieithir yma "eglur" ddwy ystyr. (1.) Siarad yn rhydd, mynegi'r cyfan a wyddent ac a deimlent. (2.) Dweud eu barn heb ofni gwawd na gwg neb Y mae'n amlwg oddiwrth ddiwedd yr adnod mai yn yr ystyr olaf y defnyddir y gair yma. Y mae'n amlwg fod yr Archoffeiriaid a'r Phariseaid yn gorthrymmu'r bobl yn annioddefol mewn ystyr feddyliol. Ceir eu barn am y werin bobl yn vii. 48, 49.

Adnodau 14—36.

Ceir yma ddechreu'r dadleuon a barhasent yn ystod yr ŵyl, ac yn yr adran hon gwelwn beth oedd barn tri dosbarth o bobl am dano. (1.) Yr Iddewon (adn. 15—34). (2.) Trigolion Jerusalem (25—31). (3.) Y Phariseaid a'r Archoffeiriaid (32—37). Gofynnir cwestiynau i'r Iesu gan bob un o'r tri yn eu tro, ac y mae Efe yn rhoddi atebion iddynt sydd yn profi dwyfoldeb Ei Berson yn ogystal a'r awdurdod oedd o'r tu ol i'w athrawiaeth. Gwelir oddiwrth adn. 20 a 31 fod y dorf yn gwrando ar yr ymddiddanion hyn.

14. "*Ynghylch canol yr ŵyl.*" Gwel ar adn. 8.

"*Yr Iesu a aeth i fyny i'r deml ac a athrawiaethodd.*" Dyma'r cyfeiriad cyntaf a geir at yr Iesu fel yn athrawiaethu yn gyhoeddus yn y deml. Pan ymwelodd â'r deml yr adeg y gyrrodd y prynwyr a'r gwerthwyr allan ni ddywedir Ei fod wedi traddodi unrhyw fath a anerchiad (ii. 13—17). Ni wyddis i sicrwydd beth oedd pwnc dysgeidiaeth yr Iesu, ond a barnu oddiwrth yr hyn sydd yn dilyn, gallwn gasglu ei fod yn dwyn rhyw gysylltiad a defodaeth Iddewig (adn. 21—23).

15 A'r Iuddewon a ryfeddasant, gan ddywedyd, Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, *ac yntau* heb ddysgu?
16 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i.

---

15. "*Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu?*" Nid oes dim hanes fod yr Iesu erioed (fel S. Paul) wedi bod yn cael ei addysgu wrth draed unrhyw Rabbi yn Jerusalem, ac am hynny yr oedd yr "Iuddewon" yn methu cyfrif am Ei wybodaeth eang a'i feistrolaeth ar Ei bynciau. Y mae'r gair a gyfieithir yma 'dysgeidiaeth" ymron yn gyfystyr â "llenyddiaeth," ac y mae esbonwyr yn methu cytuno yngylch y llenyddiaeth y cyfeirir ati. Myn rhai ei chyfyngu i Ysgrythyrau'r Hen Destament. Y mae'n wir fod profion amlwg fod yr Iesu yn wir hyddysg yn yr Ysgrythyrau hynny ac yn gallu eu difynnu yn rhigl ddigon yn yr iaith yr ysgrifenwyd hwynt ynddi, sef Hebraeg. Ond y mae ereill yn credu fod yna gyfeiriad at yr Ysgrythyrau yn ogystal ag at yr holl esboniadau oedd wedi eu rhoddi arnynt gan y Tadau. Yr oedd hefyd yn gyfarwydd â'r traddodiadau seremoniol hynny oedd wedi dyfod erbyn hyn yn rhan o ddysgeidiaeth pob Iddew a addysgid yn Jerusalm. Credwn fod yr Iddewon yn golygu yr oll o hyn o dan y term "llenyddiaeth," ac nis gallwn lai na meddwl fod yna ryw gyfeiriad at y wybodaeth a feddai'r Iesu o'r dull Rabbinaidd o ddadleu a thrin cwestiynau.

16. Gan nad oedd yr Iesu wedi derbyn addysg ieolaidd, yr oedd yr Iddewon yn barod o bosibl i'w gyhuddo nad oedd yn gwneud dim ond rhoddi mynegiant i'w fympwyon disylfaen Ei Hun. Y mae'r Iesu yma yn ateb rhyw gyhuddiad tebyg ac yn profi mai nid oddiwrth unrhyw Rabbi y derbyniodd yr athrawiaeth a ddysgai, ac mai nid Efe Ei Hun oedd yn llefaru yr hyn a fynnai. Yr oedd Ei ddysgeidiaeth Ef wedi tarddu o'r ffynhonnell uwchaf, sef oddiwrth Dduw Ei Hun. Ond yr oedd Ei undeb ef â'r Tad mor agos fel pan y llefarai yn uniongyrchol nid oedd byth yn defnyddio ffurf-ymadrodd y prophwydi. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," ond siarada yn Ei enw Ei Hun,—"Yn wir, yn wir meddaf i chwi."

17 Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru.

18 Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun: ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef.

---

17. "*Os ewyllysia neb wneuthur Ei ewyllys Ef,*" &c. Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yma yn llawer cywirach na'r cyfieithiad Saesoneg. Nid "os gwna neb" (yn y dyfodol) a olygir, ond os yw neb a thueddfryd ei galon at wneuthur. Rhaid cael y cydymdeimlad yma cyn y gellir dysgu yn briodol. Os darllenir y Bregeth ar y Mynydd gwelir fod yr Iesu yn rhoddi y pwys mwyaf ar "amcan" ac "ewyllys,"—nid yw yn ddigon cyflawni gweithredoedd, rhaid eu cyflawni gyda'r amcan priodol.

"*Efe a gaiff wybod.*" Yn gywirach o bosibl, "Efe a ddaw yn ymwybodol" fod y ddysgeidiaeth, &c. Efe a wel yn argraffedig arni nodweddion sydd yn profi ei tharddiad dwyfol.

18. Ceir syniadau cyffelyb yn anerchiad yr Iesu ar ol iachad y claf wrth lŷn Bethesda (v. 30, 41).

"*Ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant . . . . hwnnw sydd eirwir ac anghyfiawnder nid oes . . .*" Nid geirwir a ddywedir yn y gwreiddiol ond "gwir." Yn ada. 12 desgrifir yr Iesu fel gwr "da," a syniad rhywbeth yn gyffelyb a geir yma,—cydwybodol a gonest. Safon uchaf cydwybodolrwydd a didwylledd meddai'r Iesu ydyw ymroddiad hollol i gyflawni ewyllys Duw, heb unrhyw ofal am hunan. Oddiwrtho Ef yn unig y tardda "gwirioneedd," ac y mae rhyw elfen ddaearol ac anghywir yn nysgeidiaeth y goreu, os nad ymroddant felly i roddi mynegiant i ewyllys Duw yn unig. Y mae "anghyfiawnder" mewn gweithred yn tarddu oddiar yr anghywirdeb hwn yn y galon. Ac nis gellir dweud am y dysgawdwr mwyaf duwiolfrydig a ddadguddiodd feddwl Duw i'w gyd-ddynion ei fod yn 'wir" ac "anghyfiawnder nid oes ynddo ef." Nid yw y geiriau hyn wir ond am yr Iesu yn unig.

19 Oni roddes Moses i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith? Paham yr ydych yn ceisio fy lladd i?

20 Y bobl a attebodd ac a ddywedodd, Y mae gennyt ti gythraul: pwy sydd yn ceisio dy ladd di?

---

19. Dylai y gofyn-nod fod ar ol y gair "cyfraith" yn yr adran gyntaf, fel hyn,—"Oni roddes Moses i chwi y gyfraith? Ac nid oes neb o honoch." &c. Nid yw'r geiriau hyn yn dilyn yn naturiol oddiwrth yr adnod flaenorol, a chred rhai fod rhywbeth wedi cymeryd lle yn y cyfamser. Os ydym yn iawn yn ein eglurhad o adn. 14 mae'n bosibl fod rhywun wedi codi gwrth-ddadl ac wedi cyfeirio at rywbeth oedd yr Iesu wedi ddweud yn Ei athrawiaeth parthed y ddeddf a roddwyd gan Moses. Beth bynnag am hynny ffurfia'r geiriau gondemniad llym o'u hymddygiad hwy tuagat y deddfroddwr mawr hwnnw a'i ddeddf. Yr oeddent yn rhoddi parch mawr yn allanol i Moses, ac eto yn ei ddianrhydeddu gymaint ag a fedrent trwy gadw at lythyren ei ddeddf ac anwybyddu ei hysbryd. Y mae'r hyn sydd yn dilyn (adn. 22, 23) yn peri i ni feddwl fod yna gyfeiriad neilltuol at eu trosedd o dorri'r Sabbath. Y mae hyn yn rhoddi pwynt penodol i'r gofyniad sydd yn dilyn, "Paham yr ydych yn ceisio fy lladd i?" (Gwel v., adn. 16 ac 18).

20. Y mae'n amlwg nad oedd y torfeydd ("y bobl") oedd wedi cyrchu i Jerusalem ar gyfer yr ŵyl yn gwybod am yr helynt a ddilynodd iachad y dyn claf (v.), nac ychwaith yn deall amcanion dichellgar yr arweinwyr. Dyma'r tro cyntaf iddynt glywed son am ladd yr Iesu, ac nid oedd y cyfryw syniad iddynt hwy ond prawf Ei fod wedi Ei "feddianu" gan gythraul. Os oedd yr Iesu yn annerch y dyrfa'n ogystal a'i gyhuddwyr, rhaid credu fod y cwestiwn yn arddangos rhyw gymaint o ddigter, ond y mae'n anhawdd dod o hyd iddo. Tebyg na olygent ddim mwy na'i fod wedi colli Ei gydbwysedd deallol ac wedi rhoddi ffordd i ryw feddyliau afiach o'r natur yna. Cawn yr un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn S. Math. xi. 18 am S. Ioan Fedyddiwr, am nad oedd yn mynychu gwleddoedd yn unol âg arferion cymdeithasol ei wlad.

21 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un weithred a wneuthum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu.

22 Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad; (nid o herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau;) ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath.

---

21. "*Un weithred a wnaethum i.*" Sef yr un y cyfeirir ati yn adn. 23 (gwel v.). Er fod yr Iesu wedi cyflawni gwyrthiau lawer yn Jerusalem eto am un o'r rhai hynny'n unig y ceisiai'r Iddewon Ei ladd, ac fel y gwelir oddiwrth y bumed bennod nid y wyrth ei hun oedd achos yr elyniaeth ond y ffaith fod yr Iesu wedi peri i'r dyn claf godi ei wely ar y Sabbath ac felly gyflawni "gwaith." Y mae rhai am ychwanegu y geiriau "am hynny" a geir yn nechreu'r adnod nesaf at ddiwedd yr adnod hon,—"ac yr ydych oll yn rhyfeddu am hynny," ond y mae hyn yn hollol groes i arferiad yr awdwr.

22. "*Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad.*" Gwel ar adn. 21. Beth yw y rheswm at ba un y cyfeirir yn "am hynny"? Y mae rhai o'r farn y ceir y rheswm yn yr adnod hon,—"Nid oherwydd ei fod o Moses ond o'r tadau," tra y mae ereill yn meddwl mai yn adn. 24 y rhoddir y rheswm. Yr oedd cyfraith yr enwaediad a deddf y Sabbath wedi eu rhoddi er mwyn dysgu'r genedl i chwilio am yr egwyddor oedd yn gorwedd dan bob un o'r ddwy, ac felly beidio barnu "wrth y golwg." Credwn mai gwell yw meddwl mai yn adn. 23 y ceir y rheswm,—am eu bod yn methu deall y wers a ddysgid gan iachad y dyn claf ar y Sabbath.

"*Nid oherwydd ei fod o Moses eithr o'r tadau.*" Nid dadleu y mae'r Iesu yma fod deddf yr enwaediad yn gryfach na deddf y Sabbath ac felly na ddylai'r Sabbath aros ar ffordd yr enwaediad, oblegid ni fyddai hynny yn gywir. Dechreuodd yr enwaediad gydag Abraham (Gen. xvii. 12), ond yr oedd y Sabbath mor hen a'r greadigaeth ei hun. Rhoddi lle iddynt yn ei ddeddf ei hun wnaeth Moses yn y naill achos a'r llall. Gwell yw credu mai cywiro Ei Hun y mae'r Iesu rhag i'w elynion craffus sylwi ar y gwall yn yr enwaediad. Rhaid cofio fod yr Iddewon hyn oll yn hyddysg yn yr ysgrythyrau.

"*Ac yr ydych yn enwaedu dyn ar y Sabbath.*" Os genid plentyn ar y Sabbath, yr oedd yn rhaid enwaedu

23 Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath, heb dorri cyfraith Moses; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath?
24 Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn.

---

arno hefyd ar y Sabbath os am gadw deddf Moses ynghylch yr wythfed dydd (Lef. xii. 3).

23. Y mae dau ddarlleniad gwahanol yn cael eu rhoddi o'r adnod hon. (1.) "Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath heb dorri cyfraith Moses." Dyma'r darlleniad a geir yn y cyfieithiad Cymraeg, a golyga cyfraith Moses felly y cyfraith ynghylch cadwraeth y Sabbath. Wrth gadw deddf yr enwaediad o enwaedu ar yr wythfed dydd, nid oeddent yn torri deddf arall o'i eiddo er i'r wythfed dydd hwnnw fod yn Sabbath.

(2.) "Os y[w] dyn . . . . Sabbath fel na thorer cyfraith Moses." Dyma'r darlleniad cywiraf. Wrth y gyfraith yma y golygir deddf yr enwaediad, yr hon a gadwent hyd yn oed ar y dydd Sabbath.

"*A ydych yn llidiog wrthyf fi am i mi wneuthur dyn yn holl iach ar y Sabbath?*" Y mae rhai am gredu mai'r cyferbyniad a geir yma ydyw rhwng "clwyfo" dyn yn yr enwaediad a'i "iachau" yn hollol fel y gwnaeth yr Iesu i'r claf wrth y llyn, ond cyferbyniad arall sydd fwyaf amlwg yma, sef rhwng yr un aelod a'r holl gorph. Os oedd yr Iddewon yn teimlo fod ganddynt hawl i iachau dyn trwy enwaedu un aelod o hono heb dorri deddf y Sabbath, pa faint mwy y medrai'r Iesu ymgymeryd â iachau ei holl aelodau? Yr oedd yr enwaediad yn rhan o gyfundrefn iechydol y genedl yn ogystal a bod yn "insel y cyfamod."

24. Yma cyfeiria'r Iesu at drosedd mawr yr Iddewon swyddogol hyn. Yr oeddent yn orbarod i edrych ar ymddanghosiad allanol yn unig, ac heb geisio deall yr ystyr ddyfnach. Fel y gorbwysent ar lythyren deddf Moses, felly yr oeddent yn eu byrbwylldra'n barnu gweithredoedd yr Iesu yn ol eu hymddanghosiad yn unig. Credwn nad oes yna unrhyw gyfeiriad at ymddanghosiad distadl yr Iesu Ei Hun. Ceir y fannod o flaen y gair "barn" yn y gwreiddiol,—"y farn gyfiawn." Dim ond

25 Yna y dywedodd rhai o'r Hierosolymitaniaid, Onid hwn' yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd?

26 Ac wele, y mae yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho ef: a wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir?

27 Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae: eithr pan ddêl Crist, nis gŵyr neb o ba le y mae.

---

un farn gyfiawn sydd, a homo'n sylfaenedig ar ddeall ysbryd ac amcan, ac nid ar y llythyren a'r ymddanghosiad.

25. Symudir ymlaen yma at gwestiwn dosbarth arall, ynghyd âg atebiad yr Iesu iddynt. Dim ond yma ac yn Efengyl S. Marc (i. 5) y defnyddir yr enw Hierosolymitiaid am breswylwyr Jerusalem. Y maent hwy yn wahanol i'r "bobl" a enwir yn adn. 20. Gwyddant hwy'n dda am fwriadau maleisus yr Iddewon, a'r hyn y rhyfeddant ato ydyw nad ydynt yn gafael yn y cyfleustra hwn i roddi'r bwriadau hynny mewn gweithrediad.

26. "*Y mae'n llefaru ar gyhoedd.*" Cyfeirio y maent yn neilltuol at waith yr Iesu'n athrawiaethu yn y deml (adn. 14) pan yn ddiameu yr oedd llawer o'r Iddewon swyddogol hyn yn gwrando arno.

"*A wybu y penaethiaid mewn gwirionedd ai hwn yw y Crist yn wir?*" Y mae ffurf y cwestiwn yn awgrymu mai ateb nacaol a ddisgwylid. Y mae'n anhawdd meddwl fod y bobl hyn yn credu fod y penaethiaid wedi chwilio yn fanylach i hanes yr Iesu ac wedi dyfod i gredu ynddo, ond o dan yr amgylchiadau nis gallent roddi unrhyw eglurhad ar eu hymddygiad ond yr un amhosibl hwn.

27. "*Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae.*" Defnyddiant air am "adwaenom" sydd yn golygu gwybodaeth gyflawn a thrwyadl. Nid oedd yr un gradd o ddirgelwch ynghylch hwn. Yr oeddent wedi clywed mai o Galilea yr ydoedd ac o bosibl mai o Nazareth, ac nis gallent hwy, preswylwyr balch y brif-ddinas, byth gredu fod y gwaredwr cenedlaethol i gyfodi o unman y tu allan i gylch y gymdeithas y perthynent hwy iddi.

"*Eithr pan ddêl Crist, nis gwyr neb o ba le y mae.*" Y mae'n amlwg mai nid cyfeirio y maent at le genedigol y Messiah, oblegid gwelir oddiwrth adn. 42 eu bod yn

28 Am hynny yr Iesu, wrth athrawiaethu yn y deml, a lefodd ac a ddywedodd, Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi: ac ni ddeuthum i o honof fy hun, eithr y mae yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi.

---

cydnabod mai o Bethlehem yr oeddent i'w ddisgwyl. Nis gall olygu ychwaith anwybodaeth o'i linach, oblegid yn yr un adnod dywedir Ei fod i ddod o had "Dafydd." Rhaid felly mai at Ei rieni y cyfeirir. Edrychent ar yr Iesu fel mab Joseph (vi. 42), ac o ganlyniad nid oedd yn cyfateb i'w disgwyliad hwy am y Messiah. Yr oedd y gred wedi tyfu i fyny rywfodd nad oedd neb i wybod, pan ymddangosai'r Messiah, pwy oedd ei rieni. Cyfeiria Justin Ferthyr yn un o'i lyfrau at y gred Iddewig hon.

28. Golyga'r gair a gyfieithir "llefain," lefain yn uchel, dyrchafu ei lais nes bod yn glywadwy i bawb oedd yn y deml. Y mae rhai o'r farn y cyfeirir yma at ddiwrnod gwahanol gan yr ail-adroddir y geiriau "yn y deml."

"*Chwi a'm hadwaenoch i ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi.*" Dyfyniad ydyw'r geiriau o'u dywediad hwy yn adn. 27. Defnyddia'r Iesu'r geiriau yn eu hystyr naturiol ac nid mewn gwawd fel y myn rhai. Cyfaddefa y gwyddent pwy oedd Ei rieni, ac mai yn Nazareth y cawsai Ei ddwyn i fyny, ond yn y frawddeg nesaf profa nad ydyw eu gwybodaeth mor llawn ac y tybiant. Y mae yna ddirgelwch yn ei gylch, ond nid y dirgelwch oeddent hwy yn ddisgwyl weled. Dirgelwch Ei Berson ydoedd, ac nid dirgelwch Ei amgylchiadau.

"*Ac eto ni ddaethum i o honof fy hun.*" Gallasent yn rhwydd gasglu mai awydd am wneud enw mawr iddo'i hun oedd yn peri iddo ddyfod allan fel arweinydd, ond nid felly yr ydoedd. Gesyd yr Iesu yr hyn a wyddent a'r hyn na wyddent ochr yn ochr.

"*Y mae yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi.*" Yr oedd yr Iesu am iddynt beidio credu mai hunni yr ydoedd fod rhywun wedi Ei anfon. Yr oedd yr hwn a'i hanfonodd yn Fod gwirioneddol ("yn gywir"). Yr un gair a ddefnyddir yma am Dduw ag a geir yn iv. 23 am yr addolwyr hynny y mae'r Tad yn eu ceisio i'w addoli. Yr oedd yr Iddewon yn gwneud

29 Ond myfi a'i hadwaen: oblegid o hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i.

30 Am hynny hwy a geisiasant ei ddal ef: ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto.

31 A llawer o'r bobl a gredasant ynddo, ac a ddywedasant, Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn?

---

yr un camgymeriad o berthynas i Dduw ag a wnaethent yn achos yr Iesu. Oherwydd eu bod yn gwybod rhai pethau credent eu bod yn gwybod y cyfan.

29. Y mae'r "myfi" yn bwysleisiol mewn gwrthgyferbyniad i "chwi," adn. 28. Y mae'r frawddeg "o hono ef yr ydwyf fi" yn golygu mwy na bod yr Iesu yn dadguddio meddwl y Tad; cyfeiria yn bennaf at agosrwydd Ei Berson. Yn yr frawddeg nesaf y pwysleisia ddwyfoldeb Ei genadwri,—"efe a'm hanfonodd i."

30. "*Hwy a geisiasant Ei ddal Ef.*" Y mae'r ferf yma yn yr amser amherffaith a golyga eu bod wedi gwneud llawer ymdrech i'w ddal; yr oeddent o hyd yn ceisio. Wrth "hwy" y golygir yr arweinwyr crefyddol, yr Archoffeiriaid a'r Phariseaid.

"*Ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai Ei awr Ef eto.*" Tebyg mai y rheswm uniongyrchol paham na wnaethant hynny ydoedd am fod arnynt ofn y bobl oedd wedi ymgasglu i'r ŵyl. Y rheswm gwirioneddol na lwyddasant i wneud hynny a rydd yr awdwr,—"am na ddaethai Ei awr Ef eto," sef awr y dioddefaint pan y traddodid Ef i'w dwylaw. Ceir yr ymadrodd hwn "awr," yn fynych yn yr Efengyl hon; credai'r hwn a'i hysgrifennodd yn gryf fod pobpeth wedi ei ragordeinio a'i drefnu ym mywyd yr Iesu ac yn bennaf oll "yr awr honno."

31. Os cyfunir yr adnod hon âg adn. 20 ceir darlun cywir o deimladau'r dyrfa gymysglyd, rhai yn barod i'w wawdio a'i gyhuddo, ac ereill ("llawer") yn dyfod i gredu ynddo. Ac eto yr un dywediadau o'i eiddo oedd yn cynyrchu y naill deimlad a'r llall. Yr oedd y gwahaniaeth yn bodoli yn rhywle yn yr ewyllys a'r amcan gyda pha un y gwrandawent (Cymh. adn. 17, "Os ewyllysia neb," &c.).

32 ¶ Y Phariseaid a glywsant fod y bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef; a'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef.

"*Pan ddelo Crist . . . . . na'r rhai a wnaeth hwn.*" Nid ydynt yn barod eto i'w gydnabod fel y Messiah, ond y mae'n amlwg eu bod ar y ffordd i wneud hynny oblegid ateb nacaol a ddisgwylir i'r cwestiwn. Os na wnai y Crist pan ddeuai fwy o arwyddion, onid oedd hynny yn ffurfio sail gref dros gredu mai nid hwnnw a ddeuai ond Hwn oedd y Messiah? Y mae'r ferf "ddywedasant" yn yr amser amherffaith ac yn golygu eu bod wedi gofyn fwy nag unwaith, o bosibl mewn gwrthddadl âg ereill o'r "bobl" neu â rhai o'r swyddogion.

32. "*Y Phariseaid a glywsant fod y bobl yn murmur y pethau hyn am dano Ef.*" Gwelir oddiwrth y gwreiddiol nad yw y cyfieithiad Cymraeg yma'n hollol gywir. Nid "clywed fod y bobl" a ddywedir, ond "clywed y bobl," clywsant hwy â'u clustiau eu hunain. Diau fod amryw o honynt yn bresennol yn y dorf oedd yn gwrando ar yr Iesu.

"*A'r Phariseaid a'r Archoffeiriaid,*" &c. Dyma'r darlleniad arferol, ond os dilynwn fwyafrif yr hen lawysgrifau rhaid newid y drefn a dywedyd "yr Archoffeiriaid a'r Phariseaid." Yr oedd yr Archoffeiriaid gan mwyaf yn Saduceaid ac felly ar lawer o bynciau yr oeddent yn coleddu syniadau hollol groes i'r Phariseaid. Yr Archoffeiriaid hefyd oedd yn cynrychioli'r wladwriaeth yn fwyaf neilltuol, tra mai'r Phariseaid a honnent gynrychioli'r grefydd Iddewig. Ac eto cawn y ddau ddosbarth anghymodlawn hyn yma yn ymuno i anfon swyddogion i ddal yr Iesu. Y mae'n anhawdd dweud pa un a fu iddynt gasglu'r Sanhedrim ynghyd a phasio penderfyniad ffurfiol ai peidio. Myn rhai fod yna benderfyniad eisoes wedi ei basio. O bosibl nid oedd angen gwneud hynny, yr oedd yr Archoffeiriaid yn meddu ar gryn awdurdod, yn enwedig o fewn cynteddau'r deml. Y mae'n amlwg mai rhyw is-swyddogion cysylltiedig â'r deml oedd y gwŷr hyn a anfonasant i geisio Ei ddal Ef.

33 Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Yr ydwyf fi ychydig amser etto gyd â chwi, ac yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd.

34 Chwi a'm ceisiwch, ac ni'm cewch: a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod.

35 Yna y dywedodd yr Iuddewon yn eu mysg eu hunain, I ba le y mae hwn ar fedr myned, fel na chaffom ni ef? ai at y rhai sydd ar wasgar ym mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr myned, a dysgu y Groegiaid?

---

33. "*Wrthynt hwy.*" Wrthynt oll yn ddiwahaniaeth, y "bobl," y "swyddogion," a'r Iddewon.

"*Yr wyf fi ychydig amser . . . . myned at yr hwn a'm hanfonodd i.*" Wrth yr "ychydig amser" y golygir rhyw chwe mis o'r adeg yma hyd y Pasg nesaf wedi hynny. Tebyg mai yr olwg ar y swyddogion a barodd i'n Harglwydd lefaru fel hyn; yr oedd yn gweled Ei groes yn dyfod yn y pellter, ond eto nid oedd ond ychydig amser. Cred rhai hefyd Ei fod yn rhoddi rhybudd i'r Iddewon fod yr amser yn fyr a hwythau mor gyndyn. Dengys yr hyn a ddywed yr Iddewon yn adn. 35, 36 mor bell yr oeddent eto o ddeall meddwl yr Iesu. Yr oeddent eisiau rhoddi rhyw eglurhad llythyrennol i bob gair o'i eiddo.

34. "*Chwi a'm ceisiwch ac ni'm cewch.*" Nis gall yr Iesu olygu yma Ei geisio er mwyn Ei ladd, oherwydd pan geisiasant o'r diwedd wneud hynny hwy a lwyddasant yn eu hymdrech. Yr hyn a olygir yn ddiau ydyw y byddai iddynt Ei geisio yn ofer yn nydd eu cyfyngder, o bosibl gyda chyfeiriad at y dyddiau blin oedd i ddyfod yn hanes y genedl. Yn y dyddiau tywyll hynny byddent yn dyheu am weled dyfodiad y Messiah ond byddai yn rhy ddiweddar.

"*A lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod.*" Yr oedd Efe yn myned at Ei Dad, yr Hwn nid adwaenent hwy, ac felly nis gallent hwy agoshau ato Ef yn nydd eu cyfyngder. Anallu moesol oedd yn eu rhwystro i wneud hynny.

35. Yr Iddewon swyddogol a olygir yma eto—y rhai oeddynt yn edrych arnynt eu hunain fel cynrychiolwyr crefydd. Yn eu plith y siaradent fel hyn mewn gwawd.

36 Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe, Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch: a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod?

37 Ac ar y dydd diweddaf, y *dydd* mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed.

"*I ba le y mae Hwn ar fedr myned fel na chaffom ni Ef?*" Nid yr un gair a geir yma am "fyned" ag yn adn. 33. Golyga hwn fyned gydag amcan neilltuol,—er traethu rhyw genadwri neu gyflawni rhyw waith. Y mae pwyslais i'w roddi ar "Hwn"; defnyddient y rhagenw er dangos eu dirmyg.

"*Ai at y rhai sydd ar wasgar ymhlith y Groegiaid . . . . a dysgu y Groegiaid.*" Nid yr un rhai a olygir wrth y "Groegiaid" a'r "rhai sydd ar wasgar ymhlith y Groegiaid." Wrth y "Groegiaid," rhai o waedoliaeth Roegaidd ac yn siarad yr iaith Roeg a olygir, tra mai Iddewon oedd "y rhai oedd ar wasgar" yn eu plith, Iddewon wedi colli eu hiaith i'r fath raddau nes galw am gyfieithiad y LXX. o'r Beibl Hebraeg, ond eto a gadwent eu harferion crefyddol cynhennid (Gwel Actau ii. 9, 10, 11). Nodir dau gam o eiddo'r Iesu yn yr ymadrodd. (1.) Yr oedd yn mynd i adael Iddewon crefyddol y brif-ddinas a gwlad Canaan, ac i ymgymeryd â goleuo Iddewon mwy masnachol Asia Leiaf. (2.) Ar ol cyrraedd atynt hwy, nid oedd am foddloni ar hynny, ond myned rhagddo i oleuo hyd yn oed y Cenhedloedd. Rhyfedd fel yr oedd yr Iddewon hyn mewn gwawd yn adrodd hanes lledaeniad yr Eglwys Gristionogol mor gywir!

36. Er rhoddi eu heglurhad gwawdlyd eu hunain ar ymadawiad yr Iesu eto y mae rhywbeth yn Ei eiriau sydd yn parhau i'w blino. Teimlent nad oeddent wedi deall eu hystyr wedi'r cyfan, ac ofnent rhag ei bod yn fath o brophwydoliaeth o ryw drychineb cenedlaethol.

DADLEUON DYDD OLAF YR WYL.—ADNODAU.—37—52.

Yn yr adran hon ceir (1.) anogaeth ryfedd yr Iesu (adn. 37—39). (2.) Ei heffaith ar y "bobl" (40—44). (3.) Ar y Sanhedrin (45—52).

37. "*Ac ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r ŵyl.*" Tybir mai nid y seithfed dydd o'r ŵyl a olygir yma ond

38 Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef.

---

yr wythfed dydd hwnnw a gysylltwyd â'r saith (Gwel ar adn. 2). Cedwid yr wythfed dydd fel Sabbath fel y gwelir oddiwrth Lef. xxiii. 39.

"*Yr Iesu a safodd.*" Fel y gwelir ar ddechreu'r Bregeth ar y Mynydd (S. Math. v. 1) defnyddiai'r Iesu ffordd arferol y Rabbiniaid Iddewig, ac eisteddai i lawr i ddysgu Ei ddisgyblion. Ond yma nid dysgawdwr Iddewig cyffredin mo hono ond diwygiwr a gwaredwr cenedlaethol ac o ganlyniad y mae yn "sefyll ac yn llefain."

"*Od oes ar neb syched, deued ataf fi ac yfed.*" Tybir gan fwyafrif mawr esbonwyr fod yr Iesu wedi cymeryd y ffugr hwn o ddwfr oddiwrth yr arferiad Iddewig yn ystod yr ŵyl hon o gyrchu dwfr mewn cawg aur o lyn Siloam a'i dywallt wrth yr allor, er cof am y "dwfr o'r graig" a anfonodd yr Arglwydd i ddisychedu eu cyndadau yn yr anialwch. Megis y defnyddiodd y sarff bres (iii. 14) a'r manna (vi. 32, 49) felly yma y mae'n cymeryd y dwfr i osod allan yr ystôr ddihysbydd oedd ynddo Ef ar gyfer diwallu holl anghenion dyn. Bernir na chyrchid y dwfr ar yr wythfed dydd, ac felly gosodid pwysigrwydd neilltuol ar Ei eiriau. Yr oeddent wedi bod am saith niwrnod yn cyrchu'r elfen hon oedd i ddisychedu dyn, ac ar yr wythfed pan beidiasant â hynny y mae'r Iesu yn cynnyg Ei ddarpariaeth ysbrydol a pharhaol Ef er cyflenwi yr un angen. Sylwer fod S. Paul hefyd yn cysylltu'r dwfr hwn o'r graig â Christ (Gwel I. Cor. x. 4).

38. Y mae rhai am gysylltu'r frawddeg gyntaf yn yr adnod hon â'r adnod flaenorol, "Yr hwn sydd yn credu ynnof fi, deued ataf fi ac yfed," tra y mae ereill o'r farn fod cysylltiad agos rhyngddi â'r frawddeg ddilynol,—"Yr hwn sydd yn credu ynnof fi megis y dywedodd yr Ysgrythyr," h.y., yn wirioneddol, yn ol y drefn ddwyfol. Credwn mai yr ail ddarlleniad sydd yn gwneud mwyaf o gyfiawnder â'r brawddegau fel y ceir hwy yma. Ac os dyma'r eglurhad cywir yna nid llifo o'r Iesu y mae'r afonydd o ddyfroedd bywiol ond o'r credadyn. Y mae'r

39 (A hyn a ddywedodd efe am yr Yspryd, yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn: canys etto nid oedd yr Yspryd Glân *wedi ei roddi*, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu etto.)

---

hwn sydd wedi cael ei ddisychedu ei hun yn dyfod yn foddion i ddisychedu ereill. Wrth reswm y mae esboniad arall yn bosibl fod y credadyn yn cael ei ddisychedu am, yn ol tystiolaeth yr ysgrythyr, fod afonydd o ddyfroedd bywiol yn llifo o'r Graig, sef Crist.

"*Afonydd o ddyfroedd bywiol*," *&c.* Nis gellir dod o hyd i unrhyw adnod yn yr Hen Dest. sydd yn cyfateb yn hollol i hon, ond y mae yna amryw frawddegau, fel y gŵyr y cyfarwydd, sydd yn hynod debyg iddi (Gwel Es. lviii. 11; Zech. xiv. 8; Joel ii. 18, &c.).

39. Rhydd yr awdwr i ni yma ei esboniad ef ei hun ar y geiriau, esboniad y mae llawer o feirniaid hunanddigonol yn ei deimlo yn anhawdd ei dderbyn. "Y dwfr bywiol" y sonnir am dano meddai'r Efengylwr ydyw'r "Ysbryd," er, fel y dywed yn nes ymlaen, nad "oedd yr Ysbryd" eto. Yna rhaid mai yr hyn a lifa allan o'r credadyn ydyw "ffrwyth yr Ysbryd."

"*Canys eto nid oedd yr Ysbryd Glan wedi Ei roddi*." Y mae'n amheus a ddylid rhoddi "Glan" ac "wedi ei roddi" i mewn. Dywedir na cheir yr olaf ond mewn ychydig iawn o lawysgrifau. Er hynny y mae'n foddion, o bosibl, i egluro'r synwyr priodol. Ceir y fannod o flaen y gair "Ysbryd," ac y mae hynny yn ddieithriad yn golygu nid Person yr Ysbryd ond Ei ddylanwad. Ni fuasai yn wir i ddweud nad oedd yr Ysbryd yn bod eto, oherwydd yr oedd yn bod erioed yn yr hanfod ddwyfol. Gellir dweud gyda phriodoldeb nad oedd yr Eglwys Iddewig mor ymwybodol o'i fodolaeth a'r Eglwys Gristionogol, nac yn teimlo Ei ddylanwadau i'r un graddau. Mor bell ag y medrai dynion weled yr oedd rhyw gyfnewidiad anesgrifiadwy yn y Person Ei Hun yn y cyfnod Cristionogol; nid oedd mwyach "len dros Ei wyddfod Ef." Gwelid Ei ddylanwadau a theimlid Ei effeithiau gan bawb a gredent. Felly yr hyn a olygir ydyw nad oedd yr Ysbryd yr un i gredinwyr yn ystod y cyfnod Cristionogol. Yr oedd yn bod o'r blaen ac yn gweithredu o'r blaen, ond nid oedd yn fywyd yr Eglwys ac yn

40 ¶ Am hynny llawer o'r bobl, wedi clywed yr ymadrodd hwn, a ddywedasant, Yn wir hwn yw y Prophwyd.
41 Eraill a ddywedasant, Hwn yw Crist. Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea y daw Crist?
42 Oni ddywedodd yr ysgrythyr, Mai o had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod?

---

preswylio yn ei chanol megis y daeth i fod wedi hynny. Y mae'r eglurhad hwn yn y diwedd yn dyfod i feddwl yr un peth a'r un a roddir yn y darlleniad cyffredin,—nid oedd yr Ysbryd Glan wedi ei roddi.

"*Oherwydd na ogoneddasid yr Iesu eto.*" Am ryw reswm nas medrwn ei ddeall yr oedd presenoldeb gweledig yr Iesu gyda'i ddisgyblion yn cau allan ddylanwadau'r Ysbryd. Ar ol Ei ymadawiad Ef yr oedd gweinidogaeth yr Ysbryd i ddechreu. Pan ymadawai y "priodfab" yna yr "wylent," ac anfonid yr Ysbryd Glan i'w cysuro a'u nerthu.

40. Y "prophwyd" a grybwyllir yma ydyw yr un y rhagddywedwyd am dano yn Deut. xviii. 15, ond nid oedd pawb o'r un farn am dano. Credai rhai mai efe oedd y Messiah addawedig, ond y mae'n amlwg fod rhai o'r bobl hyn beth bynnag yn ei wahaniaethu. Y mae'n bosibl, er hynny, nad oes yma ond gwahaniaeth geiriol, rhai yn defnyddio'r teitl Ysgrythyrol—y "prophwyd" —a'r lleill yn cadw at y teitl wrth ba un yr adnabyddid ef ar lafar gwlad.

41. Ceir y fannod ddwy waith yn yr adnod o flaen Crist i ddynodi mai'r Messiah a olygir. Yr oedd yn bosibl i ereill gael eu hanfon gan Dduw, ond dim ond un Messiah oedd i fod.

42. "*Mai o had Dafydd, ac o Bethlehem,*" &c. Yr oedd y bobl hyn yn hyddysg yn y prophwydoliaethau ac yr oedd eu gwybodaeth am le genedigol y Messiah yn gywir (Gwel Mic. v. 2). Y mae rhai beirniaid yn credu fod yma brawf nad oedd awdwr yr Efengyl yn gwybod am enedigaeth yr Iesu yn Methlehem. Credwn mai dadl unochrog iawn sydd ganddynt. Yr oedd efe ei hun yn gwybod y gwirionedd am enedigaeth yr Iesu, ond nid oedd hynny yn rheswm paham y dylai ddarlunio yr Iddewon llidiog hyn fel yn gwybod yr hyn na wyddent.

43 Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl o'i blegid ef.
44 A rhai o honynt a fynnasent ei ddal ef: ond ni osododd neb ddwylaw arno.
45 ¶ Yna y daeth y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Paham na ddygasoch chwi ef?
46 A'r swyddogion a attebasant, Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.
47 Yna y Phariseaid a atebasant iddynt, A hudwyd chwithau hefyd?
48 A gredodd neb o'r pennaethiaid ynddo ef, neu o'r Phariseaid?

---

43. Ymraniad ydyw ystyr briodol y gair a gyfieithir yma "ymrafael." Y mae'r gair gwreiddiol yr un a'r gair "sism" a geir yn y Litani. Ni ddefnyddir ef yn y Test. Newydd i olygu ymraniad oddiwrth yr Eglwys, ond defnyddir ef yn fynych am ymrafaelion o fewn yr Eglwys (Gwel I. Cor. i. 10).

44. Rhai o'r "bobl" a olygir yma, nid arweinwyr y genedl. Ond ni osododd neb ddwylaw arno, mae'n debyg, am yr un rheswm ag yn adn. 30, "am na ddaethai Ei awr Ef ato."

45. Y "swyddogion" a anfonwyd yn adn. 32 yw y rhai sydd yn dychwelyd yn awr. Ni cheir y fannod o flaen y gair Phariseaid yma, felly rhaid yr edrychir arnynt fel un corph,—y Sanhedrin. Meddylia rhai fod y cyngor hwnnw wedi parhau i eistedd er pan yr anfonwyd y swyddogion.

46. Yn ol y darlleniad cywiraf y cyfieithiad priodol yw, "Ni lefarodd dyn erioed fel hyn." Rhaid fod rhywbeth rhyfedd yng ngwedd neu ddull yr Iesu i syfrdanu'r swyddogion hyn i'r fath raddau nes peri iddynt anghofio eu dyledswyddau.

47. Yr oedd rhagfarn gydwybodol gan y Phariseaid yn ei erbyn, ond ofn colli eu swydd a'u dylanwad oedd ar yr Archoffeiriaid gwleidyddol hyn.

"*A hudwyd chwithau hefyd?*" Yr un gair a geir yma ag a gyfieithir "twyllo" yn adn. 12.

48. Wrth y penaethiaid yma y golygir aelodau'r Sanhedrin, pobl fwyaf parchus (?) y brif-ddinas.

49 Eithr y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.

50 Nicodemus (yr hwn a ddaethai at yr Iesu o hyd nos, ac oedd un o honynt) a ddywedodd wrthynt.

51 A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe?

52 Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea.

---

49. Prawf amlwg fod yr Iesu yn llefaru fel na lefarodd dyn erioed ydyw fod tyrfa mor fawr yn parhau i wrando arno gyda'r fath aiddgarwch. Y mae'r Phariseaid yn awr wedi colli eu tymer, ac yn barod i ddirmygu pawb a phobpeth ond hwy eu hunain. Nid oedd neb ond hwy yn meddu gwybodaeth o'r gyfraith, ac yr oeddent yn sicr eu bod hwy yn gadwedig trwy hynny, gan hynny demnid pawb ereill na feddent y wybodaeth honno.

50. Dywedir mai'r darlleniad cywir yma ydyw "yr hwn a ddaeth at yr Iesu o'r blaen." Gwelir dadblygiad amlwg yn nghymeriad Nicodemus. Yn iii. 2 daeth at yr Iesu yn dawel wrtho ei hun, ond yma y mae'n cyfodi ei lais o'i blaid yn y Sanhedrin ac efe "yn un o honynt."

51. Cyfeirio y mae Nicodemus yn ddiau at y ddarpariaeth er sicrhau cyfiawnder a ordeiniwyd yn Deut. i. 16. Yr oeddent hwy eisoes wedi condemnio'r Iesu cyn ei gael i aros ei brawf ac amddiffyn ei hun.

52. "*Na chododd un prophwyd o Galilea.*" Dywedir mai darlleniad cywirach yma ydyw "nad oes un prophwyd yn cyfodi o Galilea," ac y mae hyn i raddau yn egluro'r anhawster a geir yma. Barna y rhai a dderbyniant y darlleniad yma ei fod yn cyfeirio at y dyfodol yn hytrach na'r gorphennol. Yr hyn oeddent hwy am i Nicodemus weled yn yr ysgrythyr ydoedd nad oedd yna yr un brophwydoliaeth yn son am i brophwyd gyfodi o Galilea. Os derbynnir y darlleniad cyffredin, yna yr oeddent yn anghywir, medd yr esbonwyr, gan fod lliaws mawr o brophwydi'r Hen Dest. wedi codi o Galilea. Ond credwn fod pwyslais i'w roddi ar y gair "Galilea." Nid o wlad Israel, o'r deyrnas ogleddol a ddywedant, ond o'r dalaeth

53 A phob un a aeth i'w dŷ ei hun.

PENNOD VIII.

A'r Iesu a aeth i fynydd yr Olewydd:
2 Ac a ddaeth drachefn y bore i'r deml; a'r holl bobl a ddaeth atto ef: yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt.

Rufeinig gyda'i phoblogaeth gymysg a'i thueddiadau Cenhedlig a rhydd-feddyliol. Yr oedd y Galileaid i raddau helaeth o'r tu allan i gylch dylanwad crefyddol y brif-ddinas, ac felly nis gellid byth ddisgwyl goleuni oddiyno.

53. Yn ol pob tebyg dylid cyfuno'r adnod hon â'r adran gyntaf yn y bennod ddilynol fel y gwneir yn y Cyf. Diwyg; felly nis gellir dweud o ba gyfarfod y bu iddynt ymadael i'w cartrefi fel hyn.

PENNOD VIII.

Y WRAIG A DDALIWYD MEWN GODINEB.—PENNOD VIII. 1—11.

Ni cheir yr adran hon o gwbl yn y llawysgrifau henaf, ac ni cheir dim son am dani o gwbl gan y rhan fwyaf o'r tadau Cristionogol. Y mae'n gwahaniaethu o ran iaith ac o ran arddull yn gyfangwbl oddiwrth yr Efengyl hon. O ganlyniad y mae wedi cael ei osod mewn amrywiol fannau yn yr Efengylau ar wahanol adegau. Gosodwyd hi gan rai ar ol vii. 36, gan ereill ar ddiwedd yr Efengyl hon, a chan ereill drachefn ar ddiwedd pennod xxi. yn Efengyl S. Luc. Ond er y condemnir hi felly fel rhan o unrhyw un o'r Efengylau canonaidd, eto barna y rhan fwyaf o esbonwyr mai nid ffrwyth dychymyg a geir yma ond hanes gwirioneddol. Yr oedd yn draddodiad yn yr Eglwys foreuol, ond ni roddwyd y ffurf hon arno gan unrhyw Efengylwr.

1. "*I fynydd yr Olewydd.*" Ni enwir y mynydd hwn gan yr Efengylwr mewn unrhyw fan arall, a'i arferiad gyffredin ydyw rhoddi gair o eglurhad pan y crybwylla le newydd.

2. Ceir dau air yn yr adnod hon na arferir mo honynt gan yr awdwr hwn, sef y geiriau am "boreu," a "phobl,"

3 A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a ddygasant atto ef wraig, yr hon a ddaliesid mewn godineb; ac wedi ei gosod hi yn y canol,

4 Hwy a ddywedasant wrtho, Athraw, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu.

5 A Moses yn y gyfraith a orchymynodd i ni labyddio y cyfryw: beth gan hynny yr wyt ti yn ei ddywedyd?

6 A hyn a ddywedasant hwy, gan ei demtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef. Eithr yr Iesu, wedi ymgrymmu tu a'r llawr, a ysgrifenodd â'i fys ar y ddaear, heb gymmeryd arno eu clywed.

---

ac yn niwedd yr adnod cawn frawddeg, "Yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt," sydd yn hynod nodweddiadol o'r Efengylau ereill.

3. Ni sonia'r awdwr hwn am yr "ysgrifenyddion a'r Phariseaid"; yr "Iddewon" a'r "Archoffeiriaid a'r Phariseaid" yw yr enwau a geir ganddo ef ar wrthwynebwyr yr Iesu. Ceir yr "ysgrifenyddion a'r Phariseaid" yn yr Efengylau ereill. Credir fod y wraig hon wedi ei dwyn atynt hwy yn gyntaf er mwyn iddi dderbyn y gosbedigaeth briodol am ei throsedd (Gwel Deut. xxii. 23, &c.).

5. Llabyddio oedd y gosb a weinyddid ar forwyn wedi ei dyweddio os cyflawnai'r trosedd hwn (Gwel Deut. xxii. 23, 24). Dywed traddodiad Iddewig (a geir yn y Talmud) mai llindagu'r troseddwyr a wneyd mewn achosion ereill. Credwn nad oedd yr un cam-ddealltwriaeth ynghylch y trosedd a gyflawnodd y wraig, na'r gosb briodol am dano. Yr hyn mae'r "ysgrifenyddion a'r Phariseaid" eisiau wybod ydyw (fel y gwelir oddiwrth adn. 6) a oedd Efe—y dysgawdwr newydd a honai awdurdod mor fawr—o'r un farn a Moses yn y ddeddf.

6. "*A hyn a ddywedasant hwy, gan Ei demtio Ef.*" Os dywedai'r Iesu fod y gosb yn rhy drwm yna caent gyfleustra i'w gyhuddo gerbron y dorf o beidio cadw cyfraith Moses, ac os dywedai fod yn briodol ei chosbi fel yr ordeiniodd Moses yna byddai yr Iesu yn euog o dorri deddf Rhufain, yr hon a waharddai labyddio. Cymharer y cwestiwn a geir yn S. Math. xxii. 17 parthed arian y deyrnged.

"*Eithr yr Iesu . . . . heb gymeryd arno eu clywed.*" Ni cheir y geiriau olaf "heb gymeryd arno eu clywed"

7 Ond fel yr oeddynt hwy yn parhâu yn gofyn iddo, efe a ymuniawnodd, ac a ddywedodd wrthynt, Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.

8 Ac wedi iddo eilwaith ymgrymmu tu a'r llawr, efe a ysgrifenodd ar y ddaear.

9 Hwythau, pan glywsant *hyn*, wedi hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan o un i un, gan ddechreu o'r hynaf hyd yr olaf: a gadawyd yr Iesu yn unig, a'r wraig yn sefyll yn y canol.

10 A'r Iesu wedi ymuniawnu, ac heb weled neb ond y wraig, a ddywedodd wrthi, *Ha* wraig, pa le y ae dy gyhuddwyr di? oni chondemniodd neb di?

---

yn y gwreiddiol, ond ffurfiant, yn ol pob tebyg, eglurhad cywir ar ymddygiad yr Iesu. Dengys y ferf "ysgrifennodd" (amser amherffaith), yn ogystal a dechreu'r adnod nesaf, fod yr Iesu wedi parhau i wneud hynny am gryn amser.

7. "*Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.*" Yn ol deddf Moses mewn rhai achosion gofynnid i'r tyst yn erbyn y cyhuddedig daflu y garreg gyntaf, ac yna "yr holl bobl." Tebyg fod cyfeiriad yma at yr arferiad hwnnw. Ystyr y gair "dibechod" yma ydyw rhydd oddiwrth y trosedd neilltuol hwnnw, ac y mae'r hyn a ddilynodd y cwestiwn yn ffurfio darlun tywyll iawn o foesoldeb cymdeithasol yr oes. Dyma'r unig weithred bechadurus unigol y mae gennym hanes am yr Iesu'n sylwi arni.

8. Disgwyl am atebiad yr ydoedd yr Iesu; ni chredwn fod dim pwysigrwydd yn perthyn i'r hyn a ysgrifennodd.

9. Ceir yma eto eiriau eglurhaol,—"wedi eu hargyhoeddi gan eu cydwybod," nad oes iddynt le yn y gwreiddiol (Cyf. Diwyg.). Y mae'r gair a gyfieithir "henaf" yn deitl neilltuol, ond ni ddefnyddir ef yn yr ystyr honno yma. "Yn unig" o ran ei chyhuddwyr a feddylir, oherwydd sonnir yn adn. 2 am yr Iesu yn dysgu Ei ddisgyblion. Rhaid fod y rhai hynny yn aros o hyd.

10. Ni cheir y gair a gyfieithir yma "condemnio" mewn un man yn yr Efengyl hon, ond ceir ef naw gwaith yn yr Efengylau ereill.

11 Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha mwyach.

12 ¶ Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.

---

11. Nid yw y teitl "Arglwydd" yn golygu fod y wraig yn gwybod pwy oedd yr Iesu mewn gwirionedd. Arwydd o barch yn unig ydyw.

"*Nid wyf finnau yn dy gondemnio di,*" &c. Gallasai'r Iesu wneud hynny yn ol y rheol a osododd i lawr yn adn. 7. Nid yw yn golygu o'r ochr arall Ei fod yn ystyried y wraig yn ddieuog. Cyfeirio y mae yn y gair "condemnio" at y gosbedigaeth a weinyddid yn ol y ddeddf.

DYSGEIDIAETH BELLACH YR IESU—EI DYSTIOLAETH AM DANO EI HUN.—ADNODAU 12—20.

12. Dylid uno yr adnod hon â vii. 52, ac felly ceir o hyd i'r cysylltiad priodol. Gadawyd yr Iesu eto wedi ymgymeryd âg annerch y torfeydd, ond mewn tôn mwy tawel. Ni ddywedir yma ei fod wedi llefain (Gwel vii. 37).

"*Goleuni y byd ydwyf fi.*" Tybir gan esbonwyr yn gyffredin fod y ffugr yma o oleuni eto wedi ei fenthycio oddiwrth un o ddefodau gŵyl y Pebyll. Ymddengys y byddent yn arferol o roddi arddanghosiad arwydd-luniol, ar noson gyntaf yr ŵyl ac o bosibl ar nosweithiau ereill, o'r golofn dân fu yn arwain y genedl yn yr anialwch; y noson honno goleuid y canhwyllbren aur enfawr. Ac y mae'r Iesu yn cymeryd mantais ar yr arferiad, megis y gwnaeth â'r "dwfr" yn vii. 37, i roddi datguddiad pellach o hono Ei Hun. Mae'n bosibl hefyd, fel y tybia rhai, fod "Goleuni" yn un o'r enwau arferedig am y Messiah. Yma drachefn gwelir yr Iesu yn gosod Ei Hun allan nid fel "goleuni" i'r genedl ond i'r byd (Cymh. vi. 51; vi. 33; iii. 18).

"*Yr hwn a'm dilyno i.*" Ceir yma hefyd gyfeiriad at y golofn dân oedd yn arwain y genedl yn yr anialwch. Sylwer hefyd mai dilyn yr Iesu a ddywedir ac nid dyfod i wybod am Ei ddysgeidiaeth.

13 Am hynny y Phariseaid a ddywedasant wrtho, Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun; nid yw dy dystiolaeth di wir.

14 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwy, Er fy mod i yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir: oblegid mi a wn o ba le y deuthum, ac i ba le yr ydwyf yn myned; chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.

"*Yr rodia yn y tywyllwch eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.*" Ceir y fannod o flaen y gair "tywyllwch" i arddangos mai tywyllwch moesol a feddylir,—y tywyllwch hwnnw sydd gyferbyniol i'r "goleuni." Caiff yr hwn a ddilyno'r Iesu y "goleuni" hwn nid yn unig i fyned o'i flaen, ond hefyd i drigo ynddo, nes dyfod o hono ef ei hun o'r diwedd yn ffynhonnell goleuni (Gwel ar vi. 38). Yn y byd naturiol goleuni sydd i raddau helaeth yn creu bywyd, ond yn y byd ysbrydol bywyd sydd yn cynyrchu goleuni,—bywyd yr Iesu yn gyntaf ac yna bywyd y credadyn a oleuwyd ganddo.

13. Y mae'r cyfieithwyr Cymraeg yma wedi rhagori ar y rhai Saesneg trwy gadw yr un gair yma ag a ddefnyddir trwy gydol yr Efengyl,—"tystiolaethu," "tystiolaeth." Dygir dau gyhuddiad yma yn erbyn yr Iesu. (1.) Tystiolaethu am dano Ei Hun, nid oedd y cyfryw dystiolaeth yn ddigonol ar y pwnc. Soniasai yr Iesu am yr un egwyddor, yn v. 31. (2.) Dwyn tystiolaeth anwireddus.

14. Y mae'r Iesu yn cydnabod fod rhan o'u hymresymiad yn gywir ond fod y rhan arall yn anghywir, yr egwyddor yn wirionedd ond y casgliad yn gamarweiniol. Dylid cyfieithu yma, "Hyd yn oed os wyf fi," &c. Rhoddir pwyslais neilltuol ar y rhagenw "fi" i ddangos y gwahaniaeth dirfawr a fodolai rhwng Ei dystiolaeth sicr Ef a'u mympwy sigledig hwy.

"*Oblegid mi a wn o ba le y daethum ac i ba le yr ydwyf yn myned.*" Yr oedd Efe yn meddu gwybodaeth o'r gorphennol yn ogystal a'r dyfodol, ac felly rhaid Ei fod yn gwybod hefyd i sicrwydd am y presennol, oherwydd y mae yna gysylltiad agos rhwng y tri. Y mae'r gair a ddefnyddir am "wybod" yn golygu gwybodaeth lwyr a chyflawn, yn tarddu oddiar ymwybyddiaeth sicr,

15 Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd; nid ydwyf fi yn barnu neb.

16 Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir: oblegid nid wyf fi yn unig, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

17 Y mae hefyd yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn.

---

ac nid yn ffrwyth sylwadaeth neu ymchwiliad. Gwyddai am Ei gynhanfodiad gyda'r Tad er tragywyddoldeb cyn dydd Ei Ymgnawdoliad, a gwyddai Ei fod i ddychwelyd drachefn i'r gogoniant hwnnw ar ol gorphen Ei waith.

"*Chwithau nis gwyddoch,*" &c. Os gwybodaeth fel a ddesgrifiwyd ydoedd yna nis gallent hwy eu meddu; nid oedd eu hymwybyddiaeth hwy yn ddigon sicr na'i gwelediad ysbrydol yn ddigon clir. Ceisient roddi pob eglurhad daearol a allent ddychymygu ar fawredd Person yr Iesu, ond ni feddyliasant unwaith ddweud mai o'r nef oedd y daeth.

15. "*Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd.*" Yr oeddent yn cael eu hanaddasu i ffurfio barn gywir gan ddau beth. (1.) Yr oeddent yn gnawdol o ran eu meddyliau, ac felly nis gallent synied am bethau ysbrydol (Gwel ar adn. 14). (2.) Eu harferiad hwy oedd barnu oddiwrth ymddanghosiad allanol heb geisio deall y meddwl a'r ystyr (Gwel ar vii. 24).

"*Nid wyf fi yn barnu neb.*" Y mae rhai am ychwanegu yma y geiriau "yn ol y cnawd," neu "fel y bernwch chwi," ond credwn mai gwell yw cadw at ystyr gyffredinol y geiriau,—na ddaeth Mab y Dyn i farnu neb, ond i "geisio ac i gadw yr hyn a gollasid."

16. Nid oedd yr Iesu yn anghymwys i farnu pe mynnai. Yr oedd yn meddu ar yr awdurdod i farnu, ac hefyd ar y wybodaeth angenrheidiol i ffurfio barn gywir (Gwel ii. 25). Yr oedd Ei farn Ef yn gywir am nad oedd, megis y Phariseaid, yn barnu wrth yr ymddangosiad. Yr oedd Ef yn medru treiddio i ddirgelion pethau, a'u gweled megis ag yr oeddent. Rheswm arall am gywirdeb Ei farn ydoedd mai nid barn yr Iesu o Nazareth a adwaenent hwy ydoedd, ond barn Mab Duw, a feddai yn rhinwedd Ei berthynas â'r Tad.

17. Nid yw yr ymadrodd "eich cyfraith chwi" yn golygu fod yr Iesu am daflu unrhyw sarhad ar y ddeddf

18 Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fy hun; ac y mae y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi.

19 Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae dy Dad di? Yr Iesu a attebodd, Nid adwaenoch na myfi, na'm Tad: ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd.

---

na gwadu ei dwyfol awdurdod. Yr hyn y mae yn wneud ydyw profi iddynt hwy fod y ddeddf a garent mor fawr yn eu herbyn wedi'r cwbl. Y mae'r rhagenw "chwi" felly yn bwysleisiol. Cyfeirio y mae'r Iesu at Deut. xix. 15, fel y dengys yr ymadrodd sy'n dilyn. Sylwer mai nid dau dyst a ddywed yr Iesu ond "dau ddyn." Os gwir tystiolaeth "dau ddyn" pa faint mwy tystiolaeth dau Berson Dwyfol.

18. Tystiolaethai y Mab trwy Ei ddysgeidiaeth a'i weithredoedd a'i fywyd, a thystiolaethai'r Tad am dano yn Ei Air ac hefyd yn y llais a glywyd o'r nef yn cydnabod Ei fabolaeth. Y mae yn amlwg mai at ryw dystiolaeth y gallai y Phariseaid wybod am dani y cyfeirir ac nid at ymwybyddiaeth y Mab o'r dystiolaeth honno.

19. "*Pa le y mae dy Dad di?*" Y mae eu cwestiwn yn dilyn yn naturiol oddiwrth yr hyn a ddywed yr Iesu yn adn. 18. Y maent yn credu eu bod yn adnabod un tyst, ac y maent am weled y llall. Ni ofynnant pwy oedd Ei dad Ef, a myn rhai eu bod yn deall ystyr y frawddeg "yr hwn a'm hanfonodd i," ac mai mewn gwawd y gofynant y cwestiwn.

"*Nid adwaenoch na myfi na'm Tad.*" Y mae y cyfieithiad Cymraeg yma yn gywirach na'r Saesneg yn lleoliad y geiriau. Oferedd oedd iddynt ofyn y cwestiwn. Yr oedd y ffaith eu bod wedi ei ofyn yn brawf nad oeddent mewn cyflwr ysbrydol priodol i dderbyn yr atebiad. Rhaid oedd iddynt fod yn sicr pwy oeddent yn geisio cyn gofyn pa le yr oedd efe.

"*Ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd.*" Nid oeddent yn adnabod yr Iesu oherwydd yr oeddent yn barhaus yn Ei erlid, ac nid oeddent yn adnabod Duw yr Hwn na welsent os nad oeddent yn adnabod yr Iesu yr hwn a welent. Cymharer y cwestiwn hwn â'r atebiad a roddwyd i S. Phylip—ymofynydd cydwybodol, xiv. 8, &c.

20 Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y trysordy, wrth athrawiaethu yn y deml: ac ni ddaliodd neb ef, am na ddaethai ei awr ef etto.

21 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn, Yr wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, ac a fyddwch feirw yn eich pechod: lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

---

20. "*Yn y trysordy.*" Tybir nad oedd yr un adeilad neilltuol yn y deml a elwid y "trysordy," ond yn nghyntedd y gwragedd yr oedd tair cist ar ddeg, i ba rai y bwriai'r addolwyr eu hoffrymau ariannol. Y tebygolrwydd yw mai y fan honno a olygir wrth y trysordy, ac felly yr oedd yn lle cyhoeddus. Profir hyn hefyd gan waith yr Iesu yn galw sylw ar achlysur arall at offrwm cydwybodol y wraig weddw,—dwy hatling (Gwel S. Marc xii. 41—44).

"*Ac ni ddaliodd neb,*" &c. Nid am nad oeddent yn ddigon digllon wrtho, nac ychwaith am na chawsant gyfleustra, oherwydd llefarai yn y lle mwyaf cyhoeddus yn y deml, ac yn ymyl y neuadd lle y cyfarfyddai y Sanhedrin.

FFYDD GYWIR A FFYDD ANGHYWIR,—EU HANES A'U HELYNT. ADNODAU 21—59.

Yn y rhan gyntaf o'r adran hon danghosir yn eglur pwy yw unig wrthrych ffydd, a desgrifir canlyniadau diffyg ffydd (21—30). Yn adn. 30 sonnir am lawer rhagor yn dyfod i gredu ar ol clywed yr eglurhad a roddwyd gan yr Iesu. Yn yr ail ran ceir desgrifiad pellach o nodweddion a chanlyniadau crediniaeth hunangar yr Iddewon (30—58). Dilynir hyn gan ymdrech fileinig i ymosod ar yr Iesu.

21. "*Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn.*" Ystyr y gair "yna" ydyw "am hynny," a barna llawer iddo draddodi yr anerchiad hwn yr un dydd a'r un blaenorol. Dylid gadael yr enw "Iesu" allan o'r frawddeg hon gan mai llithro i mewn yn ddamweiniol y mae wedi wneud. Dengys y gair "drachefn" fod yna ryw adeg seibiant wedi bod rhwng y ddau anerchiad.

"*Yr wyf fi yn myned ymaith.*" Cyfeirio y mae'r Iesu at ei ymadawiad yn yr angau, ond dichon fod ffurf yr

22 Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, A ladd efe ei hun? gan ei fod yn dywedyd, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod: chwychwi sydd o'r byd hwn; minnau nid wyf o'r byd hwn.

---

ymadrodd wedi cael ei hawgrymmu gan ymadawiad y tyrafoedd o Jerusalem ar ol dydd mawr yr ŵyl. Sylwer Ei fod yn dywedyd mai "myned" y mae yn wirfoddol—nid cael Ei yrru na'i orfodi gan neb.

"*Chwi a'm ceisiwch i ac a fyddwch feirw yn eich pechod.*" Cymharer vii. 34. Y mae y pwyslais i'w roddi ar "ceisiwch." Nid "pechodau" a ddywedir ond "pechod," oblegid cyfeirio y mae at eu cyflwr. Ni ddywedir ychwaith mai marw oherwydd eu pechod a wnant; y mae'r credadyn yn marw oherwydd ei bechod, oblegid "cyflog pechod yw marwolaeth." Y mae'r anghredadyn yn marw yn ei bechod,—yn ei afaelion, fel teyrn gormesol.

"*Ni ellwch chwi ddyfod.*" Am eu bod i farw "yn eu pechod." Yr oedd yr Iesu yn myned i ddychwelyd i'r nefoedd at ei Dad, ond nid oeddent hwy gyda'u natur foesol bydredig yn bobl addas i rodio cynteddoedd glan y lle.

22. "*A ladd Efe ei hun?*" Dengys eu cwestiwn yn eglur nad oeddent wedi camddeall yr Iesu pan yn siarad am y weithred wirfoddol oedd ar gyflawni. Edrychid ar y pechod o hunan-laddiad gan yr Iddewon fel un o'r rhai mwyaf ysgeler, ac eto cynygiant ef fel eglurhad ar ymadawiad yr Iesu. Dengys eu cwestiwn hefyd beth arall—nid oedd un lle rhy sanctaidd fel nas medrent hwy ddringo iddo ar Ei ol, ond nis gallent yn eu balchder hunangar synied am danynt eu hunain yn ei ddilyn i warth.

23. "*Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod.*" Y mae y pwyslais yn amlwg i'w roddi ar "chwychwi" a "minnau." Gallasem feddwl ar yr olwg gyntaf fod yma gyfeiriad at y Gehenna, i ba un, yn ol barn yr Iddew, y disgynai pob hunan-leiddiad, ond y mae yn eglur oddiwrth yr eglurhad a roddir yn y brawddegau dilynol mai nid dyna a olygir. Y mae y

24 Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau: oblegid oni chredwch chwi mai myfi yw *efe*, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.

---

drydedd linell, "Chwychwi sydd o'r byd hwn" yn eglurhad ar y llinell gyntaf, a'r llinell olaf "Minnau nid wyf o'r byd" yn eglurhad ar yr ail linell. Y mae hon yn engraifft dda o'r ffurf Hebreig o gyfansoddi trwy osod brawddegau cyffelyb o ran ystyr ochr yn ochr.

Chwychwi sydd oddi isod,
Minnau sydd oddi uchod;
Chwychwi sydd o'r byd hwn,
Minnau nid wyf o'r byd hwn.

Rhydd y brawddegau cyfochrog syniad hynod eglur am y gwahaniaeth oedd yn bodoli rhwng natur a chymeriad yr Iesu ac eiddo Ei wrthwynebwyr. Dyma oedd y gwir reswm am y gwrthdarawiad parhaus.

24. "*Byddwch chwi feirw yn eich pechodau.*" Y mae y pwyslais yma i'w roddi ar "meirw"; yn adn. 21 pwysleisir ar "pechod." Cyfeirir yma yn y rhif lliosog at wahanol droseddau oedd yn tarddu o'r un ffynhonnell wenwynig a grybwyllwyd yn adn. 21. Y mae "pechodau" dyn fel pob gweithred o'i eiddo yn dechreu yn yr egwyddor fewnol. Rhoddir eglurhad pellach ar natur eu pechodau.

"*Oblegid na chredwch chwi mai myfi yw efe.*" Ni cheir y rhagenw "Efe" yn y gwreiddiol, ond rhoddwyd ef i mewn gan y cyfieithwyr er cyfleu eu syniad hwy am ystyr y geiriau "Myfi yw." Credent hwy mai amcan yr Iesu oedd dweud nad oeddent yn credu ynddo fel Messiah. Y mae esbonwyr ereill am gadw yr "Efe," ond rhoddant iddo ef ystyr wahanol,—"Myfi yw goleuni y byd." Ereill eto a fynnant mai defnyddio'r teitl "Ydwyf" a geir yn yr Hen Dest. (Gwel Ex. iii. 14) y mae yr Iesu. Yr oedd pob Iddew ar unwaith yn gwybod ystyr y teitl hwn. Credwn mai yr eglurhad olaf hwn ydyw y mwyaf cydweddol â'r cysylltiadau. Defnyddia'r Iesu ffordd newydd o gyfeirio at ddwyfoldeb Ei Berson, cymer feddiant o un o deitlau cydnabyddedig y Jehovah, a gwna drosedd yr Iddewon felly yn gyfartal i

25 Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad.

26 Y mae gennyf fi lawer o bethau i'w dywedyd ac i'w barnu am danoch chwi: eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd.

---

beidio credu yn Nuw, yr olaf beth i unrhyw Iddew ei gydnabod.

25. Y mae yn amlwg oddiwrth eu cwestiwn cyffrous, "Pwy wyt ti?" fod yr Iesu wedi dweud rhywbeth na chlywsent ganddo erioed o'r blaen.

"*Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych o'r dechreuad.*" Y mae y frawddeg hon yn yn un o'r rhai mwyaf dyrys i'w ddeall yn yr oll o'r Test. Newydd, ac y mae mwy o wahanol esboniadau wedi eu rhoddi arni nag a ellir hyd yn oed eu crybwyll. Y mae rhai yn edrych arni fel y gwneid gan y cyfieithwyr Cymraeg, âg eithrio'r ymadrodd "o'r dechreuad," a chyfieithant rywbeth yn debyg i hyn, "Yr wyf yn gyfangwbl yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych," a'r meddwl yw fod yr Iesu wedi rhoddi y darnodiad goreu o'i Berson yn Ei eiriau ag a fedrid roddi. Ereill a roddant ffurf ymofynnol ar y frawddeg, "Sut yr wyf hyd yn oed yn siarad â chwi o gwbl?" a'r ystyr a roddir i'r geiriau yw fod yr Iesu am ddangos iddynt ei bod yn anobeithiol i feddwl eu goleuo byth. Yr oedd eu gwaith yn gofyn y fath gwestiwn yn awr yn brawf o hynny. Ereill eto a gredant mai y cyfieithiad priodol yw, "y dechreuad—yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych," syniad tebyg i'r un a geir yn llyfr y Datguddiad (i. 8), "Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd." Credwn mai'r ail esboniad ydyw yr un cywir. Yr oedd amryw ymrafaelion wedi bod rhyngddynt a'r Iesu ar gwestiynau cyffelyb i'r cwestiwn hwn, "Pwy wyt ti?" ac yr oeddent wedi profi yn eglurach un tro ar ol y llall eu hanallu i dderbyn unrhyw oleuni arnynt. Nid oeddent yn y cyflwr a'r cydymdeimlad priodol i ddeall yr Iesu.

26. Tebyg y dylid cysylltu'r adnod hon âg adn. 24, ac edrych ar y cwestiwn a'r atebiad yn adn. 25 fel mewn cromfachau. Yr oedd yr Iesu yn adn. 24 wedi eu con-

27 Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy.

28 Am hynny ý dywedodd yr Iesu wrthynt, Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *efe*, ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.

---

demnio i farw yn eu pechodau, ac wedi rhoddi engraifft o'r pechodau hynny, ac yma â ymlaen i ddweud fod ganddo lawer o bethau caled cyffelyb i'w dweud am danynt. Byddai i'r pethau hynny greu rhwyg pellach rhyngddynt, ond yr oedd yn rhaid i'r Iesu ddyrchafu Ei lais yn erbyn eu llygredigaeth, neu ni fuasai'n ffyddlon i'r Hwn a'i hanfonodd, yr Hwn oedd "gywir." Nid oedd yn gwneud dim anghyfiawnder â hwynt oblegid nid oedd yn gwneud dim ond rhoddi datguddiad o farn gyfiawn y "cywir" hwnnw.

"*A'r pethau a glywais i ganddo,*" *&c.* Parhad o'r syniad a geir yn y frawddeg flaenorol,—y pethau a glywodd Efe gan y "cywir" hwnnw, oedd barn ar y genedl am ei hanffyddlondeb a'i hangrediniaeth. Y mae rhai o'r farn mai cyfeiriad sydd yn y tair brawddeg hyn at y gwaith yr anfonwyd yr Iesu i'w gyflawni, nid cyhoeddi barn, er y gallai wneud hynny, ond cyhoeddi iachawdwriaeth (Gwel adn. 15). Ond nis gallai yr Iesu ddyfod i'r byd i ddatguddio trefn Duw er achub pechadur edifeiriol heb ar yr un pryd gondemnio, trwy y cyfryw ddatguddiad, yr anedifeiriol.

27. "*Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd Efe yn dywedyd wrthynt hwy.*" Rhaid medd rhai mai nid yr un rhai oedd yn gwrando arno yn awr, oblegid yn adn. 18 y mae wedi egluro mai y "Tad" oedd "yr hwn a'i hanfonodd Ef." Cred ereill eu bod wedi meddwl mai am y Messiah daearol y disgwylient am dano y soniai'r Iesu, a'u bod felly yn anaddas i dderbyn unrhyw ddatguddiad ynghylch y Tad. Yr olaf ydyw y mwyaf tebygol.

28. "*Pan ddyrchafoch chwi Fab y Dyn.*" Nid oes hanes fod yr Iesu yn cyfarfod unrhyw wrthddadl neilltuol o eiddo'r Iddewon, gan hynny rhaid Ei fod wedi deall, heb help geiriau, feddyliau a dychymygion dirgelaf eu calonnau. Dyrchafu i'r groes a olygir, ac, fel

29 A'r hwn a'm hanfonodd i sydd gyd â myfi: ni adawodd y Tad fi yn unig; oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo ef.

---

y mae esbonwyr lawer wedi dweud, ei ddyrchafu trwy'r groes i'w orsedd ogoneddus. Yr un gair a geir yma am "ddyrchafu" ag a ddefnyddiwyd yn iii. 14 am Moses yn dyrchafu'r sarff bres yn y diffaethwch.

"*Ceisch wybod mai myfi yw efe.*" Yr un gair a ddefnyddir yma am wybod ag yn adn. 27, a golyga ddyfod i wybod trwy weled a sylwi. Pan ddyrchafent Fab y Dyn i'r groes deuent i wybod mai Efe oedd *y* Messiah, nid y gwaredwr a ddisgwylient hwy, ond y fath waredwr ag a ddesgrifiasai Efe iddynt,—Messiah oedd ar yr un pryd yr "Ydwyf" mawr ei hunan. Yr un ystyr sydd i'r ymadrodd yma yn ddiau ag yn adn. 24, ac felly dylid gadael "efe" allan.

"*Nad wyf fi yn gwneuthur dim . . . . megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.*" I'r Iddewon hyn a feddiennid mor hollol gan uchelgais bersonol, yr oedd gwaith yr Iesu yn ymroddi â'i holl fryd i gyflawni ewyllys un arall yn ddirgelwch anirnadwy. Fel y dengys amseriad y ferf "dysgodd" cyfeiria'r Iesu at yr hyn a dderbyniodd gan Ei Dad fel wedi ei roddi iddo Ef ar unwaith, a hynny cyn bod amser, ond nis dadguddiwyd hyn i'r byd ond yn raddol yn nysgeidiaeth ein Harglwydd, ac yn bennaf oll yn Ei fywyd a'i farwolaeth hunan-ymwadol. Y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedir yma fod dysgu'r bobl yn rhan hanfodol o'r gwaith a roddwyd iddo Ef gan y Tad i'w gyflawni.

29. Gan fod y Duw-ddyn wedi cymeryd y natur ddynol i undeb â'r natur ddwyfol yr oedd yn rhaid fod yna ryw gyfnewidiad yn y berthynas a fodolai rhwng y Tad a'r Mab, neu yn hytrach dylem ddweud fod yna berthynas newydd wedi dyfod i fodoli rhwng y ddau yn ychwanegol at yr hen berthynas. Rhaid mai rhywbeth yn ngwaith yr Iesu yn ystod tymor Ei Ymgnawdoliad oedd yn cyfrif am y llef o'r nef yn cydnabod boddlonrwydd y Tad. Mor bell ag yr oedd y natur ddwyfol yn myned, yr oedd y Mab erioed wedi bod ym "mynwes y Tad,"—yn yr ystyr o fod yn wrthrych cariad y Tad. Credwn fod y llef honno wedi dyfod er goleuo'r byd. Pe na buasai'r

30 Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo ef.

---

llef ond yn cyfeirio at y cydgordiad perffaith a fodolai yn yr hanfod, nis gallwn synied am ddynoliaeth yn dyfod i unrhyw amgyffrediad o hono. Ond os oedd y boddlonrwydd yn tarddu oddiar yr hyn a wnaed gan Fab y Dyn, yna yr oedd yn perthyn i ddynoliaeth wybod am dano, yr oedd yn rhan hanfodol o drefn yr iachawdwriaeth.

"*Oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser . . . foddlawn ganddo ef.*" Cyfeirio y mae'r Iesu yn ddiddadl at Ei "weithredoedd" yn ystod cyfnod Ei Ymgnawdoliad, —y gweithredoedd y bu yr Iddewon yn llygad-dystion o lawer o honynt. Honnir fod yma gyfeiriad neilltuol at ddwyfoldeb Person yr Iesu. Y mae yma fwy na hynny. Mab Duw wedi dyfod yn Fab y Dyn oedd yn cyflawni'r gweithredoedd ac yn rhoddi'r boddlonrwydd. Ond nis gallai neb feddu y fath sicrwydd ei fod yn boddloni y Tad ym mhob peth a wnaethai ond yr Hwn oedd Fab Duw.

30. "*Llawer a gredasant ynddo ef.*" Myn rhai esbonwyr mai yr un rhai yw y "llawer" hyn "a gredasant" a'r Iddewon y sonnir am danynt yn yr adnod nesaf. Os felly, rhaid mai ffydd arwynebol a gwan a feddent, oherwydd y mae yn torri i lawr o flaen y prawf a roddodd yr Iesu arni. Er hynny rhaid ei bod yn rhagorach na'r ffydd a feddai y rhai a gredasant yn ii. 23 wrth "weled yr arwyddion a wnaethai Efe." Credodd y rhai hyn ar ol clywed Ei ddysgeidiaeth.

Ond os sylwir yn fanwl ar eiriad y ddwy adnod gwelir mai nid yr un ymadrodd a ddefnyddir yn y gwreiddiol yn y naill a'r llall. Nis gallwn ddangos y gwahaniaeth yn rhyw eglur iawn yn Gymraeg. Y cyfieithiad agosaf a fedrir roddi ydyw, "credu ynddo ef" yn yr adnod hon, a'i "gredu ef" yn yr adnod nesaf. Y mae "credu ynddo Ef" yn golygu mwy na chredu yn ngeirwiredd Ei dystiolaeth, y mae yn golygu hefyd ymorphwys arno Ef. Nid yw Ei "gredu Ef" yn golygu dim mwy, o angenrheidrwydd na chredu Ei fod yn dweud y gwir mor bell ag y gwyddai, h.y., ei fod yn berffaith gydwybodol. Y

31 Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant ynddo, Os arhoswch chwi yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wir;

---

mae y desgrifiad pellach a roddir o'r rhai a gredasant—"Iddewon"—braidd yn ffafrio'r golygiad hwn.

ADNODAU 31—59.

Yn yr ymddiddan a gofnodir yn yr adran cawn gyfres o wrthddadleuon yr Iddewon yn erbyn ufuddhau i anogaeth yr Iesu i edifarhau, &c. Haerant hwy nad oes angen unrhyw gyfnewidiad na gwellhad arnynt, plant rhagorfraint oeddent hwy, had Abraham ac etifeddion holl addewidion Duw. Yr oeddent yn hen genedl, yn genedl a thraddodiadau ardderchog ac yn genedl oedd mewn perthynas â Duw. Ofer fu ymdrech yr Iesu o ganlyniad i geisio eu goleuo ar natur ysbrydol teyrnas nefodd. Ni wnaeth ei gyfeiriad at yr angen am "ryddhad" ond eu cynddeiriogi, ac o'r diwedd galwasant Ef yn Samaritan, taerasant fod ganddo "gythraul," ac yn olaf oll cyrhaeddodd eu digllonedd y fath eithafbwynt nes iddynt wneyd ymdrech i'w labyddio yn y man a'r lle.

31. Ymddengys fod yr Iddewon hyn a'i "credasant Ef" (Gwel ar adn. 30) yn cydnabod Ei hawl i alw Ei Hun y Messiah, ond eto Messiah ydoedd iddynt hwy hefyd o'r fath ag yr oeddent yn ddisgwyl, ac o ganlyniad bu i ymddiddan pellach yr Iesu â hwy ddymchwelyd eu holl obeithion, oblegid taflodd sarhad (fel y tybient hwy) ar eu rhagorfreintiau cenedlaethol.

"Os arhoswch chwi yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wir." Yr oedd yr Iddewon hyn a gredasant, er hynny, wedi cymeryd rhyw fath o gam cyntaf i gyfeiriad y Messiah gwirioneddol ac y mae yr Iesu yn prysuro i'w goleuo ymhellach rhag iddynt feddwl eu bod eisoes wedi dyfod i adnabyddiaeth gyflawn o hono. Yr oedd bod yn ddisgyblion iddo Ef yn gofyn am lawer mwy na'r grediniaeth arwynebol a arddangosasent. Nid rhyw gyfaddefiad sydyn yn tarddu oddiar frwdfrydedd y foment ydoedd ffydd yn Nghrist; yr oedd yn rhaid iddynt barhau i "aros yn ei air ef." Sylwer mai "gair" ac nid 'geiriau" a ddywedir. Edrychir ar ddysgeidiaeth yr

32 A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

33 ¶ Hwythau a attebasant iddo, Had Abraham ydym ni, ac ni wasanaethasom ni neb erioed: pa fodd yr wyt ti yn dywedyd, Chwi a wneir yn rhyddion?

Iesu fel un cyfangorph mawr oedd i fod yn safon ffydd a buchedd yn hanes ei wir ganlynwyr.

32. "*A chwi a gewch wybod y gwirionedd.*" Trwy "aros" yn Ei "air" Ef yr oeddent i ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd. Rhaid fod y geiriau hyn yn rhyw ddatguddiad rhyfedd i genedl oedd wedi bod am oesau yn ymfalchio yn y ffaith mai hwy o holl genhedloedd y ddaear oedd—ym myd crefydd—mewn meddiant o'r gwirionedd. Addaw y deuent i wybod oedd y cyfan wnaeth yr Iesu; y mae y ferf yn yr amser dyfodol, ac y mae ystyr y gair gwreiddiol ynddo ei hun yn ddigon i brofi fod yna gyfnod o amser i fyned heibio cyn y deuent i feddu'r wybodaeth. Golyga'r gair ddysgu trwy brofiad. Y mae yr Iesu am argraffu ar eu meddyliau hefyd mai nid rhywbeth i'w adrodd a'i ysgrifennu ydoedd y gwirionedd ond rhywbeth i'w deimlo ac i fyw wrtho.

"*A'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi.*" Mae'n amlwg oddiwrth adn. 34 mai nid rhyddid gwleidyddol a olygir; nid addaw y byddai iddynt gael dyfod yn genedl anibynnol y mae'r Iesu. Son y mae am ryddid moesol ac ysbrydol yr hwn a dderbynient pan ddeuent i wybod y gwirionedd.

33. "*Hwy a atebasant iddo.*" Pwy a olygir wrth "hwy" yma? Y mae rhai beirniaid yn ei theimlo'n anhawdd i gredu mai at yr Iddewon a gredasant (adn. 31) y cyfeirir yma, a hynny yn bennaf am fod yr Iesu yn eu cyhuddo o geisio ei ladd yn adn. 40 ac yn eu galw yn "blant y diafol" yn adn. 44. Ond os yw y desgrifiad a roddasom o ffydd y gwŷr hyn yn gywir (gwel ar adn 31), yna nid yw yn gymaint syndod fod eu crediniaeth wan ac arwynebol wedi rhoddi ffordd i'r fath gynddeiriogrwydd o flaen prawf caled yr Iesu. Tynnodd ein Harglwydd i lawr eu holl gastell hardd o hunan-ddibyniaeth a balchder cenedlaethol, ac nid rhyfedd eu bod wedi ffromi cymaint.

34 Yr Iesu a attebodd iddynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod.

"*Had Abraham ydym ni, ac ni wasanaethasom ni neb erioed.*" Ystyr lythyrennol y gair a gyfieithir yma "gwasanaethu" ydyw "caeth-wasanaethu." Ond pa gaethiwed a olygir? Tybia rhai mai at gaethiwed yr Aipht neu'r caethgludiad i Babilon y cyfeirir, a honnant fod y bobl hyn yn eu digllonedd yn gwadu pob un o'r ddau. Ereill a dybiant fod yma gyfeiriad at y caethiwed Babilonaidd yn ogystal a'r iau Rufeinig, ond credant hwy mai nid gwadu eu bod wedi cael eu gorfodi i drigo yn Babilon ac i dalu'r deyrnged Rufeinig y maent ond protestio, er iddynt fod wedi eu darostwng yn allanol, nad oedd eu hysbryd anibynnol wedi ei garcharu yn nghanol caethiwed. Ereill drachefn a gredant mai honni y maent nad ydynt, er eu holl drafferthion gwleidyddol, wedi colli eu hanibyniaeth a'u rhyddid crefyddol. Dosbarth arall eto o esbonwyr a fyn mai cyfeirio y maent at ryddid personol. Er eu bod wedi dioddef caethiwed cenedlaethol—hwy wedi cael eu halltudio o'u gwlad, eto nid oedd yr un aelod unigol wedi bod yn gaethwas. Credwn nad oedd yr Iddewon hyn yn sicr eu hunain beth a olygent yn hollol trwy ddweud na fuont mewn caethiwed. Nid yw eu gwrthddadl mewn un ystyr yn anhebyg i eiddo addolwyr y dduwies yn Ephesus, "Mawr yw Diana'r Ephesiaid." Yr oeddent wedi ffyrnigo i'r fath raddau o dan y sarhad a gynhwysid yn y syniad eu bod hwy i ddyfod i fwynhau rhyddid, fel nad oeddent mewn cyflwr priodol i ddadleu yn rhesymol.

34. "*Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod.*" Nid cyflawni gweithredoedd pechadurus a olygir, oblegid y mae pawb o blant dynion yn gwneud hynny, ond byw bywyd o bechod, h.y., bywyd sydd a phechod yn egwyddor lywodraethol iddo. Edrychir ar bechod felly yn hanes y cyfryw rai fel caethfeistr, a'r rhai sydd ddarostyngedig i'w ddylanwad fel caeth-weision. Dyma eglurhad yr Iesu ar y gair "rhyddid" yn adn. 32.

35 Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ byth: y Mab sydd yn aros byth.

36 Os y Mab gan hynny a'ch rhyddhâ chwi, rhyddion fyddwch yn wir.

---

35. "*Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ byth; y Mab sydd yn aros byth.*" Y mae y brawddegau hyn yn wir am unrhyw deulu lle y ffynnai caethwasanaeth, ond credwn fod yma gyfeiriad neilltuol at hanes Isaac ac Ishmael yn yr oes batriarchaidd, hanes yn ddiddadl oedd yn wybyddus ddigon i'r Iddewon a wrandawent ar yr Iesu. Bwriwyd Ishmael allan o deulu Abraham am mai mab y gaethes ydoedd, ac yn ol dysgeidiaeth yr Iesu bwrir allan gaethwas pechod o deulu Duw am ei fod yn gaethwas. Y mae rhai am i ni gredu mai dysgu athrawiaeth y mabwysiad y mae'r Iesu yma, ond yr unig reswm a welwn dros gredu hynny yw fod rhai o ysgrifenwyr y Test. Newydd yn defnyddio'r hanes dan sylw i egluro'r athrawiaeth honno. Son y mae'r Iesu yma ni gredwn am gaethiwed pechod ac nid am dderbyniad yr hwn a ryddhawyd i ragorfreintiau teulu Duw.

36. Yn adn. 32 dywedir mai y "gwirionedd" oedd yn myned i'w rhyddhau, ond yma mai y Mab oedd yn myned i wneud hynny. Ond hyd yn oed yn adn. 32 sonnir am y "gwirionedd" nid fel egwyddor noeth yn unig, ond fel rhywbeth hanner-personol. Ac yma y mae yr Iesu yn rhoddi'r ochr arall i'r cwestiwn, nid y gwirionedd yn unig a'u rhyddhâ ond y gwirionedd yn ei gysylltiad a'r Mab. A chredwn ei bod yn wir hefyd nas gallai y Mab Ei Hun wneud hynny heb iddynt ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd. Yr oedd ganddo y gallu i'w rhyddhau heb hynny, ond pe gwnai, byddent yn hynod debyg i gaethion sydd wedi eu rhyddhau ac eto heb feddu'r gallu i fwynhau rhyddid. Diwedd y cyfryw rai ydyw dychwelyd drachefn i gaethiwed. Sylwer mai nid y Tad sydd yn eu rhyddhau ond y Mab. Y Mab yn ngwlad y dwyrain oedd yr etifedd oedd i ddyfod i feddiant o holl anifeiliaid a chaethion ei dad, ac felly os rhyddheid rhai o honynt gan y Mab, yna yr oedd eu rhyddid yn sicr.

37 Mi a wn mai had Abraham ydych chwi: ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, am nad yw fy ngair i yn genni ynoch chwi.

38 Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyd â'm Tad i: a chwithau sydd yn gwneuthur yr hyn a welsoch gyd â'ch tad chwithau.

---

37. *"Mi a wn mai had Abraham ydych chwi."* Y mae'r gair a gyfieithir yma "gwybod" yn golygu nad oedd yr Iesu yn dibynnu am Ei wybodaeth ar eu tystiolaeth. Yr oedd yn wybodaeth a feddai ynddo Ei Hun. Y mae rhyw gymaint o bwyslais i'w roddi hefyd ar y gair "had." Y mae yr Iesu yn defnyddio'r gair hwnnw mewn ystyr gyfyngach na'r Iddewon. Ei feddwl Ef yw ei bod yn eithaf gwir eu bod o ran gwaedoliaeth a llinach yn ddisgynyddion tad y genedl Iddewig.

"Ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i." Dyma un rheswm paham y mae esbonwyr am i ni gredu mai nid at yr Iddewon a gredasant (adn. 31) y cyfeirir yma, sef am fod yr Iesu yn dwyn cyhuddiad mor llym yn eu herbyn. Ond nid ydym yn credu fod llawer o rym yn yr wrthddadl, gan ei bod yn amlwg mai nid cyfeirio y mae ein Harglwydd yn yr ymadrodd uchod at yr ymdrechion a wnawd i'w lofruddio, ond yn hytrach at ddallineb yr Iddewon parthed trefn Duw a Messiah Duw. Yr oedd eu disgwyliadau cenedlaethol o angenrheidrwydd yn rhwym o'u gyrru i wrthwynebu Messiah o'i fath ef. Dyna'r rheswm ei fod yn cyfeirio atynt fel had Abraham ac nid fel plant Abraham.

"Am nad yw fy ngair i yn genni ynoch chwi." Ystyr y gair a gyfieithir yma "genni" ydyw "dadblygu"; ystyr gyntaf y gair ydyw "teithio ymlaen." Yn eu hanes hwy, fel pe dywedai, nid oedd ei air ef yn gallu dilyn ar ei yrfa ordeiniedig.

38. Cawn yma eglurhad pellach paham yr oedd gagendor mor fawr yn gwahanu Ei wrandawyr oddiwrth yr Iesu. Yr oedd Ef wedi ymroddi yn hollol i gyflawni ewyllys un arall, ac yr oeddent hwythau hefyd i raddau helaeth, (os yw y darlleniad cyffredin yn gywir), yn gwneud yr un peth. Yr oedd yr Iesu wedi gweled yr hyn a lefarai gan ei Dad, a'u tad hwythau hefyd yn yr un modd oedd ffynhonnell eu gwybodaeth. Ni chyfeirir

39 Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad ni yw Abraham. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech.

40 Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr hwn a glywais i gan Dduw: hyn ni wnaeth Abraham.

---

at y weledigaeth hon a dderbyniodd yr Iesu ond gan yr Efengylwr hwn yn unig; yr oedd tynnu'r llen yn ol ar y cyfryw ddirgeledigaethau yn rhan o amcan amlwg yr hwn a ysgrifennodd y fwyaf ysbrydol o'r pedair Efengyl.

"*A chwithau sydd yn gwneuthur,*" &c. Y mae rhai am ddweud mai gorchymyn a geir yma,—"gwnewch chwi gan hynny," &c.; y mae yn amhosibl gwybod i sicrwydd oddiwrth ffurf y ferf pa un ai gorchymynnol yw ai adroddiadol.

39. Y mae lle cryf i gredu fod ganddynt ryw syniad beth a olygai'r Iesu wrth wahaniaethu rhwng Ei Dad Ef a'u tad hwythau, ac y maent o ganlyniad am droi'r ymddiddan mor bell ag y gallant, a'i ddwyn drachefn o fewn cylch eu hymresymiad blaenorol. Os gorchymyn a geir yn yr adnod flaenorol yna gofyn y maent yma paham y mae'r Iesu, trwy roddi'r cyfryw orchymyn, yn eu cyhuddo o roddi gwasanaeth unochrog ac amherffaith i'w tad. Ond os adroddiad syml a geir yno, yna cyhuddant yr Iesu o aneglurder yn ei gyfeiriad at eu tad,—paham na fuasai yn ei enwi. Yr oedd Efe, ac yntau yn Iddew, yn gwybod yn dda mai Abraham oedd tad y genedl Iddewig, a'u bod yn falch o hynny. Sylwer fod gwahaniaeth rhwng yr ymadrodd "plant Abraham" a geir yma a "had Abraham" (adn. 37). Y mae "plant Abraham" yn cyfeirio'n fwy uniongyrchol at y berthynas.

"*Gweithredoedd Abraham a wnaech.*" Y mae'r un anhawster ynghylch ffurf y ferf yma ag yn yr adnod flaenorol, ond credwn mai gorchymyn a geir yma, ac y dylid cyfieithu "cyflawnwch weithredoedd Abraham." Y mae lle i gredu ymhellach y dylai'r ferf yn yr adran gyntaf o atebiad yr Iesu fod yn yr amser presennol, "Os plant Abraham ydych."

40. Sylwer nad yw yr Iesu yn cyfeirio yma ato'i hun fel Mab Duw oedd wedi clywed gan ei Dad, ond fel dyn.

41 Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi. Am hynny y dywedasant wrtho, Nid trwy butteindra y cenhedlwyd ni: un Tad sydd gennym ni, *sef* Duw.

Ond er Ei fod yn ddyn, ac o hynny yn ddiddadl yn ol eu barn hwy, yn llawer is na Duw, eto nis gallent ddweud nad oedd y *dyn* oedd yn mynegi y pethau a glywodd gan Dduw yn tra rhagori ar dad y drwg, yr hwn oedd ffynhonnell eu gwybodaeth hwy (adn. 38). Yr oedd eu tad Abraham o'r ochr arall wedi rhoddi ufudd-dod parod i air yr Arglwydd megis trwy barotoi i aberthu ei unig fab Isaac (Gwel Gen. xxii.), ac wedi rhoddi derbyniad parchus i weision Duw, megis Melchisedec a'r angylion y rhoddodd efe gymaint croesaw iddynt (Gwel Gen. xiv. xviii.).

41. Y mae'r Iesu yn ail-adrodd, ni gredwn, mewn ffurf o gyhuddiad yr hyn a grybwyllodd fel ffaith yn adn. 38. Y mae y pwyslais felly i'w roddi ar y rhagenw "chwi." Nid oeddent yn blant Abraham mewn dim ond mewn enw a gwaedoliaeth, y tad y rhoddent hwy ufudd-dod mor gyson iddo oedd nid Abraham, ond y diafol. Dengys hyn yn eglur iddynt mai am berthynas ysbrydol y mae'r Iesu yn son, ac wedi methu yn eu dadl parthed perthynas naturiol y maent yn awr am haeru fod ganddynt dad ysbrydol ac mai Duw oedd hwnnw.

"*Nid trwy butteindra y cenhedlwyd ni.*" Nid yw esbonwyr yn unfarn pa un ai at genhedliad naturiol ynte at genhedliad ysbrydol y cyfeirir yma. Os cenhedliad naturiol y sonnir am dano, yna eu hymresymiad yw fod yr Iesu trwy wadu nad oeddent yn blant Abraham, wedi taflu y sarhad pennaf ar fam y genedl Iddewig, ac ar bawb o'i disgynyddion. Ond credwn mai gwell yw deall yr ymadrodd hwn mewn ystyr ysbrydol. Yr oeddent hwy yn wir addolwyr Duw, ac yr oedd eu cyn-dadau wedi bod felly o'u blaen. Nid oeddent hwy na'u tadau wedi "putteinio" ar ol duwiau dieithr. Felly yr oedd eu cenhedliad ysbrydol yn rheolaidd a glan. Plant eu tad oeddent, sef Duw.

42 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i: canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y deuthum i; oblegid nid o honof fy hun y deuthum i, ond efe a'm hanfonodd i.

43 Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i? am na ellwch wrandaw fy ymadrodd i.

---

42. Y mae yr Iesu yma eto, megys ag y gwnaeth yn niwedd adn. 39, yn cymeryd eu geiriau hwy eu hunain i fyny, ac yn profi trwy'r ymresymiad mwyaf syml nas gallai yr hyn a honnent byth fod yn gywir. Nid yr un prawf a rydd yr Iesu ar eu dywediad yma ag yn adn. 39. Yma ymresyma:—Pe buasent hwy yn blant Duw, yna byddent yn sicr o garu Mab Duw. Os oeddent hwy yn cyfranogi o'r natur ddwyfol fel plant Duw mewn ystyr ysbrydol, yna dylent roddi derbyniad croesawgar i'w Fab yr hwn a anfonodd Efe atynt.

"*Canys oddiwrth Dduw y deilliais ac y daethum i*," &c. Nid yr un ystyr sydd i'r gair "deilliaw" yma ag yn Nghredo S. Athanasius, pan sonnir am yr Ysbryd Glan "yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab," ond y mae'n anhawdd cyfleu'r syniad yn eglur yn Gymraeg. Y cyfieithiad goreu ydyw "oddiwrth Dduw y daethum i allan," er nad yw hwn yn hollol gywir. Ond os cyfieithwn felly, yna y mae yn rhaid cyfnewid y gair "daethum" a geir yn nes ymlaen i "yr ydwyf wedi dyfod yma," yr hyn yn wir yw gwir ystyr y gair a geir yn y gwreiddiol. Oddiwrth Dduw, meddai'r Iesu yn y lle cyntaf, yr oedd Efe wedi dyfod ac nid oddiwrth eu tad hwy; oddiwrth Dduw, meddai yn yr ail le, ac nid o hono Ei Hun.

43. Yr un gair a ddefnyddia'r Iesu yma am "leferydd" ag a geir yn S. Math. xxvi. 73 am S. Pedr a'i acen Galileaidd yn llys yr Archoffeiriad. Ond yma rhaid mai dull o siarad a feddylir, ac nid yr hyn a siaredid. Rhaid cyfieithu felly nid "lleferydd" ond "gair." Cyfeiria ein Harglwydd unwaith eto at gyflwr anysbrydol y genedl, oedd yn ei dallu rhag deall y gwirioneddau a draethai Efe.

44 O'*ch* tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo.

---

44. "*O'ch tad diafol yr ydych chwi.*" Nid yw yr Iesu ond dywedyd yn eglur yma yr hyn a ellid gasglu yn rhwydd oddiwrth yr hyn a ddywedodd yn adnodau 38 a 41. Eu tad ysbrydol hwy oedd, nid Abraham ac nid Duw, ond y diafol, a'r prawf amlycaf o hynny ydyw yr hyn a geir yn y frawddeg nesaf.

"*A thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg "a fynnwch chwi ei gwneuthur" yn gywirach na'r cyfieithiad Saesneg. Ystyr y geiriau a geir yn y gwreiddiol ydyw, "Yr ydych a'ch bryd ar eu gwneuthur."

"*Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad.*" Y mae yma gyfeiriad yn ddiameu yn ffurf y gair "lleiddiad dyn" at y cyhuddiad a ddug yr Iesu yn adn. 40, "yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i." Trwy demtio dyn i syrthio o'i ystad o ddiniweidrwydd gynt yn Eden, efe a ddygodd bechod i'r byd, a thrwy ddwyn pechod efe a ddug hefyd "gyflog pechod," sef marwolaeth. Yr hanes cyntaf a gawn am dano ym moreu-ddydd amser ydyw ei fod yn dwyn dinystr i'r byd, megis yn llofruddiad Abel.

"*Ac ni safodd yn y gwirionedd,*" *&c.* Nid yw'r cyfieithiad yma yn hollol gywir o ran amseriad; "nid ydyw yn aros" a geir yn y gwreiddiol, gyda chyfeiriad yn ddiameu at waith y diafol yn ysbrydoli cam-ddealltwriaeth yr Iddewon. Yn y llawysgrifau goreu ceir gair braidd yn wahanol yr hwn a olyga "sefyll yn gadarn" neu "sefyll yn sefydlog"; nid ym myd y gwirionedd y mae cartre'r diafol.

"*Pan yw yn dywedyd celwydd,*" *&c.* Nid yw y diafol yn was i neb, nac yn cyflawni ewyllys neb. Y mae'r hyn sydd yn achosi ei holl weithrediadau yn gorwedd ynddo'i hun. Celwydd hefyd yw gwirionedd y diafol. Dylem gyfieithu nid "canys y mae yn gelwyddog" ond "canys celwyddwr yw efe." Y mae amheuaeth ynghylch yr hyn a olygir wrth "iddo" yn niwedd y frawddeg. Pa

45 Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi.

46 Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod? Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi?

47 Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrandaw geiriau Duw: am hynny nid ydych chwi yn *eu* gwrandaw, am nad ydych o Dduw.

---

un ai tad y celwyddwr a olygir, ynte tad y celwydd, y mae yn rhy anhawdd dweud.

Y mae cyfeithiad rhyfedd wedi ei roddi o'r adnod hon gan rai beirniaid diweddar, a hefyd gan rai ysgrifenwyr yn yr oesau boreuol,—"O dad y diafol yr ydych . . . . oherwydd celwyddwr yw efe a'i dad hefyd." Nid oes dim sail i ddiwynyddiaeth y cyfeithiad yn yr Ysgrythyr, ond yr oedd yn bosibl ddigon yn ol cyfundrefn y Gnosticiaid, a diameu mai o'r ddiwynyddiaeth or-athronyddol honno y deilliodd y fath athrawiaeth wyllt.

45. Yma cyferbynna'r Iesu waith yr Iddewon yn gwrando mor aiddgar ar eu tad diafol, yr hwn ni lefarai ond celwydd yn ddibaid, a'u amharodrwydd i wrando arno Ef oedd yn wastad yn dywedyd y gwirionedd. Gosodir Crist mewn gwrthgyferbyniad i'r diafol, megys Gwirionedd a Chelwydd yn gwynebu eu gilydd.

46. "*Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?*" Nid "pwy o honoch a'm cyhudda i o bechod" a ddywed yr Iesu ,ond "pwy a'm hargyhoedda i," &c. Yr oeddent wedi ei gyhuddo yn aml ddigon, ("y mae cythraul gennyt," &c.). Pwy all brofi'r cyhuddiad oedd y cwestiwn. Pwy a fedrai greu ymwybyddiaeth o bechod ym mynwes yr Iesu? Ni ddywed yr Iesu yn eglur Ei fod yn ddibechod, ond y mae yn hawdd casglu hynny. Apelio yr oedd yma atynt i brofi ai nid oedd efe wedi dyfod i fyny â'u safon ddynol hwy o gyfiawnder yn ol y ddeddf.

"*Ac od yw fi yn dywedyd y gwir,*" &c. Y mae celwydd yn un ffurf ar bechod, a chan na fedrai neb Ei argyhoeddi o anwiredd, yr oedd yn rhaid mai gwir a ddywedai. Ac os felly, paham na wrandawent ar un oedd wedi cyflawni gofynion eithaf eu deddf.

47. Nid oedd ond gwir blentyn Duw a fedrai wrando ar eiriau Duw. Ceir y rhif lliosog yma—geiriau,—h.y.,

48 Yna yr attebodd yr Iuddewon, ac y dywedasant wrtho ef, Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul?

49 Yr Iesu a attebodd, Nid oes gennyf gythraul; ond yr wyf fi yn anrhydeddu fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy nïanrhydeddu innau.

---

pob cenadwri a ddeuai oddiwrth Dduw. Yr oedd gwrando geiriau Duw yn golygu hefyd eu deall, ac nis gallai neb wneud hynny ond y rhai oedd mewn cydgordiad ysbrydol âg Ef. "Dyna," meddai'r Iesu wrthynt yn derfynol, "achos eich holl aflwyddiant crefyddol."

48. "*Yna yr attebodd yr Iddewon.*" Ni cheir y gair a gyfieithir "yna" yn y llawysgrifau goreu, ac os dylid ei gadw, yna dylid ei gyfieithu nid "yna" ond "gan hynny." Gan fod yr Iesu yn gwadu fod yr Iddewon yn blant Duw, rhaid oedd iddynt edrych arno fel gelyn i'r genedl etholedig.

"*Samaritan wyt ti.*" Ni cheir y gair "Samaritan" yn yr ystyr hon yn un man arall yn y Test. Newydd, ac eto nid oedd yn enw amhriodol i'w roddi ar un oedd yn ymosod ar hawliau a rhagorfreintiau'r genedl Iddewig. Dengys y modd y defnyddir ef fel term o sarhad yma, mor gyfarwydd ydoedd awdwr yr Efengyl â bywyd cymdeithasol gwlad Canaan. Yng ngeiriau'r Iddewon ffyrnig hyn ceir y ddau gyhuddiad a ddygodd yr Iesu yn eu herbyn,—nad oeddent yn wir blant Abraham, ac mai'r diafol oedd eu tad ysbrydol (adn. 39, 44). "Samaritan oedd Efe,"—nid gwir ddisgynnydd o dad y genedl, ac yr oedd ganddo "gythraul."

49. Sylwer nad yw'r Iesu yn cymeryd yr un sylw o'r sarhad a gynwysid yn y term "Samariad" i Iddew gwir grefyddol; a barn yr Iesu oedd ei bod yn bosibl i lawer Samariad ragori ar yr Iddew (Gwel S. Luc xvii. 17). Y mae y cyferbyniad yn yr adnod yn gorwedd rhwng "fi" a "chwithau," a dylid pwysleisio ar y rhagenwau. Nid ei fod wedi ei "feddiannu" oedd yn cyfrif am y ffaith ei fod yn datguddio iddynt un dirgelwch ar ol y llall. Llefaru yr ydoedd genadwri y Tad a mynegi y pethau a welodd Ef ganddo, a thrwy wneud hyn yr oedd yn anrhydeddu y Tad. Ond er ei fod felly yn llefaru megys na "lefarodd dyn erioed" eto yr oeddent yn methu

50 Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoniant fy hun: y mae a'i cais, ac a farn.

51 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd.

---

gweled yn hynny unrhyw arwydd o'i anfoniad gan y Tad nac unrhyw dystiolaeth i'w ddwyfoldeb. Yr oeddent o ganlyniad yn ei ddianrhydeddu Ef, a thrwy hynny yn dianrhydeddu y Tad a'i hanfonodd,—yr Hwn y proffesent fod yn blant iddo!

50. "*Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoniant fy hun.*" Cawn yr Iesu yn pwysleisio ar hyn yn ystod yr oll o'i weinidogaeth gyhoeddus; yr oedd y cyferbyniad mwyaf felly rhyngddo âg arweinwyr uchel-geisiol yr Iddewon yn ei oes.

"*Y mae a'i cais ac a farn.*" Nid ydym yn credu fod y cyfeiriad at Dduw yn bersonol yn gymaint ag at ddeddf cyfiawnder Duw, sydd yn gweithio yn fynych yn anweledig ac yn groes i bob ymddangosiad, ond sydd yn ei diwedd yn sicr o weinyddu i bawb yr hyn a haeddant.

51. "*Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wel efe farwolaeth yn dragywydd.*" Y mae gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedir yma a'r hyn a geir yn adnodau 31, 32. Yno "aros yn fy ngair i" a ddywedir, ond yma "cadw fy ngair i" (dylid cyfieithu yma hefyd "gair" ac nid "ymadrodd"). Os arhosant yn Ei air Ef (adn. 31, 32) sicrheir hwy y cant fod yn ddisgyblion iddo ac y derbyniant ryddid pan ddeuant i wybodaeth o'r gwirionedd. Yma nid rhyddid a addewir iddynt ond bywyd diddarfod. O bosibl mae yna gyferbyniad rhwng yr Iesu yma yn dwyn "bywyd tragywyddol" a'r diafol yn adn. 44 yn dwyn "marwolaeth." Y mae yn amlwg fod yr Iesu yn yr adnod hon yn defnyddio'r ymadrodd "bywyd tragywyddol" yn ei ystyr ddyfnaf; "bywyd tragywyddol" yw y rhywbeth hwnnw yn y credadyn nad yw byth yn marw. Nid marwolaeth naturiol a gymerodd le yn hanes Adda pan dorrodd orchymyn Duw, ond marwolaeth ysbrydol. Yr hyn sydd yn byw byth yn hanes y credadyn a fu farw ynddo ef.

52 Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Yr awrhon y gwyddom fod gennyt gythraul. Bu Abraham farw, a'r prophwydi; ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd.

53 Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r prophwydi fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?

54 Yr Iesu a atebodd, Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim: fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd, mae eich Duw chwi yw.

---

52. "*Yr awrhon y gwyddom fod genyt gythraul.*" Yr oeddent wedi ei gyhuddo o'r blaen o fod a chythraul ganddo, ac yn awr y maent wedi derbyn sicrwydd fod eu cyhuddiad yn gywir.

"*Bu Abraham farw a'r prophwydi,*" *&c.* Yma eto arddanghosant eu dallineb ysbrydol cynhennid, oblegid desgrifiant yr Iesu yn siarad am farwolaeth naturiol. Cyfnewidiant y frawddeg a ddefnyddiodd Efe hefyd i gydfyned â'r syniad daearol hwn. Y mae'r ymadrodd a ddefnyddiant hwy am "fy ngair i" yn wahanol i eiddo'r Iesu,—siaradant hwy am dano fel gair yr Iesu Ei Hun, ac nid y gair a dderbyniodd efe gan y Tad. Yn lle y gair "gweled" a geir gan yr Iesu defnyddiant hwy air yn golygu "profi" neu "archwaethu," gair anghyfaddas pan yn siarad am fywyd ysbrydol diddarfod. Yn yr ystyr a roddant hwy i'r ymadrodd gellir dywedyd fod hyd yn oed yr Iesu Ei Hun wedi profi marwolaeth.

53. Yr oeddent yn ddiameu wedi meddwl ychwanegu "ai mwy wyt ti na'r prophwydi," ond yn eu digllonedd anghofiasant. Dengys y frawddeg olaf yn yr adnod ym mha ysbryd yr oeddent yn Ei holi! Y mae y pwyslais i'w roddi ar y rhagenw "ti."

54. Y mae yr Iesu yn ateb y cyhuddiad o geisio hunanglod oedd yn gynwysedig yn eu cwestiwn—"pwy yr wyt ti yn gwneuthur dy hun?" Ymwthio o hono Ei Hun i sylw'r cyhoedd yr ydoedd yn ol eu barn hwy. Os felly yr oedd, meddai'r Iesu, gallasent fforddio gadael y cyfryw ymdrech yn ddisylw. Yr hyn oedd yn ei gwneud yn bwysig iddynt wrando arno Ef oedd fod Ei Dad wedi ei ogoneddu, y Tad yr hwn y proffesent mai efe oedd eu

55 Ond nid adnabuoch chwi ef: ethir myfi a'i hadwaen ef. Ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog: ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef.

56 Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i: ac efe a'i gwelodd *hefyd*, ac a lawenychodd.

Duw. Rhaid mai ffug oedd eu haddoliad a'u parch os nad oeddent yn foddlon i'w ddilyn yn Ei waith yn gogoneddu y Mab.

55. Gwahanieithir yma rhwng eu hadnabyddiaeth hwy o Dduw ac eiddo'r Iesu. Pe meddent adnabyddiaeth ni byddai ond gwybodaeth rannol, seiliedig ar brofiad, ond yr oedd yr Iesu yn meddu gwybodaeth uniongyrchol a chyflawn; nid oedd raid iddo ef wrth sylwi na dysgu.

"*Ac os dywedaf nad adwaen ef*," &c. Y mae celu'r gwir felly yn llawn cymaint pechod a thraethu celwydd. Y mae cyfeiriad yn y gair "celwyddog" at yr hyn a ddywedwyd eisoes yn adn. 44. Yr oedd yr Iesu yn parhau yn ffyddlon i roddi'r ufudd-dod a addawsai, ac i draethu'r genadwri a glywsai, er fod Ei gyd-genedl yn camgymeryd yn hollol ynghylch Ei fuchedd a'i athrawiaeth.

56. "*Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i.*" Y mae yr Iesu yma am ddangos nad oedd Efe wedi bwriadu iddynt wneud unrhyw gyferbyniad rhyngddo Ef a'r tad Abraham. Nid oedd Efe wedi honni Ei fod yn rhagori ar y patriarch enwog hwnnw, nid oedd yn perthyn i'w swydd a'i waith i wneud hynny. Yr oedd eu tad Abraham ac Efe ar yr un ochr, ond yr oedd yr Iddewon yn rhy gibddall i weled hynny. Os ydym am ddilyn gramadeg yn unig yn y frawddeg hon dylid cyfieithu "Abraham a orfoleddodd fel y gwelai fy nydd i," ond y mae'n anhawdd deall beth a feddylir wrth "fel y gwelai." Gwell o lawer yw cyfieithu "Abraham a orfoleddodd wrth weld fy nydd i," gan gymeryd y frawddeg i gyfeirio at waith y tad hwnnw yn gweled trwy ddrych proffwydoliaeth ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Nid ydym yn credu mai yr un peth a olygir wrth "fy nydd i" a "fy awr i." Nid oes yma gyfeiriad uniongyrchol at ddydd Ei ddioddefaint, ond yn hytrach

57 Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain eto, ac a welaist ti Abraham?
58 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi.
59 Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu atto ef. A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol hwynt: ac felly yr aeth *efe* heibio.

---

cyfeiriad cyffredinol at Ei ddyfodiad i'r byd. Yr oedd "holl genhedloedd y ddaear i gael eu bendithio trwy fywyd yr Iesu yn ogystal a thrwy Ei farwolaeth.

"*Ac efe a'i gwelodd hefyd ac a lawenychodd.*" Y mae y gair a gyfieithir yma yn golygu llawenydd tawel yn tarddu oddiar ddisgwyliad gobeithlawn. Myn rhai mai at Abraham yn Mharadwys (Gwel S. Luc xvi. 22, &c.) yn gweled yr Iesu yn ystod Ei Ymgnawdoliad y cyfeirir yma, ond credwn mai Ei weled o hirbell a wnaeth efe a llawenychu yn y rhagolwg o hynny.

57. Cam-ddeallant Ei feddwl Ef eto, a gwyrdroant Ei ddywediad i gydweddu â'u syniadau daearol hwy. Ond paham y crybwyllir yr oedran deng mlwydd a deugain? Mae rhai yn credu'n gryf fod ol llafur meddyliol dibaid yn argraffedig ar wyneb yr Iesu, tra y mae ereill o'r farn fod yr Iesu yn tynnu tua hanner cant oed pan y bu efe farw, ond credwn nad yw yr un o'r ddau atebiad hyn yn cyd-fyned â'r cysylltiadau. Deng-mlwydd a deugain ydoedd yr oedran a ystyrrid yn ol y gyfraith fel terfyn dadblygiad dyn. Ni adewid i neb wasanaethu yn y fyddin ar ol yr oedran hwnnw (Gwel Lef. iv. 3).

58. "*Cyn bod Abraham yr wyf fi.*" Y cyfieithiad priodol yma ydyw, "Cyn dyfod Abraham i fod," ac os cyfieithir felly yna gwelir yn eglur y cyferbyniad a fwriedid rhwng Abraham yn "dyfod i fodolaeth" a Christ "yn bod." Nid yw yn ddigon dywedyd "cyn bod Abraham," oblegid pe na buasai y Mab ond y cynt-af-anedig o'r rhai creedig, fel y tybiai Arius a'u ganlynwyr, gallasai ddweud hynny. Ond yma cyfeiria'r Iesu at Ei fodolaeth dragywyddol. "Ydwyf" ydoedd Efe fel Duw Ei Hun, ac yn bod erioed. Hawlia'r Iesu yr un teitl yn adnodau 24 a 28.

59. Deallodd yr Iddewon o'r diwedd Ei fod yn honni hawl i enw yr oeddent hwy wedi arfer meddwl oedd yn

PENNOD IX.

Ac wrth fyned heibio, efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth.

---

perthyn i Jehofah yn unig. Nid oedd hyn yn ol eu barn hwy ond cabledd noeth, ac fel y cyfryw yn deilwng o farwolaeth. Ond nid oes lle i gredu eu bod wedi meddwl am foment am "deilyngdod" na "hawl" na dim o'r fath beth; yr oeddent yn hollol o dan lywodraeth eu diglionedd nwydwyllt. Y mae rhai o ganlyniad yn barod i edrych ar waith yr Iesu yn dianc o'u gafaelion fel dim llai na gwyrth, ond nid ydym yn credu fod yma unrhyw sail gref dros feddwl hynny. Dianc a wnaeth efe trwy gilio drachefn i'r dyrfa, lle yr oedd yn ddiogel oddiwrth ymosodiadau yr ychydig oedd wedi cymeryd y cerrig i fyny. Mae'n debyg mai cerrig oeddent oedd wedi cael eu dwyn yno ar gyfer adeiladu'r deml. Ni ddylid cyfieithu yma "efe a aeth allan ac a ymguddiodd."

PENNOD IX.

IACHAU Y DYN DALL O'I ENEDIGAETH.—PENNOD IX., ADNODAU 1—12.

1. "*Ac wrth fyned heibio.*" Myn rhai mai yn union-gyrchol ar ol y digwyddiadau cyffrous a gronicl wyd yn y bennod flaenorol y cyflawnwyd y wyrth hon, ond y mae rhesymau cryf iawn dros gredu iddi gymeryd lle yn ystod y Gysegr-wyl (Gwel x. 22). Y mae pwnc yr ymddiddan yn y bennod hon yn dra gwahanol i'r hyn a gawsom yn yr wythfed bennod. "Myned heibio" i'r lle y byddai y deillion a chloffion yn arferol a chardota a olygir (Gwel adn. 8, ac Actau iii. 2).

"*Efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth.*" Yr oedd rhywbeth yn nghyflwr y dyn a dynnodd sylw yr Iesu ar unwaith. Y mae y gair a ddefnyddir yma yn y gwreiddiol yn golygu "edrych yn graff." Ni cheir yr ymadrodd a gyfieithir dall o'i enedigaeth mewn un man arall yn y Test. Newydd. Sylwer fod pob un o'r gwyrth-

2 A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?

3 Yr Iesu a attebodd, Nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith: eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.

---

iau y ceir hanes eu cyflawniad yn yr Efengyl hon yn cynrychioli dosbarth o weithredoedd cyffelyb. Am hynny rhoddir pob manylion yn eu cylch fel nas medrai yr anghredadyn mwyaf ameu nad oedd yma arddanghosiad o allu goruwch-naturiol. Yr oedd y claf yn vi. 5 wedi bod yn gorwdd felly am namyn dwy flynedd deugain; yn xi. 17 dywedir fod Lazarus "wedi bod weithian bedwar diwrnod yn y bedd," ac yma "dyn dall o'i enedigaeth" yw gwrthrych trugaredd yr Iesu.

2. "*Pwy a bechodd, ai hwn ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?*" Cymerir yn ganiataol gan y disgyblion mai pechod oedd y rheswm, ac mai cosb am dano oedd y dallineb. Eisiau gwybod pwy oedd y pechadur yr oeddent hwy. Yr oedd yr Iddewon yn credu yn gryf fod troseddau dynion yn dwyn cosbedigaeth a phoen ar eu disgynyddion. Yr oedd yr athrawiaeth wedi cael ei dysgu yn eglur iddynt yn niwedd yr ail orchymyn (Gwel Ex. ii. 5), ac y mae profiad y byd wedi gwirio'r egwyddor o hynny hyd heddyw. Y camgymeriad a wneir yn fynych, ac a wnaed dro ar ol tro gan y genedl Iddewig, ydyw credu mai dyna sydd yn cyfrif am bob cosb a phob afiechyd, ac felly ddifodi pob ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb personol. Myn rhai esbonwyr gyfrif am y cwestiwn trwy ddweud fod y disgyblion yn credu yn yr athrawiaethau athronyddol, o draws-symudiad a chynhanfodiad eneidiau, ond nid oes fawr o sail dros ddweud hynny. Y mae yr athrawiaeth Iddewig yn ddigon i gyfrif am y cwestiwn.

3. "*Nid hwn a bechodd na'i rieni chwaith.*" Y mae'r Iesu yn gwrthod y ddau esboniad a roddwyd yn y cwestiwn. Nid pechod y dyn na'i rieni oedd yn cyfrif am ei ddallineb. Nid yw yr Iesu yn gwadu nad oedd y dyn dall hwn a'i rieni yn bechaduriaid, ac nid yw yn gwadu chwaith wirionedd athrawiaeth yr Hen Dest. parthed perthynas pechod a phoen (Gwel v. 14 a S. Math. ix. 2).

4 Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd: y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.

"*Eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.*" Dyma ffordd yr Iesu o gyfrif am y dallineb. Er hynny y mae yn amlwg y dylem edrych ar y dallineb fel achlysur cyflawniad y wyrth, ac nid credu fod Duw wedi taro y dyn hwn â dallineb o'i enedigaeth yn unig er mwyn rhoddi cyfleustra i ddangos trugaredd tuag ato. Dysga'r Iesu yma yr athrawiaeth bwysig honno fod poen yn nhrefn Duw yn fynych yn offeryn disgyblaeth, fod y pechadur yn cael ei "berffeithio trwy orthrymderau." Y mae Duw felly yn cosbi dynion am Ei fod yn eu caru. Y mae Duw cyfiawnder yn myned o'r golwg a Duw cariad a gras yn dyfod i'r amlwg. Nid yw hyn yn unrhyw reswm, er hynny, dros i ddynion dorri deddfau iechyd fel y mynnont, ac yna ddweud mai trefn Duw i'w hachub yw y poen sydd yn dilyn. Y mae'r hen athrawiaeth yn wir yn ogystal a'r newydd. Dyma ddwy ffordd ym mha rai y gall dyn meidrol gyfrif am droion dyrys rhagluniaeth yr Anfeidrol, ond dim ond dwy. A oes yna ffyrdd ereill?

4. "*Rhaid i mi weithio gwaith,*" &c. Y mae cryn amheuaeth ynghylch y darlleniad cywir yn nechreu'r adnod hon. Y mae un llawysgrif yn rhoddi "rhaid i *mi* weithio,—y darlleniad cyffredin, tra y mae llawysgrifau ereill yn rhoddi "rhaid i *ni* weithio," &c., "a'r Hwn a'n hanfonodd *ni*." Credwn y cawn y darlleniad cywir trwy gadw "ni" yn nechreu'r adnod, a rhoddi "mi" yn y diwedd. Os gwelodd rhyw gopiwr "ni" yn nechreu'r adnod nid oedd ond naturiol iddo er mwyn cael cydgordiad yn rhediad yr adnod wneud cyfnewidiad yn ei diwedd. Os yw y darlleniad hwn yn gywir, yna y mae'r Iesu yma yn uno ei ddisgyblion âg Ef yn Ei waith. Ceir hwy yn derbyn gallu gwyrthiol oddiwrtho yn S. Math. x. 8, &c. Ond nid eu gwaith hwy oedd, ond Ei waith Ef, y gwaith yr anfonwyd ef gan y Tad i'w gyflawni. Yr Iesu Ei Hun oedd yn anfon Ei ddisgyblion i wneud yr un pethau.

"*Tra yr ydyw hi yn ddydd; y mae y nos yn dyfod,*" &c. Yr un ystyr yn ddiau sydd i'w roddi i'r "dydd" a'r

5 Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf.
6 Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall;

"nos" yn yr adran hon. Ond pa "ddydd" a "nos" a olygir? Ateb un esboniwr yw mai "nos" naturiol ydyw, am fod eisiau goleuni i ganfod llygaid y dall! Cred ereill mai "dydd" a "nos" gras sydd yma, gyda chyfeiriad neilltuol at y dinystr oedd yn tuan i oddiweddyd y genedl Iddewig. Ond er fod Iddewiaeth i gael ei chlwyfo'n drwm eto yr oedd Cristionogaeth i aros ac i gryfhau. Gwell o lawer yw credu mai cyfeirio y mae'r Iesu at Ei farwolaeth, diwedd Ei einioes naturiol, pan y peidia pob ymgais ddaearol. Yr oedd y gwaith yr oedd Efe i'w gyflawni yn Ei isel-radd ar ben yr adeg honno.

5. Ystyr y gair a gyfieithir "tra" ydyw nid "cyhyd ag" ond "pa bryd bynnag."

"*Goleuni y byd ydwyf.*" Ni cheir y fannod na'r rhagenw yn yr adnod hon. Yn viii. 12, lle y defnyddia'r Iesu yr un ymadrodd, ceir pob un o'r ddau. Myn rhai mai amcan yr Iesu ydyw dysgu'r gwirionedd cyffredinol mai Efe oedd goleuni'r byd ym mhob oes a goruchwyliaeth, tra y mae ereill o'r farn fod yna gyfeiriad at yr hyn a ddywedwyd yn yr adnod flaenorol fod y nos yn dyfod pan na weithiai mwy, ac wrth weithio yr oedd yr Iesu'n goleuo yn fynych.

6. "*Efe a boerodd ar lawr*," *&c.* Ceir hanes yn un o lyfrau'r hanesydd Rhufeinig Tacitus am Vespasian yn rhoddi ei olwg i ddyn dall o'i enedigaeth trwy boeri ar ei lygaid, a ffynnai'r gred yn bur gyffredinol fod rhinwedd neilltuol yn perthyn i'r poer dynol yn y cyfryw amgylchiadau. O ganlyniad y mae esbonwyr anghrediniol ym mhob oes wedi honni nad oes yma yr un gallu goruwch-naturiol yn gweithio. Os oedd y poer yn ddigon, paham na fuasai y dall yn gweled heb fyned hefyd, fel y gorchymynodd yr Iesu iddo, i ymolchi yn llyn Siloam. Y mae esbonwyr ereill o'r un tueddiadau yn difodi yr elfen wyrthiol trwy ddweyd fod rhinwedd iachaol yn y clai a roddodd yr Iesu ar ei lygaid. Y mae dychymygion anghrediniaeth yn gywrain ryfeddol! Gwell o lawer yw credu mai Ei amcan pennaf wrth boeri

7 Ac a ddywedodd wrtho, Dos, ac ymolch yn llyn Siloam, (yr hwn a gyfieithir, Anfonedig.) Am hynny efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled.

8 ¶ Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen, mai dall oedd efe, a ddywedasant, Onid hwn yw yr un oedd yn eistedd ac yn cardotta?

---

a gwneud clai, ac iro llygaid y dall ydoedd deffro disgwyliad a ffydd yn nghalon y truan. Cyn y gallai wneud hynny yr oedd yn rhaid wrth ryw arwydd y medrai'r claf ei ddeall. Sicrheir ni gan ddau ysgolhaig galluog fod rhoddi poer ar lygaid ar y Sabbath yn cael ei wahardd gan y traddodiadau Iddewig. Felly cawn yr Iddewon yn y bennod hon yn cyhuddo'r Iesu o dorri'r Sabbath. Yr oedd Efe wedi gwneud mwy na rhoddi poer, yr ydoedd wedi gwneud clai.

7. "*Dos ac ymolch yn llyn Siloam (yr hwn a gyfieithir Anfonedig.)*" Yr oedd llyn Siloam yn gorwedd o'r deddwyrain i fynydd Seion, ac adwaenir ef yn awr wrth yr enw "Birket Silwân." O'r llyn hwn y cyrchid dwfr yn ystod gŵyl y Pebyll (Gwel ar vii. 37) er cofio am y "dwfr o'r graig" yn yr anialwch. Cred rhai mai amcan yr awdwr yma ydyw galw sylw neilltuol at y "graig" honno, sef Crist, o'r hon y tynnid dwfr oedd "yn tarddu i fywyd tragywyddol." Rhydd yr awdwr ystyr yr enw fel "anfonedig," ac y mae mwyafrif mawr esbonwyr o'r farn ei fod yn gywir yn ei air-darddiad. Ond paham y mae yn galw sylw at hyn? Rhaid ei fod yn gweled tebygrwydd rhwng rhywbeth â llyn Siloam "a gyfieithid Anfonedig." Cred rhai mai rhwng y dall a anfonwyd a'r llyn anfonedig y mae'r tebygrwydd, ond credwn mai gwell yw meddwl fod yr awdwr am gyfeirio at yr Iesu wedi ei anfon i wasgar bendithion uwch a helaethach nag a ddeilliodd i'r dall hwn o ymolch yn llyn Siloam, yr hwn hefyd oedd "Anfonedig."

8. Yr oedd y cymydogion hyn mor gyfarwydd â'i weled mewn lleoedd cyhoeddus lle y medrai cael rhyw gardod ar gyfer ei gynhaliaeth. Fel y claf hwnnw yn Actau yr Apostolion (iii. 2), diau ei fod yn arferol ag eistedd wrth un o byrth y deml.

9 Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, Y mae efe yn debyg iddo. Yntau a ddywedodd, Myfi yw *efe*.

10 Am hynny y dywedasant wrtho, Pa fodd yr agorwyd dy lygaid di?

11 Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i; ac a ddywedodd wrthyf, Dos i lyn Siloam, ac ymolch. Ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a gefais fy ngolwg.

12 Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae efe? Yntau a ddywedodd, Ni wn i.

---

9. Tybir fod yma dri dosbarth o'r cymydogion hyn, dau yn yr adnod hon ac un yn yr adnod flaenorol. Dywedir y dylid darllen yn yr ail ran o'r adnod, "Nage, ond y mae yn debyg iddo." Yr oedd wedi bod yn ddall o'i enedigaeth, ac yr oeddent wedi llwyr gredu mai dall a fyddai dros byth. Diameu hefyd fod y ffaith ei fod yn awr yn gweled wedi gwneud cryn wahaniaeth yn ei ymddanghosiad allanol. Rhoddodd ei gyfaddefiad ddiwedd ar eu dadl.

10. Dyma gwestiwn naturiol pobl oedd wedi synnu wrth weled arddanghosiad o'r goruwch-naturiol.

11. Y mae atebiad y claf ("Dyn a elwir Iesu") yn profi nad oedd y claf yn gwybod llawer ynghylch yr Hwn a'i hiachaodd, er cymaint o sylw oedd wedi dderbyn oddiar law arweinwyr y genedl. Ond y mae bron yn sicr y dylem ddarllen yma, "Y dyn a elwir Iesu," ac y mae hynny wrth reswm yn gwrthbrofi hyn. Dyma a geir yn y Cyf. Diwyg.

"*Mi a gefais fy ngolwg.*" Y mae y gair a gyfieithir yma "cefais fy ngolwg" mewn rhai mannau yn golygu "edrych i fyny," ac mewn mannau ereill, "mi a welais drachefn." Yr olaf yw yr ystyr yma, er nad yw yn hollol gywir i ddweud am ddyn dall o'i enedigaeth ei fod yn gweled drachefn.

12. Yr oedd y cymydogion yn wir awyddus i weled gwr oedd wedi gwneud cymaint rhyfedd, ond tra bu y dall yn Siloam, yr oedd yr Iesu wedi cilio, nid oedd ei eisiau mwy.

CANLYNIADAU Y WYRTH.—ADNODAU 13—41.

Gellir rhannu yr adran hon yn bum rhan. (1.) Y Phariseaid yn holi'r dyn (adn. 13—17). (2.) Yn holi ei

13 ¶ Hwythau a'i dygasant ef at y Phariseaid, yr hwn gynt *a fuasai* yn ddall.

14 A'r Sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu y clai, a phan agorodd efe ei lygaid ef.

15 Am hynny y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg. Yntau a ddywedodd wrthynt, Clai a osododd efe ar fy llygaid i, a mi a ymolchais, ac yr ydwyf yn gweled.

---

rieni (18—23). (3.) Yn ail-holi'r dyn (23—34). (4.) Yr ymddiddan rhwng yr Iesu a'r dyn (35—41). (5.) Eglurhad yr Iesu ar egwyddor sylfaenol y wyrth (39—41).

13. Credwn nad oes yma unrhyw reswm dros feddwl fod y bobl hyn yn elyniaethus at yr Iesu ac yn ceisio achos yn Ei erbyn. Dygasant Ef at y Phariseaid am mai hwy oedd yr awdurdodau pennaf mewn gair a gweithred ar y ddeddf seremoniol yn ogystal a thraddodiadau'r tadau. Credir fod yna ryw is-gyngor o Phariseaid yn Jerusalem i ddelio âg achosion fel toriad y Sabbath. Yn sicr nid y Sanhedrin a olygir yma.

14. "*A'r Sabbath oedd hi*," *&c.* Dyma'r rheswm yn ddiau paham y dygwyd y dyn a fu ddall at y Phariseaid. Y mae un hen ddarlleniad yn dangos mai Sabbath neilltuol, h.y., nid y Sabbath wythnosol a olygir, ond credwn nad oes sail ddigonol dros dderbyn y golygiad. Eglurir yma hefyd beth oedd y trosedd a ystyrid yn doriad o'r Sabbath; nid gwneud i'r dyn dall weled, ond gwneud y clai, a thrwy hynny gyflawni gwaith (Gwel ar adn. 6, a chymh. vi. 10).

15. Y mae y Phariseaid defodol hyn ar unwaith yn gweled eu cyfleustra i gael achos yn erbyn yr Iesu. Wrth "ofyn iddo drachefn" y golygir ail-adrodd cwestiwn y bobl yn adn. 10. Sylwer hefyd mai gofyn *pa fodd* y cawsai ei olwg y maent. Y mae ffurf eu cwestiwn yn bradychu eu hamcan. Nid gwneud ond y dull o wneud oedd fwyaf pwysig yngolwg y Phariseaid. Nid yw y dyn yn rhoddi eglurhad mor llawn yma i'r llŷs ag i'r bobl yn adn. 11; y mae yn dechreu gweled fod perygl yn rhywle.

16 Yna rhai o'r Phariseaid a ddywedasant, Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw efe yn cadw y Sabbath. Eraill a ddywedasant, Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion? Ac yr oedd ymrafael yn eu plith.

17 Hwy a ddywedasant drachefn wrth y dall, Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef, am agoryd o hono dy lygaid di? Yntau a ddywedodd, *Mai* prophwyd yw *efe.*

18 Am hynny ni chredai yr Iuddewon am dano ef, mai dall fuasai, a chael o hono ef ei olwg, nes galw o honynt ei rïeni ef, yr hwn a gawsai ei olwg.

---

16. Nid yw y Phariseaid yn gwadu cyflawniad y wyrth mwy nag y gwnaethant yn achos "y claf wrth lyn Bethesda"; y mae pwysigrwydd y digwyddiad iddynt hwy, yn gorwedd yn gyfangwbl yn y modd y cyflawnwyd y wyrth a'r dydd y cyflawnwyd hi arno. Yr oedd eu deddf hwy gyda'i holl fanylder plentynaidd o Dduw, yn eu tyb hwy, gan hynny rhaid fod pawb a'i troseddai yn bechadur. Ond hyd yn oed ymhlith y Phariseaid yr oedd yna rai oedd yn credu fod cyflawni gweithred o drugaredd o fwy o bwys na rhoddi ufudd-dod llythyrennol i draddodiad Rabbinaidd. Iddynt hwy y mae y ffaith Ei fod yn gallu cyflawni cymaint arwyddion yn brawf nad oedd beth bynnag yn fwriadol wedi torri'r Sabbath. Wrth reswm nid ydynt am foment am honni fod yr Iesu yn ddibechod.

17. Ar ol "ymrafael" at ba un y cyfeirir yn niwedd adn. 16 y maent yn penderfynu un ac oll gofyn barn y dall oedd wedi bod mewn cysylltiad mor agos âg Ef. Yr oeddent yn awyddus i wybod pa argraff foesol oedd yr Iesu wedi wneud ar feddwl yr hwn a iachawyd. Ac nid oes dim amheuaeth yn ei feddwl er mor lleied o brofiad oedd wedi gael o hono. Yr oedd wedi bod yn ddall naturiol trwy ei oes, ond nid oedd mor ddall yn ysbrydol. Nid oedd angen cuddio dim yn ei hanes ef, yr oedd yn berffaith sicr mai "prophwyd" oedd Efe.

18. Er eu bod wedi penderfynu rhoddi'r cwestiwn i'r dyn a dderbyniodd ei olwg eto nid yw ei atebiad yn newid dim ar farn neu yn hytrach ragfarn y Phariseaid gelyniaethus. Sylwer hefyd y defnyddir y teitl "Iddew-

19 A hwy a ofynasant iddynt, gan ddywedyd, Ai hwn yw eich mab chwi, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa fodd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr?

20 Ei rieni ef a attebasant iddynt hwy, ac a ddywedasant, Nyni a wyddom mai hwn yw ein mab ni, ac mai yn ddall y ganwyd ef:

21 Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr awrhon, nis gwyddom ni; neu pwy a agorodd ei lygaid ef, nis gwyddom ni: y mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef efe a ddywed am dano ei hun.

---

on" yma nid Phariseaid. Iddewon ydyw term arferol yr awdwr am elynion yr Iesu. Y maent hwy yn awr yn dechreu chwilio ai nid oedd yn bosibl gwadu'r wyrth; pe gallent wneud hynny, byddai'r ffordd yn glir i brofi fod yr Iesu wedi torri'r Sabbath i foddio Ei fympwy Ei hun yn unig.

19. Rhoddir y cwestiynau hyn yn y ffurf fèr a gofalus sydd yn nodweddiadol o gwestiynau a ofynnir mewn llŷs cyfreithiol.

20. Nid oes yr un amheuaeth yn eu hatebion i'r ddau gwestiwn cyntaf; defnyddiant air am "wybod" sydd yn golygu gwybodaeth berffaith, sicr, ac anwadadwy. Nid oedd y bobl mor sicr ai yr un oedd (adn. 9), ond er ei fod yn gweled, y mae ei rieni yn ei adnabod.

21. Y mae'r rhieni yn ofni ateb y trydydd cwestiwn yn adn. 19.—Pa fodd y mae efe yn awr yn gweled? Diameu eu bod yn dechreu gweled treigliad meddwl y Phariseaid digllawn hyn. Ymdrechant o ganlyniad daflu yr holl gyfrifoldeb ar eu mab, ac am hynny y mae yr Efengylwr (adn. 22) yn ogystal a llawer o esbonwyr wedi eu beio. Y mae yn bosibl er hynny nad oeddent mor galon-galed ag y tybir. Efallai y credent fod eu mab yn llawer mwy galluog i ymgodymu â'r Iddewon dichellgar hyn na hwy eu hunain. Os felly, y mae y ddadl sydd yn dilyn yn profi nad oeddent wedi gwneud camgymeriad. Sylwer ar y lle blaenllaw a roddir i'r rhagenwau "ni" ac "ef"; y mae pob un o'r ddau yn bwysleisiol. Y mae tipyn bach o gyfrwystra yn perthyn i'r rhieni hefyd, defnyddiant y gair am "wybod" sydd

22 Hyn a ddywedodd ei rïeni ef, am eu bod yn ofni yr Iuddewon: oblegid yr Iuddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog.

23 Am hynny y dywedodd ei rïeni ef, Y mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef.

24 Am hynny hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai yn ddall, ac a ddywedasant wrtho, Dyro y gogoniant i Dduw: nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn.

---

yn golygu gwybod yn ddiffael, ac felly yr oeddent yn llythyrennol gywir.

22. "*Am eu bod yn ofni yr Iddewon.*" Os yw yr ail eglurhad a roddwyd ar ymddygiad y rhieni yn gywir (gwel ar adn. 21), yna nid ofn cael eu cospi gan yr Iddewon oedd arnynt ond ofn cael eu rhwydo yn eu hymadrodd.

"*Oblegid yr Iddewon a gydordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog.*" Y mae yn anhawdd i ni fod yn sicr am ystyr y gair "cyd-ordeinio." Myn rhai mai dim ond yr Iddewon hyn oedd wedi gwneud cyngrair i beidio rhoddi i fyny hyd nes y cyrhaeddent y cyfryw fwriad, tra y mae ereill yn credu fod y Sanhedrin eisoes wedi pasio penderfyniad i'r perwyl hwnnw. Defnyddir y gair a geir yn y gwreiddiol yn S. Luc xxii. 5 am yr "archoffeiriad a'r blaenoriaid" yn cytuno i roddi arian i Judas am fradychu yr Iesu, a hefyd yn Actau xxiii. 20 am yr Iddewon yn "cyd-fwriadu" i ofyn i'r pen-capten ddwyn S. Paul i waered drachefn er mwyn i rai o honynt gael ei lofruddio yn ddisyfyd. Y mae yr engreifftiau hyn yn myned ym mhell i brofi mai'r eglurhad blaenaf sydd yn gywir. Yr oedd tri math o "fwrw allan o'r synagog" neu "Esgymuno," (1.) am fis, (2.) am amser amhenodol, (3.) dros byth, ac fel y credai'r Iddewon ei gau allan o deyrnas nefoedd yn y byd a ddaw. Sylwer mai ei gyfaddef ef yn Grist, h.y., yn Fessiah oedd y trosedd a fwriedid gosbi.

23. Yr oedd y rhieni erbyn hyn wedi gweled fod yr Iddewon hyn o ddifrif.

24. "*Am hynny hwy a alwasant eilwaith y dyn,*" &c. "Am hynny," sef am fod ei rieni wedi rhoddi'r cyfrifol-

25 *Yna* yntau a attebodd ac a ddywedodd, Ai pechadur yw, nis gwn i: un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.

26 Hwythau a ddywedasant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid di?

---

deb o roddi ateb i'r cwestiwn "pa fodd." Tybir gan lawer, oddiwrth y gair "eilwaith," fod y dyn wedi cael ei gymeryd allan o'u gŵydd, tra yr oeddent hwy yn holi ei rieni.

"*Dyro y gogoniant i Dduw.*" Y mae y cyfieithiad Saesneg yn hollol gamarweiniol; nid dyro y "clod" neu'r "diolchgarwch" am dy wellhad a ddywedir o gwbl, ond dyro y "gogoniant." Yr oedd y dyn rywfodd trwy ei ymddygiad i ddwyn gogoniant i Dduw. Tybir fod yr ymadrodd hwn yn ffurfio math o lŵ a arferid ymhlith yr Iddewon, ac mai ei ystyr ydyw, "dywed y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir." Y mae y "ni a wyddom" yn y frawddeg olaf yn yr adnod yn hynod bwysleisiol. Hwy oedd yr unig awdurdodau ar bynciau crefyddol yn y wlad, nid oedd ond un farn yn bosibl ynghylch y cwestiwn, a'u barn hwy oedd honno!

25. Y mae y tyst (yn yr hwn yn awr y canolbwyntia'r dyddordeb, "yntau") yn llawer mwy cyfrwys-gall nag yr oeddent hwy yn tybied. Y mae yn ail-adrodd eu haeriad anffaeledig hwy, ond nid yw yn rhoddi un math o farn arno. Y mae'n gadael cyhuddiad mor gyffredinol iddynt hwy, ac yn ymroddi'n hytrach i siarad nid ynghylch opiniynau ond ynghylch ffeithiau.

"*Un peth a wn i,*" *&c.* Sylwer fod y tyst yn defnyddio'r un gair (yn golygu gwybodaeth sicr) ag a ddefnyddiasent hwy, ond nid ynghylch yr un mater.

26. Wedi gweled nad oedd haeriadau noeth yn talu dim gyda thyst o'r fath, y maent yn prysuro i'w ail-holi ynghylch y manylion. Gwnant hyn, nid am eu bod yn barod i gredu y caent ryw sicrwydd pellach, ond am fod eu prif wrthddadl wedi torri i lawr. Yr oeddent wedi rhagfarnu yr Iesu, ac ni fyddai i unrhyw dystiolaeth, pa mor eglur bynnag, byth eu siglo.

27 Yntau a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni wrandawsoch: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn? a ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef?

28 Hwythau a'i difenwasant ef, ac a ddywedasant, Tydi sydd ddisgybl iddo ef; eithr disgyblion Moses ydym ni.

29 Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses: *eithr* hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe.

---

27. Y mae yn amlwg oddiwrth yr adnod hon nad yw y tyst "heb wybod eu dichellion hwy"; y mae wedi rhoddi iddynt ateb byr ond eglur (adn. 15), ac nid yw yn gweled ei bod yn unrhyw les i ail-holi.

"*A ydych chwithau hefyd*," &c. Nid yw yn anhawdd gweled y gwawd sydd yn gynwysedig yn ffurf y cwestiwn hwn a'r un blaenorol. "Chwithau hefyd" yn ogystal ag efe ei hun a olygir yn ddiameu. Yr oedd efe wedi ei gyfaddef Ef yn brophwyd (adn. 17) eisoes. Cred ereill mai "chwithau hefyd" yn ogystal a'r lliaws sydd yn ei ddilyn yn Jerusalem a olygir.

28. Fel pawb sydd wedi colli'r dydd mewn dadl, y maent yn prysuro i wneud yr unig beth a fedrent, sef ei wawdio a'i ddirmygu. Yr oedd yn amlwg ei fod wedi torri'r ddeddf a barchent mor fawr (?), ac oherwydd hynny dyna'r driniaeth a haeddai ar law ei cheidwaid. Y mae y rhageuwau yn bwysleisiol yn yr adnod hon yn ogystal a'r un ddilynol. Cyferbynir ei waith ef yn dilyn "hynyna" â'r warogaeth ffug-grefyddol a dalent hwy i ddeddf-roddwr y genedl. Y maent am daflu sarhad ar yr athraw (yr Iesu) yn ogystal ag ar ei ddisgybl. Nid oedd yr un amheuaeth yn eu meddwl nad oeddent hwy yn deall cyflawn ystyr yr hyn a ordeiniodd Moses.

29. Yma drachefn cyferbynnir "Hwn" nas gwyddent o ba le yr oedd â Moses, wrth yr hwn y llefarodd Duw. Y mae y ferf yn yr amser perffaith, ac am hynny yn golygu fod yr hyn a lefarodd Duw wrth Moses yn aros o hyd yn drysor ym meddiant y genedl. Y mae y gair a gyfieithir "llefaru" yn golygu "siarad yn gyfeillgar." Y fath gyferbyniad ynte rhwng Moses, cyfaill Duw, a'r prophwyd dirmygedig hwn o Nazareth, na wyddai neb o ba ffynhonnell y derbyniasai ei wybodaeth a'i awdurdod.

30 Y dyn a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn hyn yn ddïau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i.

31 Ac ni a wyddom nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid: ond os yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrandaw.

32 Ni chlybuwyd erioed agoryd o neb lygaid un a anesid yn ddall.

33 Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe wneuthur dim.

---

30. Y mae amryw o'r llawysgrifau goreu yn rhoddi y fannod o flaen y gair "rhyfeddod,"—"y rhyfeddod,"—h.y., y rhyfeddod mwyaf a welodd erioed, gweled arweinwyr ei genedl yn cydnabod nad oeddent yn gwybod dim am ŵr oedd mor enwog fel dysgawdwr ac fel cyflawnwr gwyrthiau (Cymh. iii. 10). Yr oeddent hwy yn adn. 24 a 29 wedi ymffrostio yn eu gwybodaeth anffaeledig, ac eto mor fuan y daethant ar draws rhywbeth nas gwyddent ddim am dano. Yr oedd y wyrth yn ffaith, meddai'r dyn, a dylent hwy o bawb fod yn meddu rhyw fath o farn am yr Hwn a'i cyflawnodd. Y mae'r tyst yn gweled ei fod wedi eu corneli i raddau.

31. "*Nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid.*" Nid yw yn golygu wrth y gair "pechaduriaid" bawb oedd yn ngafael pechod, oblegid os felly, nis gallai Duw wrando neb ond pobl ddibechod a pherffaith, o ba rai nid oes un. Ofer fyddai i ddynion weddio os nad yw Duw yn gwrando pechaduriaid edifeiriol. Yr hyn a olygai yn ddiau ydoedd pechaduriaid gwargaled ac anedifeiriol, yn myned rhagddynt yn eu drygioni. Golyga'r gair a gyfieithir yma "addolwr" un sydd yn "ofni Duw." Y mae y frawddeg olaf yn yr adnod yn profi fod y dyn yn coleddu yr un gwirioneddau ag a ddysgai'r Iesu, ac y mae hynny i raddau helaeth yn ffafrio'r eglurhad cyntaf a roddwyd ar "a ydych chwithau hefyd," &c. (adn. 27).

32. Y mae'r dyn drachefn yn disgyn i lawr i fyd ffeithiau. Ni cheir yr ymadrodd a gyfieithir yma "erioed" mewn un man arall yn y Test. Newydd.

33. Wrth "dim" yn ddiau y golygai'r dyn dim gwyrth. Edrychai efe ar y gallu fel prawf amlwg o ffafr Duw.

34 Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Mewn pechodau y ganwyd ti oll; ac a wyt ti yn ein dysgu ni? A hwy a'i bwriasant ef allan.

35 Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan: a phan ei cafodd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu ym Mab Duw?

36 Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pwy yw *efe, O* Arglwydd, fel y credwyf ynddo?

---

34. Y mae y cyfieithiad Cymraeg, trwy roddi'r geiriau "mewn pechodau" ar ddechreu'r frawddeg, yn cadw y pwyslais priodol. Yma drachefn y mae ei gyhuddwyr pan y methasant ei drechu mewn dadl, yn ymroddi i'w ddifenwi. Yn ol eu barn hwy nis gellid byth gael gafael ar bechadur mwy na'r hwn, am ran fawr o'i oes, oedd wedi bod yn arwyddion gweledig o wirionedd yr athrawiaeth fod Duw yn cosbi pechod yn y byd. Yr oedd ei ddallineb yn brawf o bechod ei rieni (Cymh. adn. 2).

"*Ac a wyt ti yn ein dysgu ni?*" Y mae pwyslais i'w roddi ar y gair "dysgu,"—dyna oedd yn peri syndod iddynt, gweled gwr o i fath ef yn cymeryd arno oleuo ereill, a'r rhai hynny yn "ddisgyblion Moses."

35. Efallai fod y dyn ei hun wedi dweud wrth rai am y driniaeth a gafodd, ac nid yw dyfarniad llŷs ar un adeg yn hir cyn dyfod yn wybyddus i'r cyhoedd. Y mae y gair a gyfieithir yma "cafodd" yn golygu "cael" ar ol gwneud ymchwiliad am dano.

"*A wyt ti yn credu yn Mab Duw?*" Mewn rhai llawysgrifau pwysig darllenir nid "Mab Duw" ond "Mab y Dyn," a chan fod lle cryf i gredu fod yr olaf yn un o deitlau arferedig y Messiah, dyna'r darlleniad a dderbynnir gan amryw esbonwyr. Hona'r rhai sydd yn gwrthwynebu'r darlleniad "Mab y Dyn" na chyfleai y cyfryw deitl unrhyw syniad i feddwl yr hwn a fu ddall, ond credwn y byddai y teitl "Mab Duw" yn cyfleu llawer llai i Iddew oedd wedi arfer credu mai un Duw sydd, ac yntau yn clywed y teitl newydd hwn am y tro cyntaf.

36. Nid pwy oedd "Mab y Dyn"; o bosibl gwyddai pwy oedd hwnnw i fod, ond pwy oedd y person i ba un y perthynai'r teitl hwn yn briodol. Sylwer nad oedd y

37 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Ti a'i gelwaist ef; a'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw ydyw efe.
38 Yntau a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, *O* Arglwydd. Ac efe a'i haddolodd ef.
39 ¶ A'r Iesu a ddywedodd, I farn y deuthum i'r byd hwn; fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.

---

dyn erioed wedi gweled yr Iesu er ei fod yn gwybod Ei enw. Y mae yn amlwg oddiwrth ddiwedd yr adnod nad oedd ei ffydd ef mor wan ag y tybir gan rai.

37. "*Ti a'i gwelaist Ef.*" H.y., â'r llygaid a agorwyd mewn ffordd mor wyrthiol.

"*A'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw yw efe.*" Y mae'r eglurhad a rydd ein Harglwydd yn hynod debyg i'r un a roddodd i'r wraig o Samaria yn iv. 26. Sylwer hefyd mai am y "Messias yr hwn a elwir Crist" yr oedd y wraig honno wedi bod yn son (Gwel ar adn. 35). Yr oedd "Mab y Dyn"—gwr mor urddasol—fel gwaredwr disgwyliedig y genedl yn ymddiddan â gwr yr oedd arweinwyr y genedl honno newydd daflu cymaint dirmyg arno.

28. "*Yr wyf yn credu, O Arglwydd.*" Tybia llawer y dylid newid trefn y geiriau,—"O Arglwydd, yr wyf yn credu"—ac felly roddi'r pwyslais ar y gwrthrych y credid ynddo yn hytrach nag ar y ffaith o gredu. Y mae yn anhawdd meddwl fod y gwr hwn ar unwaith wedi dyfod i feddu "ffydd achubol" yn yr Iesu; yn araf y daeth hyd yn oed Ei brif ganlynwyr i gredu ynddo fel Iachawdwr y byd. Er hynny y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn sydd yn dilyn ("ac efe a'i haddolodd ef") ei fod yn ymwybodol fod yna ryw fawredd rhyfedd yn perthyn i'r Iesu a'i fod yn barod i dalu parch anarferol iddo.

39. "*I farn y daethum i'r byd hwn.*" Nis gwyddis pwy oedd yr Iesu yn annerch fel hyn, ond pwy bynnag oedd Ei wrandawyr, y mae'r geiriau hyn yn rhoddi esboniad yr Iesu ar yr hyn oedd wedi cymeryd lle. Yr oedd y dall oedd "yn awr yn gweled" wedi cael ei fwrw allan o'r synagog, a'i ddirmygu gan arweinwyr crefyddol yr Iddewon, ac eto yr oedd yn syrthio wrth draed yr Iesu ac yn cael derbyniad ganddo fel addolwr ac fel disgybl. Yr oedd y digwyddiad yn arwyddocau fod "y

40 A *rhai* o'r Phariseaid a oedd gyd âg ef, a glywsant y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho, Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?

41 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod: eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.

---

maen a wrthododd yr adeiladwyr "wedi dyfod "yn ben i'r gongl." Yr oedd Iddewiaeth, crefydd cenedl, wedi methu, ac yr oedd Cristionogaeth crefydd pob llwyth ac iaith a chenedl wedi dyfod i gymeryd ei lle. Yr oedd y ffaith fod rhai yn dilyn yr Iesu ac yn credu ynddo o honynt eu hunain yn creu gagendor rhyngddynt â'r rhai nad oedd yn credu. "I farn y daethum i'r byd."

"*Fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled,*" &c. Diau mai "gweled ysbrydol" yr oedd yr Iesu yn meddwl am dano. Cynrychiolid y dosbarth cyntaf gan y dyn dall, yr hwn na phroffesai fod wedi cyrraedd ystad uchel mewn ystyr ysbrydol, tra y cynrychiolid yr ail ddosparth gan y Phariseaid hunan-ddigonol, a honnent fod holl ddirgelion yr Anfeidrol wedi eu rhoddi i'w cadwraeth hwy. Gwyddent yn dda am holl brophwydoliaethau ac addewidion Duw (gwel ar v. 39), ac eto profodd dyfodiad Iesu Grist i'r byd nad oeddent yn deall eu hystyr (Cymh. S. Math. ix. 10—14).

40. "*A rhai o'r Phariseaid,*" &c. Myn rhai nad oedd y Phariseaid hyn yn bleidwyr i'r Iesu, ond credwn mai gwell yw edrych arnynt fel rhyw fath o ganlynwyr iddo. Yr oeddent hwy fel llawer yn Ei ddilyn ac eto yn glynu'n dŷn wrth eu syniadau daearol am Ei gymeriad a'i waith fel Messiah.

"*Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?*" Y mae yn amlwg oddiwrth y cwestiwn hwn fod y Phariseaid hyn wedi deall cyfeiriad yr Iesu yn adn. 39. Rhaid eu bod hwy, y mwyaf gwybodus o'r holl genedl, ymhlith "y rhai oedd yn gweled."

41. Edrychir ar "bechod" gan yr Iesu yma fel rhywbeth sydd yn glynu wrth y pechadur nes dyfod yn rhan o hono. Pe na buasent erioed wedi cael cyfleustra i weled, yna buasent yn ddieuog.

PENNOD X.

Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw.

"*Eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.*" Yr oeddent hwy meddai'r Iesu trwy broffesu mai iddynt hwy yn unig y rhoddwyd y fraint i weled, yn dystion yn eu herbyn eu hunain. Tra y byddent yn y cyflwr yna, "yn gweled ac eto yn ddall," yr oedd yn anobeithiol meddwl iddynt gael eu goleuo. Am hynny y mae eu "pechod yn aros." Yr oeddent wedi cael pob rhagorfreintiau i ddysgu deall a gweled, ac yr oeddent yn fwriadol wedi gwrthod croesawu y goleuni.

PENNOD X.

Adnodau 1—21. Eglurhad yr Iesu ar natur yr Eglwys Gristionogol mewn ffurf alegori,—Y Bugail Da. Credwn mai y dosraniad goreu ydyw yr un canlynol:—

(1.) Yr holl alegori yn ei hanfod, "y gorlan, defaid, bugail, drws" (1—6).

(2.) Eglurhad yr Iesu ar y drws (7—10).

(3.) Eglurhad yr Iesu ar y Bugail (11—16).

Yn ychwanegol ceir (1.) Ei berthynas ef â'r Tad (17, 18). (2.) Effaith yr alegori ar Ei wrandawyr (19—21). Diau mai ymddygiad y Phariseaid tuag at yr hwn a fu ddall oedd yr achos uniongyrchol paham y llefarodd yr Iesu yr alegori hon. O ganlyniad y mae y cysylltiad agosaf yn bodoli rhyngddi â'r syniadau a geir yn y bennod flaenorol. Yr oedd y Phariseaid yn cyfrif eu hunain fel bugeiliaid, ond yr oeddent trwy eu hymddygiad wedi profi nad oeddent namyn "lladron ac yspeilwyr." Aeth y dyn dall atynt hwy, ond yn lle ei arwain a'i ymgeleddu, ni wnaethant ond ei "ysglyfio." Wedi hyny daeth at y gwir Fugail, yr hwn a fu yn dirion ac yn dyner wrtho.

1. "*Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.*" Dywedir na cheir yr ymadrodd hwn byth ar ddechreu un o anerch-

2 Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw.

3 I hwn y mae y drysawr yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef: ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan.

---

iadau'r Iesu,—prawf arall o'r cysylltiad at ba un y cyfeiriwyd uchod.

"*Yr hwn nid yw yn myned,*" *&c.* Fel rheol yr oedd mur o amgylch corlannau yn ngwlad y dwyrain, ac yn fynych gwelid amryw fugeiliaid yn gyrru eu defaid i'r un gorlan. Ar ol cyrraedd y gorlan gadewid hwy yn ngofal bugail arall, gwaith yr hwn oedd cau y drws yn ddiogel a gwylio'r defaid drwy'r nos. Cred rhai fod yr alegori wedi ei llefaru gyda'r hwyr, ac felly fod yr Iesu a'i wrandawyr yn gweled y bugeiliaid ar y bryniau cylchynol yn arwain eu defaid i'r corlannau.

"*Eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac ysbeiliwr yw.*" Ni cheir y gair a gyfieithir yma "ffordd arall" mewn un man arall yn y Test. Newydd. Ei ystyr yw "o gyfeiriad arall." Nid yw y gwr penrhydd sydd yn dringo ffordd arall, neu'n dyfod o gyfeiriad arall yn foddlon i ddefnyddio'r moddion arferol i gyrraedd y defaid, y mae yn myned ar ei union, oherwydd mai cyrraedd ei amcan ei hun yw ei bwnc mawr. Y mae hunanymwadiad a thynerwch bugail yn beth hollol ddieithr iddo. Y mae gwahaniaeth rhwng "lleidr" ac "ysbeiliwr." Ceisia'r lleidr gael trwy dwyll yr hyn nad yw yn eiddo iddo, ond y mae'r ysbeiliwr, os na chaiff ef trwy dwyll, yn barod i'w fynnu trwy drais. Nid oedd y gair blaenaf yn ddigon cryf i ddesgrifio ystrywiau y ffugfugail hwn.

2. Gadewir y fannod allan o flaen y gair "bugail" oherwydd fod yr Iesu yn cyfeirio at un o'r gwir fugeiliaid, o ba rai y deuai amryw i'r un gorlan, ac felly yn desgrifio y cymeriad bugeiliol yn gyffredinol. Rhaid i bob gwir fugail i ddefaid Crist fyned i fewn ei hun trwy'r un drws ag yr arweinia'r defaid drwyddo. Y mae gwrthgyferbyniad hollol felly rhyngddo â'r "lleidr a'r ysbeiliwr."

3. "*I hwn y mae y drysawr yn agoryd.*" Wrth y "drysawr" y golygir y "bugail" hwnnw oedd wedi bod

4 Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy: a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef.

5 Ond y dieithr nis canlynant, eithr ffoant oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais dieithriaid.

---

yn aros gyda'r defaid drwy'r nos (gwel ar adn. 1). Y mae esbonwyr wedi bod yn bur brysur yn ceisio darganfod pwy a feddylir wrth "ddrysawr" Eglwys Crist, ond credwn mai camgymeriad ydyw ceisio gwasgu pob term a ddefnyddia'r Arglwydd mewn alegori neu ddameg nes cael cyfatebiaeth berffaith rhwng y naturiol a'r ysbrydol. Un gwirionedd mawr a ddysgai ein Harglwydd fel rheol ym mhob un o honynt, a gorfanylwch yn unig sydd eisiau gweled mwy ynddynt.

"*Ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef.*" Gwelsom ddefaid hyd yn oed yn y wlad hon oedd yn adnabod eu bugail, pa faint mwy yn ngwlad y dwyrain lle yr oedd yn rhaid wrth gymaint o ofal drostynt. Yr oedd yr holl ddefaid oedd yn y gorlan yn adnabod ei lais fel llais bugail.

"*Ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun,*" &c. Yma y mae yn didoli ei ddefaid ei hun oddiwrth y rhelyw o ddefaid y gorlan trwy alw arnynt wrth eu henwau, arwydd amlwg o'r anwyldeb a'r agosrwydd a fodola rhwng y bugail a'i braidd.

4. Ni cheir y gair "defaid" o gwbl yn nechreu'r adnod mewn llawer o lawysgrifau, a dywedir y dylid cyfieithu "ac wedi iddo yrru allan yr oll o'i eiddo ei hun." Defnyddir yr un gair yma am "yrru allan" ag a ddefnyddir yn ix. 34 am y Phariseaid yn bwrw'r dyn dall allan o'r synagog. Credwn fod y gair wedi ei ddefnyddio yn fwriadol. Yr oedd y bugeiliaid Phariseaidd wedi gyrru y ddafad hon allan, ac yna wedi ei gadael i lithro ar gyfeiliorn lle y mynnai. Yr oedd y gwir fugail yn gyrru ei ddefaid allan ac yna yn myned o'u blaen hwy i'w harwain. Sylwer nad oes son yma am ddefaid colledig nac am eifr. Dangos nodweddion y bugail ydyw pwnc yr Iesu, nid desgrifio'r defaid,—y mae'r bugail yn myned i fewn trwy y drws, y mae'r defaid yn adnabod ei lais ac y mae yn eu galw oll wrth eu henwau.

5. "*Ond y dieithr nis canlynant,*" &c. Y mae'r ddau air a gyfieithir "nis" yma yn gryf iawn, a dylid

6 Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu wrthynt: ond hwy ni wybuant pa bethau ydoedd y rhai yr oedd efe yn eu llafaru wrthynt.

7 Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Myfi yw drws y defaid.

8 Cynnifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac yspeilwyr ŷnt: eithr ni wrandawodd y defaid arnynt.

---

cyfieithu "nis canlynant mewn un modd,"—h.y., er iddo dreio llawer ffordd a'u denu trwy ffugio llais fel bugail. Y mae'r defaid hyn yn adnabod llais y bugail yn rhy dda byth i wneyd camgymeriad. Y mae cymeriad defaid Crist a'i hadnabyddiaeth o wir fugail, wedi bod mewn llawer oes yn foddion i roddi terfyn ar ddichellion lladron ac ysbeilwyr oedd wedi dringo ffordd arall.

6. Ni ddefnyddir y gair a gyfieithir yma "dameg" o gwbl gan yr Efengylwyr ereill pan yn son am ddamegion ein Harglwydd, ac o bosibl, er mwyn eglurder, dylid cyfieithu yma, nid "dameg," ond "alegori." Methodd y Phariseaid ddeall y gwirioneddau ysbrydol a ddysgai yr Iesu, nis gwelsant yn nghymeriad y bugail nac yn ymddygiad y praidd unrhyw gyfeiriad atynt hwy, ac nid ymddengys chwaith eu bod wedi darganfod unrhyw gyfeiriad at yr Iesu fel bugail. Yr oedd yr anwyldeb rhwng y bugail a'i braidd yn hynod ddieithr i arweinwyr a edrychent ar y bobl, y rhai "ni wyddent y gyfraith" fel "melldigedig" (gwel vii. 49).

7. Gan na ddeallasant ystyr yr alegori (gwel adn. 6) y mae yr Iesu yn desgrifio Ei gymeriad a'i berthynas â'r defaid mewn modd mwy neilltuol o dan ddau ffugr. Efe yw y drws, a thrwyddo Ef y mae cael mynediad i mewn i'r gorlan. Efe hefyd yw y Bugail Da sydd yn gwylio yn ofalus dros bob dafad yn Ei braidd. Sylwer na ddywed yn yr adnod hon mai Efe oedd drws y gorlan, ond mai Efe oedd drws y defaid. Nid oes i'r gorlan unrhyw amcan ar wahan i'r defaid. Ac os Efe oedd drws y defaid Efe hefyd oedd y drws trwy ba un yr äi y bugeiliaid i mewn (gwel adn. 2).

8. "*Cynnifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac ysbeilwyr ydynt.*" Gadewir allan "o'm blaen i" mewn amryw o lawysgrifau boreuol pwysig, a chredwn fod hynny yn gryn gynorthwy i ddeall meddwl yr Iesu.

9 Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig; ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa.

Y mae yn amhosibl credu fod yr Hwn a ddangosai yn wastad barch mor fawr i wroniaid yr Hen. Dest., yn batriarchiaid a phrophwydi, yn eu condemnio yma un ac oll fel ffug-fugeiliaid. Felly credwn mai cyfeirio y mae'r Iesu at y gau-Gristiau a ymddangosasant gan broffesu mai hwy oedd arweinwyr addawedig y genedl. Daeth ef yn "nghyflawnder yr amser" pan oedd disgwyliad wedi cyrraedd ei eithaf-bwynt, ac Efe gan hynny oedd gwir Fugail pobl yr Arglwydd. Nid oedd y dosbarth duwiolfrydig hynny oedd yn "disgwyl am ddiddanweh yr Israel" wedi rhoddi unrhyw goel ar y ffug-arweinwyr hynny, am nad oeddent wedi dwyn nodweddion y gwir Fessiah. Yr oedd y gwir ddefaid hyn yn adnabod llais y gwir Fugail—nis gellid eu twyllo.

9. *"Myfi yw y drws."* Y mae y "myfi" yma yn bwysleisiol, ac nid oes yr un dysgawdwr ond yr Iesu erioed wedi meiddio rhoddi y fath bwyslais ar y rhagenw hwnnw. Ceir yr un nodwedd yma ag yn Ei ymddiddanion blaenorol,—"Myfi yw bara y bywyd," &c. Efe yw'r drws i fugeiliaid yn ogystal ag i'w defaid fel y dengys yr ymadrodd dilynol, "os â neb," &c.

"Os â neb i fewn trwof fi," &c. Ceir y geiriau a gyfieithir "trwof fi" yn nechreu yr adnod yn y gwreiddiol, ac felly y maent yn bwysleisiol. Ail-adroddir y ferf "â" er dangos y rhyddid a fwynheir gan yr hwn sydd wedi myned i mewn trwyddo Ef. Ceir yma nodweddion y gwir Gristion. (1.) Y mae yn ddiogel. (2.) Y mae yn mwynhau rhyddid. (3.) Y mae yn derbyn cynhaliaeth. Ni olygir i'r ddafad aros yn y gorlan o hyd, camgymeriad ydyw unigedd diogel y mynach. Y mae'r gwir gredadyn i fyned i mewn ac allan; y mae i aros yn y byd, ond y mae i gael ei gadw rhag y drwg. Yn ystod y dydd y mae yn crwydro yma a thraw i chwilio am gynhaliaeth, ond y mae yn wastad o dan arweiniad ei Fugail ac yn dychwelyd i'w gorlan yn yr hwyr. Trwy gymysgu â'r byd oddiallan i'r Eglwys yn fynych y mae'r Cristion yn dyfod i feddiant o'r profiad ysbrydol helaethaf.

10 Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddistrywio: myfi a ddeuthum fel y caent fywyd, ac y caent *ef* yn helaethach.

11 Myfi yw y bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid.

---

10. "*Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta*," &c. Nid oes i'r geiriau "ladrata," "lladd," a "distrywio" ystyron gwahanol o angenrheidrwydd, nid ydynt ond desgrifiad byw o'r modd y mae lleidr yn ymgymeryd â'i orchwyl ac yn ei ddwyn ymlaen. Ni cheir y fannod o flaen y gair lleidr yn y cyfieithiad Cymraeg, ond ceir hi yn y gwreiddiol,—y lleidr. Diameu mai cyfeirio yr oedd yr Iesu felly at gymeriad nodweddiadol lleidr. Myn rhai mai y diafol a olygir wrth "y lleidr," ac y mae tad y drwg yn cyfateb, yn ei berthynas â'r Iesu, i'r desgrifiad a roddir yma o'r lleidr a'r gwir fugail, ond credwn mai gwell ydyw deall mai at gau-fugeiliaid dynol, megys y Phariseaid yn ei ymyl, yr oedd yr Iesu yn cyfeirio.

"*Myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.*" Sylwer mai y prif amcan ydyw nid cyfeirio at yr Iesu fel y "drws," ond dangos y cyferbyniad rhyngddo fel bugail a'r lleidr. Y mae amseriad y ferf "daethum" yn dangos mai cyfeirio yr ydoedd at Ei ddyfodiad unwaith yn yr Ymgnawdoliad. Yr oedd Efe yn wahanol i fugeiliaid cyffredin, cael iddynt eu hunain oedd eu hamcan hwy, ond peri i'r defaid gael oedd Ei brif bwnc Ef. Ac un peth yr oedd Efe wedi dyfod i'w roddi iddynt trwy Ei ymdrechion hunan-ymwadol, sef "bywyd." Felly y mae cyferbyniad eithafol rhyngddo â'r lleidr, yr hwn sydd yn dwyn ymaith fywyd, ("lladd," "distrywio"). Ni cheir y rhagenw "ef" yn y gwreiddiol, ac am hynny y mae amryw esbonwyr am gyfieithu "fel y caent fywyd ac y caent helaethrwydd." Ac wrth 'helaethrwydd' meddent hwy y golygir y ddarpariaeth allanol, gyflawn, a digonol, er cynnal y bywyd sydd wedi ei rhoddi (Cymh. "ac a gaiff borfa," adn. 9). Ond os cadwn y cyfieithiad cyffredin "helaethach," rhaid mai cyfeirio y mae'r Iesu at ragoriaeth y bywyd a ddug Efe, ar y bywyd oedd ym meddiant Adda ym Mharadwys, neu o bosibl y bywyd a fwynheid gan dduwiolion yr Hen Oruchwyliaeth.

11. "*Myfi yw y Bugail Da.*" Ceir y fannod yn y

12 Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid, sydd yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid.

---

gwreiddiol o flaen y gair "Bugail," ac hefyd o flaen yr ansoddair "da," a rhoddwyd hi felly yn ddiameu er pwyslais ar y gwahaniaeth rhwng y Bugail hwn a bugeiliaid ereill. Gellir cyfleu'r syniad i raddau yn Gymraeg fel y canlyn: "Myfi yw y Bugail—y Bugail Da." Y mae'r ansoddair a ddefnyddir yma yn golygu nid yn unig fod y Bugail yn "dufewnol" dda, h.y., yn aruchel o ran Ei syniadau ac yn gywir o ran Ei amcanion, ond hefyd ei fod yn hardd (dyna ystyr wreiddiol y gair) i edrych arno, yn cyflawni Ei ddyledswyddau gyda ffyddlondeb dibaid a chyda'r tynerwch mwyaf. Desgrifio cymeriad yr Iesu fel y Bugail Da ydyw prif bwnc yr adnodau hyn, a chredwn mai camgymeriad ydyw ceisio darganfod pwy a feddylir wrth y "gwas cyflog," y "blaidd," &c. (Gwel ar adn. 3).

"*Rhoddi ei einioes dros y defaid.*" Cyfieithiad cywirach fyddai "rhoddi ei fywyd i lawr." Defnyddir y gair yn yr awduron clasurol am dalu pris er prynu rhywbeth. Y mae'r arddodair "dros" sydd yn dilyn yn cydfyned â'r syniad yna, rhoddi Ei fywyd i lawr er sicrhau lles a diogelwch y defaid. Y mae'r darlun a dynnir yma yn anealladwy i ni yn y wlad hon, ond yng ngwlad y dwyrain, lle y gwelid lladron a bleiddiaid yn fynych ddigon, nid oedd yn ddigwyddiad mor anghyffredin. Y mae esbonwyr o dueddiadau beirniadol ac Undodaidd am i ni gredu nad oes yma ddim mwy na desgrifiad cyffredinol o fywyd hunan-ymwadol yr Iesu,—Ei fod wedi treulio Ei oes er lles ei gyd-ddynion ac wedi llafurio mor ddibaid nes marw "cyn ei amser." Ond y mae'n amlwg fod pwyslais neilltuol yn cael ei roddi ar y farwolaeth ynddi ei hun; nid damwain a roddodd ddiwedd ar fywyd peryglus y Bugail. Trwy iddo Ef roddi Ei fywyd i lawr yr oedd defaid Ei braidd i gael bywyd (Gwel adn. 10). Yr oedd "rhoddi ei einioes i lawr *dros* y defaid" felly yn rhan hanfodol o'i waith.

12. Ni cheir y gair a gyfieithir yma "gwas cyflog" ond mewn un man arall yn y Test. Newydd, sef yn S.

13 Y mae y gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyflog yw, ac nid oes ofal arno am y defaid.

14 Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadweinir gan yr eiddof fi.

15 Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad: ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid.

Marc i. 20 am "gyflog-ddynion" Zebedeus. Y mae'r 'gwas cyflog" hwn ym mhob peth yn gyferbyniad hollol i'r bugail Nid yw'r geiriau "yr hwn nid eiddo" yn cyfeirio yn gymaint at berchennogaeth ag at berthynas.

"*Sydd yn gweled y blaidd yn dyfod.*" Wrth y "blaidd" y golygir unrhyw elyn i'r defaid, ac felly mewn ystyr ysbrydol, unrhyw elyn i Grist (gwel ar adn. 11). Darlunir y "gwas-cyflog" fel yn edrych dros amser ar y perygl cyn penderfynu, ac yna yn gwneud ei feddwl i fyny i adael y defaid a ffoi.

"*A'r blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy,*" *&c.* Yr hyn a olygir yw fod y bwystfil rheibus yn lladd rhai defaid ac yn gwasgaru y rhai nas medr ei dal. Y mae'n ddarluniad byw o ymosodiad ar gorlan. Gadewir allan "y defaid" mewn amryw lawysgrifau; nid ydyw y geiriau yn angenrheidiol ar ol "hwy."

13. Gadewir allan hefyd y geiriau "y mae y gwas cyflog yn ffoi" gan liaws o lawysgrifau pwysig. Y mae rhediad y brawddegau yn ddigon naturiol os gadewir hwy allan, "yn eu hysglyfio hwy ac yn tarfu y defaid, am mai gwas-cyflog yw," &c.

14. Yma ail-adroddir y frawddeg, "Myfi yw y Bugail Da," ac enwir nodwedd arall sydd yn perthyn i'r Bugail hwnnw.

"*Ac a adwaen yr eiddof fi.*" Y mae'r wybodaeth a fedd o'r defaid, fel y dengys y gair a gyfieithir "adwaen," yn sylfaenedig ar Ei gysylltiad agos â hwynt, a'i brofiad helaeth o honynt. Ac y mae'r defaid hefyd yn meddu gwybodaeth gyferbyniol i'r eiddo ef fel y dengys y frawddeg ddilynol. Felly trwy yr adnabyddiaeth ddwy-blyg hon y mae y cydgordiad hwn, sydd yn tarddu oddiar y berthynas agosaf, yn bodoli rhyngddynt. Y ffurf weithredol ddylid roddi ar y ferf, ac nid yr oddefol, fel yn y cyfieithiad cyffredin.

15. Dywedir na ddylid rhoddi atal-nod *(full stop)* ar ddiwedd ar adnod flaenorol, ac y dylid darllen "a'm

16 A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon: y rhai hynny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant; a bydd un gorlan, *ac* un bugail.

---

heiddo i a'm hadwaenant innau, (ffurf weithredol. Gwel ar adn. 14) fel yr edwyn y Tad fyfi ac yr adwaen," &c. Os gwneir hyn yna y meddwl fydd fod y tebygolrwydd mwyaf yn bodoli rhwng y berthynas sydd rhwng Ei eiddo Ef â Christ a'r agosrwydd a fodola rhwng Crist a'r Tad. Arddanghosir teimlad a gwybodaeth ar ddwy ochr ym mhob un o'r ddwy berthynas.

"*Ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid.*" Y mae'r adnabyddiaeth a'r anwyldeb a nodwyd yn arwain i hunan-ymwadiad mor fawr ar ran y bugail. Ac y mae'r gwirionedd hwn yn ei dro yn arwain i fyny at y syniad a geir yn yr adnod ddilynol am symud rhagfuriau cenedlaethol ("defaid ereill").

16. "*A defaid ereill sydd genyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon.*" Nid yr Iddewon ar wasgar a olygir wrth y "defaid ereill" fel y tybia rhai, ond yn hytrach y Cenhedloedd. Credwn fod y pwyslais i'w roddi nid yn gymaint ar "hon," er fod hynny hefyd yn dangos y gwirionedd, ond yn hytrach ar "gorlan," gan gyfeirio at y ffaith fod yr Iddewon er ys oesau wedi bod mewn corlan o dan ofal tyner eu bugail, tra yr oedd y Cenhedloedd ar wasgar heb neb i ofalu am danynt (Cymh. vii. 35 a xii. 52).

"*Y rhai sydd raid i mi eu cyrchu,*" &c. Nid "cyrchu" yw ystyr y gair a geir yn y gwreiddiol ond "arwain." Ni olygir felly fod yr Iesu yn myned i ddwyn y Cenhedloedd gwasgaredig i gorlan Iddewiaeth. Gall Efe eu harwain yn y mannau lle y maent.

"*A bydd un gorlan ac un Bugail.*" Gadewir allan y cysylltair "ac" yn y gwreiddiol. Y mae cam-gyfieithiad hefyd yn y frawddeg; nid un "gorlan" a ddywedir ond un "praidd." Y mae'r gair "Bugail" a'r gair "praidd" yn y gwreiddiol yn tarddu o'r un gwreiddyn, ac felly gellir dangos y cysylltiad yn well nag yn yr iaith Gymraeg. Ymgais i wneyd "un gorlan" fu holl ymdrechion yr Iddewon a gredent yn yr Iesu yn yr oes Gristionogol gyntaf (Gwel Actau xv.).

17 Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes, fel y cymmerwyf hi drachefn.

18 Nid oes neb yn ei dwyn oddi arnaf fi: ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad.

---

17. "*Am hyn*," sef am fod y Bugail Da yn rhoddi Ei einioes dros y defaid a thrwy hynny yn eu gwneud yn "un praidd."

"*Am fy mod i yn dodi fy einioes fel y cymerwyf hi drachefn.* Y mae pwyslais i'w roddi ar y rhagenw "fi," —yr Iesu o'i ran a'i ewyllys Ei Hun. Nid canlyniad a ddarnodir gan y cysylltair "fel" ond pwrpas neu amcan. Bu yr Iesu farw er adgyfodi drachefn i fywyd uwch a helaethach Ei Hun, a heíyd er mwyn cyfrannu y cyfryw fywyd i ereill. Dyma'r hyn, os goddefir yr ymadrodd, a enillodd gariad y Tad.

18. Ni cheir y gair "yn" yn y gwreiddiol fel y ceir yn y cyfieithiad Saesneg. Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yn gywir. "Nid oes neb," nid yw hyd yn oed Duw yn ei dwyn oddiarno. Ni fyddai cymaint gwerth yn hunanaberth y Mab hyd yn oed yn ol barn ddynol, pe mai gorfodaeth fyddai yn cyfrif am dano. Ond er fod marwolaeth y Mab felly yn berffaith wirfoddol, eto y mae Ei farwolaeth fel Ei fywyd mewn perffaith gydgordiad âg ewyllys Duw.

"*Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr*," &c. Y mae'r gair a gyfieithir yma "meddiant" yn golygu "hawl" neu "awdurdod" yn ogystal a gallu. Yr hawl hon a dderbyniodd Efe yng ngorchymyn y Tad. Ewyllys Duw oedd fod i'n Harglwydd Iesu Grist ddodi Ei einioes i lawr a'i chymeryd hi drachefn. Nid oes dim anghydgordiad gwirioneddol rhwng yr hyn a ddywedir yma am yr Iesu yn cymeryd Ei einioes drachefn ag Actau ii. 24, lle y dywedir mai Duw a'i hadgyfododd Ef oddiwrth y meirw. Pwysleisir gan yr Iesu yn barhaus ar y ffaith nad oedd Efe yn gwneuthur dim o hono Ei Hun. Yn rhinwedd Ei natur ddwyfol yr oedd ganddo yn ddiameu y gallu i fywhau drachefn yr hyn a fu farw yn yr angeu, fel y dywedir yma, ond gan nad oedd Efe ond yn ufudd-

19 ¶ Yna y bu drachefn ymrafael ym mysg yr Iuddewon, am yr ymadroddion hyn.

20 A llawer o honynt a ddywedasant, Y mae cythraul ganddo, ac y mae efe yn ynfydu: paham y gwrandêwch chwi arno ef?

21 Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai hyn eiriau un a chythraul ynddo. A all cythraul agoryd llygaid y deillion?

---

hau i'r gorchymyn a dderbyniodd gan Ei Dad wrth wneud hynny, gellir siarad am yr adgyfodiad hefyd fel gwaith y Tad. Wrth y "gorchymyn" y golygir ewyllys y Tad i Fab y Dyn farw ac adgyfodi.

19. "Rhwyg" a olygir wrth y gair a gyfieithir yma "ymrafael," "sism" y Litani ydyw. Bu ymrafaelion cyffelyb ymhlith y "bobl," gweler vii. 43, ac ymhlith yr Iddewon, gweler ix. 6. Y mae'n amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedir yma nad oedd yr arweinwyr crefyddol oedd mor elyniaethus i'r Iesu eto yn rhyw dyrfa luosog iawn. Yr oedd mwyafrif mawr y Phariseaid yn ogystal a'r bobl heb wneud eu meddwl i fyny yn Ei gylch, ac yn barod i'w gyhuddo neu Ei ganmol yn union fel y byddent yn teimlo.

20. "*Y mae cythraul ganddo ac y mae yn ynfydu.*" Yn vii. 20 ac viii. 48 dywedasant Ei fod yn wallgof, yma y maent yn dweud Ei fod yn ddyn drwg yn ogystal ag yn ddyn gwallgof.

21. Bernir fod y mwyafrif oedd yn gwrando arno yn Ei erbyn (gwel adn. 20), ac mai ychydig yw y rhai y sonnir am danynt yma yn Ei amddiffyn trwy ymresymiad. "Cythraul ynddo" ddywed y bobl hyn, ond nid ydym yn credu fod yr un gwahaniaeth mewn meddwl rhyngddo a'r ymadrodd a ddefnyddir gan Ei gyhuddwyr yn adn. 20. Rhagfarn a phenboethni yn unig sydd yn rhoddi nerth i ymresymiadau'r Phariseaid a wrthwynebant yr Iesu; pan wynebi'r hwy gan ffeithiau, y maent yn torri i lawr yn gyfangwbl. Nid oedd neb o honynt yn barod âg atebion i'r ddau gwestiwn teg hyn. Y mae y cwestiwn olaf yn ffafrio'r golygiad fod cysylltiad agos rhwng y benmod hon a'r un flaenorol (Gwel ar adn. 1, a'r rhagarweiniad).

22 ¶ Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi.

23 Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml, ym mhorth Solomon.

Yr anerchiad yn y Gysegr-wyl a'i effeithiau.—Adnodau 22—40.

22. Y mae'r darlleniad cyffredin yma, "Ac yr oedd y Gysegr-wyl," &c., yn brawf fod y cyfieithwyr yn edrych ar yr ymddiddan a'r hanes a geir yn adn. 1—21 fel wedi cymeryd lle yn ystod Gŵyl y Pebyll. Ond y mae sail gref iawn mewn llawer o hen lawysgrifau i ddarlleniad arall.—"y pryd hwnnw (neu yr adeg honno) yr oedd y Gyssegr-ŵyl," ac os yw y darlleniad hwn yn gywir, a chredwn ei fod, yna y mae adnodau 1—21 yn rhoddi hanes yr hyn a gymerodd le yn ystod y Gysegr-ŵyl. Yr oedd dau fis o amser rhwng y ddwy wyl, ond nid oes dim grym yn yr wrthddadl a ddygir yn erbyn y darlleniad cyffredin, nad oes dim hanes pa fodd y treuliodd yr Iesu yr amser hwnnw. Nid yw yr holl Efengylau gyda'u gilydd, heb son am un, yn rhoddi ond darnau o hanes yr Iesu. Yr oedd y Gysegr-ŵyl yn wahanol i'r gwyliau mawr,—y Pasg, y Pentecost, a'r Pebyll; nid oedd raid ei chynnal yn Jerusalem, ac am hynny y mae yr awdwr yn ofalus i ychwanegu "yn Jerusalem." Cedwid yr ŵyl er cof am y deml ar ol iddi gael ei halogi gan Antiochus Epiphanes, brenin Syria (c.c. 164). (Gwel I. Macc. i. 20—60; iv. 36, &c.) Cymerai'r ŵyl le tua hanner mis Rhagfyr.

"*A'r gauaf oedd hi.*" Dylid gadael allan "a'r," ac y mae'r ymadrodd felly yn fath o eglurhad ar yr hyn a ddywedir yn adn. 23, a dylid uno'r geiriau â'r adnod honno.

23. "*Ym mhorth Solomon.*" Ymddengys mai lle hanner amgauedig a rhes o golofnau yn rhedeg drwyddo oedd yr hyn a adwaenid fel "porth Solomon," a chredir y gelwid ef felly am ei fod yn ffinio ar, os nad yn rhan o, deml wreiddiol Solomon. Yn Actau iii. 11, &c., ceir hanes am S. Pedr hefyd yn traddodi un o'i anerchiadau yn y porth hwn.

24 Am hynny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.

25 Yr Iesu a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwnethur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi.

---

24. Ymddengys oddiwrth y frawddeg a geir yn nechreu'r adnod fod yr Iddewon wedi gwneud cylch o amgylch yr Iesu, gan gymeryd mantais ar absenoldeb y bobl i'w holi.

"*Pa hyd yr wyt yn peri i ni ameu?*" Un gair a geir yn y gwreiddiol am "peri i ameu," a golyga "cadw mewn ystad o ddisgwyliad," eu cadw fel na allent wneud eu meddwl i fyny.

"*Os tydi yw y Crist dywed i ni yn eglur?*" Cwestiwn oedd hwn, a barnu oddiwrth ei ffurf, oedd yn gofyn am atebiad pendant. Ond nis gallai yr Iesu roddi ateb mwy eglur iddynt nag a roddasai eisoes. Yr oedd yn amhosibl dweud dim mwy, a hynny gan nad oedd yr Iesu a hwy yn coleddu'r un cyniadau am waith a chymeriad y Messiah. Y mae yn anhawdd credu fod y cwestiwn wedi ei ofyn mewn ysbryd gelyniaethus a dichellgar; torf amhenderfynol sydd yma yn ceisio sicrwydd ac esmwythdra i'w meddyliau.

25. "*Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg "nid ydych yn credu" yn gywirach na'r un Saesneg. Yr oedd eu hangrediniaeth yn parhau o hyd. I'r wraig o Samaria (iv. 26), a'r dyn a anesid yn ddall (ix. 37), yr oedd yr Iesu wedi datguddio Ei Hun yn eglur fel y Messiah. Penderfynid eglurder ei ddatguddiad gan gyflwr y gwrandawyr.

"*Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur*," &c. Y mae'r gair a gyfieithir yma "gweithredoedd" yn un o'r termau neilltuol a ddefnyddia'r awdwr hwn i ddesgrifio "gwyrthiau" ein Harglwydd, ond credwn fod yna ystyr helaethach i'r gair yn y fan hon. Cynwysa'r oll a wnaeth yr Iesu, pan yma ar y ddaear, er cyflawni ewyllys Ei Dad. Y mae pwyslais i'w roddi ar y rhagenw "fi."

26 Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi.

27 Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i; a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i:

28 A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.

---

26. Nid diffyg tystiolaeth i'r gwirionedd oedd yn cyfrif am eu hangrediniaeth, ond eu hanallu hwy eu hunain i ddeall y dystiolaeth honno. Y mae yr ymadrodd "o'm defaid i" yn galw i gôf ddysgeidiaeth ein Harglwydd yn y rhan gyntaf o'r bennod. Ni cheir y geiriau "fel y dywedais i chwi" mewn llawer o'r llawysgrifau goreu, ac am hynny y mae amryw esbonwyr am eu gadael allan. Ond credwn y gellir eu cadw, y maent yn eglurhad i raddau yn ogystal ag yn gyfeiriad. Yr oedd yr Iesu am eu hadgofio nid o'r frawddeg yn unig ond hefyd o gysylltiadau'r frawddeg.

27. Y mae y berfau yn yr adnod hon yn y ffurf liosog, ond yn adnodau 3 a 4 y rhif unigol a ddefnyddir; yma edrychir ar bob dafad ar ei phen ei hun, yno ar y praidd. Y mae yna dri nod yn perthyn i'w ddefaid Ef. (1.) Y maent yn gwrando ar Ei lais. (2.) Adwaenir hwy gan y Bugail. (3.) Y maent yn dilyn y Bugail.

28. Edrychir ar "fywyd tragywyddol" gan yr Iesu fel rhywbeth y medrir ei roddi a'i feddiannu yn y byd. Nid "myfi a roddaf" a ddywedir ond "yr ydwyf yn rhoddi." Y mae rhai wedi gweled ym mrawddegau olaf yr adnod sierwydd perffaith am gadwedigaeth bythol pawb o'r "etholedigion," ond y mae y dybiaeth yn seiliedig ar roddi pwyslais eithafol ar y gair "byth." Rhoddir eglurhad pwysig ar y gair hwnnw gan air arall, "cyfr-golli," sydd yn cyfeirio at awydd mewnol am gyfeiliorni,—y ddafad yn dilyn ei mympwy ei hun ac yn gadael y praidd. Nid sail i athrawiaeth eithafol am etholedigaeth a geir yma yn sicr ddigon, ond gwrthddadl gref yn erbyn yr athrawiaeth honno. Y mae geiriau olaf yr adnod yn cyfeirio at ymosodiadau allanol ar Ei ddefaid Ef.

29 Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb: ac nis gall neb *eu* dwyn *hwynt* allan o law fy Nhad i.

30 Myfi a'r Tad un ydym.

31 Am hynny y cododd yr Iuddewon gerrig drachefn i'w labyddio ef.

---

29. "*Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb.*" Yn ol y darlleniad hwn mawredd y Tad sydd yn cyfrif am sicrwydd bythol Ei ddefaid Ef. Y mae hyn yn wir wrth reswm, ond dywedir fod y darlleniad yma yn hynod ansicr. Cynygir darlleniad arall sydd yn fwy anhawdd ei ddeall, ac am hynny o bosibl yn gywir,—"Yr hyn a roddes y Tad i mi sydd fwy na phawb." Yn ol y darlleniad hwn cyfeirio y mae ein Harglwydd at allu anorchfygol yr Eglwys filwriaethus yma ar y llawr. Dyma'r gallu cryfaf a fedd y byd, ac y mae yn rhwym o fuddugoliaethu yn y diwedd.

30. "*Myfi a'r Tad un ydym.*" Y mae'r cyfieithiad Cymraeg yma eto yn gywirach o lawer na'r Saesneg. Yn y cyfieithiad hwnnw ceir "Myfi a *fy* Nhad"; nid oes dim son am "fy" yn y gwreiddiol. Y mae yn bwysig cael cyfieithiad manwl yma oherwydd dengys yr Iesu yn eglur yn y gwreiddiol ddwyfoldeb Ei Berson,—"Myfi a'r Tad." Y mae y ffurf neilltuol a geir ar y gair "un" yn profi ym mha ystyr y mae'r Iesu yn siarad am dano Ef a'r Tad fel un; nid un o ran teimlad ac ewyllys, fel y maentumai Arius a'i ganlynwyr, nac ychwaith un o ran gallu yn unig, fel y myn rhai esbonwyr yn ein hamser ni, ond un o ran hanfod. Y mae yn wir eu bod yn un o ran gallu, ac y mae'r undeb hwnnw mewn gallu yn profi yn ddiddadl Eu hundeb mewn hanfod.

31. Y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddilynodd eglurhad yr Iesu mai nid rhyw undeb o ran teimlad ac ewyllys a ddeallodd yr Iddewon wrth y geiriau. Y mae'r gair a gyfieithir yma "cododd" o bosibl yn golygu cludo cerrig pur drymion. Cred rhai hefyd i'r cerrig hyn gael eu cario o bellter gan rai o'r prif erlidwyr. Y gosbedigaeth a ordeiniwyd yn y ddeddf am ryfyg oedd llabyddio (gwel Lef. xxiv. 16).

32 Yr Iesu a attebodd iddynt, Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddi wrth fy Nhad: am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i?

33 Yr Iuddewon a attebasant iddo, gan ddywedyd, Nid am weithred dda yr ydym yn dy labyddio, ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw.

34 Yr Iesu a attebodd iddynt, Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mi a ddywedais, Duwiau ydych?

---

32. "*Llawer o weithredoedd da,*" *&c.* Yr un gair a gyfieithir yma "da" ag a geir yn adn. 14, a golyga "hardd i edrych arnynt"; gweithredoedd oedd yn dangos cymeriad hoff. Sylwer fod yr Iesu yn pwysleisio yma eto ar y ffaith mai oddiwrth y Tad yr oeddent yn dod.

"*Am ba un o'r gweithredoedd hyn,*" *&c.* Nid yw y cyfieithiad "am ba un" yn hollol gywir, ond y mae'n anhawdd cyfleu'r syniad a geir yn y gwreiddiol yn ein hiaith ni o gwbl. Yr ystyr yw eu bod am Ei labyddio am ryw weithred o'i eiddo, ac y mae'r Iesu eisiau gwybod o ba natur yr oedd y weithred honno. Nodweddion y gweithredoedd, meddai'r Iesu yn adn. 25, oedd yn profi mai Duw a'i hanfonodd. Pa un o honynt, gan hynny, oedd wedi peri iddynt feddwl mai rhyfygu yr oedd?

33. Yma eglurant fod y cyhuddiad a ddygent yn Ei erbyn yn golygu llawer mwy na'i fod yn cablu enw'r Arglwydd (Lef. xxiv. 16). Yr oedd am wneuthur Ei Hun yn Dduw,—y rhyfyg mwyaf y medrai dynion oedd wedi arfer credu mai un Duw sydd feddwl am dano. Y maent yn falch o gael rhyw reswm newydd dros ymosod arno.

34. Defnyddir y gair "cyfraith" yma am ysgrythyrau yr Hen Dest., oblegid ceir y geiriau a ddyfynna'r Iesu yn Salm lxxxii. 6. Y mae pwyslais i'w roddi ar y rhagenwau "eich" a "chwi,"—y gyfraith a broffesent barchu mor fawr.

"*Duwiau ydych.*" Dengys yr Iesu yma fod cyfeiriadau yn yr Hen Dest. oedd yn paratoi'r ffordd ar gyfer yr athrawiaeth a ddysgai Efe parthed Ei undeb Ef â'r Tad. Yn wir gelwid barnwyr a brenhinoedd yn dduwiau; pa faint mwy y gallai Efe alw Ei Hun yn Fab Duw?

35 Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw, (a'r ysgrythyr nis gellir ei thorri;)

36 A ddywedwch chwi am yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd, Yr wyt ti yn cablu; am i mi ddywedyd, Mab Duw ydwyf?

37 Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi:

---

35. Os oedd y rhai nad oeddent ond wedi derbyn "gair" Duw i gael eu galw'n dduwiau, pa faint mwy y medrai Efe, yr hwn a anfonasid gan Dduw ac a ddaethai oddiwrth Dduw, alw Ei Hun yn Fab Duw? Defnyddia'r Iesu'r dyfyniad i brofi Ei bwnc. Y mae'r ymadrodd "gair yr Arglwydd" yn un pur gyfarwydd yn yr Hen Dest., o bosibl mae yma gyfeiriad hefyd at "*y* Gair" (Gwel i. 1, &c.). Wrth yr "ysgrythyr" y golygir nid yr Hen Dest. ond y frawddeg honno a ddyfynwyd gan yr Iesu o lyfr y Salmau.

36. "*Yr hwn a sancteiddiodd y Tad.*" Wrth y gair 'sancteiddio" y golygir "cysegru i ryw swydd," gosod o'r neilltu ar gyfer gwaith penodol. Dyma oedd yn gwneud y gwahaniaeth mawr rhwng yr Iesu a'r rhai y daeth gair Duw atynt. Datguddio meddwl Duw i'r byd oedd Ei waith Ef bob amser, ac ym mhob man; nid oedd y goreu o honynt hwy ond cenhadau dros amser. Nid dyfod ato ychwaith yr oedd y gair, Efe oedd y Gair Ei Hun. Yr oedd y ffaith fod Duw wedi Ei neilltuo felly yn profi hefyd Ei fod, fel Duw-ddyn, yn meddu ar gymhwysterau nodedig ar gyfer cyflawni y gwaith. Yr oeddent hwy yn credu y medrid galw rhai nad oeddent ond wedi derbyn datguddiad yn achlysurol, yn dduwiau heb ryfygu, tra y condemnient Ef oedd wedi Ei anfon gan Dduw ac yn meddu ar alluoedd eithriadol i gyfleu datguddiad oherwydd iddo ddefnyddio teitl llawer is!

"*Mab Duw ydwyf.*" Ni cheir y fannod o flaen y gair "Mab" yn y gwreiddiol ac y mae hynny yn golygu fod y pwyslais i'w roddi ar Ei Gymeriad yn hytrach nag ar Ei Berson. Nid oes hanes fod yr Iesu wedi defnyddio'r ffurf hon o'r ymadrodd cyn hyn, ond yn sicr ddigon yr oedd wedi son llawer am ochr arall y gwirionedd sydd yn anwahanadwy gysylltiedig â'r un a geir yma.

37. Unwaith eto (gwel adn. 32) y mae'r Iesu yn galw sylw at y dystiolaeth a roddid gan Ei weithredoedd.

38 Ond os ydwyf yn eu gwneuthur, er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd; fel y gwybyddoch ac y credoch, *fod* y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau.

39 Am hynny y ceisiasant drachefn ei ddal ef: ac efe a ddïangodd allan o'u dwylaw hwynt.

Cyfeiria hefyd at y "gweithredoedd" fel "gweithredoedd Ei Dad" (Gwel adn. 25, 32). Wrth hynny golyga nid fod Ei weithredoedd yn debyg i eiddo'r Tad ond eu bod yr un. Profa hefyd, fel y gwnaeth lawer gwaith eisoes, nad oedd yn gwneuthur dim o hono Ei Hun.

"*Na chredwch i mi.*" Nid credu mewn ystyr gadwedigol a geir yma. Gofynna'r Iesu iddynt beidio derbyn yr hyn a ddywedai fel gwirionedd os nad oedd Ei weithredoedd yn gyfryw ag y desgrifiodd Efe hwynt. Nid oes son am ymorphwys ar Ei Berson o gwbl.

38. "*Credwch y gweithredoedd.*" Yr oedd yr Iesu wedi cyfeirio eisoes (adn. 25) at dystiolaeth Ei weithredoedd. Nid y ffydd sydd raid iddi wrth arwyddion a phrofion gweledig yw y ffydd uchaf (gwel xx. 29). Er hynny y mae y rhai a gredant ar ol gweled yn well na'r rhai na chredant o gwbl.

"*Fel y gwybyddoch ac y credoch.*" Yr un gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol am y ddwy ferf, a dylid gwneud ymdrech i roddi mynegiad i hynny yn y cyfieithiad. Ystyr y geiriau yn y gwreiddiol yn ddiau ydyw "fel y gwybyddoch ac y dealloch," gyda chyfeiriad at y gwahaniaeth rhwng gwybod ffaith a deall ei hystyr. Y mae'r ail ferf hefyd yn yr amser presennol, tra y mae y gyntaf yn y gorphennol. Gellir yn fynych ddyfod i wybod ar unwaith, ond yn raddol y mae dyn yn sylweddoli ystyr yr hyn y mae'n ei wybod. Er nad yw gwybodaeth y Cristion yn cynyddu nemawr ar lawer adeg, eto y mae ei ymwybyddiaeth yn cryfhau bob dydd.

"*Fod y Tad ynof fi,*" &c. Dywedir y dylid darllen "yn y Tad," yn lle "ynddo yntau," ac y mae hynny yn cydweddu yn hollol âg arferiad yr awdwr. Ail-adrodda'r gair pan fydd am bwysleisio arno. Nid yr un undeb a olygir yma ac yn adn. 30. Yno dywedir mai o'r un hanfod ddwyfol y cyfranogai'r ddau, tra yma son am ddau Berson yn dyfod yn un a geir.

39. Y mae'n anhawdd credu nad oedd eu llidiowgrwydd mor angerddol ag erioed. Yr unig wahaniaeth a

40 Ac efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen, i'r man lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio; ac a arhosodd yno.

41 A llawer a ddaethant atto ef, ac a ddywedasant, Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd: ond yr holl bethau a'r a ddywedodd Ioan am hwn, oedd wir.

---

geir yma yw eu bod yn ymdrechu Ei roddi yn y ddalfa yn hytrach na'i labyddio. Credent y byddai yn rhwyddach Ei roddi yn ngharchar a'i ddwyn gerbron y Sanhedrin, na'i labyddio'n gyhoeddus. Nid llai digllawn ydynt yma ond mwy dichellgar.

"*Efe a ddiangodd allan o'u dwylaw hwynt.*" Tybia rhai fod yr Iesu wedi dianc o'u gafaelion mewn ffordd wyrthiol, ond credwn nad oes fawr o sail i'r dybiaeth honno. Defnyddir yr un gair ag a gyfieithir yma "dianc" yn viii. 59 am "aeth allan." Ciliodd yr Iesu i blith y dyrfa cyn i'r rhan fwyaf gelyniaethus o'i wrandawyr gael amser i roddi eu bwriad mewn gweithrediad. Nid oeddent eisiau creu cythrwfl ond yn hytrach Ei ddal trwy ddichell cyn i'r dyrfa sylweddoli beth oedd yn cymeryd lle. Ond methasant yn eu hymdrech.

YR IESU YN PEREA.—ADNODAU 40—42.

40. "*Ac Efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen.*" Cyfeirio yn ol y mae "drachefn" at i. 18. Y mae y ffaith fod yr Iesu wedi myned "dros yr Iorddonen" yn brawf o'r hyn a ddywedwyd uchod (ar adn. 39) am amcanion Ei elynion.

"*Ar y cyntaf.*" Dywedir yn iii. 23 fod Ioan Fedyddiwr wedi bod yn bedyddio ar ol hynny "yn Ainon yn agos i Salim."

"*Ac a arhosodd yno.*" Y mae y pwyslais i'w roddi ar y lle "yno," y tu allan i gyrraedd Ei elynion os nad oeddent yn bwriadu defnyddio dim ond dichell.

41. "*Llawer a ddaethant ato Ef, ac a ddywedasant.*" Y mae'r ferf olaf yn yr amser amherffaith, a golyga fod gweinidogaeth yr Iesu yn Perea wedi parhau am dipyn o amser ("ac a arhosodd yno," adn. 40).

"*Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd.*" Yr oedd Ioan yn wir boblogaidd yn yr ardal, yn brophwyd oedd wedi ymddangos ar ol cymaint o amser, ac eto yn groes i bob

42 A llawer yno a gredasant ynddo.

PENNOD XI.

disgwyliad naturiol, ni chyflawnodd wyrthiau. Cawn yma brawf amlwg mai nid ffrwyth dychymyg ddiweddar a geir yn yr Efengyl hon.

"*Ond yr holl bethau*," &c. Yr oeddent yn cofio'n dda beth oedd y Bedyddiwr wedi ragfynegi am yr Hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef. Yr oedd gweinidogaeth y gwr hwnnw wedi cyrhaedd ei hamcan.

42. Y mae'r ymadrodd "credu ynddo" a geir yma yn dra gwahanol i'r un a ddefnyddia'r Iesu yn adn. 37. Yr oedd y bobl hyn yn barod i ymorphwys arno yn ogystal a chredu i'w ymadrodd. Mewn amryw o hen lawysgrifau ceir y gair "yno" ar ddiwedd yr adnod, a golyga hynny fod pwyslais i'w roddi arno. Yr oedd pobl syml, ddiddysg, Perea yn barod i gredu yn yr Iesu, tra yr oedd Rabbiniaid ac archoffeiriaid Jerusalem yn Ei ddirmygu, ac yn ceisio eu goreu Ei ddifetha.

PENNOD XI.

Y mae'r bennod hon yn rhannu ei hun yn naturiol i bedair adran:—

(1.) Cais y chwiorydd, a'r Iesu yn ymddiddan â'i ddisgyblion yn ei gylch (1—16).
(2.) Yr ymddiddan yn Bethania (17—32).
(3.) Y wyrth (33—44).
(4.) Canlyniadau uniongyrchol y wyrth (45—57).

Y mae'r wyrth hon o gyfodi Lazarus o feirw wedi derbyn mwy o sylw anghredinwyr nag odid unrhyw arwydd arall o eiddo'r Iesu. Y mae awdwyr o'r tueddiadau yna wedi sylweddoli fod y wyrth yn llanw lle mawr iawn yn hanes yr Iesu fel ei hadroddir gan yr Efengylwr hwn, ac o ganlyniad y mae pob ymdrech y medrai dychymyg ffrwythlawn anghredinwyr ei dyfeisio wedi cael ei gwneud i wadu dilysrwydd y wyrth. Yn ol rhai o honynt celwydd a ddyfeisiwyd gan y chwiorydd ac a gefnogwyd gan yr Iesu ydoedd hanes y wyrth. Myn

Ac yr oedd un yn glaf, Lazarus o Bethania, o drof Mair a'i chwaer Martha.

rhai, drachefn, mai mewn rhyw fath o lewyg yr oedd Lazarus ac mai dadebru'n naturiol a wnaeth, tra y mae ereill am gredu mai math o alegori ydyw'r wyrth. Diangenrhaid yw dweud fod yr oll o'r tybiaethau hyn yn holl anghredadwy. Pe cymerasai yr un o'r tri pheth a nodwyd le, buasai yn llawn cymaint gwyrth a'r wyrth ei hun. Ond y mae yna un peth ynghylch y wyrth sydd raid i bob myfyriwr meddylgar geisio cyfrif am dano. Ni cheir hanes y wyrth hon ond gan yr Efengylwr hwn yn unig. Paham? Y mae dau ateb wedi eu rhoddi i'r cwestiwn, ac, o bosibl, mae'r naill a'r llall o honynt yn gywir. Dywedir na chrybwyllir am adgyfodiad Lazarus gan yr Efengylwyr ereill am eu bod yn ysgrifennu cyn marwolaeth Lazarus a'i chwiorydd, a'u bod wedi celu yr hanes rhag deffro gelyniaeth yr Iddewon anghrediniol yn eu herbyn unwaith eto (Gwel xii. 10). Y mae ereill yn credu fod hanes y wyrth wedi ei adael allan gan yr Efengylwyr ereill ac wedi ei groniclo gan yr awdwr hwn, am mai prif bwnc yr Efengyl ydyw rhoddi hanes gweinidogaeth ein Harglwydd yn Judea. Ceir hanes y wyrth o gyfodi merch Jairus gan y lleill am mai yn Galilea y cymerodd le. Nid yw y wyrth hon o gyfodi Lazarus yn rhoddi prawf mwy amlwg o allu goruwch-naturiol yr Iesu na llawer o wyrthiau ereill. Yr hyn sydd yn gwneud y wyrth yn hynod ymhlith gwyrthiau ydyw y manylion a roddir yn ei chylch a'r canlyniadau a ddilynodd ei chyflawniad.

CAIS Y CHWIORYDD, A'R IESU YN YMDDIDDAN A'I DDISGYBLION YN EI GYLCH.—ADNODAU 1—16.

1. Dylid cyfieithu y cysylltair a geir yn y gwreiddiol nid "ac" ond "ond." Rhydd yr hanes sydd yn dilyn felly y rheswm paham y bu i'r Iesu ymadael o Perea a dychwelyd drachefn i gymydogaeth Jerusalem.

"*Lazarus.*" Ffurf fyrrach ar yr enw Eleazar ydyw Lazarus, ac ystyr yr enw yw "Duw yw fy nghymorth." Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i brofi mai yr un yw Lazarus a'r gwr ieuanc cyfoethog a ddaeth i ymofyn â'r Iesu ynghylch ei gadwedigaeth dragywyddol (S. Math. xiy. 16, &c.), a hefyd mai yr un yw a'r gwr ieuanc

2 (A Mair ydoedd yr hon a enneiniodd yr Arglwydd âg ennaint, ac a sychodd ei draed ef â'i gwallt, yr hon yr oedd ei brawd Lazarus yn glaf.)

3 Am hynny y chwiorydd a ddanfonasant atto ef, gan ddywedyd, Arglwydd, wele, y mae yr hwn sydd hoff gennyt ti, yn glaf.

"wedi ymwisgo â llian main," yr hwn oedd gyda'r Iesu ar ol i'w disgyblion ei adael (S. Marc xiv. 51, 52). Credwn mai ffrwyth dychymyg yn unig yw pob un o'r ddau syniad. Y mae'n amlwg er hynny fod y teulu yn gyfoethog, ac adnabyddus. Yr oedd "llawer o'r Iddewon" o Jerusalem wedi dyfod i'w cysuro yn eu gofid; yr oedd ganddynt fedd eu hunain (adn. 48), ac yr oedd yr ennaint a ddygodd Mair yn werth llawer (xii. 2 a 3).

"*Bethania.*" Pentref bychan oedd Bethania ar lethr mynydd yr Olewydd rhyw ddwy filltir o Jerusalem.

"*O dref Mair a'i chwaer Martha.*" Nid yr un arddodair a geir o flaen "tref" ag o flaen Bethania, ac am hynny tybir gan rai mai nid Bethania a olygir wrth dref Mair a Martha, ond nid oes fawr o sail i hyn. Ceir yr un dau arddodair yn i. 44 ("o Bethsaida, o ddinas Andreas a Phedr"). Enwir Mair yn gyntaf, er mai hi oedd y ieuengaf, am ei bod yn fwy adnabyddus oherwydd yr hyn a ddywedir yn adn. 2.

2. "*A Mair ydoedd yr hon,*" &c. Nid yw hyn yn golygu fod yr eneiniad wedi cymeryd lle pan gyflawnwyd y wyrth. Yr hyn a feddylir yw fod gweithred Mair yn wybyddus pan ysgrifennodd yr awdwr ei Efengyl, fel y rhagddywedasai yr Iesu (Gwel S. Math. xxvi. 13). Nid oes fawr o sail dros gredu mai yr un yw Mair o Bethania a'r "bechadures fawr" y sonnir am dani yn S. Luc vii. 37, &c. Y mae'r manylion a roddir ynghylch y ddwy yn ei gwneud yn amhosibl i ni dderbyn y fath dybiaeth.

3. Y mae'r ffaith fod y chwiorydd hyn yn gwybod pa le yr oedd yr Iesu yn profi eu cyfaillgarwch. Sylwer mai nid "yr hwn sydd gyfaill i ti" a ddywedir ond "yr hwn sydd hoff gennyt ti,"—yr hwn yr wyt ti yn ei garu. Y mae y ferf a ddefnyddir yma yn golygu cariad yn tarddu oddiar hawddgarwch personol. Credai'r chwiorydd nas gallai'r Iesu oddef i'r hwn oedd "hoff" gan-

4 A'r Iesu pan glybu, a ddywedodd, Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny.

5 A hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus.

---

ddo aros yn glaf yn hwy. Gwyddent am Ei allu a hefyd am Ei barodrwydd. Gwyddent y deuai, nid oedd angen gofyn iddo.

4. "*Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth.*" Cred rhai y dylem gymeryd y geiriau hyn yn eu hystyr lythyrennol, a bod yr Iesu yn credu y medrai gyrraedd i Bethania cyn i Lazarus farw. Os felly paham yr arhosodd yr Iesu eto ddau ddiwrnod lle yr ydoedd? Credwn mai gwell o lawer ydyw deall mai yr hyn a olygai'r Iesu ydoedd na fyddai i farwolaeth roddi terfyn bythol ar fywyd Lazarus. Yr oedd Efe yn rhagweled adgyfodiad Lazarus yr un mor eglur ag yr oedd yn rhagweled Ei adgyfodiad Ei Hun.

"*Ond er gogoniant Duw.*" Cymh. ix. 3. Yr un amcan oedd i afiechyd Lazarus ag i ddallineb y dall o'i enedigaeth. Afiechyd Lazarus oedd yr achos o'i farwolaeth, a'i farwolaeth oedd achos cyflawniad y wyrth yn y ffurf y cyflawnwyd hi. Trwy y wyrth dygwyd gogoniant i Dduw mewn dwy ffordd. (1.) Yr oedd llawer rhagor o'r Iddewon yn myned i gredu yn yr Iesu ar ol gweled adgyfodiad Lazarus (gwel adn. 45). (2.) Y wyrth hon a achosodd i ddigllonedd yr Iddewon anghrediniol gynyddu nes cyrraedd ei eithaf-bwynt yng Nghroeshoeliad yr Iesu. Yr oedd marwolaeth yr Iesu yn neilltuol yn myned i ddwyn "gogoniant i Dduw." Yr un arddodair a geir yma ag yn x. 11, lle y sonnir am y bugail da yn rhoddi ei einioes *dros* y defaid. Megys y bu y Bugail Da farw dros, neu er mwyn, y defaid felly y bu i Lazarus glafychu a marw *er mwyn* gogoniant Duw.

"*Fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny.*" Beth oedd yn myned i ogoneddu Mab Duw? Myn rhai mai "gogoniant Duw," ond credwn mai gwell yw deall mai afiechyd a marwolaeth Lazarus. Ceir yma engraifft o amcan cyffredinol, — "er gogoniant Duw," ac amcan neilltuol "fel y gogonedder Mab Duw."

5. Yr un gair a geir am y ferf yma ag yn adn. 3 ("yr hwn sydd hoff gennyt ti") yn y cyfieithiad Cymraeg a'r

6 Pan glybu efe gan hynny ei fod ef yn glaf, efe a arhosodd yn y lle yr oedd, ddau ddiwrnod.

---

cyfieithiad Saesneg, ond defnyddir dau air gwahanol yn y gwreiddiol. Y mae'n bwysig gweled y gwahaniaeth rhyngddynt. Yn adn. 3 cariad yn tarddu oddiar hawddgarwch personol a olygir, atyniad dirgelaidd nas medrir rhoddi fawr o reswm drosto, ond yma cariad yw sydd yn tarddu oddiar rinweddau cynhennid y gwrthrych. Y mae'r hwn sydd yn caru wedi cael profiad helaeth o werth moesol y rhai a gerir, ac wedi dyfod i'r penderfyniad eu bod yn deilwng o'i gariad.

"*Martha a'i chwaer,*" *&c.* Nid oes yr un rheswm yma dros enwi Mair o flaen Martha, fel y gwneir yn adn 1, am hynny rhestrir hwy yn ol trefn oedran, yr henaf yn gyntaf.

6. "*Efe a arhosodd . . . . ddau ddiwrnod.*" Yn sicr ddigon gwyddai ein Harglwydd yn dda y byddai i oediad o'r fath beryglu bywyd Ei gyfaill Lazarus (Gwel ar adn. 4). Paham ynte yr arhosodd am ddau ddiwrnod? Mae'n eglur mai nid am nad oedd yn awyddus i gynorthwyo'r chwiorydd trallodedig yn eu gofid. Arhosodd er mwyn cryfhau eu ffydd, medd rhai. Bu Ei ddyfodiad ar ol i Lazarus farw, a'r adferiad bywyd a ddygodd iddo, yn foddion yn ddiameu i gryfhau eu ffydd, ond o bosibl effaith ydoedd hyn ac nid amcan. Nis gallwn lai na chredu fod ein Harlgwydd pan yn nesu fel hyn at ddiwedd Ei yrfa yn awyddus i brofi natur yr awdurdod a dderbyniodd gan y Tad. Rhoddwyd yr awdurdod honno iddo i'w defnyddio er gogoniant Duw ac i ddysgu'r ddynoliaeth pa fodd yr oedd Duw yn gweithio. Yr oedd, ac y mae Duw yn cynorthwyo Ei blant yn eu trallod, ond y mae'n gwneud hynny fel pobpeth arall a wna yn Ei amser da Ei Hun ac yn ol Ei drefn Ei Hun. Yr oedd gwaith yr Iesu yn ymatal rhag defnyddio y gallu a feddai er lles Ei gyfaill yn brawf o ddyfnder Ei hunan-ymwadiad. Nid oedd Efe wedi dyfod i gyflawni Ei ewyllys Ei Hun ond ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd. Achosodd Ei arhosiad gryn bryder a phoen i'r chwiorydd, ond yn ol athrawiaeth bwysig a ddysgodd yr Iesu, y mae gofid a phoen yn foddion o ddwyfol ordeiniad i ddisgyblu a thrwy hynny berffeithio'r ddynoliaeth.

7 Yna wedi hynny efe a ddywedodd wrth y disgyblion, Awn i Judea drachefn.

8 Y disgyblion a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di; ac a wyt ti yn myned yno drachefn?

9 Yr Iesu a attebodd, Onid oes deuddeg awr o'r dydd? os rhodia neb y dydd, ni thramgwydda, am ei fod yn gweled goleuni y byd hwn:

---

7. "*Wedi hynny.*" Yr oedd ysbaid o ddau ddiwrnod wedi myned heibio er pan yr anfonodd y chwiorydd i'w geisio (adn. 3, 6).

"*Awn i Judea drachefn.*" Cyfeirio yn ol y mae "drachefn" at x. 40. Edrychir ar Judea gan yr Efengylwr hwn fel cartref yr "Iddewon" swyddogol hynny oedd mor elyniaethus i'r Iesu. Gan hynny y mae'n ofalus i groniclo geiriau'r Iesu, "Awn i Judea," yn hytrach na dweud fod yr Iesu a'i ddisgyblion wedi myned tua Bethania. Y mae yn amlwg oddiwrth adn. 8 fod y disgyblion hefyd yn edrych ar y dalaeth ddeheuol fel lle peryglus i'r Iesu.

8. "*Yr oedd yr Iddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di.*" Gwel x. 31. Y mae'r gair a ddefnyddir yn y gwreiddiol am "yn awr" yn ogystal ag amseriad y ferf yn profi fod yr ymosodiad gelyniaethus ar yr Iesu yn fyw yn meddwl y disgyblion. Yr oeddent wedi cael digon o brawf fod Ei fywyd yn barhaus mewn perygl yn mysg yr "Iddewon"; am hynny gofynnant mewn syndod, "A wyt ti yn myned yno drachefn"?

9. "*Onid oes deuddeg awr o'r dydd?*" Nid yw'r Iesu yn rhoddi atebiad uniongyrchol i'r cwestiwn, ond y mae'n egluro egwyddor i'w ddisgyblion oedd yn cynwys yr atebiad. Golyga'r Iesu fod yna ddeuddeg awr yn nydd gwaith Ei fywyd, ac nad oedd y deuddeg eto wedi dirwyn i ben. Ac yr oedd dydd gwaith yr Iesu a'i ddydd bywyd (byd Ei oes) yn cyfateb. Felly, rhaid mai yr un ystyr sydd i'r ymadrodd yma ac i'r geiriau, "Ni ddaeth fy awr i eto" (Gwel hefyd ix. 4). Er gwaethaf digllonedd a gelyniaeth yr "Iddewon," nis gallent roddi terfyn ar waith ac ar fywyd yr Iesu "cyn Ei amser."

"*Goleuni y byd hwn,*" Sef yr haul. Nid oes cymaint perygl i ddyn daro ei droed yn erbyn rhwystr yn y dydd ag yn y nos.

10 Ond os rhodia neb y nos, efe a dramgwydda, am nad oes goleuni ynddo.

11 Hyn a lefarodd efe: ac wedi hynny efe a ddywedodd wrthynt, Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno; ond yr wyf fi yn myned i'w ddihuno ef.

---

10. Yn adn. 9 y mae'r Iesu yn dysgu'r athrawiaeth gyffredinol fod yna ddigon o amser mewn bywyd iddo Ef, yn ogystal a phob dyn, i gyflawni yr hyn oll a ragordeiniwyd, ond rhag ofn i neb o'i ddisgyblion wneud camgymeriad yng nghylch yr hyn a olygai, ac ymroddi i segurdod oherwydd fod bywyd mor hir, y mae'r Iesu yn pwysleisio yma ar egwyddor gydfynedol,—mai'r dydd yw'r unig amser pryd y gellir gweithio, ac y dylai pawb wneud hynny. Methwn a gweled unrhyw ystyr yn yr eglurhad llythyrennol a rydd rhai, os byddai iddynt ymdrechu gweithio ar ol i ddydd bywyd ddarfod, y byddent yn sicr o "dramgwyddo."

"*Am nad oes goleuni ynddo.* Yma y mae'r Iesu wedi gadael heibio Ei iaith ffugyrol ac yn siarad am y goleuni ysbrydol sydd yn nghalon dyn.

11. Yma dengys yr Iesu pa fodd yr oedd Efe yn myned i gyflawni Ei waith tra yr oedd hi "yn ddydd" a chyn i'w "awr" Ef ddyfod.

"*Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno.*" Sylwer mai nid "fy nghyfaill" a ddywed yr Iesu, ond ein cyfaill. Diameu fod Ei ddisgyblion wedi bod gyda'r Iesu lawer gwaith yn nhŷ'r chwiorydd yn Bethania. Yr oedd rheswm arall yn cadw'r Iesu rhag myned yno am ddau ddiwrnod ar ol iddynt ddyfod i'w geisio. Yma nid yw yn enwi ond y rheswm paham y dylai fyned, rheswm y medrai Ei ddisgyblion ei ddeall. Nid oedd y gair "huno" yn derm hollol newydd am farw, oblegid cawn amryw engreifftiau yn yr Hen Destament o bobl "yn huno gyda'u tadau," ond y mae'n amlwg oddiwrth gamgymeriad y disgyblion yn adn. 12 nad oedd y gair mewn arferiad cyffredin yn yr ystyr hon. Defnyddiodd yr Iesu'r gair, ni gredwn, am reswm neilltuol; yr oedd am ddysgu Ei ddisgyblion nad oedd marwolaeth ond "hûn" hyd ganiad yr udgorn, a bod yna "ddihuno" hefyd i gymeryd lle yn eu hanes.

"*I'w ddihuno ef.*" Nid oes hanes fod neb wedi dyfod o dŷ'r chwiorydd i hysbysu'r Iesu am farwolaeth Lazarus. Gwelwn oddiwrth adn. 21 beth oedd y rheswm. Gwyddai'r

12 Yna ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Arglwydd, os huno y mae, efe a fydd iach.

13 Ond yr Iesu a ddywedasai am ei farwolaeth ef: eithr hwy a dybiasant mai am hûn cwsg yr oedd efe yn dywedyd.

14 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt yn eglur, Bu farw Lazarus.

15 Ac y mae yn llawen gennyf nad oeddwn i yno, er eich mwyn chwi, fel y credoch; ond awn atto ef.

Iesu, er hyny, fod Lazarus wedi croesi'r glyn, ac os gwyddai am ei farwolaeth fel hyn heb i neb Ei hysbysu, rhaid Ei fod yn Ei ragweled hefyd. Felly nid ystyr lythyrennol a ddylid roddi i'r geiriau "nid yw y clefyd hwn i farwolaeth" (gwel ar adn. 4). Nid oedd yr un amheuaeth yn meddwl yr Iesu nas medrai ryddhau Lazarus o afaelion angeu.

12. Yr oedd y disgyblion yn falch o gael rhyw esgus i beidio gwynebu'r perygl o fyned i gyffiniau Jerusalem. Credent, pan ddaeth y cais, y byddai i'r Iesu fyned i iachau y dyn claf; felly yr oedd wedi gwneud bob amser pan ddeuid i'w geisio, ond wrth Ei glywed yn son fod Ei gyfaill yn "huno" credasant nad oedd angen mwy i'r Meistr gyrchu i Bethania.

13. Y mae'r gair a gyfieithir yma "hûn cwsg" yn d'od o'r un gwreiddyn a'r gair a gyfieithir "huno" yn adnodau 11 a 12.

14. "*Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt yn eglur.*" Yr oedd Ei ddisgyblion wedi rhoddi ystyr lythyrennol i eiriau'r Iesu yn adn. 4 ("nid yw y clefyd hwn i farwolaeth"), ac am hynny wedi camgymeryd ystyr y gair "huno" yn adn. 11. Ceir dau air yn y gwreiddiol am "yna," ac y mae i"r ddau wahanol ystyron; dylid cyfieithu "yna, gan hynny."

"*Bu farw Lazarus.*" Y mae'r geiriau yn gyfieithiad llythyrennol o'r gwreiddiol. Cred rhai fod yna rywun wedi dyfod i hysbysu'r Iesu, ond nid oes unrhyw sail i'r dybiaeth hon (Gwel ar adn. 11).

15. Nid oedd yr Iesu yn llawenychu ym marwolaeth Ei gyfaill ond yn Ei absennoldeb Ei Hun o Bethania. Pe buasai Efe wedi cyrraedd yno cyn marw Lazarus, yna ni fuasai Ei ddisgyblion wedi cael y fraint o weled y prawf amlwg hwn mai Efe oedd y Messiah. Ac fel yr oedd y diwedd yn graddol agoshau, yr oedd angen neilltuol am

16 Yna y dywedodd Thomas, yr hwn a elwir Didymus, wrth ei gyd-ddisgyblion, Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gyd âg ef.

17 Yna yr Iesu wedi dyfod, a'i cafodd ef wedi bod weithian bedwar diwrnod yn y bedd.

---

gryfhau eu ffydd os oeddent i bara'n ffyddlon. Nid myned i'r un man a Lazarus o ran ei enaid a olygir, ond o ran ei gorph. Sylwer fel y mae'r Iesu trwy'r ymddiddan i gyd yn siarad am Lazarus fel pe byddai byw o hyd. Nid yw angeu yn gwneud dim gwahaniaeth iddo Ef. ("Ein cyfaill . . . . awn ato ef.").

16. Enw Groeg ydyw Didymus, ac y mae yn gyfieithiad llythyrennol o'r enw Aramaeg "Thomas." Ei ystyr yw "Efaill." Cred rhai mai enw a roddodd yr Iesu arno ydyw, (Cymharer hanes yr enw Pedr), ond nid oes dim sail i'r cyfryw grediniaeth. Yr oedd meddu dau enw (un Aramaeg ac un Groeg) yn beth cyffredin iawn ymhlith Iddewon yr oes. Ofer ydyw ymdrech esbonwyr i geisio dangos fod yna gysylltiad rhwng ei enw a'i gymeriad.

"*Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gyda Ef.*" Nid gyda Lazarus a olygir ond gyda'r Iesu. Nis gallent farw gyda Lazarus oherwydd yr oedd ei farwolaeth ef eisoes wedi cymeryd lle (Gwel adn. 11, 14). Yr oedd S. Thomas yn gwybod am elyniaeth eithafol yr Iddewon yn erbyn ei Feistr, ac nid oedd yr un amheuaeth yn ei feddwl na fyddai iddo, os gwelid ef yn Bethania, syrthio yn aberth i'w cynddaredd. Nid yw y disgybl hwn yn gweled ymhell, ond y mae yn barod i wneud yr oll a all o blaid ei Feistr. Ffydd seiliedig ar wybodaeth oedd ganddo, ond yr oedd yn barod i farw gyda'i Arglwydd gan fod y diwedd wedi dod!

Yr Iesu yn Ymweled a Bethania (17—32).

17. Y mae y gair a gyfieithir yma "cafodd," yn golygu cael ar ol ymchwiliad. Dyna amcan ymweliad yr Iesu, chwilio am Lazarus ("awn ato ef," adn. 15). Gwyddai fod Lazarus eisioes wedi marw, ond o bosibl ni wyddai pa bryd na pha fodd. Yn yr Iesu yr oedd y natur ddwyfol a'r natur ddynol yn cydgyfarfod, ac y mae yr wybodaeth a arddanghosodd yn adlewyrchu'r ffaith. Weithiau ymddanghosai fel pe gwyddai bobpeth, bryd arall fel pe byddai ymron mor anwybodus a'i ddisgyblion. Y mae beirniaid anghred-

18 A Bethania oedd yn agos i Jerusalem, ynghylch pymtheg ystâd oddi wrthi:

19 A llawer o'r Iuddewon a ddaethant at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd.

20 Yna Martha, cyn gynted ag y clybu hi fod yr Iesu yn dyfod, a aeth i'w gyfarfod ef: ond Mair a eisteddodd yn y tŷ.

---

iniol wedi gwneud pob ymdrech i anwybyddu'r ffaith gyntaf, ond yn sicr ddigon, nid ydynt yn gwneud cyfiawnder â'r hanes. Y mae yna brofion amlwg fod y ddwy natur yn cydfodoli, ond pa fodd nis gallwn egluro. Dyma ddirgelwch mawr yr Ymgnawdoliad.

18. "*A Bethania oedd yn agos i Jerusalem, ynghylch pymtheg ystad oddiwrthi.*" Y mae llawer o ddadleu ynghylch y cwestiwn, paham y defnyddia'r awdwr "oedd" ac nid "sydd." Credwn mai y rheswm goreu ydyw, am fod Bethania wedi cael ei dinystrio pan ddadymchwelwyd Jerusalem gan y lluoedd Rhufeinig. Rhyw ddwy filltir oedd "pymtheg ystad." Y mae'r ferf yn yr un amseriad pan sonia'r Iesu am ardd Gethsemane (xviii. 1), a gardd Joseph (xix. 41). Yr oedd pob un o'r ddwy yn ymyl Jerusalem.

19. Wrth yr "Iddewon" y golygir gelynion yr Iesu. Y mae rhai hen lawysgrifau yn darllen "at Martha a Mair a'u cyfeillion," ond nid oes digon o reswm dros wneud cyfnewidiad. Byddai yn gyfieithiad mwy cywir pe dywedid, "Llawer o blith yr Iddewon."

"*I'w cysuro hwy am eu brawd.*" Yr oedd dyfod i gysuro'r perthynasau adeg marwolaeth yn arferiad Iddewig. Ni welid byth lai na deg yn cyrchu tua thŷ galar. Rhyw fath o olion o arferiad cyffelyb ydyw'r "wylnos" a gynhelir mewn rhai rhannau o Gymru y noson cyn yr angladd. Dywedir y byddai yr Iddewon yn "galaru" am 30 niwrnod, ond nid yw yr engreifftiau a gawn yn yr Hen Destament yn profi hynny. (Cymh. Gen l. 3—10; Num. xx. 29; 1 Sam. xxviii. 13).

20. Gan mai Martha oedd yr henaf o'r ddwy chwaer, iddi hi y dygwyd y newydd, ond gan bwy nis gwyddom. Y mae'r ffaith fod y ferf ("yn dyfod") yn yr amser presennol braidd yn ein tueddu i gredu mai rhywun oedd wedi pasio'r Iesu a'i ddisgyblion ar y ffordd a ddygodd y newydd. Gwraig fywiog a phrysur ydoedd Martha, ac y mae'r nodweddion hynny

21 Yna y dywedodd Martha wrth yr Iesu, Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd.

22 Eithr mi a wn hefyd yr awrhon, pa bethau bynnag a ddymunech di gan Dduw, y dyry Duw i ti.

23 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Adgyfodir dy frawd drachefn.

---

i'w gweled yn amlwg yn nydd ei thrallod. Mor gynted ag y clywodd prysurodd ar unwaith i gyfarfod â'r Iesu.

"*Ond Mair a eisteddodd yn y tŷ.*" Yr oedd y chwaer hon o hyd wedi cael ei llethu gan ei galar, ac ni wyddai am ddyfodiad yr Iesu, Eistedd oedd arfer galarwyr yn ngwlad y dwyrain fel y gwelir oddiwrth Job ii. 13. Nid oes unrhyw sail i gredu fod Mair yn fwy ystyriol a difrifol na'i chwaer Martha, yn unig gwahaniaethent yn nhymeredd eu hysbryd-oedd. Y mae y darlun a dynnir o honynt ill dwy yn un o'r darlluniau mwyaf naturiol yn yr oll o'r Efengylau, a chredwn ei bod amhosibl synied am unrhyw ysgrifenydd yn yr oes honno yn dychymygu yr holl banes hwn.

21. Er fod Lazarus wedi marw cyn i'r Iesu gyrraedd i'w iachau, eto ni chlywir tinc o gwyn gan un o'r chwiorydd. Nid yw Martha yn dweud "Pe buasit ti wedi dyfod pan anfonasom atat," ond "Pe buasit ti yma." Yr oedd wedi cael profion digonol yn ngwyrthiau'r Iesu, nas medrai afiechyd aros am foment o flaen y Meddyg Mawr.

22. Dengys yr adnod hon fod Martha yn meddu ar ffydd gryfach nag a feddyliem a barnu oddiwrth adn. 21. Credai Martha pe buasai'r Iesu wedi cyrraedd cyn marw o'i brawd y buasai wedi ei iachau yn rhinwedd Ei allu Ei Hun, ond "hyd yn oed yn awr," (dyna ddylai'r cyfeithiad fod), credai y medrai'r Iesu trwy weddio ar Dduw ei adferyd ef eto i fyd y byw. Nid yw yn dweud hynny mewn geiriau, ond nid yw yn anhawdd casglu oddiwrth yr hyn a ddywed mai dyna oedd yn ei mheddwl. Ond nid oedd ei ffydd eto wedi cyrraedd i'w gyflawn faint, oblegid defnyddia air "ddymuno" sydd yn profi nad oedd yn credu fod yr Iesu'n "ogyfuwch â Duw." Defnyddir y gair yn gyffredin am un isel-radd yn gofyn oddiwrth un uwchradd, gwas yn gofyn i'w feistr.

23. "*Adgyfodir dy frawd drachefn.*" Tybia rhai mai ymdrechu cysuro y chwaer drallodus yr oedd yr Iesu trwy son am yr adgyfodiad pan fyddai i'w brawd drachefn gael adferiad i fywyd, ac nad oedd yn cyfeirio at adferiad uniongyrchol

24 Dywedodd Martha wrtho, Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf.

25 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw:

Lazarus. Ymddengys (oddiwrth adn. 24) mai dyna ddeallodd Martha, ond nid yw hynny yn profi mai dyna olygai'r Iesu. Credwn fod ein Harglwydd wedi defnyddio'r gair yn y ffurf hon er profi ffydd Martha.

24. Credai Martha, fel llawer o'i chydgenedl yn athrawiaeth yr adgyfodiad, ond y mae yn amlwg ei bod yn teimlo nas medrent hwy sugno llawer o gysur c'r athrawiaeth honno. Pan ddeuai'r adgyfodiad cyffredinol byddai pob cysylltiadau personol wedi darfod. Eisieu cael Lazarus yn ol i'r aelwyd yn Bethania oedd ar Martha yn ei thrallod. Nid oedd cael sicrwydd o'i adgyfodiad yn y dydd diweddaf yn lleddfu dim ar ei gofid dwys. Y mae y gobaith cryf a arddanghosodd yn adn. 22 ymron a diflannu.

25. "*Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd.*" Y mae'r Iesu yn profi yma nad oedd raid iddo weddio fel dyn ar Dduw am adferiad Lazarus fel y tybiai Martha (adn. 22), oherwydd mai efe Ei Hun oedd yr Adgyfodiad a'r Bywyd. Nid athrawiaeth yn unig oedd yr adgyfodiad, ond ffaith: nid rhywbeth i ddisgwyl am dano rywbryd yn y dyfodol pell ydoedd, ond rhywbeth presennol. Sylwer hefyd mai nid dweud y byddai iddo ef sicrhau adgyfodiad Lazarus y mae'r Iesu, ond dweud mai Efe oedd yr adgyfodiad. Nid addewid o'i adgyfodiad felly a roddai Efe, ond sicrwydd o hynny. Gan mai yr Iesu oedd yr Adgyfodiad a'r Bywyd, yr oedd yn bosibl i'r rhai a gredent ynddo brofi pob un o'r ddau yn y byd hwn. Cyfeiria'r Iesu drachefn ato Ei Hun fel "bywyd" yn xiv. 6, ond yno cysylltir ef â'r "gwirionedd." Profa hyn mai cyfeirio y mae'r Iesu at gyfanswm mawr bywyd, efe ydyw awdwr a chynhaliwr y cyfan i gyd. Yma cyfeirio y mae ato Ei Hun fel "bywyd" i'r dyn unigol, nid i ddynoliaeth fel cyfangorph. Yr oedd Lazarus yn "gyfaill" (adn. 11) ac yn "frawd" i Martha (adn. 23) ac yr oedd yr Iesu yn fywyd iddo ef.

"*Yr hwn sydd yn credu ynof fi,*" *&c.* Y mae'r frawddeg hon yn cyfateb i'r gosodiad "Myfi yw yr Adgyfodiad," ac yn eglurhad arno. Nid yw yr Iesu yn dweud na byddai i'r rhai

26 A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn?
27 Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd: yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd.

---

a gredent farw, ond na byddai i farwolaeth "arglwyddiaethu" arnynt hwy. Yr oedd y bywyd a feddent yn rhinwedd eu hundeb â'r Iesu yn sicr o gael yr oruchafiaeth a'r gorfod hyd yn oed yn erbyn y gelyn diweddaf.

26. "*A phwy bynnag sydd yn fyw,*" *&c.* Y mae'r frawddeg hon yn cyfateb i'r "Bywyd" yn yr adnod flaenorol. Bywyd naturiol a olygir yn y rhan gyntaf o'r adnod, y bywyd sydd yn dyfod i derfyniad yn yr angeu, ond yn yr ail ran "marw" mewn ystyr ysbrydol a olygir. Gwelir oddiwrth adn. 25 ("er iddo farw") nad oedd yr Iesu yn addaw eu symud o'r ddaear i'r nef megis ag y symudwyd y prophwyd Elias. Na, yr oedd yn rhaid i bawb o blant dynion "groesi'r glyn," ond nid oedd marwolaeth i'r rhai a gredent ynddo ef ond dôr i fywyd uwch. Nid diwedd bywyd oedd i'r cyfryw ond ei ddechreu. Yn y rhagolwg ar y bywyd diddarfod yr oeddent i'w fwynhau y mae holl ofnadwyaeth angeu yn diflannu. Nid oes ganddo "golyn" mwy.

"*A wyt ti yn credu hyn?*" Sef fod yr Adgyfodiad a'r Bywyd yn anwahanol gysylltiedig â Pherson yr Iesu, ac mai trwyddo Ef yn unig y medrai plant dynion ddyfod i feddiant o bob un o'r ddau. Yr oedd Duw eisoes wedi eu rhoddi iddo Ef, ac nid oedd raid mwyach iddo "ofyn" am danynt (adn. 22). Y mae yr Iesu am arwain Martha i gredu Ei fod yn ogyfuwch â Duw.

27. Rhydd Martha yn gyntaf atebiad uniongyrchol i gwestiwn yr Iesu. Yr oedd yn credu mai Efe oedd yr "Adgyfodiad a'r Bywyd," a bod y ddwy feudith hyn i gael eu mwynhau trwyddo Ef. Yna rhydd y rheswm paham yr oedd yn credu ynddo felly. Yr oedd wedi derbyn sicrwydd mai Efe oedd y Crist, mab Duw, yr Hwn oedd yn dyfod i'r byd. Mae'n debyg mai pur ddaearol ydoedd disgwyliadau Martha am ddyfodiad y "Messiah," ac mai syniad pur niwlog oedd ganddi am gyflawn gynwys y teitl "Mab Duw," ond yr oedd yn cwbl gredu fod yr Hwn oedd yn nesaf un at Dduw Ei hun hefyd yn Adgyfodiad ac yn Fywyd. Yn yr olwg ar ogoniant yr Iesu, y mae'r credadyn wedi cael sicr-

28 Ac wedi iddi ddywedyd y pethau hyn, hi a aeth ymaith, ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair, gan ddywedyd, Fe ddaeth yr Athraw, ac y mae yn galw am danat.

29 Cyn gynted ag y clybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth atto ef.

30 (A'r Iesu ni ddaethai etto i'r dref, ond yr oedd efe yn y man lle y cyfarfuasai Martha âg ef.)

31 Yna yr Iuddewon y rhai oedd gyd â hi yn y tŷ, ac yn ei chysuro hi, pan welsant Mair yn codi ar frys, ac yn myned allan, a'i canlynasant hi, gan ddywedyd, Y mae hi yn myned at y bedd, i wylo yno.

32 Yna Mair, pan ddaeth lle yr oedd yr Iesu, a'i weled ef, a syrthiodd wrth ei draed ef, gan ddywedyd wrtho, Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai fy mrawd farw.

---

wydd y medr bob peth, ond nis gall roddi deffiniad diwinyddol o'i berthynas â'r Tad!

28. Galwodd Martha yn ddirgel ar ei chwaer Mair oherwydd ei bod yn gwybod fod yr "Iddewon," y rhai oedd gyda hi yn y ty (gwel adn. 19), mor elyniaethus i'r Athraw. Nid y teitl Hebreig cyffredin "Rabbi" a geir yma, ond gair Groeg yr hyn o'i gyfieithu yw "Athraw" neu "Dysgawdwr." Mae'n debyg mai dyma yr enw wrth ba un yr adnabyddid Ef gan y teulu yn Bethania.

29. Mae amseriad y ferf gyntaf yn profi nad arhosodd Mair i ystyried pa un a ddylai fyned ai peidio. Y mae yn gadael yr Iddewon oedd yn eistedd gyda hi yn cyd-alaru ac yn prysuro i gyfarfod yr Hwn oedd yn sicr o weinyddu gwir gysur iddi.

30. Gwyddai yr Iesu yn dda am elyniaeth yr "Iddewon," a gwyddai hefyd y byddai yn amhosibl cael ymddiddan tawel a difrifol â Mair yn nghanol y galarwyr ystwrllyd.

31. Yr oedd yr "Iddewon" hyn yn y tŷ yn ceisio eu "cysuro" yn unol âg arfer y wlad (Gwel ar adn. 19). Dylid cyfieithu y rhan olaf o'r adnod fel hyn "am eu bod yn tybied (h.y., yr Iddewon) ei bod hi yn myned at y bedd," &c. Nid "colli dagrau" a olygir wrth y gair a gyfieithir yma "wylo," ond "dolefain yn uchel" yn ol arferiad galarwyr mewn gwledydd dwyreiniol. Defnyddir yr un gair am y wraig weddw o Nain yn "wylo" am ei mhab (S. Luc vii. 13), ac am S. Pedr yn "wylo yn chwerw dost" ar ol gwadu ei Athraw (S. Marc xiv. 72.

32. "*Arglwydd pe buasit ti yma*," *&c.* Yr un geiriau ag a

33 Yr Iesu gan hynny, pan welodd hi yn wylo, a'r Iuddewon y rhai a ddaethai gyd â hi yn wylo, a riddfanodd yn yr yspryd, ac a gynhyrfwyd;

---

ddefnyddiodd Martha yn adn. 21. Mae'n debyg fod y chwiorydd wedi bod yn ymddiddan felly â'u gilydd lawer gwaith ar ol marw eu brawd, ond nis gallai Mair deimladwy ddweud yr un gair ymhellach (Cymh. adn. 22). Torrodd allan i wylo ar unwaith.

Y Wyrth.—Adnodau 33—44.

33. Yr un gair a geir yma am "wylo" ag yn adn. 31. "*A riddfanodd yn yr ysbryd.*" Beth a olygir wrth "riddfanodd yw yr ysbryd?" Paham y bu i'r Iesu wneyd hynny? Rhoddir atebion tra gwahanol i'r cwestiynau hyn gan yr esbonwyr. Defnyddir y gair a gyfieithir yma "griddfan" mewn tri lle arall yn y Test. Newydd heblaw yn y bennod hon, sef S. Math. ix. 40; S. Marc i. 43 a xiv. 5. Ym mhob un o'r engreifftiau hyn desgrifia'r gair arddanghosiad nid o alar na thristwch ond o deimlad dwfn a phenderfynol yn ymylu ar ddigllonedd. Credwn mai gwell ydyw rhoddi yr un ystyr i'r gair yn yr adnod hon hefyd. Ond beth a olygir wrth "riddfan yn yr ysbryd." Nid yw'r geiriau yn ddiddadl yn ddim ond aralleiriad o'r ymadrodd a ddefnyddir yn adn. 38 "a riddfanodd ynddo Ei Hunan." Nid oes unrhyw sail i'r dybiaeth fod yr Iesu yn ddigllawn wrtho Ei Hun oherwydd Ei fod wedi arddangos cymaint o deimlad a thynerwch dynol. Ond beth a barodd i'r Iesu deimlo mor ddigllawn? Dywed rhai mai flydd egwan y chwiorydd ac anghrediniaeth yr Iddewon, ond fel y gwelir oddiwrth adn. 21, 32, nid oedd ffydd y chwiorydd mor egwan ag y tybir, ac nid oes unrhyw sail i'r gred fod yr Iddewon yn fwy eithafol o anghrediniol na'r rhelyw o'u dosbarth. Credwn y canfyddwn atebiad mwy cywir yn yr rhan gyntaf o'r adnod. Yno desgrifir Mair yn wylo am ei brawd a'r Iddewon yn wylo gyda hi. Deffrodd yr olygfa ddigllonedd yr Iesu. Gwyddai nad oedd y galaru hwn ar ran yr Iddewon yn ddim ond rhagrith noeth. Yr oedd yn gwybod yn dda faint o dynerwch oedd yn eu natur; nid unwaith na ddwywaith yr ymdrechasant Ei lofruddio Ef; o ganlyniad nis gallai oddef eu gweled yn ffugio galar ac yn proffesu "cysuro." Fel y gwelir oddiwrth S. Math. xxiii. yr oedd yr Iesu yn fwy digllawn yn erbyn rhagrith na'r un pechod arall.

34 Ac a ddywedodd, Pa le y dodasoch chwi ef? Hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, tyred a gwel.

35 Yr Iesu a wylodd.

36 Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, Wele, fel yr oedd yn ei garu ef.

37 Eithr rhai o honynt a ddywedasant, Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith?

"*Ac a gynhyrfwyd.*" Ar ymyl y ddalen cyfieithir "a gynhyrfodd Ei Hun," a chredwn ei fod yn gyfieithad mwy cywir. Yr oedd digllonedd yr Iesu wedi cael ei ddeffro i'r fath raddau nes peri iddo ddangos hynny trwy ryw osgo allanol.

34. "*Pa le y dodasoch chwi ef?*" Dyma'r unig fan yn yr Efengyl hon y cawn yr Iesu yn gofyn cwestiwn sydd yn ymddangos fel pe'n tarddu oddiar anwybodaeth. Wrth "hwy," yn ddiameu, y golygir y ddwy chwaer.

35. Dyma'r unig fan yn y Testament Newydd lle y defnyddir y gair a gyfieithir yma "wylo." Nid yw yn golygu "dolefain yn uchel" fel y gair yn adn. 31, 33. "Tywallt dagrau" yw ei ystyr. Angerddoldeb teimlad yn torri allan a welir yma, nid "dolefain" er mwyn dilyn yr arferiad cenedlaethol. Dagrau cydymdeimlad a dywalltodd yr Iesu, oblegid gwyddai Efe fod Lazarus ar fedr cael ei adferyd i'w chwiorydd. Yr oedd yr addewid a roddodd Efe yn adn. 4 i gael ei chyflawni.

36. Y mae'r cyfieithiad Cymraeg "am hynny" yn gywirach na'r un Saesneg. Yr un gair a gyfieithir yma "caru" ag a ddefnyddir gan y chwiorydd yn adn. 3. Nid yr un gair a geir yn adn. 5, lle y desgrifia'r Efengylwr y cariad a fodolai rhwng yr Iesu a'r teulu yn Bethania.

37. Cred rhai mai nid mewn ysbryd gelyniaethus y gofynwyd y cwestiwn. Yr oedd yr Iddewon hyn yn methu cysoni gallu gwyrthiol yr Iesu â'r ffaith y bu iddo adael i Lazarus, yr hwn a garai mor fawr, farw heb estyn llaw i'w achub. Gwell, er hynny, ydyw credu gyda'r mwyafrif o esbonwyr, mai iaith wawdlyd anghrediniaeth elyniaethus a glywir yma. Os na fu i'r Iesu wneud dim er adferyd iechyd i'w gyfaill Lazarus, yr oedd yn anhawdd credu iddo roddi ei olwg i ddyn dall o'i enedigaeth nas gwyddai ddim am dano! Ond paham y bu iddynt son am roddi ei olwg i'r dall yn hytrach nag am adgyfodi merch Jairus a mab y weddw o Nain?

38 Yna yr Iesu drachefn a riddfanodd ynddo ei hunan, ac a ddaeth at y bedd. Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno.

39 Yr Iesu a ddywedodd, Codwch ymaith y maen. Martha, chwaer yr hwn a fuasai farw, a ddywedodd wrtho, Arglwydd, y mae efe weithian yn drewi: herwydd y mae *yn farw* er ys pedwar diwrnod.

Cred rhai nad oeddent wedi clywed fod yr Iesu wedi cyfodi neb o farw yn fyw. Dichon hynny fod, o'r hyn lleiaf, gallwn yn rhwydd gasglu oddiwrth eu hymresymiad yma, os clywsant am danynt, nad oeddent yn credu fod dim gwirionedd yn yr hanes. Y mae ffurf ac iaith eu gwrthddadl yn peri i ni feddwl nad oeddent yn disgwyl y gallai yr Iesu wneud dim ar ol i frenin y dychryniadau ddwyn Lazarus yn garcharor.

38. Iaith wawdlyd yr Iddewon yn adn. 36 oedd wedi cynhyrfu'r Iesu. (Cymh. adn. 33). Nid oes dim hanes fod yr Iesu wedi rhoddi unrhyw arwydd allanol o'r cynwrf meddyliol megis yn adn. 33.

"*Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arni.*" Y mae y ffaith mai ogof oedd y bedd yn profi fod y teulu yn gymharol gyfoethog. Yr oedd ganddynt eu bedd eu hunain. (Cymh. S. Matt. xxvii. 60). Wrth "ddodi arni," yn ol barn rhai, ni olygir ei fod wedi ei osod fel y gosodir cerrig ar feddau weithiau yn ein gwlad ni, ond ei fod yn ffurfio math o ddrws i'r ogof. Yn unol â hyn cawn yr Iesu yn adn. 43 "yn llefain â llef uchel, Lazarus, tyred *allan.*" O'r ochr arall, yn adn. 39, cawn ef yn gorchymyn iddynt "godi ymaith y maen" fel pe buasai'r bedd yn fath o "*vault*" fel yn ein gwlad ni, ac yma dywedir fod y maen wedi ei ddodi arni. Y mae yn anhawdd penderfynu pa un o'r ddau esboniad sydd yn fwyaf cywir. Yn ol y golygiad cyntaf, bedd cyffelyb i'r beddau ereill y sonnir am danynt yn yr Ysgrythyr oedd bedd Lazarus, ond credwn nad oes gennym ddim sail i gredu na chleddid cyfoethogion ond mewn un math o feddau.

39. "*Codwch ymaith y maen.*" (Gwel ar adn. 36).

"*Chwaer yr hwn a fuasai farw.*" Yr oedd y chwaer am gadw llen o gysegredigrwydd i guddio gweddillion marwol ei hanwyl frawd. Nid oedd am i neb gael llygadrythu ar y wyneb hoff yr oedd angeu erbyn hyn yn dechreu ymborthi

40 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Oni ddywedais i ti, pes credit, y cait ti weled gogoniant Duw?

41 Yna y codasant y maen lle yr oedd y marw wedi ei osod. A'r Iesu a gododd *ei* olwg i fynu, ac a ddywedodd, Y Tad, yr wyf yn diolch i ti am i ti wrandaw arnaf.

---

arno. Sylwer nad oes dim sôn yma fod y corff wedi cael ei berarogli. A oeddent yn paratoi i wneud hyny? Tybia rhai mai dyma y rheswm am y "nard gwlyb gwerthfawr" oedd ym meddiant Mair (xii. 3), ond credwn fod geiriau Martha yma yn derfynol ar y mater.

40. "*Oni ddywedais i ti,*" *&c.* Cyfeirio y mae'r Iesu yn y geiriau hyn at yr hyn a ddywedodd yn adn. 25, 26, ac o bosibl hefyd at ei atebiad a gofnodir yn adn. 4. Tybia rhai,—ac y mae cryn sail i'r dybiaeth—na chroniclir yr oll ddywedodd yr Iesu wrthi.

41. Yr oedd geiriau'r Iesu yn derfynol ar y mater; ni thalwyd sylw mwy i wrthddadl Martha yn adn. 39. Dylid gadael allan y geiriau "lle yr oedd y marw wedi ei osod" gan na cheir hwy yn y llawysgrifau henaf.

"*Ar Iesu a gododd Ei olwg i fyny.*" Yr un gair ddefnyddir yma am yr Iesu yn "codi ei olwg" ac am "godi'r maen" yn y frawddeg flaenorol.

"*Yr wyf yn diolch i Ti am i Ti wrandaw arnaf.*" Ni cheir hanes am y weddi at ba un y cyfeiria'r Iesu yma. Tybia rhai fod y weddi wedi cael ei hoffrwm i fyny cyn i'r Iesu roddi Ei atebiad i gais y chwiorydd yn adn. 4, ond credwn nad oes angen meddwl fod yna unrhyw weddi ffurfiol wedi cael ei hoffrwm o gwbl. Nid oedd angen ar yr Iesu am dderbyn dim o law Duw. Arfer dynion ydyw erfyn am fendithion. Yn achos yr Iesu yr unig beth angenrheidiol ydoedd gwybod fod perffaith gyd-gordiad yn bodoli rhwng Ei weithrediadau Ef ac ewyllys y Tad. Y mae gennym le cryf i gredu fod yr Iesu yn cael ei demtio'n barhaus i ddefnyddio Ei allu er cyrraedd Ei amcanion personol Ei Hun, a phe buasai yn ddim ond dyn diameu mai Ei brif ddymuniad fuasai rhoddi gwellhad i Lazarus a'i glefyd, ac nid ei adgyfodi o feirw. Yma y mae yn diolch am y sicrwydd Ei fod trwy ymatal wedi cyflawni ewyllys Ei Dad, ac am yr ymwybyddiaeth y medrai yn awr weithredu yn adgyfodiad Lazarus o feirw yn unol â'r un ewyllys.

42 Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser: eithr er mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch, y dywedais, fel y credont mai tydi a'm hanfonaist i.

43 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a lefodd â llef uchel, Lazarus, tyred allan.

44 A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo: a'i wyneb oedd wedi ei rwymo â napcyn. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch ef yn rhydd, a gadêwch iddo fyned *ymaith*.

---

42. Yma cawn yr eglurhad paham y bu i'r Iesu offrwm i fyny Ei weddi o ddiolchgarwch yn adn. 41; nid am Ei fod mewn gwirionedd mewn unrhyw amheuaeth na byddai i'r Tad Ei wrando, ac y byddai iddo roddi sicrwydd iddo Ei fod yn gweithredu yn unol â'i ewyllys, ond er mwyn proti i'r "bobl oedd yn sefyll o amgylch" nad oedd Efe yn gwneuthur dim o hono Ei Hun,, ac nad oedd Efe a'r Tad ond un. Dylid pwysleisio ar "myfi" yn y rhan gyntaf o'r adnod a "tydi" yn y rhan olaf.

43. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng cri uchel a chlywadwy yr Iesu a sisial isel a dirgelaidd swynwyr paganaidd. Tybia rhai mai teimlad cryf ar ran yr Iesu oedd yn peri iddo lefain â llef uchel, tra y cred ereill iddo wneud hynny er mwyn i'r "bobl oedd yn sefyll o'i amgylch" Ei glywed. Ar lef yr Iesu, deffrodd Lazarus o'i "hun." (Gwel ar adn. 38).

44. Tybia rhai y cawn yma hanes gwyrth arall, Lazarus yn gallu dyfod allan er ei fod "yn rhwym draed a dwylaw mewn amdo," ond credwn nad oes unrhyw angen tybied hynny. O bosibl yr oedd ei draed a'i ddwylaw wedi eu rhwymo ar eu pen eu hunain, yn unol âg arferiad yr Aiphtiaid ar brydiau. Golyga'r gair gwreiddiol a gyfieithir yma "amdo" y rhwymau a ddefnyddid i gadw'r llieiniau a orchuddient y corff yn eu lle.

"*Gollyngwch ef yn rhydd,*" &c. Nid oedd yr Iesu am gadw Lazarus yno i'r bobl syllu arno fel gwrthrych o gywreinrwydd. Yr oedd wedi cael ei adferyd i fywyd, ac yr oedd Efe am iddo roddi prawf o hyny trwy gyflawni dyledswyddau cyffredin bywyd. (Cymh. S. Luc vii. 15 a viii. 55). Yr oedd yr hyn y dylent ryfeddu ato wedi myned heibio, nid oedd yr hyn a welent ond ei effeithiau.

45 Yna llawer o'r Iuddewon, y rhai a ddaethent at Mair, ac a welsent y pethau a wnaethai yr Iesu, a gredasant ynddo ef.

46 Eithr rhai o honynt a aethant ymaith at y Phariseaid, ac a ddywedasant iddynt y pethau a wnaethai yr Iesu.

47 ¶ Yna yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid a gasglasant gynghor, ac a ddywedasant, Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur? canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion.

Canlyniadau Uniongyrchol y Wyrth, Adnodau 45—57.

45. Y mae gramadeg y frawddeg yn y gwreiddiol yn ein gorfodi i wneyd cyfnewidiad yn y cyfieithad cyffredin.—Nid "llawer o'r Iuddewon y rhai a ddaethant" a ddywedir, ond "llawer o'r Iddewon, sef y rhai a ddaethent." Felly rhaid fod yr holl Iddewon oedd wedi ymweled â Mair wedi credu yn yr Iesu pan welsant y wyrth. Ond y mae'n amlwg mai ffydd egwan iawn oedd ganddynt oherwydd ei bod yn seiliedig ar yr arwydd a welsant.

46. "*Eithr rhai o honynt*," &c. Os yw y cyfieithiad a roddwyd o ddechreu adnod 45 yn gywir, a rhaid ei fod, yna "rhai" o'r Iddewon a gredasent a olygir yma. Tybia ereill mai rhai o'r Iddewon oedd wedi dilyn yr orymdaith tua'r bedd a olygir yma. Y mae yr eglurhad hwn yn cyfrif am eu gwaith yn myned ymaith at y Phariseaid, ond nid yw yn esbonio gramadeg yr adnod flaenorol. Credwn mai gwell yw meddwl mai rhai o'r Iddewon a gredasant a aethant at y Phariseaid, a'u hamcan, o bosibl, ydoedd ceisio darbwyllo yr arweinwyr crefyddol hynny hefyd i gredu yn yr Iesu. Yr oeddent, hefyd, eisieu cael atebiad i'r hen gwestiwn, Ai nid hwn oedd y Messiah os medrai gyflawni y cyfryw wyrthiau ac arwyddion? Nid oes dim sail i'r dybiaeth mai gelyniaeth at yr Iesu a'u gyrrodd at y Phariseaid.

47. "*Yna yr archoffeiriaid a'r Phariseaid a gasglasant gyngor.*" Yn lle "yna," dylid cyfieithu "am hynny," am eu bod yn gwybod y byddai i'r son am gyflawniad y wyrth ledaenu, ac, o bosibl, greu cynwrf ymhlith y bobl yn ystod yr ŵyl. Yr "archoffeiriaid," o hyn allan, yw arweinwyr y blaid elyniaethus. Yr oeddent hwy yn Saduceaid, ac yn gwadu'r adgyfodiad. Am hynny yr oeddent hwy yn fwy digllawn na'r Phariseaid. Yr oedd y wyrth ei hun, yn

48 Os gadawn ni ef fel hyn, pawb a gredant ynddo; ac fe a ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddifethant ein lle ni a'n cenedl hefyd.

49 A *rhyw* un o honynt, Caiaphas, yr hwn oedd archoffeiriad y flwyddyn honno, a ddywedodd wrthynt, Nid ydych chwi yn gwybod dim oll,

---

ogystal a'i chanlyniadau, yn eu blino hwy. Gwelir yr un peth yn yr Efengylau ereill,—yr archoffeiriaid sydd yn arwain yn ystod dyddiau olaf yr Iesu. Yn Actau'r Apostolion, drachefn, hwy sydd yn d'od yn fwy-fwy blaenllaw yn eu gelyniaeth yn erbyn yr apostolion. Wrth y "cyngor" y golygir cyfarfod o aelodau'r Sanhedrim; ni cheir y fannod o'i flaen.

"*Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur?*" Nid oes dim lle i gasglu oddiwrth y cwestiwn hwn eu bod yn galw ar eu cyd-aelodau i roddi ystyriaeth ychwanegol i'r mater. Yr oedd yr adeg i bwyso a mesur wedi myned heibio, yr oedd yn rhaid gwneud rhywbeth ar unwaith os am rwystro'r "dyn yma" i ennill yr holl wlad. Y maent yn methu gwadu yr arwyddion a gyflawnasai'r Iesu, ond nid ydynt yn barod i'w gydnabod fel Messiah. Meddwl yr oeddent hwy am danynt eu hunain yn unig, ac yr oeddent yn gwybod fod llwyddiant yr Iesu yn golygu eu dinystr hwy.

48. Os na wnant hwy rywbeth i roddi terfyn arno Ef a'i arwyddion, y mae'r bobl ("pawb") yn sicr o roddi eu hesboniad eu hunain ar Ei wyrthiau, a'i gymeryd a'i goroni yn frenin. Ac os llwyddant i wneud hynny, yna gelwir y Sanhedrin i gyfrif gan y Rhufeiniaid am eu bod wedi caniatau gwrthryfel yn eu gwlad.

"*Ac a ddifethant ein lle ni a'n cenedl hefyd.*" "A gymerant ymaith," meddai'r cyfieithiad Saesneg, ond credwn fod y cyfieithiad Cymraeg yn fwy cydweddol â'r geiriau sydd yn dilyn. Sylwer y dywedir "ein lle *ni a'n* cenedl." Meddwl am danynt eu hunain yn colli pob awdurdod yr oeddent, nid ofni yr achosid trychineb cenedlaethol. Cred rhai mai y "deml" a olygir wrth "ein lle ni," ereill mai "Jerusalem." Efallai ei fod yn cynwys y ddwy. Wrth "ein cenedl" y golygir y mesur o lywodraeth leol a feddent. Dygid yr hawl yma ymaith gan y Rhufeiniaid os goddefent i wrthryfel gyfodi. Hunan-les yn unig oedd yn cyfrif am eu hymddygiad, ond yr oeddent yn hoff o berswadio eu gilydd mai crefydd a gwladgarwch oedd yr achos o hono.

49. "*A rhyw un o honynt, Caiaphas.*" Yr archoffeiriaid

50 Nac yn ystyried, mai buddiol yw i ni, farw o un dyn dros y bobl, ac na ddifether yr holl genedl.

---

oedd yn llywyddu fel rheol yn nghyfarfodydd y Sanhedrim, ond y mae'n amlwg oddiwrth y geiriau "un o honynt," mai nid efe oedd yn llanw'r gadair ar yr achlysur hwn. Enw cyntaf y gwr hwn ydoedd Joseph, ac yr oedd yn fab-yng-nghyfraith i Annas, yr hwn oedd wedi llanw'r swydd am flynyddoedd. Dyrchafwyd Caiaphas i'r archoffeiriadaeth gan Valerius Gratus, y rhglaw Rhufeinig, yn o.c. 16, a chadwodd ei swydd hyd o.c. 36. Yr oedd yn Saducead digydwybod, ac yn barod i wawdio a dirmygu'r Phariseaid bob cyfleustra a ga'i.

"*Yr hwn oedd archoffeiriad y flwyddyn hynny.*" Nid oedd yr awdwr am i neb gasglu oddiwrth hyn fod archoffeiriad newydd yn cael ei apwyntio bob blwyddyn. Ei amcan ydyw pwysleisio ar y ffaith mai Caiaphas oedd yn dal awenau crefydd a gwleidyddiaeth, yn ystod y flwyddyn fyth-gofiadwy honno, pan groeshoeliwyd yr Iesu.

"*Nid ydych chwi yn gwybod dim oll.*" Cyfeiria yma gyda gwawd ar ymddygiad amhenodol y Phariseaid nad oeddent yn barod i gymeryd unrhyw gam effeithiol, dim ond ymgynghori o hyd. Yr oeddent yn rhy ddall i weled hyd yn oed beth oedd oreu ar eu lles eu hunain. Yr oeddent hwy yn dymuno yr un peth ag a ddymunai yntau, ond yr oeddent yn rhy ofnus neu yn rhagrithiol i ddweud eu barn yn eglur.

50. Nid oeddent hwy wedi ymresymu'r pwnc i'w ganlyniad, neu buasent wedi dyfod i'r penderfyniad sydd yn dilyn—

"*Mai buddiol yw i ni . . . . . dros y bobl . . . . . yr holl genedl.*" Nid yw Caiaphas yn son yr un gair am yr hyn oedd gyfiawn a theg. Beth oedd fuddiol? Beth oedd yn ateb y pwrpas? ydoedd cwestiynau mawr y Saducead digydwybod hwn. Buddioldeb a hunan-les oedd prif egwyddorion y grefydd Saduceaidd, ac yr oeddent yn foddlon i aberthu pob teimlad gwladgarol a thyner er eu sicrhau. Cyfeiria'r gair "pobl" at freintiau crefyddol yr Iuddewon ("fy mhobl," &c.), a'r gair "genedl" at eu hawliau gwleidyddol. Yr oeddent yn eglwys Iddewig yn ogystal ag yn genedl Iddewig. Yn unol â'r llawysgrifau goreu dylid darllen "buddiol yw i *chwi*," &c.

51 Hyn ni ddywedodd efe o hono ei hun: eithr, *ac* efe yn arch-offeiriad y flwyddyn honno, efe a brophwydodd y byddai yr Iesu farw dros y genedl;

52 Ac nid dros y genedl yn unig, eithr fel y casglai efe ynghyd yn un blant Duw hefyd y rhai a wasgarasid.

---

51. "*Ac efe yn archoffeiriad y flwyddyn honno efe a brophwydodd,*" *&c.* Rhaid fod yr awdwr yn cysylltu y ddawn brophwydol â'r archoffeiriadaeth neu paham y mae'n ail-adrodd mor fuan y frawddeg a ddefnyddiodd yn adn. 49. Yn Numeri xxvii. 21, darllenwn fod Josua i sefyll "gerbron Eleazar yr offeiriad yr hwn a ofyn gyngor drosto ef, yn ol barn Urim." Ond yr oedd y ddawn hon wedi ei hanghofio er ys oesau, ac nis gallwn lai na chredu mai mewn tôn hanner-gwawdlyd y mae'r Efengylwr yn son am Caiaphas y Saducead yn "prophwydo." "Prophwydo" yr ydoedd yn ddiarwybod iddo'i hun. Nid oedd efe ond rhoddi mynegiant i'w fwriadau mileinig ei hun mewn cysylltiad â'r Iesu, ond trodd ei eiriau allan yn wir yn Ei hanes Ef.

52. "*Ac nid dros y genedl yn unig,*" *&c.* Nid yw yr awdwr yn ail-adrodd y gair "pobl" a ddefnyddiwyd gan Caiaphas yn adn. 50. Yr oedd yr Iddewon erbyn hyn wedi peidio a bod yn "bobl," nid oeddent yn awr ond cenedl yn unig, un o genhedloedd y byd. Ond beth a feddylia'r awdwr wrth "holl blant Duw?" Cred rhai y golygir holl blant dynion, y rhai oeddent yn rhinwedd eu dawn greadigol yn aros o hyd yn blant Duw er gwaethaf dylanwad pechod. Os felly y mae y geiriau "y rhai a wasgarwyd" yn cyfeirio at y modd yr oedd dyn o dan ddylanwad pechod wedi ymddieithrio oddiwrth Dduw. Dyna effaith pechod, gwasgaru teulu Duw. Tybia ereill fod yr Efengylwr yn golygu yma nid dynoliaeth yn ddiwahaniaeth ond pawb, yn Iddewon ac yn Genhedloedd, oedd yn dyheu am y gwirionedd, ac felly mewn cyflwr priodol i dderbyn yr achubiaeth a ordeiniodd Duw. Credwn mai gwell yw dilyn esbonwyr ereill, y rhai a dybiant y gelwir hwy yma yn blant Duw megis mewn rhagolwg. Yn ol trefn Duw yr oedd yn rhaid i bawb gael eu cadw trwy farwolaeth yr Iesu. Rhaid mai nid undeb allanol a gweledig a feddylia'r awdwr wrth "gasglu ynghyd yn un" ond undeb ysbrydol, undeb o ran meddwl ac amcan. Nid ail-adferyd cenedl Israel i wlad yr addewid oedd gwaith yr Iesu, ond dwyn gwaredigaeth i Israel Duw ymhob gwlad.

53 Yna o'r dydd hwnnw allan y cyd-ymgynghorasant fel y lladdent ef.

54 Am hynny ni rodiodd yr Iesu mwy yn amlwg ym mysg yr Iuddewon; ond efe a aeth oddi yno i'r wlad yn agos i'r anialwch, i ddinas a elwir Ephraim, ac a arhosodd yno gyd â'i ddisgyblion.

55 ¶ A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a llawer a aethant o'r wlad i fynu i Jerusalem o flaen y pasc, i'w glanhâu eu hunain.

56 Yna y ceisiasant yr Iesu; a dywedasant wrth eu gilydd, fel yr oeddynt yn sefyll yn y deml, Beth a dybygwch chwi gan na ddaeth efe i'r wyl?

57 A'r arch-offeiriaid a'r Phariseaid a roisant orchymyn, os gwyddai neb pa le yr oedd efe, ar fynegi o hono, fel y gallent ei ddal ef.

---

53. Y mae'n amlwg fod mwyafrif aelodau'r Sanhedrim wedi cefnogi cynnyg Caiaphas. Yr oedd yr hyn nad oedd ond bwriad dirgelaidd o'r blaen yn awr yn cael el gydnabod fel eu hunig amcan. Yr oedd yn rhaid rhoddi terfyn ar fywyd yr Iesu, ond nid oeddent eto wedi penderfynu pa bryd na pha fodd.

54. Cymh. x. 40. Gwyddai yr Iesu nad oedd Ei awr Ef wedi dod eto, ond er hyny ciliodd, fel y gwnaeth lawer gwaith o'r blaen, o afael Ei elynion digofus. Wrth yr anialwch y golygir yr anialdir gwyllt a ymestynnai mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol o Jerusalem. Credir mai yr un yw yr "Ephraim" a geir yma a'r ddinas o'r enw hwnnw y crybwyllir am dani yn 2 Chron. xiii. 19, ond nid oes sicrwydd lle yr ydoedd. Tybir fod yr Iesu wedi treulio tua mis o amser yno.

55. "*A Phasg yr Iddewon,*" &c. Cymh. ii. 13 a vi. 4.

"*I'w glanhau eu hunain.*" Gwelwn oddiwrth xviii. 28 y disgwylid i bob Iddew lanhau ei hun oddiwrth aflendid ar gyfer yr wyl, ond ni cheir rheolau manwl yn neddf Moses mewn perthynas i'r puredigaeth hwn. (Cymh. Actau xxii. 24).

57. Dywedir mai "gorchymyn" ydyw y darlleniad priodol yma. Sylwer mai yr Archoffeiriaid sydd yma eto'n cymeryd y lle mwyaf blaenllaw.

PENNOD XII.

Yna yr Iesu, chwe diwrnod cyn y pasc, a ddaeth i Bethania, lle yr oedd Lazarus, yr hwn a fuasai farw, yr hwn a godasai efe o feirw.

PENNOD XII.

Gellir rhannu'r bennod i'r adrannau canlynol :—
Yr eneiniad yn Bethania (adn. 1—11).
Yr orymdaith i Jerusalem (12—19).
Ymddiddan yr Iesu â'r Groegiaid (20—36).
Barn yr Efengylwr am weinidogaeth yr Iesu (37—43).
Barn yr Iesu Ei Hun am Ei waith (44—50).

Yr Eneiniad yn Bethania (1—11).

1. Dylid cyfieithu'r cysylltair yn nechreu'r adnod "am hynny," a chredwn mai ystyr gyffredinol a ddylid ei roddi 'r geiriau,—am fod pethau fel ag y desgrifiwyd hwy yn y bennod flaenorol. Nid oes dim sail dros gredu Ei fod wedi dychwelyd i Bethania (oedd mor agos i Jerusalem), am Ei fod yn ofni dichell yr Iddewon.

"*Chwe' diwrnod cyn y Pasg.*" Ar ba ddiwrnod y cyrhaeddodd Bethania? Y mae llawer o wahaniaeth barn ymhlith esbonwyr. Cred rhai iddo gyrraedd yno nos Iau, ereill mai ar nos Sadwrn y daeth, ond credwn mai gwell yw derbyn golygiad arall mai ar nos Wener y cyrhaeddodd,—y nos Wener hon oedd yr 8fed o fis Nisan (Mawrth 31ain gyda ni), ac ar ol machludiad haul y dydd hwnnw yr oedd y Sabbath Iddewig yn dechreu. Nid oes dim anhawster mewn perthynas i hŷd y daith, oblegid tybiwn fod yr Iesu wedi cyrraedd i'r pentref naill ai cyn i'r Sabbath ddechreu, neu ynte yn fuan ar ol hynny. Felly nis gallai fod wedi teithio mwy na "thaith diwrnod Sabbath." Tybir i'r swper gymeryd lle y dydd canlynol ar ol darfod y Sabbath.

"*A ddaeth i Bethania.*" Hysbysir ni gan yr Efengylwyr ereill Ei fod wedi dyfod trwy Jericho, a'i fod wedi dyfod i gyffyrddiad â'r publican Zaccheus ar y ffordd. Ni sonnir gan yr Efengylwyr ereill Ei fod wedi aros yn Bethania ar Ei ffordd i Jerusalem, ond gwelwn oddiwrth S. Math. xxi. 17, a S. Marc xii. 11, Ei fod yn "myned allan i Bethania i letya."

"*Lle yr oedd Lazarus, yr hwn a fuasai farw, yr hwn a godasai efe o feirw.*" Yn ol y llawysgrifau goreu, dylid

2 *Ac* yno y gwnaethant iddo swpper; a Martha oedd yn gwasanaethu: a Lazarus oedd un o'r rhai a eisteddent gyd âg ef.

3 Yna y cymmerth Mair bwys o ennaint nard gwlyb gwerthfawr, ac a enneiniodd draed yr Iesu, ac y sychodd ei draed ef â'i gwallt: a'r tŷ a lanwyd gan arogl yr ennaint.

---

gadael allan y geiriau "yr hwn a fuasai farw," ac yn lle 'efe" yn y frawddeg olaf dylid darllen "yr Iesu."

2. "*Ac yno y gwnaethant iddo swper.*" Hysbysir ni gan ddau o'r Efengylwyr ereill (S. Math. xxvi. 6—13 a S. Marc xiii. 3—9) fod y wledd hon wedi cymeryd lle yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus Y mae hyn yn cyfrif am y ffaith fod Lazarus yn un o'r gwahoddedigion. Ond os felly, paham y mae Martha yn gwasanaethu wrth y bwrdd? Y mae esbonwyr wedi ceisio cyfrif am hyn mewn amrywiol ffyrdd. Tybia un fod Martha yn wraig i'r Simon hwn, tra y cred ereill mai tad y brawd a'i chwiorydd oedd Simon. Nid oes fawr o sail i'r un o'r ddwy dybiaeth oddigerth yr hyn a ddywedir yma. Gwell yw chwilio am yr eglurhad mewn cyfeiriad arall. Nid oes dim ar ein ffordd i gredu mai gwledd gyhoeddus a roddwyd gan drigolion y lle oedd y swper, a bod Simon (yr hwn oedd, o bosibl, wedi cael ei iachau gan yr Iesu) wedi rhoddi benthyg ei dŷ ar gyfer yr amgylchiad. Os felly yr oedd, naturiol iawn oedd i Martha, fel un o brif wragedd y pentref, gymeryd rhan flaenllaw gyda'r paratoadau.

3. "*Yna y cymmerth Mair bwys o ennaint nard gwlyb gwerthfawr,*" *&c.* Ni chrybwyllir enw y wraig gan yr Efengylwyr ereill, ac ni ddywedir faint o ennaint oedd ganddi, dim ond "blwch o ennaint gwerthfawr." Yr oedd y "pwys" at ba un y cyfeirir yma yn agos i ddeuddeg owns. Tybir mai enw cyffredinol ydyw y gair a gyfieithir yma ennaint, ac mai math neilltuol o ennaint oedd y "nard." Credai y cyfieithwyr Cymraeg fod y gair sydd yn dilyn "nard" yn tarddu o'r un gwreiddyn a'r gair Groeg a gyfieithir yn gyffredin "yfed," ac am hynny cyfieithasant "nard gwlyb." Tybia ereill mai ystyr y gair ydyw "pur." Rhaid fod yr ennaint yn "werthfawr," oherwydd y mae Horace, bardd Rhufeinig, yn barod i roddi casgenaid gyfan o win am flwch bychan o hono. Ail-adroddir y gair "traed" er mwyn pwysleisio ar y ffaith. Yn ol yr Efengylwyr ereill eneinio pen yr Iesu a wnaeth y wraig, ac y mae rhai esbonwyr wedi gweled

4 Am hynny y dywedodd un o'i ddisgyblion ef, Judas Iscariot, *mab* Simon, yr hwn oedd ar fedr ei fradychu ef.

5 Paham na werthwyd yr ennaint hwn er tri chàn ceiniog, a'i roddi i'r tlodion?

6 *Eithr* hyn a ddywedodd efe, nid o berwydd bod arno ofal dros y tlodion; ond am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo.

---

anhawster mawr yn hyn, ond os cymharwn Psalm cxxxii. 2 gwelwn nad yw yn amhosibl i'r ddau hanes fod yn wir. Yr oedd eneinio'r pen yn arferiad yn y wlad, ac y mae yn nodweddiadol o'r Efengylwr hwn mai eneinio'r traed a dynnodd ei sylw ef. Nid oes yr un o'r Efengylwyr ereill ychwaith yn crybwyll fod y tŷ wedi ei lanw âg arogl yr ennaint.

4. Yn ol y llawysgrifau goreu, dylid gadael allan y geiriau "mab Simon" a chyfieithu "Judas Iscariot, un o'i ddisgyblion Ef." Dywed S. Marc mai "rhai" o honynt a gyfododd yr wrthddadl hon, tra y dywed S. Matthew mai "Ei ddisgyblion" a wnaeth hynny. Ychwanegir y geiriau "yr hwn oedd ar fedr Ei fradychu Ef" fel rheswm i gyfrif am ei ymddygiad.

5. Yr oedd y gair a gyfieithir yma "ceiniog" yn dynodi darn arian oedd yn cyfateb i tua deg ceiniog o'n harian ni. Dywedir wrthym hefyd mai dyna ydoedd cyflog gweithiwr am ddiwrnod. Felly yr oedd Mair yn ol barn Judas wedi gwastraffu cyflog gweithiwr am yn agos i flwyddyn. Ni cheir y fannod o flaen y gair "tlodion," felly cyfeiria Judas yn bennaf at y cymeriad ac nid at y dosbarth cymdeithasol.

6. Ceir yma eglurhad yr awdwr ar sylw Judas. Gallesid meddwl wrth yr hyn a ddywedodd ei fod yn fawr ei ofal am y tlodion, ond camgymeriad ydoedd hynny. Rheswm arall hollol oedd yn cyfrif am ymddygiad Judas.

"*Ond am ei fod yn lleidr a bod ganddo y pwrs a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo.*" Y mae yn anhawdd dweud a oedd yr Iesu a'i ddisgyblion eisoes wedi cael prawf fod Judas yn lleidr. Os oeddent mae yn rhyfedd fod y pwrs o hyd yn cael ei adael yn ei ofal. Y mae i'r gair a gyfieithir yma "dwyn" ystyr ddyblyg fel ag i'r gair Cymraeg "dwyn." Golyga "gario" neu ynte "ladrata." Nis gallwn weled beth oedd yn galw am yr ychwanegiad "a'i fod yn dwyn" &c., os yn yr ystyr gyntaf y defnyddir y gair. Onid digon oedd dweud mai ganddo ef yr oedd y pwrs? Rhaid felly mai yn yr ail ystyr o "ladrata" y defnyddir y gair, ac o bosibl,

7 A'r Iesu a ddywedodd, Gâd iddi! erbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi hwn.

8 Canys y mae gennych y tlodion gyd â chwi bob amser; eithr myfi nid oes gennych bob amser.

---

yng ngoleuni yr hyn a ddigwyddodd wedi hyn yn bennaf y dygir y cyhuddiad yn erbyn Judas.

7. Gwyddai yr Iesu mai offrwm cariad oedd hwn o eiddo Mair ac yr oedd yn anfoddlon i Judas a'i gyd-ddisgyblion "beri blinder" (Gwel S. Math. xxvi. 10), i un oedd mor llednais ei theimladau. Yn ol y mwyafrif mawr o awdurdodau dylai y rhan olaf o'r adnod ddarllen fel y canlyn "fel y cadwo hwn erbyn dydd fy nghladdedigaeth." Mae'n amlwg felly nad oedd Mair eto wedi tywallt yr holl olew a bod Judas wedi gwneyd y sylw a gofnodir yn adn. 5 pan welodd beth yr oedd ar fedr ei wneuthur. Sylwer nad yw'r Iesu yn son dim am werthu yr ennaint yn unol âg awgrym Judas. Tybir fod y cyfnewidiad a geir yn y darlleniad cyffredin wedi ei wneud er mwyn dwyn yr hanes hwn i fwy o gydgordiad â'r adroddiad a roddir gan yr Efengylwyr ereill. Yn S. Mathew a S. Marc y mae yr Iesu yn cyfeirio at yr eneiniad hwn yn Bethania fel eneiniad ar gyfer Ei gladdedigaeth. Y mae y darlleniad uchod "fel y cadwo hwn" &c., yn creu anhawster, ond y mae yn ddarlleniad hynod naturiol. Nid gwastraff dibwrpas ydoedd yr enaint; yr oedd Mair yn ngwres ei chariad tuagat yr Iesu wedi methu ymatal rhag eneinio'r Iesu cyn yr amser, ond nis gallai Judas gyda'i deimladau daearol fyth ddeall y rheswm am ei hymddygiad.

8. Ceir yr adnod hon air am air ymron yn yr Efengylau ereill, ond nid yw y geiriau yn yr un drefn. Yma rhoddir y pwyslais ar y gair "tlodion;" yn yr Efengylau ereill rhoddir ef ar y geiriau "bob amser." Nid yw yr Iesu yn dweud gair yn erbyn cyfrannu er cynnal y tlodion. Yr hyn y mae am bwysleisio arno ydyw, nad ydyw dangos haelioni tuagato Ef yn anghyson â chyflawniad teilwng o'r ddyledswydd honno. Buasai taflu unrhyw fath o sarhad ar y tlodion yn hollol anghyson â holl ymddygiad yr Iesu tuagat y dosbarth hwn. Trwy roddi i'r Iesu y deuir i ddeall gwir ystyr rhoddi i'r tlodion. Os rhoddir yn briodol iddo Ef rhoddir yn gydwybodol hefyd i'r tlodion.

9 Gwybu gan hynny dyrfa fawr o'r Iuddewon ei fod ef yno: a hwy a ddaethant, nid er mwyn yr Iesu yn unig, ond fel y gwelent Lazarus hefyd, yr hwn a godasai efe o feirw.

10 ¶ Eithr yr arch-offeiriaid a ymgynghorasant fel y lladdent Lazarus hefyd:

11 Oblegid llawer o'r Iuddewon a aethant ymaith o'i herwydd ef, ac a gredasant yn yr Iesu.

12 ¶ Trannoeth, tyrfa fawr yr hon a ddaethai i'r wyl, pan glywsant fod yr Iesu yn dyfod i Jerusalem,

---

9. Gwelwn oddi wrth xi. 55 fod llawer o'r Iddewon oedd wedi dyfod i Jerusalem ar gyfer yr ŵyl, yn bur bryderus ynghylch yr Iesu, ac nid oedd ond naturiol iddynt, pan glywsant am y wyrth a gyflawnodd, brysuro i Bethania i'w weled Ef, ac yn enwedig i weled y gwr a achubodd o afael marwolaeth. Nid oedd y "dyrfa fawr" hon yn cynwys ond y bobl gyffredin a ddaethent i'r ŵyl, ond parodd eu hymddygiad i ddigllonedd yr archoffeiriaid gynyddu.

10. Ni sonnir un gair yma am y Phariseaid. Yr archoffeiriaid (yn ddiau o dan arweiniad Caiaphas, xi. 50), sydd yma yn barod i roddi terfyn nid yn unig ar fywyd yr Iesu ond hefyd ar eiddo Lazarus. Yr oedd y cyntaf yn peryglu eu swydd a'u dylanwad, tra yr oedd yr ail yn brawf digonol fod yr adgyfodiad, yr hwn a wadent, yn ffaith. Nid oes gennym unrhyw le i gredu fod y Sanhedrin wedi condemnio Lazarus yn ffurfiol.

11. Y mae y berfau yn yr amser amherffaith, a golygant fod y prif swyddogion yn sylwi ar y gwrthgiliad graddol hwn. Gwyddai'r archoffeiriaid yn dda ddigon na fyddai ganddynt hwy na'r Sanhedrim fawr o ddylanwad arnynt mor gynted ag y deuent i gyffyrddiad â'r Iesu. Credu yn yr Iesu fel y Messiah addawedig yn ddiau a olygir. Dyna'r unig beth yr oedd yr archoffeiriaid yn awr yn ei ofni. (Gwel xi. 47, 48).

Yr Orymdaith i Jerusalem.—Adnodau 12—19.

12. "*Trannoeth*," y dydd ar ol y wledd. Yn S. Mathew a S. Marc gosodir y wledd hon yn Bethania ar ol yr orymdaith i Jerusalem, ond y mae yna arwyddion amlwg nad oedd yr Efengylwyr hynny yn amcanu croniclo digwyddiadau yn eu trefn amseryddol. Y mae yr Efengylwr hwn o'r ochr arall yn ofalus i wneud hynny.

13 A gymmerasant gangau o'r palmwydd, ac a aethant allan i gyfarfod âg ef, ac a lefasant, Hosanna: Bendigedig *yw* Brenhin Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

14 A'r Iesu wedi cael asynyn, a eisteddodd arno; megis y mae yn ysgrifenedig,

15 Nac ofna, ferch Sion: wele, y mae dy Frenhin yn dyfod, yn eistedd ar ebol asyn.

"*Tyrfa fawr . . . . . pan glywsant,*" &c. Nid tyrfa o'r Iddewon a olygir yma ond pobl o Galilea. Mae'n debyg eu bod wedi clywed hanes yr Iesu gan yr Iddewon hynny a ddaethant i Bethania (gwel adn. 9).

13. "*Ac a gymerasant gangau o'r palmwydd.*" Ceir y fannod yn y gwreiddiol o flaen pob un o'r geiriau hyn, ond y mae'n anhawdd cyfleu'r syniad yn Gymraeg. Golygir eu bod wedi torri cangau o'r palmwydd a dyfent ar ochr y ffordd rhwng Jerusalem a Bethania. Yn I. Macc. xiii. 51, ceir hanes am y bobl yn dathlu dyfodiad Simon i Jerusalem ymron yn yr un modd.

"*Hosanna: Bendigedig yw Brenin Israel yr hwn,*" &c. Dyfynnir y geiriau hyn o Salm cxviii. 25. 26, a thybir fod y Salm wedi ei chyfansoddi ar gyfer cysegriad yr ail deml, tra y cred ereill ei bod wedi ei hysgrifenu ar gyfer gŵyl y Pebyll ar ol dychweliad y genedl o gaethiwed Babilon. Cenid y Salm yn flynyddol yn ngŵyl y Pebyll a gŵyl y Pasg, ac yr oedd y geiriau ar gof y tyrfaoedd hyn. Ystyr y gair "Hosanna' ydyw "Atolwg, Arglwydd, achub yn awr," ac felly y cyfieithir hwy gan y LXX yn y Salm. Y mae y ffaith fod yr awdwr hwn yn defnyddio'r gair gwreiddiol yn brawf amlwg ei fod yn gyfarwydd â'r iaith Hebraeg. Dywedir y ddylid gwneud ychydig o gyfnewidiad yn lleoliad y geiriau, "Bendigedig yw brenin Israel," a darllen, "Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd, efe yw brenin Israel." Yn unol â rhagddywediad yr Archoffeiriad, cyfarchodd y bobl hyn yr Iesu fel Messiah addawedig eu cenedl.

14. "*A'r Iesu wedi cael asynyn a eisteddodd arno.*" Golyga'r gair a gyfieithir yma "asynyn" ebol oedd heb adael ei fam a chyfeiria'r Efengylwyr ereill at yr asen a'r ebol. Desgrifia S. Luc ef fel "ebol, ar yr hwn nid eisteddodd neb erioed" (S. Luc xix. 30).

15. "Nac ofna, ferch Sion," &c. Dyfyniad a geir yma

16 Y pethau hyn ni wybu ei ddisgyblion ef ar y cyntaf: eithr pan ogoneddwyd yr Iesu, yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo.

17 Tystiolaethodd gan hynny y dyrfa, yr hon oedd gyd ag ef pan alwodd efe Lazarus o'r bedd, a'i godi ef o feirw.

18 Am hyn y daeth y dyrfa hefyd i gyfarfod âg ef, am glywed o honynt iddo wneuthur yr arwydd hon.

19 Y Phariseaid gan hynny a ddywedasant yn eu plith eu hunain, A welwch chwi nad ydych yn tycio dim? wele, fe aeth y byd ar ei ol ef.

20 ¶ Ac yr oedd rhai Groegiaid yn mhlith y rhai a ddaethent i fynu i addoli ar yr wyl:

---

o Zech. ix. 9, ond nid yw yr Efengylwr yn dyfynnu yn llythyrennol. Y mae y synwyr yr un, ond nid y geiriau. Yn Zech. iv. 9, yr Eglwys Iddewig ydyw Merch Sïon, a chymhwysir y geiriau hyn gan yr awdwr. Yr "asyn" oedd anifail cenedlaethol gwlad Canaan, ac nid oedd yn unrhyw ddiraddiad i frenin eistedd arno.

16. Yr oedd hyd yn oed y disgyblion yn bur anianol o ran eu meddyliau hyd nes y bu iddynt dderbyn dawn yr Yspryd Glân ar ddydd y Pentecost. Y pryd hwnnw eglurwyd iddynt yr oll a fuasai dywyll a dyrys o'r blaen. Yn xiv. 26, addawodd yr Iesu y byddai i'r Ysbryd ddwyn ar gof iddynt yr holl bethau a ddywedodd Efe.

17. Gwelwn oddiwrth yr adnod hon fod tyrfa hefyd wedi dilyn yr Iesu o Bethania yn ogystal a'r dyrfa a ddaeth i'w gyfarfod o Jerusalem. Yr oedd tyrfa Bethania wedi gweled yr arwydd a wnaethai Efe, a phrysurasant i hysbysu y rhai a ddaethant o Jerusalem am y rhyfeddod.

18. Dygodd y wyrth hon (o gyfodi Lazarus) yr Iesu i fwy o gyhoeddusrwydd na'r un o'i wyrthiau eraill, ac y mae yr awdwr hwn yn briodol iawn yn rhoddi iddi y fath le blaenllaw yn ei Efengyl.

19. Am na cheir sôn am y Phariseaid yn adn. 10, y mae rhai esbonwyr yn credu'n gryf mai cyfeillion i'r Iesu oedd y Phariseaid, at ba rai y cyfeirir yma. Credwn fod yr iaith a ddefnyddiant yn ddigon i brofi mai gelynion yr Iesu oeddynt. Buasai Ei gyfeillion yn falch o weled ei boblogrwydd. Dylid cyfieithu nid "A welwch chwi," &c., ond "Gwelwch, nid ydych," &c.

YR IESU YN YMDDIDDAN A'R GROEGIAID—ADNODAU 20—36.

20. Y mae dau air gwahanol yn y Testament Newydd yn

21 Y rhai hyn gan hynny a ddaethant at Phylip, yr hwn oedd o Bethsaida yn Galilea, ac a ddymunasant arno, gan ddywedyd, Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu.
22 Phylip a ddaeth, ac a ddywedodd i Andreas; a thrachefn Andreas a Phylip a ddywedasant i'r Iesu.
23 ¶ A'r Iesu a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn.

---

cael eu cyfeithu "Groegiaid." Dynoda'r un a geir yma y Cenhedloedd, tra nad yw'r llall ond enw a roddwyd i Iddewon y gwasgariad am eu bod yn siarad yr iaith Roeg. Tybir mai rhai o "broselytiaid y porth" oedd y Groegiaid hyn, a'u bod wedi dyfod i fyny i Jerusalem ar gyfer yr ŵyl, megis y daeth yr eunuch o Ethiopia, y cyfeirir ato yn Actau viii. 27. Yn y digwyddiad hwn cawn fath o brophwydoliaeth am yr hyn oedd i ddigwydd yn hanes yr Eglwys Gristionogol. Yr oedd yr Iddewon wedi gwrthod iachawdwriaeth yr Arglwydd, ond yr oedd y Cenhedloedd yn barod i'w dderbyn yn llawen. Ni cheir unrhyw gyfeiriad at y digwyddiad ond gan yr Efengylwr hwn yn unig.

21. Tybia rhai mai enw Groegaidd S. Phylip oedd yr achos paham y daethant ato ef yn hytrach nag at y disgyblion ereill. Nid yw yn amhosibl ychwaith fod rhai o honynt yn gwybod mai brodor o Bethsaida ydoedd, ac yn ei adnabod.

"*Syr.*" Yr oedd y ffaith ei fod yn ddilynydd o ŵr mor enwog yn taflu rhyw gymaint o urddas hyd yn oed ar y disgybl.

"*Ni a ewyllysiem weled yr Iesu.*" Sylwer nad yw y Groegiaid hyn yn cyfeirio ato fel y "Crist." Er eu bod yn cyfranogi o rai o freintiau crefyddol yr Iddewon, nid oeddent hwy yn disgwyl ond "gwaredwr y byd."

22. Nid oedd S. Phylip yn foddlon i ddwyn y Groegiaid at yr Iesu o hono ei hun, y mae yn chwilio am rywun mwy cyfarwydd â dwyn pobl ato ef (Gwei i. 41; vi. 8—9). S. Andreas sydd yma eto yn cymeryd y lle blaenaf, ond y mae S. Phylip hefyd yn ei ddilyn at yr Iesu. Yr oedd yr olaf yn graddol fagu dewrder.

23. "*A'r Iesu a attebodd iddynt,*" *&c.* Cred rhai mai wrth y disgyblion y llefarodd yr Iesu y geiriau sydd yn dilyn, ond y mae yn anhawdd credu Ei fod wedi gwrthod cais pobl oedd mor gydwybodol â'r Groegiaid hyn. Y mae ereill yn meddwl mai â'r Groegiaid yn unig yr ymddiddanodd yr Iesu, ond nis gallwn gredu i'r Iesu, yr hwn oedd wedi cyfeirio at Ei hun fel un oedd yn barod i roddi bywyd tragwyddol

24 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig; eithr os bydd efe marw, efe a dwg lawer.

25 Yr hwn sydd yn caru ei einioes, a'i cyll hi; a'r hwn sydd yn casâu ei einioes yn y byd hwn, a'i ceidw hi i fywyd tragywyddol.

---

i bob dyn, wedi rhoddi atebiad o'r fath yma i'r Groegiaid yn unig. Gwell ydyw credu fod y Groegiaid a'r disgyblion yn bresenol; gwyddom fod dau o honynt yno (adn. 22).

"*Daeth yr awr*," &c. Yr awr am ba un yr oedd Efe wedi son cynmaint,—cyflawnder yr amser iddo gael Ei ddraddodi i'ddwylaw pechaduriaid. Trwy ei "Grog a'i ddioddefaint a'i werthfawr angeu" yr oedd yr Iesu, Mab y Dyn, i gael Eiogoneddu.

24. "*Oni syrth y gronyn gwenith*," &c. Pysgotwyr Môr Galilea a'r Groegiaid oedd yn gwrando arno, ac am hynny nid yw'r Iesu yn tynnu ei gymhariaeth, megys y gwnai yn fynych yn Jerusalem, oddiwrth arferion a defodau yr Iddew, ac nid yw yn defnyddio ychwaith hanesion yr Hen Dest. Cyfeiria yn hytrach at ddigwyddiad cyffredin yn natur, digwyddiad oedd yn gyfarwydd i'r mwyaf anllythyrennog o honynt. Y mae'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, ond nid yw marwolaeth ond dôr i fywyd uwch ac ardderchocach. Y mae'n un o ddeddfau anghyfnewidiol natur mai o farwolaeth y tardd bywyd, ac yr oedd y ddeddf yn cael ei gwirio mewn ystyr uwch, meddai'r Iesu, yn Ei hanes Ef. Nis gallai Ei deyrnas Ef gynyddu heb yn gyntaf i'w Brenin a'i Phen gael Ei roddi i farwolaeth.

25. Yma y mae ein Harglwydd yn egluro'r egwyddor gyffredinol, a ddysgodd yn adnod 24, yn ei pherthynas â'r bywyd dynol, ond y mae hyn o wahaniaeth rhwng y gymhariaeth ar eglurhad. Y mae'r gronyn gwenith yn marw i fyw yn ol ei ddymuniad ei hun. Desgrifir y dyn yma fel yn dewis marwolaeth neu fywyd, ac y mae yn cydfyned â'r lle mawr a rydd yr Iesu i'r ewyllys ddynol mewn mannau ereill (Cym. S. Math. x. 38, &c., a S. Luc xvii. 33).

"*Yr hwn sydd yn caru ei einioes . . . . a'r hwn sydd yn casau ei einioes*," &c. Y mae i'r gair a gyfieithir yma einioes ddau ystyr yn y Test. Newydd. (1) Enaid (Gwel adn. 27). (2) Bywyd neu einioes. Rhaid mai yr ail ystyr sydd i'r gair yn y fan hon, oblegid y mae yn amhosibl ddeall yn mha ystyr y siaradai'r Iesu am ddyn yn enill "bywyd tragywyddol" trwy golli ei "enaid" ei hun. Y mae yr "enaid"

26 Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi: a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd: ac os gwasanaetha neb fi, y Tad a'i hanrhŷdedda ef.

---

dynol yn anfarwol yn ol dysgeidiaeth y Beibl; am hynny nis gellir ei golli. Wrth ei "einioes" ei hun y golygir y bywyd daearol presennol gyda'i holl wŷniau a'i chwantau. Rhaid i'r rhai hyn oll farw, os ydyw'r bywyd arall, y bywyd tragywyddol i gryfhau. A rhaid iddynt farw trwy i'r ewyllys ddynol lwyr-ymwrthod â hwy,—"a'r hwn sydd yn casau ei einioes yn y byd hwn." Sylwer hefyd mai nid yr un gair a ddefnyddir am y "bywyd" tragywyddol ac am yr einioes ddynol. Y mae cyferbyniad hefyd rhwng y "byd hwn" a "theyrnas nefoedd."

26. "*Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi.*" Cyfeiria'r gair a gyfieithir yma "gwasanaetha" at wasanaeth gwr rhydd, nid eiddo caethwas. Dylid pwyleisio ar y rhagenw "fi" yn y ddwy frawddeg. Y mae "gwasanaethu" Crist yn golygu "dilyn" Crist. Dyna ydyw bywyd crefyddol y Cristion i fod, efelychiad parhaus o fywyd ei Arglwydd. Gadawodd yr Iesu i ni esiampl o hunan-ymwadiad, o "gasau Ei einioes Ei Hun yn y byd hwn," ac yr ydym ninnau i "ddilyn Ei ôl Ef." Y mae y geiriau yn ffurfio atebiad i'r Groegiaid. Yr oeddent hwy am "weled" yr Iesu; dywed Ef nad oedd yn ddigon iddynt Ei weled, yr oedd yn rhaid Ei ddilyn. Ffynnai caeth-wasanaeth yn yr holl wledydd oedd wedi dyfod o dan ddylanwad y Groegiaid, ac yr oedd pob Groegwr parchus yn cwbl gredu nas gellid byw y bywyd uchaf heb fwynhau rhyddid, a themlent ei bod yn ddyledswydd ar bob dyn a'i meddai ddangos ei fod mewn meddiant o hono. Y mae'r egwyddor a a ddysga'r Iesu yma yn hollol groes i hynny. Gogoniant y bywyd Cristionogol ydyw gwasanaeth, nid rhyddid, ufuddod tawel a dinod yn hytrach nag anibyniaeth ymffrostgar.

"*A lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd.* Yma eto defnyddir yr un gair ag a geir yn yr adnod flaenorol, "gweinidog" nid "caethwas." Wrth y "lle" y golygir "teyrnas nefoedd." Sylwer fod yr Iesu yn son am dano Ei Hun yn yr amser presennol ond am Ei weinidog yn yr amser dyfodol. Yr oedd Efe yn "nheyrnas nefoedd" yn awr, ond nid oedd yr hwn oedd i fod yn "weinidog" eto wedi cyrraedd yno. Anogaeth ydyw'r geiriau hyn a'r rhai blaenorol, ac felly nis gall y rhai a anogir fod eto wedi dyfod i feddiant o'r hyn a addewir iddynt.

27 Yr awrhon y cynhyrfwyd fy enaid: a pha beth a ddywedaf? *O* Dad, gwared fi allan o'r awr hon: eithr o herwydd hyn y deuthum i'r awr hon.

"*Y Tad ai hanrhydedda ef.*" Y mae y frawddeg hon yn cyfateb i'r geiriau "a'i ceidw hi i fywyd tragwyddol" yn adnod 25. Mesurir maint yr anrhydedd a dderbynnir gan faint y gwasanaeth a roddir.

27. "*Yr awrhon y cynhyfrwyd fy enaid.*" Y mae y fferf yn yr amser perffaith; yr oedd y cynhyrfiad wedi dod, ond yr oedd ei effeithiau yn parhau o hyd. Yr un gair a gyfieithir yma "enaid" ag a ddefnyddir yn adnod 25 am "einioes," a myn llawer mai "bywyd" ydyw y cyfieithiad priodol yma. Credwn fod llawer o sail i'r dybiaeth. Yn yr adnod flaenorol gesyd yr Iesu Ei Hun fel esiampl o "gashau ei fywyd ei hun," ac yma cyfeiria eto at Ei ymdrechion hunan-ymwadol oedd yn awr yn tynnu tua'r terfyn. O'r ochr arall y mae rhesymau cryfion dros gyfieithu "enaid." Yn xi. 33 sonnir am yr Iesu yn "griddfanu yn yr ysbryd" wrth weled rhagrith yr Iddewon, ond yma wrth eu gweled yn paratoi i roddi terfyn ar Ei fywyd yn eu cynddeiriogrwydd maleisus, y mae Ei "enaid" yn cael Ei gynhyrfu. Yr oedd yr Iesu hefyd yn rhagweled yng nghwestiwn y Groegiaid Ei wrthodiad gan y genedl Iddewig a'i dderbyniad gan y Cenhedloedd. Ond cyn y gallai hynny gymeryd lle, yr oedd yn rhaid iddo oddef cael Ei ddirmygu, ei wawdio, a'i ladd. Yr oedd "ing" yr ardd a dioddefiadau'r croeshoeliad eisoes fel cymylau duon yn taflu eu cysgodion drosto. Y mae yr ailegluhad o bosibl yn cydfyned yn well â'r hyn sydd yn dilyn.

"*A pha beth a ddywedaf? O Dad gwared fi allan o'r awr hon.*" Y mae cryn wahaniaeth barn ymhlith esbonwyr ynghylch atal-nodiad y geiriau hyn. Y mae rhai am eu gwneud yn ddau gwestiwn:—Pa beth a ddywedaf? "Ai o Dad," &c.? Yr oedd dau ddylanwad yn gweithredu ar feddwl yr Iesu. (1.) Yr oedd Ei natur ddynol yn dychrynu yn y rhagolwg ar y dioddefaint oedd yn Ei aros. (2.) Yr oedd Ei enaid yn dyheu am gyflawni ewyllys Ei Dad, a dwyn gogoniant iddo, oblegid dyma oedd holl amcan Ei ddyfodiad i'r byd. Rhwng y ddau dirdynnid Ei natur yn anesgrifiadwy. Cred ereill y dylid cadw yr atal-nod gofynol lle y mae. Yna ffurfia'r frawddeg olaf Ei weddi ar Ei Dad am waredigaeth. Y mae rhai yn teimlo ei bod yn anhawdd credu y byddai i'r Iesu byth offrwm i fyny y fath weddi pan

28 *O* Dad, gogonedda dy enw. Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'*i* gogoneddais ac a'*i* gogoneddaf drachefn.

---

y gwyddai ymlaen llaw beth oedd raid iddo fyned drwyddo os am gyflawni ewyllys Ei Dad. Ond os sylwir yn fanwl ar eiriad y frawddeg olaf "O Dad," &c. yn y gwreiddiol, nid yw y cwestiwn yn ymddangos mor anaturiol. Nid gweddio y mae'r Iesu am i'w Dad ei waredu *rhag* y groes, ond am iddo ei ddwyn yn fuddugoliaethus allan o'r ymdrech oedd yn ei aros. Yr oedd yr Iesu wedi dioddef eisoes ac wedi llwyddo yn Ei ddioddefaint. Ond yn yr "ing" a'r croeshoeliad yr oedd Ei hunan-ymwadiad i gyrraedd ei uchaf bwynt, ac megis y gweddiodd ar Ei Dad pan riddfanodd yn yr ysbryd (xi. 33) wrth fedd Lazarus, felly yma y mae yn gweddio ar Ei Dad pan gynhyrfwyd Ei enaid. Credwn fod y weddi a'r ateb yn debyg yr un peth ar y ddau achlysur.

"*Eithr oherwydd hyn y daethum i'r awr hon.*" Cred y rhai sydd yn derbyn yr eglurhad cyntaf ar y frawddeg flaenorol mai oherwydd yr "angeu a'r dioddefaint" a olygir, a thybiant y gwelwn yr Iesu, a ymgymerodd yn y tragywyddoldeb draw a chyflawni ewyllys Ei Dad, yn awr wedi concro Ei holl wendidau. Os yr ail eglurhad a nodwyd uchod a dderbynnir, rhaid nad er mwyn iddo gael ei ddwyn yn fuddugoliaethus trwyddynt oll a olygir. Rhaid gadael i'r darllennydd ddewis ei eglurhad.

28. Sylwer mai nid "Gogonedda dy hun" a ddywed yr Iesu, ond "gogonedda dy Enw." Yr oedd y Tad yn dragywyddol ogoneddus, ac yr oedd yn amhosibl i neb na dim ychwanegu at Ei ogoniant. Ond yr oedd yn ddigon posibl i ddynoliaeth i ddyfod i ymwybyddiaeth ddyfnach a llwyrach o'i ogoniant. Yn Ei Fab yr oedd Efe wedi arddangos Ei ogoniant mewn ffurf y gallai plant dynion ei ddeall, a gweddi'r Iesu ar y Tad yw ar iddynt ddyfod i adnabyddiaeth briodol o'r gogoniant datguddiedig hwnnw.

"*Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'i gogoneddais,*" &c. Y mae'n amlwg fod yr awdwr am i ni gredu fod y llef yn glywadwy ac yn ddealladwy; nid rhyw arwydd ydoedd (megis "taran") a eglurwyd gan edmygwyr yr Iesu i fod yn llef neu gefnogaeth. Ond y mae y gwahaniaeth barn a fodolai ymhlith y dyrfa yn ddigon i brofi nas medrai pawb ddeall iaith y nefoedd. Rhaid wrth gyflwr ysbrydol neilltuol cyn y gellir gwneud hynny. Nid oes son fod neb wedi deall y llef a ddisgynnodd adeg y Bedydd ond Ioan Fedyddiwr, ac

29 Y dyrfa gan hynny, yr hon oedd yn sefyll ac yn clywed, a ddywedodd mai taran oedd: eraill a ddywedasant, Angel a lefarodd wrtho.

30 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Nid o'm hachos i y bu y llef hon, ond o'ch achos chwi.

31 Yn awr y mae barn y byd hwn: yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn.

---

ni ddeallodd neb air o'r hyn a ddywedodd yr Iesu wrth S. Paul ar ei ffordd i Damascus ond S. Paul ei hun. (Cymh. S. Marc i. 11; Actau ix. 4, 7, xxii. 9). Y mae yr atebiad a roddir i'r Iesu yn brawf Ei fod o hyd yn rhoddi ufudd-dod perffaith i ewyllys Ei Dad, a bod y cyd-gordiad pennaf yn bodoli rhwng Ei weithrediadau daearol a threfn y nefoedd. Y mae'n profi peth arall hefyd. Nid yn angen'r Iesu yn unig yr oedd enw'r Tad i gael ei ogoneddu, yr oedd wedi cael ei ogoneddu eisoes yn yr hunan-ymwadiad cyson a arddangosasai'r Iesu. Yr oedd Ei fywyd a'i farwolaeth yn angenrheidiol i gario allan drefn Duw.

29. Rhennir y rhai oedd yn gwrando i dri dosbarth. (1) Yr Iesu a'i ddisgyblion y rhai a glywsant y llef ac a ddeallasant y geiriau. (2) Rhai o'r dyrfa na chlywsant ddim ond swn ac a feddyliasant mai taran ydoedd. (3) Ereill o'r dyrfa y rhai a dybiasant mai llais a glywsent ond llais angel ac nid llais Duw. Achosid y gwahaniaeth hwn yn ddiau gan gyflwr ysbrydol y gwrandawyr. (Gwel ar adn. 28). Fel yna mae hi yn nhrefn Duw yn gyffredinol; y mae Efe yn galw ar bawb, ond nid yw pawb yn clywed y llais nac yn deall yr alwad. Er hynny y mae rhai yn myned i eithafbwynt yn y cyfeiriad hwn ac yn camgymeryd llais y bobl am lais Duw, tra y mae ereill drachefn yn myned i'r eithafbwynt gyferbyniol ac yn barod i wadu na chlywir byth lais Duw.

30. Yma y mae yr Iesu yn egluro mai nid swn a glywsent ond llais, ond yr oedd hyd yn oed y rhai oedd wedi cydnabod mai llais ydoedd wedi gwneyd camgymeriad. Credent hwy mai llais ydoedd i wrando arno ond nid i ufuddhau iddo. Nid oeddent wedi dyfod i ymwybyddiaeth fod y llais yn alwad arnynt hwy i ddilyn yr Hwn a ogoneddodd y Tad. Nid oedd dim angen am eiriau er cyfleu meddwl y Tad i'r Mab (xi. 41), ond yr oedd geiriau dealladwy yn angenrheidiol er argyhoeddi dynion.

31. "*Yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn.*" Yn ol barn y Gnosticiaid hanner-Cristionogol, rhyw is-dduw, yr hwn

32 A minnau, os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb attaf fy hun.

---

a greodd y byd ar gyfer ei amcanion isel-wael ei hun, oedd tywysog y byd hwn, ac yr oedd goruchafiaeth "ysbryd" ar "fater" ym marwolaeth yr Iesu yn golygu dadymchwelyd ei deyrnas. Yn ysgrifeniadau y Rabbiniaid Iddewig o'r ochr arall cawn fod yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio'n fynych am dad y drwg,—y diafol. Edrychent hwy arno fel y tywysog oedd yn llywodraethu gwlad y cwn, sef y byd cenhedlig. Os efe oedd yn llywodraethu'r cenhedloedd rhaid felly ei fod yn allu gwrthwynebol i Jehovah yr hwn oedd llywodraethwr y byd Iddewig. Credwn fod yr Iesu'n ddefnyddio'r gred Iddewig hon er cyrraedd Ei amcanion Ei Hun. Yr oedd y Cenhedloedd hyn wedi dyfod i'w geisio tra yr oedd Iddewon gor-grefyddol gwlad Canaan yn Ei wrthod, ac y mae am eu hysbysu fod Ei deyrnas Ef i ymestyn yn fwy o lawer yn y byd Cenhedlig. Y mae canolfur y gwahaniaeth wedi ei ddadymchwelyd, ac y mae y rhai yr edrychent hwy arnynt fel deiliaid teyrnas y tywyllwch i ddyfod yn ddeiliaid teyrnas nefoedd. Nid oes mwyach dywysog y byd hwn oherwydd y mae wedi ei "fwrw allan."

32. "*A minnau, os dyrchefir fi,*" *&c.* Dylid rhoddi y pwyslais ar y rhagenw "minnau." Defnyddir ef gan yr Iesu mewn cyferbyniad i "dywysog y byd hwn" adn. 31. Beth a olygir wrth "ddyrchafu oddiar y ddaear?" Cred rhai mai at y Croeshoeliad yn unig y cyfeirir (Gwel iii. 14), tra y myn ereill mai at yr Esgyniad y cyfeirir yma. Ond nid oedd y Croeshoeliad a'r Esgyniad ond rhannau o gyfangorph mawr gogoneddiad yr Iesu, ac y mae yr hyn a ddywedir yn wir am bob un o'r ddau. Yr oedd yr Iesu trwy gael ei ddyrchafu i'r groes i dynnu pawb ato Ei Hun. Yr oedd pob gwir gredadyn i gael ei groeshoelio fel y croeshoeliwyd Crist os am gael ei gadw (adn. 25, 26). Ac yr oedd pob Cristion hefyd i gael ei ddyrchafu gydag Ef i ogoniant yn nheyrnas nefoedd. Defnyddir dau air am "dynnu" yn y Test. Newydd, un yn golygu "tynnu" trwy orfodaeth, a'r llall yn golygu tynnu trwy ddylanwad cariad. Yr olaf a ddefnyddir yma. Nis gall y credadyn yn ei nerth ei hun sicrhau ei gadwedigaeth ond gall trwy beidio gwrando llais y cariad sicrhau ei golledigaeth.

33 (*A* hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo o ba angau y byddai farw.)

34 Y dyrfa a attebodd iddo, Ni a glywsom o'r ddeddf, fod Crist yn aros yn dragywyddol: a pha wedd yr wyt ti yn dywedyd, fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn? pwy ydyw hwnnw Mab y dyn?

35 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Etto ychydig ennyd y mae y goleuni gyd â chwi. Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni, fel na ddalio y tywyllwch chwi: a'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr i ba le y mae yn myned.

---

33. Ceir yma esboniad yr awdwr ar eiriau'r Iesu yn yr adnod flaenorol. Cyfeirio yr oedd yr Iesu yn bennaf, yn Ei farn Ef, at Ei angeu, ond yr oedd yr angeu ynddo ei hun yn sicrhau'r esgyniad i ogoniant. Nid o "ba angeu" ddylid darllen os ydym am gyfieithu'n llythyrennol, ond "o ba fath angeu." Y mae'r Iesu yn rhagfynegi nid yn unig y byddai iddo gael Ei draddodi i farwolaeth, ond hefyd pa fodd y rhoddid Ef i farwolaeth ar ol hynny.

34. Yma eto synnir ni gan y wybodaeth fanwl o'r Ysgrythyr a fodolai hyd yn oed y "dyrfa" hon.

"*Ni a glywsom o'r ddeddf fod Crist yn aros yn dragywydd.*" Nid pum' llyfr Moses a olygir wrth y "ddeddf" yma, ond Ysgrythyrau'r Hen Destament yn gyffredinol. (Cymh. x. 34). Cyfeirient yn ddiameu at Salm cx. 4; Esaiah ix. 7, a mannau ereill, lle y rhagddywedir na bydd diwedd ar lywodraeth y Messiah addawedig. Yr oeddent o ganlyniad yn methu cysoni'r prophwydoliaethau â'r hyn a ddywedai yr Iesu fod yn rhaid dyrchafu Mab y Dyn oddiar y ddaear. Yr oeddynt yn deall y prophwydoliaethau fel y tybient hwy, ac nid oeddent wedi cam-ddeall geiriau'r Iesu. Yn ol eu barn hwy, yr oedd rhyw anghysondeb rhyfedd rhyngddynt. Sylwer nad yw y teitl Mab y Dyn yn peri unrhyw anhawster iddynt. Yr oeddent yn deall fod yr Iesu trwy gymeryd y teitl hwnnw yn gosod Ei hun allan fel y Messiah. Ystyr eu cwestiwn a geir ar ddiwedd yr adnod yw, "A oes ynte, ddau Fessiah?"—un yn myned i gael ei roddi i farwolaeth, a'r llall yn myned i deyrnasu'n dragywyddol.

35. Nid yw yr Iesu wedi rhoddi atebiad i ofyniad y dorf. Cynghora hwy i wneyd y goreu o'r cyfleusterau oedd ganddynt. Trwy wneud hynny, deuent i sefyllfa briodol i egluro'r anhawster deallol oedd yn eu blino. Yr oedd eto

36 Tra fyddo gennych oleuni, credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni. Hyn a ddywedodd yr Iesu, ac efe a ymadawodd, ac a ymguddiodd rhagddynt.

37 ¶ Ac er gwneuthur o hono ef gymmaint o arwyddion yn eu gŵydd hwynt, ni chredasant ynddo:

---

ddigon o amser, er nad oedd ond ychydig ennyd, iddynt barotoi eu hunain ar gyfer dyfod i wybodaeth o'r gwirionadd. Dywed yr Iesu "ychydig ennyd" mewn cyferbyniad i'w dywediad hwy am y Messiah yn yr adnod flaenorol, ei fod yn "aros yn dragwyddol." Sylwer hefyd fod yr Iesu yn eu cynghori, nid i aros nac eistedd, ond i "rodio." Y mae gweithio yr un mor anhebgorol mewn crefydd a gweddio. Ond os na rodient tra fyddai y goleuni ganddynt, byddai y tywyllwch yn sier o'u goddiweddyd, ac yna byddai rhodio yn orchwyl perygius.

36. Yr oedd angen iddynt "rodio" tra fyddai "y goleuni" (Ceir y fannod yn y gwreiddiol) ganddynt, ac yr oedd angen iddynt hefyd gredu fod y "goleuni" hwnw yn ddigonol i'w harwain. Trwy wneud hynny, deuent eu hunain i feddiant o'r "goleuni," yr hwn a fyddai yn foddion digonol i'w cynnal pan fyddai y goleuni gwrthrychol wedi eu symud, a'r tywyllwch wedi dod. Cred rhai fod ymadawiad ac ymguddiad yr Iesu yn wyrthiol, ond nid oes fawr o sail dros gredu hynny. Nid oes unrhyw arwydd fod y dyrfa hon yn eithafol o elyniaethus, ond mewn ystyr ysbrydol yr oeddent mewn cyflwr hynod amharod i dderbyn y goleuni a gynygiai'r Iesu iddynt. Am hynny, y mae yn eu gadael ar ol rhoddi iddynt y cynghorion a geir yn adn. 25 a'r rhan flaenaf o'r adnod hon. Yr oeddent hwy fel y rhelyw o'u cydgenedl, eisiau dod yn ysgolheigion heb fyned i'r ysgol!

Barn yr Efengylwr am Weinidogaeth yr Iesu.—Adnodau 37—43.

37. "*Ac er gwneuthur o hono gymaint o arwyddion yn eu gwydd hwynt.* Credwn fod yr Efengylwr yma yn cyfeirio at holl ddigwyddiadau bywyd cyhoeddus yr Iesu. Nid yw efe ei hun yn croniclo hanes ond ychydig o wyrthiau, ond y mae yna arwyddion amlwg ei fod yn gwybod am lawer rhagor. Fel y gwelir oddiwrth vii. 36 a xi. 47, yr oedd pob dosbarth ymhlith yr Iuddewon yn gorfod cyfaddef fod yr Iesu wedi cyflawni gwyrthiau. Yr oedd llawer o honynt wedi bod yn llygad-dystion o'r rhyfeddodau a wnaethai Efe (xi. 45, &c.),

38 Fel y cyflawnid ymadrodd Esaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe, Arglwydd, pwy a grdodd i'n hymadrodd ni? ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?

39 Am hynny ni allent gredu, oblegid dywedyd o Esaias drachefn,

40 Efe a ddallodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon; fel na welent â'u llygaid, a deall â'u calon, ac ymchwelyd o honynt, ac i mi eu hiachâu hwynt.

"*Ni chredasant ynddo.*" Y mae ffydd, felly, yn dibynnu yn y diwedd ar yr hyn a ddymuna'r ewyllys, ac nid ar yr hyn a wêl y llygad. Tybir, oddiwrth adn. 42, fod llawer o honynt yn credu mewn un ystyr, ond nid oedd eu ffydd yn ddigon cref i ddibynnu arni mewn bywyd. Yr oedd ofn cael eu "bwrw o'r synagog" yn gryfach.

38. "*Fel y cyflawnid ymadrodd Esaiah y prophwyd.*" Ni orfodwyd yr Iddewon i beidio credu yn Iesu Grist oherwydd fod y prophwyd wedi dweud mai dyna fyddai eu hanes. Yr hyn a roddir yma ydyw y rheswm oedd yn cyfrif am eu hanghrediniaeth. Nid yw y ffaith fod Duw wedi trefnu ffordd i achub pechadur yn rheswm paham y dylai dynoliaeth ymroddi i bechu. Nid yw rhagwybodaeth Duw yn gwneud i ffwrdd â chyfrifoldeb dyn.

"*Arglwydd, pwy a gredodd,*" &c. Am unwaith y mae'r awdwr yn dilyn y Cyfieithiad Diwygiedig yn bur agos. (Cymh. adn. 13). Nid diffyg ym mhregethau y prophwyd Esaiah oedd yn cyfrif am aflwyddiant ei weinidogaeth, ond diffyg yng nghyflwr ysbrydol ei wrandawyr. Wrth "fraich yr Arglwydd" y golygir gallu yr Arglwydd. Nid oes unrhyw reswm dros gredu fod y geiriau hyn yn y gwreiddiol (h.y., ym mhrophwydoliaeth Esaiah) yn cyfeirio at y Messiah, ond y mae yr Efengylwr yma yn eu cymhwyso ato Ef.

39. "*Am hynny ni allent gredu,*" &c. Yn adn. 37 dywedir na fynnent gredu er gweled o honynt "gymaint o arwyddion." Yr oedd meddu ffydd wedi dyfod yn amhosibl iddynt hwy mewn ystyr foesol. Os gwrthodir "gras" yn barhaus, yna yn raddol collir y gallu i'w dderbyn. Y mae hyn yn ddeddf nid yn unig yn y byd moesol ond hefyd yn y byd naturiol. Os camddefnyddir aelod o'r corph dynol, y mae yn graddol golli ei nerth. (Cymh. Ex. ix. 12).

40. Cyfieithiad rhydd o'r rhan hon o brophwydoliaeth Esaiah a geir yma. Nid yw yr awdwr yn dilyn yr Hebraeg gwreiddiol yn fanwl, nac ychwaith gyfieithiad y LXX. Ond

41 Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, pan welodd ei ogoniant ef, ac y llefarodd am dano ef.

42 ¶ Er hynny llawer o'r pennaethiaid hefyd a gredasant ynddo; ond oblegid y Phariseaid ni chyffesasant *ef*, rhag eu bwrw allan o'r synagog:

43 Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw.

---

er nad yw yn manylu gyda'r geiriau, eto y mae'n cadw'r egwyddor. Nid oedd yr egwyddor hon yn newydd, yr oedd cyn hyned a'r byd moesol ei hunan. Yr oedd yr un peth yn wir yn nyddiau'r Arglwydd Iesu ar y ddaear ag oedd wedi bod yn wir yn nyddiau'r prophwyd. Yn S. Math. xiii. 14. 15, rhydd yr Iesu y rheswm hwn paham yr oedd yn llefaru mewn damhegion.

41. Dywedir y dylid cyfieithu yma nid "pan welodd ei ogoniant ef" ond "oherwydd iddo weled" &c. Y mae un llythyren yn y gwreiddiol yn ddigon i wneud y gwahaniaeth. Pan welodd y prophwyd ogoniant Duw canfyddodd nad oedd y gagendor oedd rhwng Duwdod a dynoliaeth mor anhawdd ei groesi ag y tybid ei fod. Sylwer hefyd mai gogoniant y Mab a welodd y prophwyd, yr unig ogoniant y medrai plant dynion ei ddeall. (Gwel Esaiah vi. 1—13).

42. Wrth y penaethiaid yma y golygir aelodau y Sanhedrin. "Er hynny," sef er fod Duw wedi trefnu i'r egwyddor a nodwyd yn adn. 38, 40 fod mewn gweithrediad. Yr oedd y penaethiaid hyn yn meddu ffydd, ond nid oeddent eto wedi ymgyrraedd at ffydd gadwedigol (Gwel ar adn. 37). Er gwaethaf ymdrechion yr archoffeiriaid yr oedd gan y Phariseaid ddylanwad mawr o hyd mewn cylchoedd crefyddol. Hwy oedd "colofnau yr achos" yn yr Eglwys Iddewig. Yr oedd y penaethiaid hyn felly yn euog o gyflawni trosedd ofnadwy,—pechu yn wyneb goleuni. Y mae yn anhawdd gennym gredu fod yr awdwr yn meddwl am Joseph o Arimathea a Nicodemus,

43. Yr un gair a gyfieithir yma "gogoniant" ag a geir yn adn. 41. Y mae y cyfieithiad Cymraeg o hynny yn well na'r un Saesneg "praise." Dywedir hefyd nad yw yr ymadrodd "yn fwy nag" yn ddigon cryf ac y dylid cyfieithu "yn hytrach na." Nid oeddent yn caru gogoniant Duw o gwbl. Er eu bod yn cwbl-gredu mai Efe oedd y Messiah, eto gadawsant i'w elynion arllwys eu holl gynddaredd ar Ei ben heb symud llaw na throed i'w achub.

44 ¶ A'r Iesu a lefodd ac a ddywedodd, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i.

45 A'r hwn sydd yn fy ngweled i, sydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i.

46 Mi a ddeuthum yn oleuni i'r byd, fel *y bo i* bob un a'r sydd yn credu ynof fi, nad arhoso yn y tywyllwch.

Barn yr Iesu ei Hun am Ei Waith.—Adnodau 45—50.

44. "*A'r Iesu a lefodd ac a ddywedodd.*" Yn adnodau 37—43 y mae yr Efengylwr wedi rhoddi i ni fath o grynhodeb o effeithiau gweinidogaeth yr Iesu. Yma y mae yn dyfynnu tystiolaeth yr Iesu Ei Hun. Ni ddywedir pa bryd y bu i'r Iesu lefaru fel hyn. Os ydym i ddeall fod gweinidogaeth yr Iesu yn terfynu gydag adn. 36, yna rhaid Ei fod wedi rhoddi'r anerchiad hwn ryw adeg cyn hynny. Tybia rhai mai crynhodeb o ddywediadau'r Iesu ar wahanol adegau a geir yma, ac mai yr Efengylwr sydd yn gyfrifol am eu ffurf breseunol. Y mae yn anhawdd credu hynny, oherwydd fod yr awdwr, pan rydd ddefnyddiau o'i wneuthuriad ei hun i mewn, yn dangos hynny megys yn yr adran flaenorol. Yr un gair ddefnyddir yma "llefain" ag a geir yn vii. 28, 37. Golyga ddyrchafu'r llais nes tynnu sylw'r cyhoedd. Mae'n edrych yn debyg fel pe buasai'r Iesu wedi llefaru'r geiriau hyn yn nghyntedd y deml. Pwysleisia eto ar y ffaith nad oedd Ef ond anfonedig y Tad, a bod credu ynddo Ef yn golygu credu yn y Tad hefyd. (Cymh. v. 36 ac viii. 19). Yr oedd yn amhosibl eto i'r ddynoliaeth ddeall ystyr ffydd yn yr Iesu Ei Hun.

45. Yn yr adnod flaenorol dengys yr Iesu Ei fod Ef fel yr anfonedig yn ddarostyngedig i'r Hwn a'i hanfonodd, ond nid oedd yn ddarostyngedig ond o ran Ei swydd. O ran Ei natur a'i gymeriad a'i hanfod yr oedd Efe yn ogyfuwch â'r Tad. Yr unig wahaniaeth a fodolai oedd Ei fod Ef yn rhinwedd Ei Ymgnawdoliad yn ganfyddadwy gan blant dynion. Yr oedd y Tad ymhob ystyr yn anweledig. Ond ni olyga'r gair a gyfieithir yma "gweled" ganfod â'r llygad, ond gweled â'r meddwl. Trwy barhau i fyfyrio ar Berson y Mab, y mae y credadyn yn raddol yn dyfod i adnabyddiaeth o'r Tad.

46. Y mae y syniad fod y Mab yn ogyfuwch â'r Tad yn gorwedd o dan y gwirionedd yma eto. Dyfod a wnaeth y Mab yn oleuni i'r byd; rhaid felly fod goleuni ynddo Ef cyn

47 Ac os clyw neb fy ngeiriau, ac ni chred, myfi nid wyf yn ei farnu ef: canys ni ddeuthum i farnu y byd, eithr i achub y byd.

48 Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo un yn ei farnu: y gair a leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf.

Ei ddyfodiad i'r byd. Y mae y geiriau "mi a ddaethum" yn bwysleisiol; y Mab a ddaeth "yn oleuni" ac nid neb arall. Yn y rhan olaf o'r adnod y mae'r Iesu yn pwysleisio ar ran dyn yn ngwaith ei gadwedigaeth. Nid oedd yn ddigon fod Duw wedi anfon ei Fab yn oleuni i'r byd, yr oedd yn rhaid i'r byd hefyd dderbyn y goleuni hwnw ac ymfoddloni ar gael ei arwain ganddo. Aros yn y tywyllwch oedd hanes pawb cyn dyfodiad yr Iesu. (Cymh. adn. 35, "Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni.")

47. "*Ac os clyw neb fy ngeiriau.*" Yn yr adnodau blaenorol y mae'r Iesu wedi ymdrechu cyfeirio meddyliau Ei wrandawyr at Ei Berson. Efe oedd yn rhinwedd Ei swydd gyfryngol yn cynrychioli'r Tad, ac Efe hefyd oedd trwy Ei Ymgnawdoliad yn egluro cymeriad y Tad. Yn yr adnod hon y mae yn galw eu sylw nid at Ei Berson ond at Ei ddysgeidiaeth. Y mae'r credadyn yn dechreu trwy feddu ffydd ym Mherson yr Iesu; trwy'r ffydd hon yn y Person y galluogir ef i dderbyn ac i ddeall y ddysgeidiaeth. Wrth y term "geiriau" yma ni olygir ymadroddion llefaredig yn unig, ond yr holl wirioneddau oedd yn sail i weithrediadau daearol yr Iesu. Dywedir y dylid cyfleithu nid "ac ni chred," ond "ni cheidw hwy" (h.y., ei eiriau).

"*Myfi nid wyf yn ei farnu ef.*" Cymh. ix. 39. Ni ddaeth y Mab, pan ymddanghosodd y tro cyntaf, fel Barnwr ond fel Achubydd, ac eto yr oedd Ei ddyfodiad ynddo ei hun yn foddion i sefydlu barn ar y ddaear. Yr oedd sefyllfa foesol yr anghyfiawn o angenrheidrwydd yn cael ei "hegluro" trwy ddyfodiad y Cyfiawn.

48. Nid anhawsterau deallol sydd yn cyfrif am anghrediniaeth y byd, ond anhawsterau moesol. Nid yw dynion yn foddlon i dderbyn yr Iesu oherwydd fod Ei ddilyn Ef yn gofyn cymaint oddi ar eu llaw. Ac os dirmygir ei Berson i ddechreu, yna y mae gwrthod Ei eiriau yn dilyn o angenrheidrwydd.

"*Hwnw a'i barn ef,*" &c. (Gwel ar adn. 47 a ix. 39).

49 Canys myfi ni leferais o honof fy hun: ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn.

50 Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol: am hynny y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, fel y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr wyf yn llefaru.

---

49. "*Canys myfi ni leferais,*" *&c.* Dyma'r rheswm paham y dywed yr Iesu yn yr adnodau blaenorol nad yw Efe yn barnu neb. Y mae deddf cyfiawnder y nefoedd wedi cael ei datguddio drwyddo Ef, ac nid oes angen iddo Ef gymeryd unrhyw ran bersonol yn y gwaith. Wrth y "gorchymyn" y cyfeiria'r Iesu ato yma, golygir yn fwyaf neilltuol y gorchymyn i ddatguddio Duw ym mhob ffordd a gwedd. Gweithred wirfoddol oedd Ymgnawdoliad yr Iesu, ac eto yr oedd y cyfrifoldeb mwyaf yn gysylltiedig â'i chyflawniad. Yn wir, gweithredoedd gwirfoddol sydd yn wastad yn fwyaf effeithiol er creu cyfrifoldeb. Y mae'r gwr rhydd yn fwy difrifol ynghylch cyflawniad ei waith nag ydyw'r caethwas ynghylch ei dasg. Gorfodaeth anianol sydd yn gyrru'r olaf, ond dylanwad moesol sydd yn tynnu'r blaenaf. Dywedir mai nid arall-eiriad yw "llefaru" am "ddweud." Cyfeiria "dweud" at gynwys athrawiaeth, a "llefaru" at y ffurf ym mha un y gosodwyd hi gerbron y byd.

50. O bosibl gwrthodir y datguddiad a nodir gan yr Iesu mewn ufudd-dod i orchymyn ei Dad, ond nid yw hynny yn lleihau dim ar ei ddylanwadau ar y rhai a'i derbyniant. Gall dyn wrthod trefn Duw ond nis gall ei amharu. Y mae'r gwirionedd a ddatguddir yn troi'n fywyd tragywyddol i'r rhai a'i derbyniant, ac y mae ei wrthodiad gan anghredinwyr yn rhwym o ddwyn oddiamgylch eu marwolaeth hwythau. Sylwer fod y ferf "dywedodd" yn yr amser gorphennol,—cyfeirio y mae'r Iesu at y cyngor a gynhaliwyd draw yn nhragwyddoldeb "Cyn llunio'r byd na lledu'r nefoedd wen." Y mae'r Iesu yn berffaith sicr Ei fod wedi cyflawni ewyllys y Tad yn yr oll a wnaeth, ac wedi rhoddi datguddiad cyflawn o hono Ef; o ganlyniad gorwedd y cyfrifoldeb o'i wrthod ar ysgwyddau y rhai a wnant hynny. Datguddiad o'r Tad ydyw, ac y mae'r Mab a anfonwyd i'w gyfleu, wedi cwbl gyflawni Ei waith.

Lampeter: Argraffwyd gan Gwmni y Wasg Eglwysig Gymreig, Cyf.

7507a